Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>16 MEDI 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>16 SEPTEMBER 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg cyhoeddi'r rhaglen hon.

**3** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2019.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2018/19** (Tudalennau 23 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1, 2019/20** (Tudalennau 59 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**7** **FFEDERALEIDDIO YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL MOELFRE** (Tudalennau 69 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**8** **ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**9** **CAIS CROESO MENAI I FOD YN NODDWYR CYMUNEDOL I DDERBYN TEULU O FFOADURIAID O SYRIA** (Tudalennau 93 - 98)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

**10** **CYNLLLUN ADFYWIO ECONOMAIDD GOGLEDD YNYS MÔN** (Tudalennau 99 - 152)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2019/20** (Tudalennau 153 - 180)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**12** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2019/20** (Tudalennau 181 - 194)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**13** **MONITRO CYLLIDEB Y CRT – CHWARTER 1, 2019/20** (Tudalennau 195 - 202)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**14** **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL 2020/21 I 2022/23** (Tudalennau 203 - 236)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**15** **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS 2018/19** (Tudalennau 237 - 248)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**16** **DATGANIAD POLISI RHEOLI RISG** (Tudalennau 249 - 256)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**17** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 257 - 260)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**18** **TAI CYNGOR NEWYDD – DATBLYGU 10 NEU FWY O UNEDAU YN LLAINGOCH, CAERGYBI** (Tudalennau 261 - 266)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 13)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Adfywio (DLl) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Aled Morris Jones, Gwilym O. Jones |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019 fel rhai cywir.**

**4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2017 ar gyfer eu mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2019 fel rhai cywir.**



DRAFT

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o Awst, 2019 i Mawrth 2020 i'w ystyried a nodwyd y newidiadau canlynol –

**Eitem newydd ar gyfer cyfarfod 16 Medi, 2019** –

Eitem 2 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19

**Eitem wedi'i hail drefnu** –

- Eitem 9 – Anableddau Dysgu: Trawsnewid Cyfleoedd Dydd (caniatâd mewn perthynas â'r broses ymgysylltu) o gyfarfod 16 Medi i 28 Hydref, 2019 ac hefyd wedi'i ail eirio i ddarllen – Anableddau Dysgu: Trawsnewid Cyfleoedd Dydd (caniatâd mewn perthynas â'r broses ymgynghori).

**Eitemau ychwanegol i'w trefnu ar y rhaglen waith ar gais y gwasanaethau –**

- Ffoaduriaid Syria
- Tai Cyngor: Datblygiadau o 10 neu fwy o unedau – Llaingoch, Caergybi
- Cwrs Golff Llangefni
- Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn
- Ffurfioli'r Bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Awst, 2019 hyd at fis Mawrth, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. CRYNODEB O GYFRIFON DRAFFT TERFYNOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cynnwys y prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 (Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr drafft, Mantolen ddrafft fel ar 31 Mawrth, 2019 a chrynodeb o'r arian wrth gefn sy'n cael ei ddal gan y Cyngor) ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau ac arwyddo'r cyfrifon drafft wedi ei symud ymlaen o 30 Mehefin i 15 Mehefin ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 a bod yr amserlen yn cael ei chwtogi ymhellach i 31 Mai ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a thu hwnt (gyda'r dyddiadau ar gyfer archwilio'r cyfrifon terfynol yn cael ei symud o 30 i 15 Medi ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 ac i 31 Gorffennaf ar gyfer 2020/21 a thu hwnt i hynny). Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2018/19 wedi eu cwblhau a dechreuodd y gwaith o archwilio'r cyfrifon ar 1 Gorffennaf, 2019. Bydd y Datganiad Cyfrifon drafft llawn ar gyfer 2018/19 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23 Gorffenanf, 2019. Bydd y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor Llawn ym mis Medi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y datganiadau ariannol drafft llawn ar gyfer 2018/19 ar gael ar wefan y Cyngor.

Bu'r Cadeirydd, gan gydnabod y gwaith caled a oedd wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r her o amserlen dynnach ar gyfer cynhyrchu datganiadau ariannol drafft, dynnu sylw at y ffaith bod y stori y tu ôl i'r ffigyrau yn parhau i fod yn un o'r heriau a'r ansicrwydd ariannol parhaus gyda gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol.



DRAFFT

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2018/19.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, sy'n gyfanswm o £1.270m fel y gwelir yn Nhabl 3 yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion.**
- **Nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, 2019.**

## 7. CRONFA'R DEGWM

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynllun drafft ar gyfer gweinyddu Cronfa'r Degwm Ynys Môn.

Bu'r Aelod Portffolio Cyllid grynhoi'r cefndir i sefydlu Cronfa'r Degwm a ffurfiwyd pan ddiddymodd Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 yr Eglwys yng Nghymru a throsglwyddo asedau i Gynghorau Sir. Sefydlwyd y gronfa ym 1922 ond ni ddosbarthwyd yr asedau yn llawn tan 1996. Parhaodd y gronfa i gael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn hyd adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 pan ddaethpwyd â chronfeydd a oedd yn berthnasol i Ynys Môn, Sir Gaernarfon, y rhan fwyaf o Meirionnydd a rhannau o Sir Ddinbych ynghyd o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, cafodd yr asedau a oedd yn cael eu dal gan Gyngor Sir Gwynedd eu dosbarthu i'r tri awdurdod newydd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r materion sydd wedi codi o ran datgymalu Cronfa bresennol Cyngor Gwynedd a gwerth y tri darn o dir sydd wedi cymryd amser sylweddol i'w ddatrys; mae'r materion hynny bellach wedi eu datrys ac mae wedi'i gadarnhau bod modd i'r Gronfa gael ei dosrannu rhwng y tri parti perthnasol sef Ynys Mon, Conwy a Gwynedd er mwyn iddynt allu sefydlu eu cronfeydd unigol eu hunain at y diben elusennol y'i bwriadwyd ar eu cyfer ac fel a ddiffinnir.

Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Cyngor, ar 25 Mai, 2019 wedi derbyn arian parod fel ei gyfran o'r Gronfa gyda gweddill yr asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor gan gynnwysdau ddarn o dir. Bydd angen  i'r Cyngor gymeradwyo cynllun ar gyfer gweinyddu ac ymgeisio ar gyfer y cyllid sydd ar gael. Mae cynllun arfaethedig wedi'i atodi yn Atodiad B o'r adroddiad. Roedd y Gronfa Degwm ar y cyd rhwng Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy yn elusen gofrestredig a bydd angen sefydlu elusen newydd ar gyfer Cronfa'r Degwm Ynys Môn.

Tynnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sylw at y ffaith, er i'r gronfa barhau i gael ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd, y dyfarnwyd grantiau yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynllun drafft fel sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad a dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Cyllid i –**

- **Gwblhau'r trefniadau sy'n angenrheidiol i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac i sefydlu'r corff elusennol.**

- **Gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r cynllun drafft gan y Comisiwn Elusennau neu'r cynghorwyr cyfreithiol er mwyn cwblhau'r broses, ar yr amod nad yw'r newidiadau yn gwrthdaro ag egwyddorion y cynllun drafft. Os bydd unrhyw newid gofynnol yn newid yr egwyddorion a adlewyrchir yn y cynllun drafft, bydd angen cymeradwyaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith cyn i'r newidiadau i'r cynllun gael eu mabwysiadu.**

- **Gofyn i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 geisio cyngor annibynnol ar sut i gael yr elw mwyaf posib ar fuddsoddiadau o'r tir a'r arian sy'n cael eu dal yn y Gronfa.**

**8. RHAGLEN ARFOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â gweithredu'r Rhaglen Arfor ar Ynys Môn ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddyrannu £2m i ariannu Cronfa Arloesi Arfor yn ystod y cyfnod 2 flynedd 2019/20 i 2020/21. Nod y rhaglen Arfor yw peilota gwahanol agweddau a phrosiectau sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth a thwf busnes gan ganolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n canolbwyntio ar y pedair Sir lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf – Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin. Mae Adran Economi Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid ac mae'r cynnig grant yn gosod dibenion, amcanion ac allbynnau penodol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad. Bydd Cyngor Gwynedd yn arwain ar reoli'r rhaglen a bydd rhai elfennau o'r rhaglen yn cael eu gweithredu ar y cyd rhwng y 4 sir o dan gydlyniadnt Cyngor Gwynedd tra bydd eraill yn cael eu gweithredu yn lleol drwy'r Cynghorau Sir unigol. Darperir synopsis o gynlluniau Arfor Ynys Môn, y bwriad yw dechrau gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn er mwyn ychwanegu gwerth ac osgoi dyblygu gwaith. Bydd cynlluniau penodol i Ynys Môn yn cael eu llywodraethu gan banel grantiau Arfor a fydd yn rheoli'r gyllideb, yn penderfynu ar geisiadau ac yn monitro trefniadau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, ynghyd a sichrau bod penderfyniadau economaidd yn cael eu gwneud ar lefel leol, bod y Rhaglen Arfor yn gosod y Gymraeg wrth wraidd datblygiad economaidd yn y pedair sir gan wneud yr iaith yn bwynt gwerthu unigryw ar gyfer busnesau. Gobeithir y bydd datblygu Cynllun Strategol a gwerthuso'r gwahanol brosiectau peilot yn arwain at greu rhaglen hirdymor newydd er mwyn cefnogi pedair sir Arfor ac ardaloedd eraill o bosib lle mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol.

Tynnodd y Rheolwr Adfywio sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio, fel rhan o'r rhaglen, na ddylai cynlluniau presennol gael eu dyblygu a bod yn rhaid i agweddau newydd ac arloesol gael eu creu a'u cefnogi. Cadarnhaodd y Swyddog y bydd unrhyw brosiectau na fyddant yn cael eu cefnogi o ganlyniad yn cael eu hailgyfeirio i raglenni eraill.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y fenter gan ganmol yr agwedd o gydweithio sy'n galluogi gweithrediad cynlluniau sy'n berthnasol yn lleol drwy'r cynghorau sir unigol. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd yr Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd bod y gronfa wedi'i chreu gyda'r bwriad o gael ei defnyddio i gefnogi a chreu busnesau preifat yn lleol yn hytrach nag ar gyfer cynlluniau'r Cyngor ac nad oes disgwyl i'r Cyngor roi unrhyw arian cyfatebol tuag at y rhaglen.

**Penderfynwyd cefnogi a gweithredu'r Rhaglen Arfor ar Ynys Môn, ac awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i –**

- **Dderbyn y cyllid Arfor gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Gwynedd a'i ddefnyddio ar weithgareddau cymwys.**

DRAFT

- **Gweithio mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd neu gynghorau eraill yn yr ardal Arfor i weithredu'r rhaglen**
- **Gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn er mwyn gweithredu'r rhaglen Arfor.**
- **Gweithredu rhaglen grantiau o'r Gronfa Arfor i gynlluniau cymwys.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANETHAU CYMDEITHASOL 2018/19

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth y Gwasanaeth Oedolion bod cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n ceisio hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol i bobl Ynys Môn yn ddisgwyliad statudol. Mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o gyraeddiadau allweddol y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ynghyd â gosod cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r heriau y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn eu cyflawni.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dros Dro ei fod yn falch â'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ar draws y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion. Dros y 12 mis diwethaf cafwyd nifer o ddatblygiadau yn y ddau faes y mae'r Gwasanaeth yn falch ohonynt; yn y Gwasanaethau Plant, mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd Ymarfer bellach yn tanategu'r gwaith a gyflawnwyd ac a ddylunwiyd er mwyn llywodraethu ac arwain y gweithlu; mae gan Teulu Môn Strategaeth Ymgysylltu glir yn ei lle ac mae'r Gwasanaeth Camu Ymlaen â'r nod o gryfhau teuluoedd nad ydynt angen Cefnogaeth statudol bellach ond sy'n parhau i angen arweiniad. Gobeithir y bydd y Cynnig Newydd i Ofalwyr Maeth yn cynyddu gallu'r Awdurdod i recriwtio gofalwyr maeth ac i'w cynorthwyo nhw i ddarparu'r cymorth gorau i blant sy'n cael eu maethu. Yn yr un modd, mae agor cyfleuster Hafan Ceni a chomisiynu darpariaeth gofal cartref newydd i drigolion wedi helpu'r Gwasanaethau Oedolion i wneud cynnydd gyda'u nod o gefnogi oedolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl wedi cryfhau eu ffocws ar helpu unigolion i wella ei llesiant drwy sesiynau iechyd a ffitrwydd grŵp.

Gorffennodd y Swyddog drwy ddiolch i holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â'r darparwyr hynny a gomisiynwyd am eu gwaith caled yn ystod 2018/19. Yn ogystal, diolchodd y Gwasanaeth i Dr Caroline Turner, y cyn gyfarwyddwr a oedd yn y swydd ar gyfer y rhan fwyaf o 2018/19, am ei chefnogaeth yn ystod y flwyddyn honno a'r flwyddyn flaenorol.

Bu'r Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adrodd yn ôl o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, ble cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol iddo ac fe siaradodd i gadarnhau bod y Pwyllgor wedi cydnabod fod cynnydd wedi'i wneud dros y flwyddyn a bod hynny wedi eu adlewyrchu yn yr adroddiad a mynegodd ei ddiolch i ymrwymiad a gwaith caled y staff am wneud i hynny ddigwydd. Roedd trafodaeth y Pwyllgor ar y Gwasanaethau Plant wedi canolbwyntio ar symudiad Llywodraeth Cymru tuag at annog awdurdodau lleol i osod targed ar gyfer lleihau nifer y plant mewn gofal gyda'r Pwyllgor yn ei gwneud yn glir ei fod yn cefnogi'r Arweinydd wrth ymwrthod â cham o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn cydnabod y camau mawr a wnaed yn ystod 2018/19 o ran y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ond yn cydnabod ar yr un pryd fod meysydd y mae angen gweithio arnynt ac y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu heriau yn y dyfodol. Cymerodd y Pwyllgor Gwaith sicrwydd o'r cynnydd a wnaed, yr oedd o'r farn y byddai'n darparu sylfaen gref i weithio arni er mwyn gallu bodloni'r heriau hynny.



DRAFT

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon fod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19 yn –**

- **Cyfleu sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran y modd mae'n darparu ei Wasanaethau Cymdeithasol.**
- **Adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd am y flwyddyn i ddod.**
- **Adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol.**

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**11. OPSIYNAU COMISIYNU AR GYFER BYW Â CHYMORTH (ANABLEDDAU DYSGU)**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i ail-dendro am y Gwasaaneth Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu) ar Ynys Môn.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith fod yr argymhelliad yn cynnwys ail fodelu'r ddarpariaeth bresennol ac yn hytrach na chael gwahanol ddarparwyr yn gwasanaethu'r Ynys gyfan, byddai'r un darparwr yn gwasanaethu ardal benodol gyda'r Ynys yn cael ei rhannu'n dair ardal fel a ddangosir ar y mapiau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. Cafodd y rhesymau a'r rhesymeg dros dendr cystadleuol eu hamlinellu gyda'r farn y bydd yr ymarfer ail dendro yn darparu cyfle i gaffael gwasanethau sy'n darparu'r gwerth gorau tra hefyd yn cynnig dewis a rheolaeth I'r unigolion a gefnogir.

Adroddodd y Cynghorydd G.O.Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ôl o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf a oedd wedi ystyried y mater; mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gadarnhad a sicrwydd ar nifer o faterion gan gynwnys ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chefnogaeth drwy'r broses dendro ac yn dilyn hynny, effeithlonrwydd a gwerth am arian, ac adroddwyd y cafwyd argymhelliad bod y ddarpariaeth gwasanaeth presennol ar gyfer Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu) yn cael ei ail dendro.

Trafododd y Pwyllgor Gwaith y cais gan ystyried y pwyntiau a godwyd gan Sgriwtini a chafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y byddai Aelodau yn cael eu hysbysu am y cynnydd a/neu unrhyw ddatblygiadau drwy gydol y broses.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i ail-dendro'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y gwasanaeth Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu).**

**12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**



DRAFT

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 13. TAI CYNGOR – DATBLYGU 10 NEU FWY O UNEDAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i symud ymlaen i ddatblygu cynllun tai newydd o 10 o unedau ar safle Marquis yn Rhosybol ar gyfer ystyriaeth.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith fod cyfle wedi codi i'r Cyngor ddatblygu tai Cyngor newydd ar safle Marquis yn Rhosybol sydd eisoes wedi ei adnabod fel safle posibl ar gyfer tai ac sydd wedi ei gynnwys yn y rhaglen datblygu Tai Cymdeithasol ers 2017. Cynhaliwyd Arolwg Angen am Dai drwy'r gwasanaeth Galluogi Tai Gwledig mewn cydweithrediad â'r Cyngor Cymuned yn ystod yr hydref 2018 a chafodd yr angen am 10 o gartrefi fforddiadwy ychwangeol ei adnabod. Fel rhan o'r arolwg, cafodd holiadur ei gylchreeg i drigolion lleol a chynhaliwyd diwrnod agored ym mis Tachwedd, 2018 i drafod tai yn y pentref. Roedd Cefnogaeth glir i ddatblygu'r safle Marquis. Bydd y datblygiad yn cynnwys cymysgedd o unedau tai ac yn cael ei ariannu'n rhannol drwy ddyraniad grant tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru ac yn rhannol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae llawer iawn o waith paratoi wedi'i ymgymryd ag ef gyda'r nod (yn amodol ar ganiatâd y Pwllgor Gwaith) o ddechrau gweithio ar y datblygiad yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

**Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu cynllun tai cyngor newydd o 10 uned ar safle Marquis, Rhosybol.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16 Medi 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2019 – Mai 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

* *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2019 – Mai 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Hydref 2019 - Mai 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2019** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 2 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 3 | **Adroddiad Monitro Blynyddol - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Richard Dew | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>24 Hydref 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 4 | **Fframwaith Ddatblygu Cenedlaethol drafft**<br><br>Cymeradwyo ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cwrs Golff Llangefni** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 6 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgynghori. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 24 Hydref 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 7 | **Gostwng oed mynediad Ysgol Llandegfan**<br><br>Awdurdod i ymgynghori. | | Dysgu | Rhys Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| | | | | **Tachwedd 2019** | | | |
| 8 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 3 & 5 Medi 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 23 Hydref 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 9 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 10 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Tachwedd 2019<br>(Dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019



| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 14 | **Sail y Dreth Gyngor 2020/21**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2020/21 | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>23 Medi a<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 15 | **Bargen Twf Gogledd Cymru** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| | | | | **Rhagfyr 2019** | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |

* *Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>18 Tachwedd 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| | **Ionawr 2020** | | | | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |
| | **Chwefror 2020** | | | | | | |
| 19 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 21 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 22 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |



** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Ffioedd a Thaliadau 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 24 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 25 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 26 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 27 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2020/21** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 29 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| 30 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| 31 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019



| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Cyllideb Gyfalaf 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 34 | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**<br><br>Cymeradwyo'r Cynllun a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>4 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| | | | | **Mawrth 2020** | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2019 – Mai 2020

Diweddarwyd 3 Medi 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 36 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| | | | | **Ebrill 2020** | | | |
| 37 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| | | | | **Mai 2020** | | | |
| 38 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2020 | |

*Tudalen 22*

*  *Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **16/06/2019** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor yn eu Amcanion llesiant a'i Gynllun Corfforaethol.

**1.2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2018/19.

**1.3** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Dogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2018/19 fel amlinellwyd drwy ein 3 amcan penodol –

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

**1.4** Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni o dan yr amcanion uchod.

**1.5** Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad terfynol fydd asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar

flwyddyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

**1.6** Gofynir i'r Pwyllgor felly :

- **gytuno y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2018/19 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor (7.10.19)**

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

n/a

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??**

Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 27ain o fis Awst |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 27ain o fis Awst |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 27ain o fis Awst |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Bydd sylwadau yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 11/9 yn cael ei cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod heddiw |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

**F - Atodiadau:**

| |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 |
| **FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 18/19<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

## Cynnwys


Rhagair ..... 2

Cyflwyniad ..... 2

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad ..... 3

Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad ..... 5

Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir ..... 8

Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib ..... 16

Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol ..... 25

Perfformiad Ariannol 2018/19 ..... 30

Casgliad ..... 32

Gwybodaeth Bellach ..... 33


DRAFT

## Rhagair

I'w gadarnhau

## Cyflwyniad

Ein nod ar gyfer y cyfnod 2017-2022 fel y nodir yn ein Cynllun Cyngor yw –

**"Byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus lle gall teuluoedd ffynnu"**

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys.

Mae ymgynghoriadau diweddar â'n cymunedau, aelodau etholedig a staff wedi amlygu'r blaenoriaethau a ganlyn:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

Fe wnaethom amlinellu beth fyddem yn ei wneud i gyflawni ein Cynllun Cyngor yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19. Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaethom gyda'n camau gweithredu mewn perthynas â'n hamcanion ac yn cymharu ein perfformiad gyda mesurau allweddol.

Fe wnaethom nodi hefyd y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd 'r nodau ac egwyddorion o ddatblygu cynaliadwy sydd wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein hamcanion wedi eu cyfateb i'r rhain fel y gwelir yn nhabl 1 isod.

| Amcanion y Cyngor a'r Cyswllt gyda Nodau Cenedlaethol | Llewyrchus | Gwydn | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau cydlynol | Yr Iaith Gymraeg / | Yn fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Tabl 1

DRAFT

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cygnor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau a ddyrannir.

**Cynllun y Cyngor**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod manwl y Cyngor am 12 mis yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol dros y 12 mis diwethaf

Caiff y Cynllun Corfforaethol ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; ac
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid, a gynhelir bob chwarter, yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Ddirprwy Prif Weithredwr a byddant yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr, Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Sgriwtini.

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a gyrru cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid perthnasol a rhoi hyder i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu ac mae sicrhau hyn mewn modd amserol yn allweddol.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau Adolygiad Gwasanaeth bob blwyddyn a byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o'r Gwasanaeth

DRAFT

Y broses o ragweld arbedion o fewn gwasanaethau a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo'r broses o osod cyllideb blynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

Gofynnir i'r gwasanaethau gwblhau hunan-asesiad gwasanaeth er mwyn gweld lle mae'r Gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, salwch, llywodraethiant, risg ac yn y blaen. Fe'i defnyddir er mwyn rhoi sicrwydd i'r UDA / Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth wedi'i alinio yn unol â chyfeiriad ehangach y Cyngor ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Datblygwyd y cerdyn sgorio corfforaethol er mwyn adnabod a hysbysu arweinwyr y Cyngor am y cynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos bod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n cynorthwyo i ddarparu sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion y gellir drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol ohono. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r UDA wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws y gwasanaeth.

DRAFT


## Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad

Mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad trwy'r cerdyn sgorio corfforaethol, mae'r dangosyddion o fewn y cerdyn sgorio'n adrodd ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol.

Caiff Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) eu cyhoeddi ac yn draddodiadol maent wedi ei ddefnyddio i gymharu bob Awdurdod Lleol yn erbyn yr un dangosyddion.

Bob blwyddyn caiff y dangosyddion PAM eu hadolygu a chyflwynir dangosyddion perfformiad newydd i fonitro perfformiad ar sail genedlaethol. Yn ogystal â chynnwys dangosyddion perfformiad newydd yn y set data mae rhai hefyd yn cael eu dileu am nad ydynt yn berthnasol neu am nad ydynt yn cael eu monitro mwyach.


Mae Siart 1 isod yn dangos ein perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf o'i gymharu â'r set bresennol o ddangosyddion PAM, h.y. y dangosyddion PAM oedd yn cael eu monitro'n flaenorol ar gyfer 2016 i 2018, a'r dangosyddion perfformiad PAM sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd ar gyfer 2018/19 sy'n cynnwys 3 o ddangosyddion ychwanegol newydd. Mae'r siart yn dangos bod 4 dangosydd perfformiad ychwanegol wedi'u hychwanegu i'r Chwartel Uchaf, bod 1 yn llai o ddangosyddion yn y Chwartel Canolrif Isaf a bod 2 yn parhau yn y Chwartel Isaf.




Siart 1

Mae'r siart cylch isod (siart 2) yn dangos bod 55% o'n dangosyddion wedi gwella neu gynnal eu perfformiad yn ystod 2018/19 a bod y perfformiad wedi dirywio mewn 40% ohonynt o gymharu â'r perfformiad yn 2017/18.

Mae 7% o'r dangosyddion yn ddangosyddion PAM newydd am y flwyddyn ac felly nid oes ganddynt ddata perfformiad ar gyfer 2017/18 er mwyn gallu cymharu.




Siart 2

Rydym yn falch o adrodd, o blith y dangosyddion sydd wedi'u cyhoeddi, fod ein safle cenedlaethol wedi gwella eto eleni. Credwn y dylai'r mwyafrif o'r dangosyddion PAM sydd heb eu cyhoeddi hyd yma berfformio'n dda hefyd os yw'r perfformiad yn aros yn debyg i 2017/18. Bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2019 a gellir gweld y dangosyddion sydd wedi eu cyhoeddi eisoes yn Atodiad 1.

Er mwyn gwella ein perfformiad cenedlaethol yn 2019/20, fel rhan o adolygiad i berfformiad a oedd yn cynnwys gweithdy gyda chynrychiolaeth o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig, bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu monitro yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, y rhan fwyaf ohonynt bob chwarter a gweddill y dangosyddion yn flynyddol, er mwyn gallu adnabod a gwneud gwelliannau'n gynharach yn y flwyddyn. Am y tro cyntaf bydd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol hefyd yn cael ei fonitro i arddangos perfformiad yn erbyn amcanion y Cyngor yn ystod 2019/20.

Bydd y newid hwn yn sicrhau mai amcanion y cyngor yw ffocws adroddiadau perfformiad yn hytrach na dim ond y statws CAMG (gweler y diffiniad isod). Mae'r broses hon yn sicrhau bod ein Uwch Swyddogion, Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn cael asesiad rheolaidd o'n perfformiad a gellir ei ddefnyddio i ddechrau mesurau cywiro / lliniaru.

Yn ogystal â'r dangosyddion PAM, rydym wedi bod yn monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol lleol a adnabuwyd gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl ein dadansoddiad o'r dangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu, mae 59% o'n dangosyddion wedi gwella, mae 10% wedi cynnal y perfformiad, a 31% wedi gostwng mewn perfformiad o gymharu â 2017/18.

Dylid nodi hefyd fod 69% o'r dangosyddion wedi perfformio'n well na'u targedau ar gyfer y flwyddyn, roedd 22% o fewn y goddefiannau ar gyfer y targed, ac roedd yr 8% arall yn is na'r targed.


**Sut ydym yn cyflwyno ein perfformiad:**

Mae'r siart isod yn egluro sut ydym yn cyflwyno ein tueddiadau perfformio o fewn y cerdyn sgorio a thrwy'r ddogfen hon. Cyflwynir y cynnydd mewn perthynas ag amcanion yn ystod 2017/18 fel testun mewn siart ac mae cod lliw i gynrychioli statws y cynnydd, y cyfeirir ato fel statws CAMG (RAYG):

Coch = 10% neu fwy yn is na'r targed
Ambr = rhwng 5% a 10% o'r targed
Melyn = o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd = o fewn y targed

Cyflwynir y statws CAMG (RAYG) gyda'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol ar ddiwedd pob adran. Dangosir y Dangosyddion Perfformiad fel yr enghraifft isod, sy'n cynnwys statws CAMG (RAYG) lleol ein chwartel perfformiad PAM cenedlaethol a'u tueddiadau fesul blwyddyn.

DRAFT


Teitl Dangosydd Perfformiad
PAM/016: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth
Canlyniad
(% or Rhif)
Gwyrdd
5901 Ymweliad/1000
Statws CAMG (RAYG) yn seiliedig ar dargedau lleol 18/19
Perfformiad Cenedlaethol
Chwartel Uchaf
Tuedd
16/17 - 5858 visits/1000
Tuedd Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn
Chwarteli perfformiad mesurau PAM (allan o 22 awdurdod lleol)
Chwartel Uchaf = Yn y 6 gorau yng Nghymru
Chwartel Canolrif Uchaf = 7fed i 11eg yng Nghymru
Chwartel Canolrif Isaf = 12eg i 16eg yng Nghymru

DRAFT

## Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir

**Swyddi a Chyfleoedd Gwaith**

| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
|---|---|
| Fel rhan o Fid Twf Gogledd Cymru byddwn yn cyd-weithio ag eraill i sicrhau'r buddsoddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i ddatganoli pwerau i Ogledd Cymru er budd creu 5000 o swyddi, cefnogi'r economi lleol a gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu | Fe wnaeth ein swyddogion gymryd rhan yn y Bid Twf llwyddiannus gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, lle ymrwymwyd cyfanswm o £240M.<br><br>Mae'r Cyngor ac aelodau eraill o'r bwrdd oll yn gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella sgiliau a hyfforddiant, ehangu isadeiledd a datblygu Gogledd Cymru fel rhanbarth sy'n arwain drwy'r byd mewn ynni doeth, technoleg, arloesedd digidol a chysylltedd, a mwy.<br><br>Disgwyliwn i'r Fargen Twf derfynol fod yn ei lle yn ddiweddarach yn 2019 – ac i waith gychwyn ar brosiectau blaenoriaeth o 2020 ymlaen. |
| Cefnogi'r economi lleol drwy adeiladu cyfanswm o 15 unedau busnes newydd yn<br>- Llangefni a<br>- Chaergybi<br>gan hefyd ymestyn Canolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni i bwrpas ehangu'r gofod ar gyfer busnesau lleol. | Cafodd 7 o adeiladau busnes newydd eu hadeiladu a'u prydlesu yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd gwaith adeiladu ar estyniad i Ganolfan Fusnes Môn ym Mryn Cefni, Llangefni hefyd a gall busnesau lleol ei ddefnyddio nawr.<br><br>Ni fu modd i ni gwblhau'r 8 uned fusnes newydd yng Nghaergybi yn ystod y flwyddyn ond fe wnaethom sicrhau caniatâd cynllunio i alluogi'r rhain i gael eu hadeiladu yn ystod 2019/20. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. |
| Cwblhau'r ffordd gyswllt yn Llangefni i alluogi gwell cyswllt rhwng yr A55 a Choleg Menai. Bydd hyn yn creu'r cyfle i weld datblygiadau sgiliau a hyfforddi pellach gan hefyd agor tir diwydiannol newydd. | Fe wnaethom gwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni sydd wedi caniatáu gwell cysylltiad rhwng yr A55 a Choleg Menai. Bydd hyn yn rhoi gwell cyfleoedd am hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gampws Coleg Menai trwy fwy o hygyrchedd a bydd hefyd yn rhoi gwell mynediad i'r parc diwydiannol gan felly greu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd i leoli yma. |
| Cwblhau'r gwaith o adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi i bwrpas cartrefu busnesau lleol ag ailleoli'r llyfrgell bresennol. | Er bod llawer o waith wedi digwydd yn Neuadd y Farchnad, Caergybi trwy gydol y flwyddyn, nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith ar amser oherwydd nad oedd modd i ni gael mynediad at ragor o gyllid UE yn amserol. Roedd hyn ynghyd â chymhlethdodau gyda'r broses adeiladu yn golygu na agorodd tan haf 2019 pam gafodd Llyfrgell Caergybi ei hadleoli yno. |

DRAFT

**Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.**

| **Addysg a Sgiliau** | |
|---|---|
| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
| Byddem yn drafftio, ymgynghori ac yn mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd. Bydd yn amlygu'r pwysigrwydd o ddatblygu amgylcheddau Dysgu newydd i bwrpas gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyrhaeddiad ein plant dros y blynyddoedd i ddod. Bydd ffocws cynnar ar ddatblygu'r model addysgol yn nalgylch Amlwch | Yn dilyn cyfnod helaeth o ymgynghori, fe wnaethom fabwysiadu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion (SMY) newydd yn ystod y flwyddyn sy'n amlygu'r ffordd ymlaen ar gyfer Addysg ar Ynys Môn.<br><br>Yn y sector, mae'r lleihad mewn niferoedd a'r cynnydd mewn llefydd gweigion, ynghyd â'r toriadau a wynebwyd, wedi arwain at heriau cyllidebol sylweddol ar draws y sector ac mae'n debyg y bydd hyn yn parhau neu hyd yn oed waethygu dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Bydd rhaid mynd i'r afael yn gadarn â'r her hon yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau system ysgolion gynaliadwy, effeithlon ar Ynys Môn. Rhagwelir y caiff hyn ei wireddu gan ddefnyddio'r SMY a fabwysiadwyd, sy'n nodi y byddwn yn –<br><br>• sefydlu system ysgol sy'n addas am y tri deng mlynedd nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a phobl ifanc allu ffynnu a chymryd mantais o'r cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel<br>• parhau i weithredu'n ddiflino i sicrhau bod ein safonau a darpariaeth ysgol ymysg y gorau'n genedlaethol<br>• sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol trwy ddatblygu trefniant mwy cyfartal yn seiliedig ar gost-y-pen ar draws ysgolion a sefydlu patrwm addas ar gyfer addysg ôl-16<br>• sicrhau bod pob ysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod yr holl ddysgwr yn cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i'w gallu<br>• creu'r amgylchiadau i Benaethiaid lwyddo trwy sicrhau bod ganddynt ddigon o amser a chefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth<br>• sicrhau system fel bod y system ysgolion yn sicrhau olyniaeth briodol<br>• sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at "Ddylunio Lle". |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Mae mwy o wybodaeth am y Strategaeth i'w gweld ar ein gwefan linc |
| Byddem yn weithio ar gwblhau'r Ysgol newydd yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen, fel ei fod yn adnodd cymunedol cynaliadwy i'r dyfodol. | Fe wnaethom gwblhau adeiladu Ysgol Santes Dwynwen gan agor yr ysgol yn swyddogol ar 29 Ebrill 2019. Mae gan yr Ysgol $21^{ain}$ Ganrif newydd yr holl adnoddau angenrheidiol i gwrdd ag anghenion y cwricwlwm newydd, a gaiff ei gyflwyno mewn ysgolion yn 2022, ac mae'n darparu'r amgylchedd gorau un ar gyfer dysgu.<br><br>Bydd yr ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac mae'r ysgol wedi'i dylunio i gymryd 180 o ddisgyblion gyda 25 o lefydd meithrin.<br><br>Mae'r ysgol newydd yn cwrdd â'r statws 'Rhagorol' BREEAM sy'n safon fyd-eang, sy'n gwerthuso arfer orau ar gyfer perfformiad amgylcheddol adeilad trwy ei ddyluniad, manyleb, adeiladwaith a gweithrediad. Mae'n anelu i leihau effeithiau negyddol adeiladu a datblygiad ar yr amgylchedd. Mae'r statws Rhagorol BREEAM yn rhoi'r adeilad yn y 10% uchaf o adeiladau newydd annomestig yn y DU o ran cynaladwyedd.<br><br>Daw'r ysgol yn lle Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Llangaffo ac Ysgol Niwbwrch. Mae'r ymatebion cychwynnol wedi bod yn galonogol ac mae'r plant wedi mwynhau gwneud ffrindiau newydd yn ogystal ag ymgymryd â phrofiadau a chyfleoedd newydd fel dod i'r ysgol ar y bws a chymryd rhan mewn timau chwaraeon. |
| Byddem yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol ysgolion cynradd Llangefni a'r cyffiniau, gan sicrhau ein bod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w gwireddu a chychwyn ar y gwaith o adeiladu | Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Prosiectau Moderneiddio Ysgolion yn Llangefni a Seiriol, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddiddymu ei benderfyniadau blaenorol gwnaed ym Mehefin 2018 ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg.<br><br>Roedd yr adolygiad mewnol wedi tynnu sylw at bryderon ynglŷn â'r gydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru) 2013.<br><br>Cytunwyd i edrych o'r newydd ar y gwahanol opsiynau mewn perthynas â moderneiddio ysgolion gyda'r gofyn i ddilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru) 2018 wedi'i ddiweddaru, yn ardaloedd Llangefni a Seiriol ac i ddod ag adroddiad priodol yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan yn 2019/20. |
| Byddem yn penderfynu ar ddyfodol addysg yn ardal Seiriol drwy gysidro dyfodol ysgolion Llandegfan, Biwmares a Llangoed | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Byddem yn parhau i anwytho Penaethiaid newydd y Sir (13) drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth reolaidd gan hefyd ddatblygu ein Penaethiaid dros dro (3). Byddwn yn adnabod darpar benaethiaid i'r dyfodol a'u cefnogi hwy drwy gynnig profiadau a chyfleoedd datblygol | Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom hefyd ddarparu cefnogaeth a chyngor rheolaidd i'n Penaethiaid oedd newydd gymhwyso wrth iddynt ddatblygu yn eu rolau. Fe wnaeth 6 o benaethiaid posib y dyfodol hefyd gwblhau eu cyrsiau yn ystod y flwyddyn sy'n ein galluogi i helpu sicrhau bod staff addas, cymwysedig mewn lle at y dyfodol. |
| Byddem yn lansio rhaglen newydd Denu Talent Môn eleni fydd yn gyfle i 9 i 10 o bobl 16 oed neu drosodd i ymgymryd â hyd at 12 wythnos o brofiad o weithio gyda'r Cyngor gyda chyflog dros gyfnod yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gael blas ar waith awdurdod lleol modern drwy ymgymryd â phrosiectau a thasgau penodol | Cafodd y cynllun Denu Talent Môn ei lansio'n llwyddiannus yn ystod haf 2018 lle cafodd 10 o bobl ifanc eu cyflogi dros gyfnod o 12 wythnos mewn lleoliadau gwaith yng Ngwasanaethau'r Cyngor. Roedd y Cynllun yn rhoi cyfle i bobl ifanc feithrin sgiliau newydd, hyder a chael blas ar yr ystod eang o yrfaoedd sydd ar gael wrth weithio mewn llywodraeth leol. Yn dilyn y cynllun, bu un person ifanc yn llwyddiannus wrth gael gwaith gyda'r Cyngor tra bod y lleill wedi mynd ymlaen i addysg bellach. |

**Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.**

**Iechyd a Lles**

| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
|---|---|
| Byddem yn gweithio i gynyddu cyfranogiad ein trigolion (gyda phwyslais ar ein pobl ifanc) mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden | Rydym yn parhau i geisio cynyddu'r cyfraniad a wneir gan ein trigolion, gyda phwyslais ar bobl ifanc, mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden.<br><br>Yn ystod y flwyddyn gwelsom fod 67% o'r rhai fu'n cymryd rhan yn ein rhaglen NERS (Cynllun Cenedlaethol Cyfeirio i wneud Ymarfer Corff) wedi cwblhau'r cwrs llawn ac roedd 85% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y rhaglen ymarfer wedi arwain at welliant yn eu hiechyd.<br><br>Yn ystod gwanwyn a haf 2018, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol ac ysgolion trwy Gymru, fe wnaeth dros 120,000 o blant a phobl ifanc gymryd y cyfle i gael dweud eu dweud ar chwaraeon a'u llesiant.<br><br>Mae'r canlyniadau'n dangos, ar Ynys Môn mae 56% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf deirgwaith yr wythnos, o gymharu â 50% yn |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | 2015 a’r cyfartaledd cenedlaethol presennol o 48%.<br><br>Roedd yr arolwg hefyd yn dangos:<br><br>Mae 67% o ddisgyblion yn aelodau o glwb chwaraeon<br>Mae 71% o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon tu allan i’r ysgol yn fawr<br>Roedd 77% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb tu allan i’r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf<br>Mae 86% o ddisgyblion yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgaredd newydd<br>Mae 38% o ddisgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn am chwaraeon ac Addysg Gorfforol<br><br>Mae hyn yn galonogol ac yn darparu sylfaen da i ennyn mwy o ddiddordeb mewn chwaraeon a hamdden ymysg ein pobl ifanc yn y dyfodol. |
| Byddem yn cyd-weithio ag eraill ac yn defnyddio arian cyfalaf er mwyn sefydlu cae 3G cyntaf yr Ynys ym Mhlas Arthur, Llangefni. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn offer ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi | Fe wnaeth Rheolwr Pêl-droed Cymru, Ryan Giggs ynghyd â’i Reolwr Cynorthwyol a chyn-drigolyn Ynys Môn, Osian Roberts agor yn swyddogol y cae 3G cyntaf ar Ynys Môn ym Mhlas Arthur, Llangefni, yn ystod y flwyddyn diolch i fuddsoddiad o £200k gan y Cyngor a Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Cydweithredol Cymru.<br><br>Yn ystod y flwyddyn cafodd yr ystafell ffitrwydd yng Nghaergybi ei hadnewyddu gydag offer newydd drwyddi draw.<br><br>Fe wnaeth y newidiadau hyn ymysg eraill arwain at gyfanswm o 553,000 o ymweliadau â’n canolfannau hamdden i wneud gweithgarwch corfforol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn welliant ar y 508,000 o ymweliadau y flwyddyn gynt. |
| Byddem yn gweithio ag eraill i ddod a 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu’r niferoedd o dai fforddiadwy sydd yn cael ei adeiladu | Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynorthwyo i ddod â 78 o dai yn ôl i ddefnydd yn ogystal â chreu 9 o gartrefi newydd fel eu bod yn gartrefi i unigolion, cyplau a theuluoedd.<br><br>**Dyma’r Wardiau Etholiadol lle daethpwyd ag eiddo yn ôl i ddefnydd**<br><br>Aethwy - 7<br>Bro Aberffraw - 7<br>Bro Rhosyr - 6 |

| | |
|---|---|
| | Caergybi - 29<br>Canolbarth Môn - 5<br>Llifon - 6<br>Lligwy - 2<br>Seiriol - 6<br>Talybolion - 6<br>Twrcelyn - 13<br>Ynys Cybi - 2 |

Dyma Astudiaeth Achos sy'n dangos llwyddiant o dan yr Amcan hwn ac sy'n dangos ein bod yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd ei botensial –

Cafodd Teulu A eu cyfeirio gan yr ysgol gynradd oherwydd pryderon oedd gan yr ysgol am les emosiynol a phresenoldeb Plentyn A. Roedd y Teulu eisiau bod yn siŵr y byddai'r plentyn yn cael ei gefnogi yn ystod y trosglwyddiad o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Fe wnaeth y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) gydlynu cyfarfod teulu a datblygu cynllun teulu a oedd yn cynnwys y teulu, y plentyn ac asiantaethau megis yr ysgol, Therapydd Teulu / Therapydd Chwarae NSPCC, Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Adran Dai yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Dai a'r swyddog lles addysg.

Nid oes ar Blentyn A angen cefnogaeth bellach gan ei fod wedi setlo'n llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd ac mae'n defnyddio strategaethau ymdopi y mae wedi eu dysgu i ymdopi yn y dyfodol agos. Mae Plentyn A wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd, sydd felly wedi cael gwared ar yr angen i asiantaethau ymyrryd, ac wedi gwella presenoldeb, hyder a lles emosiynol y plentyn.

Er mwyn mesur pa mor agos mae'r cyngor wedi'i alinio i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel rhan o'r dadansoddiad perfformiad blynyddol hwn, fe wnaethom gwblhau ymarfer hunan-fyfyrio (hunan-asesiad) Cenedlaethau'r Dyfodol gan ddefnyddio teclyn sydd wedi'i ddylunio'n arbennig gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Ar gyfer yr amcan hwn mae ein Rheolwyr yn y Cyngor yn credu ein bod yn '**Bod yn Fwy Mentrus**' gyda'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Credwn hyn am ein bod ar hyn o bryd yn gwneud gwaith o dan yr amcan hwn nad yw'n 'fusnes fel arfer', sy'n gwthio'r ffiniau drwy gymryd ymagwedd rhagweithiol at yr agenda ataliaeth, datblygu talent a darparu cyfleoedd trwy waith, cydweithio â phartneriaid gyda'r bwriad o sicrhau llwyddiant ar unwaith gan hefyd gadw golwg ar y tymor hir ac ymgorffori safbwyntiau pobl yn y broses gwneud penderfyniadau, sy'n rhywbeth llawer mwy amlwg nag a fu yn y gorffennol.

Mae angen gwneud rhagor o waith o dan yr amcan hwn a byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ddiwygiedig ar gyfer 2019/20.

## Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad

| Dangosydd | Canlyniad | | Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.6% | Gwyrdd | Chwartel Canolrif Isaf | ↓ 17/18 - 94.8% |
| PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 94.4% | Gwyrdd | Chwartel Uchaf | ↓ 17/18 - 94.6% |
| PAM/009: Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) | 1.1% | Gwyrdd | Chwartel Canolrif Uchaf | ↑ 17/18 - 4.3% |
| PAM/032: Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 | 349.1 | Melyn | Chwartel Canolrif Uchaf | n/a |
| PAM/033: Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen | 88.3% | Gwyrdd | TBC | ↑ 17/18 - 72.6% |
| PAM/034: Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) | 65.0% | Melyn | TBC | ↑ 17/18 - 63.7% |
| PAM/017: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 y boblogaeth | 9105.5 Visits/1000 | Gwyrdd | Chwartel Canolrif Uchaf | ↑ 17/18 - 8470 ymweliad/1000 |
| PAM/023: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | 97.8% | Gwyrdd | Chwartel Uchaf | ↓ 17/18 - 98.2% |
| PAM/041: Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | 67% | Gwyrdd | TBC | n/a |
| PAM/013: Canran o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol | 11.8% | Gwyrdd | Chwartel Uchaf | ↑ 17/18 - 9.6% |
| PAM/014: Nifer yr anheddau ychwanegol a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | 9 Anheddau Newydd | Gwyrdd | n/a | n/a |
| PAM/038: Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | 100% | Gwyrdd | TBC | n/a |

| PAM/039: Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | |
|---|---|
| 1.3% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf | Tuedd: n/a |

| PAM/037: Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | |
|---|---|
| 13.6 Days | Melyn |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Canolrif Uchaf | Tuedd: n/a |

Mae pob un o'r dangosyddion a adnabuwyd ar gyfer Amcan 1 wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn o gymharu â'u targedau ac eithrio 2 ddangosydd a oedd o fewn 5% o'r targedau a osodwyd ar eu cyfer am y flwyddyn. Mae 5 o'r dangosyddion wedi gwella ar eu perfformiad ers 2017/18 tra bod 3 o'r dangosyddion cymaradwy wedi dirywio mymryn (llai na 0.4% pwynt) o gymharu â 2017/18.

Fodd bynnag, nid oes gan 6 o'r dangosyddion unrhyw ddata i gymharu gydag ef, felly tybir ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio unrhyw ganlyniadau meincnodi i sicrhau bod y targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn realistig ac yn sicrhau perfformiad da.

Mae presenoldeb yn ein hysgolion (PAM/007+008), er yn dangos dirywiad bach, wedi perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ac mae'r presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gweld gwelliant yn y canlyniad cenedlaethol nes ein bod yn y Chwartel Uchaf, tra bod yr ysgolion cynradd hefyd wedi cynnal eu perfformiad yn y chwartel uchaf.

Un dangosydd sydd wedi gweld gwelliant mawr yn ystod y flwyddyn yw nifer y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Yn ôl ein perfformiad ar gyfer y dangos hwn yn 2017/18, roedd gan Ynys Môn y ganran uchaf o ddisgyblion yn gadael blwyddyn 11 a oedd yn NEET yng Nghymru. Arweiniodd hyn at fwy o sgriwtini o'r dangosydd, o fewn y Gwasanaeth a chan ein Aelodau Etholedig, ac arweiniodd at newid yn y broses i wella'r canlyniad. Rydym yn falch o weld bod y dangosydd hwn nawr yn perfformio'n dda, cyd-6ed yng Nghymru, a bod ein pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn lleol, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae ein prosiect Cartrefi Gwag unwaith eto wedi sicrhau ein bod wedi llwyddo i gael 11.8% o gyfanswm nifer y tai gwag yn ôl i ddefnydd (PAM/013+014). Mae'r ymdrech hon wedi sicrhau bod 78 o eiddo yn ychwanegol ar gael i'n trigolion, sydd yn gwella cyfleodd o fewn ei chymunedau.

DRAFT

## Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib

**Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus**

| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
|---|---|
| Byddem yn cwblhau'r datblygiad o'r tŷ gofal ychwanegol yn Llangefni – Hafan Cefni, fydd yn galluogi 63 person i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol | Fe wnaethom gwblhau ac agor yn swyddogol y cyfleuster tai gofal ychwanegol newydd sbon a modern, Hafan Cefni, yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Mae Hafan Cefni yn ddatblygiad sy'n cynnig cartref am oes i bobl dros 60 mlwydd oed sy'n dymuno byw'n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chroesawus gyda gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle. |
| Byddem yn cychwyn y gwaith paratoi o gynllunio ar gyfer tŷ gofal ychwanegol yn ardal Seiriol – Biwmares | Er bod y gwaith cynllunio wedi'i wneud ar gyfer y cyfleuster gofal ychwanegol ym Miwmares, mae'r penderfyniad i ddiddymu'r penderfyniad blaenorol ar ddyfodol Ysgol Gynradd Biwmares wedi golygu oedi yn y prosiect.<br><br>Er bod hyn yn siomedig rydym yn awyddus i sicrhau y bydd y datblygiad y gorau y gall fod. Bydd yr oediad yn caniatáu inni ailedrych ar ardal de o'r Ynys ac ystyried cynigion pellach a allai fod ar gael i ni. |
| Byddem yn cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd yng Ngharreglwyd, Caergybi i ddarparu gofal dementia gwell gyda'r nod o atal trosglwyddiadau dianghenraid i leoliadau gofal amgen ac anaddas e.e. ysbytai neu ofal preswyl all-sirol | Fe wnaethom barhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod 15 o welyau ar gael ar gyfer gofal dementia yn Garreglwyd. |
| Byddem yn cwblhau'r gwaith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd o ail dendro'r cytundeb gofal cartref i leoliadau llai fel bod y ddarpariaeth yn well. | Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, buom yn llwyddiannus wrth ail-dendro'r contract gofal cartref ac mae gennym nawr 3 o ddarparwyr yn gyfrifol am y ddarpariaeth gofal cartref, sy'n rhannu traean o'r ynys bob un.<br><br>Mae'r contract yn sicrhau bod y gwasanaeth o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr, a bydd yn sicrhau bod pobl hŷn sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty ac sy'n aros i ddod adref yn gallu mynd adref yn gynt nac o dan y ddarpariaeth flaenorol a ddarparwyd gan y Cyngor.<br><br>Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gwelyau ysbyty ar gael yn gynt ac yn ei dro bydd hynny'n lleihau'r galw ar yr ysbytai lleol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Byddem yn cynyddu'r niferoedd o hybiau cymunedol ar draws yr Ynys mewn ardaloedd tebyg i -<br>- Amlwch<br>- Llangefni<br>- Cemaes<br>- Porthaethwy<br>- Niwbwrch a<br>- Benllech<br>fydd yn helpu'r agenda ataliol ac yn cadw unigolion yn actif ac yn brysur o fewn eu cymunedau. | Mae'r model hyb cymunedol wedi gweithio'n llwyddiannus mewn sawl ardal ar yr Ynys ac mae tua 1,100 o bobl yn cael mynediad at weithgareddau hyb cymunedol bob wythnos.<br><br>Mae rhai o'r datblygiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:<br><br>• Mae Agewell Amlwch wedi ad-leoli i'r Ganolfan Hamdden ac mae dyddiau ychwanegol ar gael yn yr hyb cymunedol sydd ar ei newydd wedd ym Maes William Williams<br><br>• Mae Agewell Llangefni nawr yn gweithredu yn adeilad Hafan Cefni a chaiff hwn ei weld fel model arloesol<br><br>• Mae buddsoddiad cyfalaf o'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi'i gwblhau i uwchraddio a gwella mynediad i hybiau ym Mryngwran, Llanfaelog a Llanfairpwll<br><br>• Mae Eglwys Fach yn Niwbwrch wedi gwella eu cyfleusterau ac yn darparu nifer uwch o weithgareddau<br><br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar drawsnewid dwy lolfa gymunedol yn hybiau cymunedol yng Nghae Gwyn, Caergybi, a Tan y Foel yn Llannerch-y-medd<br><br>Ni wnaed yr un cynnydd yng Nghemaes a Benllech oherwydd y ffocws ar ardaloedd eraill lle dangoswyd y lefel mwyaf o ddiddordeb eleni.<br><br>Bydd ardaloedd eraill, gan gynnwys y ddwy ardal hon, yn dilyn yn y dyfodol. |
| Byddem yn adolygu a newid trefniadau gofal dydd sydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a gan ddarparwyr eraill fel bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar gyflawni dyheadau personol | Roeddem eisiau ailedrych a newid y ffordd y caiff trefniadau gofal dydd eu darparu gennym yn ystod y flwyddyn, ond yn anffodus ni fu hyn yn bosib oherwydd bod gweithgareddau eraill wedi cymryd blaenoriaeth a'r angen i ddrafftio ac ymgysylltu ar strategaeth cyfleoedd dydd ddiwygiedig gyda'r defnyddwyr.<br><br>Bydd y weithgaredd hon nawr yn cael ei gwneud yn 2019/20 o dan gyfarwyddyd ein Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Byddem yn cwblhau'r datblygiad yn Llawr y Dref, Llangefni fydd yn rhoi'r cyfle i'r rhai hynny sydd gydag anawsterau dysgu i symud i fflatiau dros dro er mwyn cael eu hasesu, cefnogi a'u paratoi i fyw'n annibynnol | Mae'r cynllun, sydd wedi gadael i ni ailwampio'r 29 o fflatiau yn llwyr, wedi elwa o fuddsoddiad ariannol sylweddol, ac mae'r fflatiau wedi eu trawsnewid i ddarparu llety byw modern a chyfforddus.<br><br>Byddwn yn cynnig y cyfle i unigolion a chyplau dros 60 mlwydd oed ymgeisio am dŷ cymdeithasol yn y fflatiau hyn sydd wedi eu hailwampio yn Llawr y Dref, Llangefni.<br><br>Mae rhai fflatiau wedi eu neilltuo i roi cyfle i'r rheini sydd ag anawsterau dysgu symud i fflatiau dros dro fel y gallant gael eu hasesu a'u cefnogi ar gyfer byw'n annibynnol.<br><br>Bydd y fflatiau hyn yn barod i fod yn weithredol yn ystod 2019/20. |

**Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w Cadw'n Ddiogel, yn Iach ac Mor Annibynnol â Phosib**

**CEFNOGAETH I BLANT A THEULUOEDD**

| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
|---|---|
| Byddem yn edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant i blant, phobl ifanc a'r rhai bregus o fewn ein cymdeithas. Ein nod fydd cynyddu gwytnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau | Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl fregus mewn cymdeithas trwy weithredu Strategaeth Ataliaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n canolbwyntio ar adeiladu gwytnwch, gostwng yr angen am wasanaethau statudol ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed sylweddol.<br><br>Fe wnaethom hefyd greu swyddi newydd yn y gwasanaeth megis y swydd Gweithiwr Perthnasau Iach sy'n caniatáu i ni ymateb yn gynt i achosion lle mae risg i blant a phobl ifanc o gam-fantais.<br><br>Fe wnaeth y gwasanaeth gymryd rhan yn y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'i bwriad yw llunio ymateb gan yr Heddlu â'u hasiantaethau partner allweddol i'r maes Profiadau Andwyol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma. Y manteision o'r rhaglen yw gostyngiad yn y cyfeiriadau gan yr Heddlu i'r gwasanaeth a chynnydd yn y nifer o gyfeiriadau Cymorth Cynnar. Mae hyn yn cefnogi'r |

DRAFT

<table>
<tr><td></td><td>amcanion strategol a'r gofynion statudol i ni ymyrryd yn gynharach a chanolbwyntio ar ataliaeth.<br><br>Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi parhau i gefnogi teuluoedd o dan y nodau craidd o Atal, Dychwelyd, Lleihau, ac Adolygu. Fe wnaeth y tîm gefnogi teuluoedd oedd â phlant ar drothwy gofal, a'u cefnogi i beidio gorfod mynd i mewn i'r system gofal a chefnogi teuluoedd i'w plant allu dychwelyd adref atynt os ydynt wedi bod mewn gofal. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio gydag oddeutu 60 o blant yn y ffordd yma.</td></tr>
<tr><td>Byddem yn cyd-weithio ag eraill i godi oddeutu 60 o dai cymdeithasol newydd ar yr Ynys eleni yn yr ardaloedd a ganlyn –<br>- Llanddeusant<br>- Cemaes<br>- Caergybi<br>- Dwyran<br>- Penysarn<br>- Niwbwrch</td><td>Rydym wedi cydweithio â Chymdeithasau Tai trwy gydol y flwyddyn i ddarparu mwy o dai fforddiadwy ar yr Ynys.<br><br>Cwblhawyd cyfanswm o 48 o dai newydd yn ystod y flwyddyn yn yr ardaloedd canlynol:<br><br>• Llanddeusant – cwblhawyd 10 o unedau newydd<br>• Cemaes – cwblhawyd 14 o unedau newydd<br>• Dwyran – cwblhawyd 2 uned newydd<br>• Penysarn – cwblhawyd 9 uned newydd<br>• Niwbwrch – cwblhawyd 5 uned newydd<br>• Caergybi – cwblhawyd 8 o unedau newydd<br><br>Mae gwaith wedi cychwyn hefyd ar 25 uned newydd arall yng Nghaergybi.<br><br>Am y tro cyntaf ers yr 1980au rydym wedi cytuno ar gynlluniau i adeiladu ein stoc tai cyngor ein hunain er mwyn darparu llety addas a chwrdd ag anghenion ein tenantiaid a thrigolion y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>Byddem yn parhau gyda'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan holl deuluoedd yr Ynys fan penodol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ymwneud â phlant, a theuluoedd sydd â phlant, rhwng 0-25 oed</td><td>Mae ein gwasanaeth Teulu Môn wedi sefydlu'n dda erbyn hyn ac mae wedi parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i aelodau o'r cyhoedd, partneriaid, a theuluoedd ar ymholiadau yn ymwneud â phlant a theuluoedd. Fe wnaethom barhau i hyrwyddo Teulu Môn trwy fynychu dyddiau agored, nosweithiau rhieni a digwyddiadau yn y gymuned.<br><br>Rydym wedi gweithio i ddatblygu'r Hyb Cymorth Cynnar. Mae'r hyb yn gyfarfod aml-asiantaeth sy'n cynnwys asiantaethau partner allweddol gan gynnwys y trydydd sector. Pwrpas yr Hyb yw cynnig gwasanaeth i deuluoedd a fyddai efallai'n elwa o</td></tr>
</table>

DRAFT

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ymyrraeth gynnar a chefnogaeth. Caiff y teuluoedd sy'n cael eu trafod eu cyfeirio i'r gwasanaeth gan asiantaethau neu drwy eu cyfeirio eu hunain.<br><br>Nid oes cefnogaeth ddigonol i bobl ifanc LGBT a'u rhieni ar Ynys Môn. Mewn ymateb, rydym wedi dechrau ar y broses o sefydlu clwb LGBT a grŵp cefnogaeth i rieni ar yr Ynys. Mae'r bobl ifanc yn greiddiol i ddatblygiad y prosiect hwn ac maent yn aelodau o'r grŵp datblygu. Mae hwn yn ddarn o waith sy'n hanfodol i ni ei ddatblygu ymhellach yn 2019/20. |
| Byddem yn parhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr Ynys | Fe wnaethom barhau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr ynys. Rydym wedi cynyddu nifer y Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol o fewn y gwasanaeth, sydd wedi cynyddu'r capasiti.<br><br>Mae prydlondeb yr ymatebion o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau'n dda gydag asesiadau'n cael eu cwblhau ar amser a theuluoedd yn cael y gefnogaeth gywir gan Weithiwr Cymdeithasol ar yr adeg gywir.<br><br>Rydym yn cyfrannu'n llawn i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.<br><br>Rydym yn cynorthwyo mewn digwyddiadau hyfforddiant ac wrth godi ymwybyddiaeth asiantaethau am drawstoriad o faterion Diogelu, gan sicrhau bod Diogelu yn aros yn uchel ar agenda'r asiantaethau a'i fod hefyd yn aros yn fusnes i bawb. |
| Byddem yn treialu lleoliadau ehangach i rai o'n plant mewn gofal drwy un ai gynnig mwy o wasanaethau, cynyddu'r lleoliadau gofal maeth neu ddarparu gofal mewn ffordd wahanol (amgen) | Fe wnaethom hefyd ddechrau'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth gyntaf o Gartrefi Grŵp Bach ar yr ynys – Cartref Clyd Môn.<br><br>Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor; parcio am ddim yn holl feysydd parcio y Cyngor; cynnydd o 10% yn y lwfans maethu a cherdyn aelodaeth gwasanaethau hamdden am ddim.<br><br>Yn dilyn y cyhoeddiad am becyn maethu newydd ym mis Ionawr 2019, cawsom nifer o ymholiadau a dechreuwyd ar asesiadau.<br><br>Fe wnaethom hefyd ddechrau'r broses o ddatblygu'r ddarpariaeth gyntaf o Gartrefi Grŵp Bach ar yr ynys – Cartref Clyd Môn. Mae hyn yn golygu dau o blant yn byw efo'i gilydd mewn awyrgylch 'gartrefol' ac yn gweithredu mewn |

| | |
|---|---|
| | modd tebyg i blant adref h.y. yn mynd allan i'r ysgol, yn byw yn y gymuned, bod â chymdogion a ffrindiau ac ati. |

**Astudiaeth Achos –**

Mae P yn byw efo'i theulu yn Llangefni ac mae ganddi anabledd dysgu ac mae'n mynychu Canolfan Addysg Y Bont. Cafodd P ei chyfeirio at y Gwasanaethau Arbenigol Plant pan oedd yn 17 mlwydd oed am wasanaeth Nyrsio pediatrig AD yn y Gymuned i gefnogi'r ysgol i reoli ei hymddygiad. Nid oedd teulu P wedi gofyn am unrhyw gefnogaeth neu ymwneud gan y gwasanaethau cyn hyn.

Fel rhan o Brosiect Pontio Partneriaeth – Y Bont (sy'n gweithio o'r Ysgol Arbennig), roedd P a'i teulu yn gallu cael y gefnogaeth ychwanegol gan Gydlynydd Trosglwyddo y gwasanaeth heb orfod bod yn agored i weithiwr cymdeithasol. Roedd y Cydlynydd Trosglwyddo yn gallu gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill o wahanol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda P, i gefnogi gyda chynllunio'r Broses Trosglwyddo i'r gwasanaethau anableddau dysgu oedolion.

Fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion teimlwyd y byddai'n beth positif i P ehangu ei hystod o ddiddordebau a gweithgareddau er mwyn ei helpu i ddod yn fwy annibynnol, a hefyd i gefnogi ei rhieni yn eu rôl gofalu trwy alluogi iddi gael seibiannau byr.

Cytunwyd gyda'r teulu mai dyma oedd yr amser iawn i gyflwyno gweithiwr cymdeithasol o'r GAP, i edrych ar y mathau o gefnogaeth a fyddai'n helpu P ac yn cefnogi'r teulu trwy'r Trosglwyddiad i'r Gwasanaethau Oedolion. Fel rhan o Gynllun Gofal a Chefnogaeth P, roedd y teulu'n defnyddio taliadau uniongyrchol i'w galluogi hi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned ac mae hyn wedi rhoi'r cyfle i P ddatblygu ei hannibyniaeth a'i sgiliau cymdeithasol gyda chefnogaeth 2 gynorthwyydd personol, bob wythnos. Dyma'r tro cyntaf i'r teulu gael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol a golygai'r berthynas hon y gallai'r gweithiwr cymdeithasol ddod i nabod y teulu a sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda'r tîm gwaith cymdeithasol o fewn y gwasanaeth anableddau dysgu oedolion.

Yn hwyrach yn y flwyddyn, fe wnaeth y Gweithwyr Cymdeithasol ymweld â'r teulu fel y byddai'r cyswllt gyda AD Oedolion yn darparu gwasanaeth di-dor i P ac fel y gallai'r teulu fod yn hyderus y gallai'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol barhau a, lle bo angen, y byddai trosglwyddiad gwasanaethau iechyd yn cael ei gydlynu gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r Tîm Amlddisgyblaethol gwreiddiol.

Bydd y ddau weithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi P tan y bydd yn 18 mlwydd oed a bydd y Cydlynydd Trosglwyddo yn parhau i fod ynghlwm fel rhan o'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion, gan edrych ar weithgareddau dydd ac opsiynau eraill am gyfleoedd addysg bellach.

Mae mam P wedi rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol ei bod yn teimlo bod y Gwasanaeth Trosglwyddo wedi bod yn "dda" ac mae hi wedi gwerthfawrogi'n arbennig rôl y Cydlynydd Trosglwyddo a'r Gweithiwr Cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wrth gefnogi P a'r teulu ar y pwynt hwn yn y broses drosglwyddo.

Ar gyfer yr amcan hwn o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol credwn ein bod ar hyn o bryd yn '**Bod yn fwy Mentrus'** gyda'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Credwn fod hyn am ein bod yn ymgymryd â'r gwaith o dan yr amcan hwn nad yw o'r meddylfryd 'busnes fel arfer'.

Creda'r Rheolwyr fod hyn oherwydd y gwaith arbennig rydym yn ei wneud mewn hybiau yn y gymuned gyda phrosiectau megis 'atal codymau' a'r gwasanaeth Tylluanod y Nos. Mae'r hybiau cymunedol hyn yn enghraifft dda o sut ydym hefyd yn cynnwys ac yn ymgorffori pobl yn ein penderfyniadau ac mae hyn hefyd wedi'i dystiolaethu yn yr arfer dda sydd gennym gyda'r Cyngor Pobl Hŷn, mentoriaid cyfoed o fewn ein cartrefi, ein grŵp cyfeirio Anableddau Dysgu a hefyd y tîm cyfranogiad tenantiaid.

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| Dangosydd | Gwerth | Statws | Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| PAM/028: Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol | 86.2% | Melyn | TBC | ↑ 17/18 - 67.6% |
| PAM/029: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 9.5% | Gwyrdd | TBC | ↓ 17/18 - 9% |
| SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 81% | Melyn | n/a | ↑ 17/18 - 63.3% |
| PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | 241 Diwrnod | Gwyrdd | n/a | ↑ 17/18 - 326.5 Days |
| SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 16.9% | Melyn | n/a | n/a |
| SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 98% | Gwyrdd | n/a | n/a |
| PAM/025: Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | 7.78 | Coch | TBC | ↓ 17/18 - 6.58 |
| SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 96% | Gwyrdd | n/a | ↓ 17/18 - 96% |
| SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | 17.35 | Gwyrdd | n/a | ↑ 17/18 - 17.44 |

**PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol**

| | |
|---|---|
| 90.9% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 93.25% (↓) |

**PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach**

| | |
|---|---|
| 30.9% | Coch |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 59.26% (↓) |

**PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach**

| | |
|---|---|
| 62.8% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 62.5% (→) |

**PAM/012: Canran y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref**

| | |
|---|---|
| 55.1% | Melyn |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| Chwartel Isaf | 17/18 - 65.2% (↓) |

**PAM/015: Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)**

| | |
|---|---|
| 162 Days | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| Chwartel Uchaf | 17/18 - 177 Diwrnod (↑) |

**PAM/041: Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff**

| | |
|---|---|
| 67% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| TBC | n/a |

**PAM/042: Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff**

| | |
|---|---|
| 85% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| TBC | n/a |

**PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth**

| | |
|---|---|
| 97% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 92% (↑) |

**PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi**

| | |
|---|---|
| 94% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 90% (↑) |

**PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth**

| | |
|---|---|
| 89% | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | 17/18 - 82% (↑) |

Mae’r dangosyddion yn yr amcan hwn wedi perfformio’n gymharol dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn, ac eithrio 2 ddangosydd a oedd yn goch. Roedd 68% o’r dangosyddion uwchlaw’r targed, roedd 21% o’r dangosyddion o fewn 5% o’u targedau ac roedd yr 11% yn weddill yn goch yn erbyn eu targedau.

Mae’r dangosyddion o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (PAM/028+29, SCC/006+010+025, a PM28) oll wedi perfformio’n dda yn erbyn eu targedau am y flwyddyn ac maent uwchlaw’r targed neu o fewn 5% i’r targed. Ar ôl y gwaith da yn y gwasanaeth cafwyd arolwg gan AGC ym mis Hydref 2018 sy’n dweud wrthym ein bod yn gwneud cynnydd da, ond bod rhaid i ni barhau i gryfhau gwasanaethau ac arferion. Bydd y gwasanaeth yn parhau gyda’r gwaith da sydd eisoes wedi’i wneud ac yn datblygu Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd a fydd yn cynnwys y meysydd i’w datblygu a nodwyd gan AGC yn dilyn yr ail-arolwg.

Roedd tri chanlyniad positif o arolygon a wnaed gan oedolion, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn (PAM/24+26+27), ac roedd pob un o’r rhain wedi gwella ar y canlyniadau yn 2017/18. Mae’r adborth positif yn helpu i roi gwybod i ni fod y gwaith rydym yn ei wneud gyda’n cleientiaid yn gweithio a’u bod yn derbyn gofal a chefnogaeth dda gennym.

Rydym hefyd yn blês gyda nifer yr oedolion sydd wedi cwblhau rhaglen ymarfer corff y cynllun NERS (PAM/041) gan i’r cleientiaid hyn gael eu cyfeirio i’r gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Doctoriaid Meddygol oherwydd cyflyrau iechyd eu cleientiaid. Mae’r rhaglen wedi’i dylunio i helpu i wella cyflwr eu hiechyd ac mae’n gadarnhaol gweld bod 85% o’r cleientiaid yn credu bod eu hiechyd yn well ar ôl cwblhau’r cwrs (PAM/042).

Roedd y ddau ddangosydd a oedd yn goch yn erbyn eu targedau yn dod o’r Gwasanaethau Oedolion. Tra bod y perfformiad yn siomedig yn y ddau ddangosydd yma rydym wedi bod yn rheoli’r perfformiad trwy gydol y flwyddyn fel rhan o’r adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio.

Mae’r ganran o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi ac a oedd ar becyn gofal is 6 mis yn ddiweddarach (PM20a) yn ymwneud â nifer cymharol fach o unigolion a gall y perfformiad godi a gostwng o flwyddyn i flwyddyn oherwydd hyn. Fe wnaed popeth a ellid bod wedi’i wneud ar gyfer ein cleientiaid, a’u cyflyrau iechyd yw’r ystyriaeth bennaf a’r ffactor bwysicaf i ni cyn unrhyw beth arall, ac mae perfformiad y dangosydd hwn yn adlewyrchu natur eu salwch. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu’r gwasanaeth ail-alluogi cyfredol ac yn ystyried dulliau o gasglu data sy’n darparu deilliannau a rhesymeg fanylach ar gyfer ymyraethau sy’n parhau i mewn i 2019/20.

Yr ail ddangosydd oedd cyfradd y bobl dros 75 oed a gafodd eu cadw yn yr ysbyty tra’n aros am Ofal Cymdeithasol (PAM/25). Cydnabyddir y bu cyfradd uchel o achosion lle roedd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC) yn enwedig yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn. Disgwyliwyd y byddai’r contract Gofal Cartref newydd sy’n gweithio fesul ardal wedi cael effaith bositif ar y ffigyrau, ac fe gafodd ryw effaith, ond nid cymaint ag oeddem yn credu y byddai wedi’i gael. Ar gyfer 2019/20, byddwn yn gweithio gyda’r tri darparwr tuag at sicrhau fod gennym ddigon o gapasiti ail-alluogi i gwrdd â’r galw cynyddol ynghyd â gweithio ar y cyd â’n cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i sicrhau proses fwy cadarn o godio data.

## Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

**DATBLYGU A HYRWYDDO**

| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
|---|---|
| Byddem yn gwireddu'n cynllun rheoli cyrchfan drwy ganolbwyntio'n bennaf ar farchnata'r Ynys mewn cydweithrediad ag ymgyrch blynyddol Croeso Cymru - 'Year of the Sea' | Fe wnaethom gefnogi Croeso Cymru gyda'r ymgyrch 'Blwyddyn y Môr' a oedd yn dathlu arfordir eithriadol Cymru, gan wahodd ymwelwyr i ddarganfod profiadau epig newydd o amgylch ein glannau, gyda digwyddiadau arbennig ac atyniadau trwy gydol y flwyddyn. |
| Byddem yn croesawu 52 o longau mordeithio a dros 32,000 o ymwelwyr i Gaergybi gan ysgogi'r ymwelwyr i ymweld â chyrchfannau twristiaeth lleol i dderbyn croeso cynhenid Cymreig | Fe wnaethom groesawu 46 o Longau Mordaith i Borthladd Caergybi dros y flwyddyn, mymryn llai nag a gynlluniwyd gan y bu rhaid i 3 llong ganslo oherwydd y tywydd a bu rhaid i 3 llong arall ganslo oherwydd problemau gyda'r llong. Fe wnaeth y 46 o longau mordaith a wnaeth ddocio arwain at oddeutu 29,000 o ymwelwyr i'r ynys a Gogledd Cymru. |
| Byddem yn parhau gyda'n bwriad a'n cyflawniad o sicrhau bod dros 70% o'n gwastraff teuluol yn cael ei ailgylchu gan hefyd atal gwastraff aiff i bwrpas tirlenwi | Roedd ein lefelau ailgylchu yn dal i fod uwchlaw disgwyliadau Llywodraeth Cymru lle cafodd 70% o wastraff ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn. Byddai'r ffigwr hwn wedi bod yn uwch ar gyfer y flwyddyn ond yn anffodus roedd tân yn safle ailgylchu ein contractwyr ac o ganlyniad collwyd deunyddiau y byddem wedi gallu eu hailgylchu. Rydym yn ffyddiog y bydd y cyfraddau ailgylchu yn uwch yn ystod 2019/20. |
| Byddem yn buddsoddi £250,000 mewn nifer o brosiectau effeithlonrwydd ynni ar draws stad y Cygnor gan ganolbwyntio ar ein hysgolion / canolfannau hamdden | Buddsoddwyd cyfanswm o £287k ar draws ystâd y Cyngor gyda buddsoddiadau yn amrywio o oleuadau LED yn ein hysgolion i gyflwyno system dosio gemegol yn ein pyllau o fewn ein canolfannau hamdden. Gwnaethom hefyd waith ar bibellau'r ystafell boeler a gwnaethom gomisiynu Re:fit Cymru i'n cynghori ar ble y gellid gwireddu effeithlonrwydd ynni pellach dros y blynyddoedd i ddod. |
| Byddem yn ogystal yn cwblhau gwaith o ymchwilio i'r meysydd hynny o'r stad ac yn paratoi cynllun ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod lle bydd buddsoddiad pellach yn medru creu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynni | |
| Byddem yn cydlynu'r rhaglen Ynys Ynni i liniaru effeithiau, a gwella'r buddion a geir yn sgil prosiectau ynni mawr. | Eleni gwelwyd Horizon Nuclear Power yn gohirio prosiect Wylfa Newydd ac mae'r gohiriad hwn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y datblygiad i'r ynys, Gogledd Cymru a'r DU. Er gwaethaf hyn, mae nifer o gerrig milltir allweddol wedi'u cyrraedd, yn bennaf trwy Gytundeb Adran 106 ffurfiol a chredwn fod hyn yn diogelu buddiannau'r ynys, heb unrhyw anghydfod neu anghytundebau mawr rhwng Pŵer Niwclear Horizon a'r Cyngor. |
| Byddem yn sicrhau bod y Cyngor Sir yn dylanwadu ar brosesau DCO a Chynllunio | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol. | Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â datblygwyr ynni eraill o bwys trwy'r Rhaglen Ynys Ynni gyda'r bwriad o greu swyddi a chynyddu ffyniant trwy fanteisio i'r eithaf ar nifer o brosiectau trawsnewidiol. |
| Byddem yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau atal llifogydd ym, Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd eleni, a gweithio gyda phartneriaid (Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) i ymchwilio i broblemau yn Llangefni a Dwyran. Byddwn yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer ceisiadau am gyllid i gynlluniau ym Mhorthaethwy, Llanfairpwll, Caergybi a Fali yn 2019/20 (i bwrpas eu gwarchod i'r dyfodol o effeithiau amgylcheddol amrywiol) | Cychwynnwyd gwaith peirianyddol i leddfu dŵr wyneb ym Miwmares yn ystod y flwyddyn ond bu oedi wrth gwblhau'r cynllun oherwydd fod ein contractwr, Dawnus, wedi mynd i ddwylo'r Gweinyddwyr. Rydym wedi penodi contractwr newydd ers hyn, Alun Griffiths, ac mae'r gwaith wedi cychwyn a chaiff ei gwblhau yn ystod 2019/20.<br><br>Fe wnaethom gwblhau gwaith amddiffynfa lifogydd yn llwyddiannus ym Modffordd ond ni fu modd i ni gychwyn gwaith yn Pentraeth fel y bwriadwyd, a disgwylir y dylai'r gwaith cychwyn cyn diwedd 2019.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn galw-i-mewn ym Mhorthaethwy i drafod cynlluniau at y dyfodol am amddiffynfeydd llifogydd ac fe wnaed cais am gyllid i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd achos busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru hefyd ar gyfer gwaith yn Llanfairpwll, Y Fali a Llansadwrn. |

| **Amcan 3: Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol**<br><br>**Trawsnewid** | |
|---|---|
| Beth ddwedasom ein bod yn gwneud | Yr hyn rydym wedi'i wneud |
| Byddem yn parhau i gyd-weithio gyda'n cymunedau i gynllunio lle gyda'r bwriad o'i harfogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu cymunedau eu hunain | Mae'r gwaith yn parhau gyda wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn gyda'r bwriad o sicrhau perchnogaeth dros yr agenda a'r blaenoriaethau lleol. Mae rhai wardiau wedi datblygu ymhellach ar hyd y daith nag eraill ond gobeithiwn trwy gydweithredu y bydd pob un o'r wardiau a amlinellir wedi symud ymlaen ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. |
| Byddem yn cyd-weithio gyda Chyngor Tref Biwmares i allanoli rheolaeth o'r Carchar a'r Llys i bwrpas cynnal yr atyniad twristiaeth hanesyddol yn y dref i'r dyfodol | Sefydlwyd cytundeb gyda Chyngor Tref Biwmares yn ystod y flwyddyn i allanoli'r gwaith o reoli'r Llys a'r Carchar. Bydd y cytundeb yn caniatáu i'r atyniadau hanesyddol aros ar agor i'r cyhoedd gan barhau i ddarparu darlun hanesyddol o achosion llys a bywyd yn y carchar ar ddiwedd y 18fed ganrif a thrwy'r 19eg ganrif. Dymunwn yn dda i Gyngor Tref Biwmares at y dyfodol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi allanoli'r gwaith o redeg Melin Llynnon a'r Tai Crynion i gogydd |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | lleol, Richard Holt a dymunwn yn dda iddo yntau hefyd. |
| Byddem yn peilota estyniad o'n cynnig Cyswllt Môn allan yn y gymuned mewn llyfrgelloedd i bwrpas hyrwyddo mynediad i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn fwy eang | Ni wnaeth ein bwriad i dreialu estyniad i'n gwasanaeth Cyswllt Môn i'r llyfrgelloedd cymunedol ddigwydd yn ystod y flwyddyn.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi prynu'r offer yn barod at y peilot a byddwn yn dechrau treialu hyn yn llyfrgelloedd Porthaethwy ac Amlwch yn 2019. Mae materion technegol wedi ein dal yn ôl, ond rydym wedi goresgyn y rhain bellach. |
| Byddem yn ail-lunio'n gwefan corfforaethol i'w wneud yn haws i drigolion yr Ynys fedru derbyn / chwilio a chyfleu gwybodaeth angenrheidiol mewn ffordd ystyrlon newydd | Fel rhan o gynllun gweithredu y Strategaeth Iaith Gymraeg, fe wnaeth y Cyngor ymrwymo i raglen dreigl 6 blynedd i ddarparu cefnogaeth ddwys i Wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol.<br><br>Mae pencampwyr iaith yn y gwasanaethau Hamdden a Gwarchod y Cyhoedd wedi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn frwd yn ystod y flwyddyn. Mae dysgwyr Cymraeg yn y gwasanaethau wedi bod yn gweithio gyda mentoriaid ac wedi mynychu sesiynau 'paned a sgwrs' i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. |
| Byddem yn ysgogi ac yn cefnogi'r gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden i bwrpas cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg ein gweithlu drwy gyd-weithio'n ddwys ac yn rhagweithiol ar ymyraethau llwyddiannus | Fe wnaethom ail-ddylunio ein gwefan yn llwyddiannus ac mae golwg newydd, ffres iddi erbyn hyn a gefnogir gan bob math o lwyfannau o Gyfrifiaduron Personol i ffonau symudol.<br><br>Bydd hyn yn galluogi pob defnyddiwr i gael y profiad gorau posib waeth pa ddyfais mae arni, a bydd hefyd yn ein galluogi ni i weithredu ein strategaeth ddigidol ac yn ei dro yn gymorth i ni leihau costau. |

Ar gyfer yr amcan hwn o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol credwn ein bod ar hyn o bryd yn 'Gwneud Newidiadau Syml' gyda'r gwaith a wnaed eisoes yn ystod y flwyddyn. Credwn hyn am ein bod yn ymgymryd â gwaith yn yr amcan hwn sy'n gymharol hawdd i'w gyflawni ac mae nifer o'r newidiadau wedi cael eu profi'n llwyddiannus eisoes gan sefydliadau eraill tebyg i ni'n hunain.

Er enghraifft, rydym wedi gweithio'n ddiflino i gydweithio ac allanoli rhai o'n hasedau treftadaeth i ddyn busnes / cyngor tref lleol, rydym wedi cyflawni'r hyn a allwn o safbwynt Credyd Cynhwysol gan hefyd ddeall y rhwystredigaethau cenedlaethol ehangach, ac rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ein gwaith gyda digartrefedd trwy weithio gyda datblygwyr a sicrhau llais i bob grŵp sy'n cael ei dan-gynrychioli.

Mae ein strategaeth iaith a'n ffrydiau gwaith cysylltiedig hefyd yn parhau i ddwyn ffrwyth gyda mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yn y gwasanaethau wedi'u targedu.

DRAFT

**Dangosyddion Perfformiad a Dadansoddiad**

| PAM/020: Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | PAM/021: Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | PAM/022: Canran y ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol |
|---|---|---|
| 2.9% (Gwyrdd) | 3.8% (Gwyrdd) | 8.7% (Gwyrdd) |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf | Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf | Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Canolrif Isaf |
| Tuedd: 17/18 - 2.9% | Tuedd: 17/18 - 4.2% | Tuedd: 17/18 - 8.9% |

| PAM/010: Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | PAM/030: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | PAM/035: Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon |
|---|---|---|
| 95.6% (Melyn) | 69.9% (Melyn) | 0.2 Days (Gwyrdd) |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Canolrif Isaf | Perfformiad Cenedlaethol: TBC | Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf |
| Tuedd: 17/18 - 93.6% | Tuedd: 17/18 - 72.2% | Tuedd: n/a |

| PAM/043: Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | PAM/018: Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau gofynnol | PAM/019: Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd |
|---|---|---|
| 236kg/person (Melyn) | 80.9% (Coch) | 73.7% (Gwyrdd) |
| Perfformiad Cenedlaethol: TBC | Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Isaf | Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf |
| Tuedd: n/a | Tuedd: 17/18 - 86.1% | Tuedd: 17/18 - 47.1% |

Yn debyg i'r 2 amcan cyntaf, mae'r dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r amcan wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Roedd 78% o'r dangosyddion uwchlaw'r targed am y flwyddyn, roedd 11% o fewn 5% o'r targed ac roedd y 11% yn weddill yn goch yn erbyn y targed.

Rydym yn hapus i adrodd bod ein ffyrdd A, B, a C (PAM/021+022+023) unwaith eto wedi cwrdd â'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Mae perfformiad y ffyrdd A a B yn arbennig yn ein rhoi yn y chwartel uchaf yn genedlaethol tra bod ein ffyrdd C wedi gwella ers 2017/18 ond yn parhau yn y canolrif chwartel is.

Er nad oedd ein dangosydd ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio (PAM/030) wedi hitio'r union un lefelau ailgylchu ag yn 2017/18, rydym dal i fod flynyddoedd ar y blaen i darged Llywodraeth Cymru

o ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025. Roedd y rheswm am beidio cyflawni'r 72% a gyflawnwyd yn 2017/18 oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth ar ôl i dân dorri allan yn ffatri ein darparwr allanol, a olygodd nad oedd peth o'n gwastraff ar gael i'w ailgylchu.

Un dangosydd na gyrhaeddodd ei darged am y flwyddyn oedd y ganran o geisiadau cynllunio a gafodd eu penderfynu o fewn 8 wythnos (PAM/018). Cafodd y dangosydd hwn a chamau lliniaru i gywiro'r perfformiad eu monitro yn y cerdyn sgorio chwarterol yn ystod y flwyddyn. Y prif resymau am y perfformiad hwn oedd salwch tymor hir yn ystod cyfran sylweddol o'r flwyddyn ac effaith paratoi system gynllunio electronig newydd. Mae proses newydd nawr mewn lle a rydym yn rhagweld ddylai arwain at well perfformiad yn 2019/20.

DRAFFT

## Perfformiad Ariannol 2018/19

**Y Gyllideb Refeniw**

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer ei wariant dydd i ddydd. Gelwir y gyllideb hon y Gyllideb Refeniw a dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor ei angen i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth grantiau mae'n eu derbyn gan y Llywodraeth.

Yn ystod 2018/19, gosodwyd cyllideb refeniw y Cyngor ar £130.9 miliwn (£126.2m yn 2017/18).

Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllidebau ac yn mesur ei berfformiad ariannol trwy gyfrif rheoli, mae hyn yn caniatáu i ni dracio gwariant yn erbyn gweithgareddau a gynlluniwyd dros y flwyddyn.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyfrif Refeniw wario £131.5 miliwn, sef gorwariant o £633 mil yn erbyn y gwariant a gynlluniwyd o £130.9 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, trwy drawsnewid gwasanaethau a ffyrdd gwell o weithio, fe wnaeth y cyngor gynhyrchu gwerth £2.1 miliwn o arbedion. Roedd effaith y gorwariant yn golygu bod y Cyngor wedi lleihau ei Gronfeydd wrth gefn Cyffredinol o £633 mil.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 a'r incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn:

| Gwasanaethau | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 48,959 | 49,183 | 224 |
| Gwasanathau Oedolion | 24,921 | 26,094 | 1,173 |
| Gwasanaethau Plant ac Theuluoedd | 8,729 | 10,565 | 1,836 |
| Tai | 1,091 | 802 | (289) |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 14,884 | 14,690 | (194) |
| Rheoleiddio | 3,820 | 3,646 | (174) |
| Trawsnewid | 4,431 | 4,322 | (109) |
| Adnoddau | 2,840 | 2,886 | 46 |
| Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol | 21,225 | 19,345 | (1,880) |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **130,900** | **131,533** | **633** |

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Mae gwariant cyfalaf fel arfer yn cael ei weld fel gwariant "unwaith ac am byth" ac mae'n arwain at adeiladu neu wella ein hasedau, er enghraifft ein eiddo.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £37.017 miliwn ar gyfer gwasanaethau heblaw tai, ac fe gymeradwyodd Raglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT (Cyfrif Refeniw Tai). Yn ychwanegol, cafodd ymrwymiadau cyfalaf gwerth £9.348m eu dwyn ymlaen o 2017/18.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd gwerth £5.058 miliwn yn rhagor o Gynlluniau i'r rhaglen, gyda'r rhain yn cael eu hariannu'n bennaf gan Grantiau Cyfalaf ychwanegol, a chafodd cyllidebau eu diwygio gan arwain at ostyngiad o £0.959 miliwn. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 i £62.881 miliwn.

Llwyddodd y rhaglen i sicrhau cyfradd gyflawni o 48.78% a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae un cynllun sef 'y Brifforddd newydd i Wylfa Newydd' wedi ei ohirio am y tro, a bydd un cynllun sef 'Gofal Ychwanegol yn Seiriol' nawr yn cael ei ariannu trwy ffynhonnell ariannu arall.

Arweiniodd hyn at gyfanswm gwariant o £30.678 miliwn, ychwanegwyd £19.307 miliwn i werth asedau. Mae'r gweddill naill ai'n cefnogi asedau nad ydynt ym mherchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£1.954 miliwn) neu ni wnaethant gynyddu'r gwerth i'r asedau cyfalaf (£9.417 miliwn).

DRAFT

## Casgliad

Mae'n bleser gan Gyngor Sir Ynys Môn gyflwyno ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol am 2018/19 i'n cymuned. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd sy'n cael ei werthfawrogi ar draws yr ynys ac i wneud ein gorau glas i gynnal neu wella ein perfformiad er mwyn sicrhau bod ein trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.

Ar y cyfan, mae ein perfformiad ar gyfer 2018/19 wedi bod yn dda iawn, yn enwedig mewn cyfnod lle torrwyd £2.5m pellach oddi ar y gyllideb. Mae'n galonogol ein bod yn parhau i wella ein gwasanaethau drwy'r Cyngor cyfan, fel y gwelir trwy'r adroddiad, a'n bod wedi llwyddo i gwblhau gwaith pwysig yn ystod y flwyddyn.

Mae'r newyddion diweddar ynglŷn â gohirio datblygiad Wylfa Newydd wedi amlygu pwysigrwydd y datblygiad. Er gwaethaf y newyddion yma, rydym yn parhau i weithio er budd Ynys Môn mewn perthynas â'r broses gynllunio ac rydym wedi cyflwyno tystiolaeth er mwyn gwarchod buddiannau'r ynys ac mae'r cytundeb adran 106 yn destament i'n hymdrechion i liniaru'r effeithiau.

Gan edrych ymlaen i 2019/20, mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn dal i fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posib o brosiectau mawr arfaethedig, ynghyd â dylanwadu ar y Papur Gwyn Ynni drafft fel 'map llwybr' i ddarparu datblygiad niwclear newydd yn Wylfa.

Byddwn yn drafftio, yn ymgynghori ynghylch, ac yn mabwysiadu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn er mwyn gwella ffyniant Amlwch a Gogledd Ynys Môn ac yn sicrhau cyllid i weithredu'r cynllun, mae £495k wedi'i sicrhau eisoes diolch i'r NDA.

Byddwn yn parhau i weithredu ein strategaeth i ddatblygu'r Gymraeg o fewn ein hysgolion gan hefyd ysgogi a chefnogi ein staff yn y gwasanaethau Hamdden, Tai a Gwarchod y Cyhoedd i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynorthwyo 20 o fusnesau lleol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy ein prosiect Arfor.

Byddwn yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ni ar gyfer moderneiddio ysgolion yn nalgylchoedd Llangefni, Seiriol ac Amlwch ac wedi hynny yn ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen.

Yn y Gwasanaethau Plant byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi diogelwch a llesiant plant ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu 3 o gartrefi grŵp bach ar Ynys Môn – Cartrefi Clyd Môn yn 2019/20. Bydd hyn yn caniatáu i ni gefnogi plant sydd ag anghenion uchel o fewn eu hardal leol ac nid mewn lleoliadau all-sirol, costus.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn anelu i ganolbwyntio ar fodel o gefnogaeth ddydd i unigolion gydag Anabledd Dysgu mewn ffordd sy'n cwrdd â'u nodau ac sy'n eu cefnogi i ddod yn eu blaenau. Mewn partneriaeth â'n partneriaid iechyd a thrydydd sector, rydym hefyd yn bwriadu sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol o fewn 3 ardal yn Ynys Môn er mwyn darparu'r gefnogaeth orau i bobl allu aros yn annibynnol, a chaiff hyn ei gyflawni gan dimau integredig.

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl weithio efo ni trwy weithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn a wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn ynglŷn â chynllunio lle, gyda'r nod o'u galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth am eu cymunedau eu hunain.

Bydd angen gwireddu'r uchod i gyd ar adeg pan ragwelir y bydd angen toriadau cyllidebol pellach. Bydd yr her hon yn cael ei chyflawni'n uniongyrchol trwy ein proses gosod cyllideb flynyddol.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn: www.anglesey.gov.uk/councilplan

DRAFT

## Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych sylwadau, cysylltwch â:

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni, Ynys Môn

LL77 7TW

Ffôn - 01248 752111

E-bost:–

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a gall fod ar gael ar ddisg neu mewn Braille. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22:

http://www.anglesey.gov.uk/councilplan

Mae gwybodaeth bellach ar gael hefyd fel a ganlyn: polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a gellir eu gweld yn: www.anglesey.gov.uk

Mae adroddiadau Archwilio ac Arolygon a gynhyrchwyd gan Rheoleiddwyr y Cyngor ar gael o'u gwefannau unigol, fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.sac.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: https://arolygiaethgofal.cymru
- Estyn: www.estyn.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael gafael ar ddogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a welir ar frig y dudalen os gwelwch yn dda.

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2019/20)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

| **A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau** |
|---|
| **1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20<br><br>**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.<br><br>**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.<br><br>*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*<br><br>**1.3.1** Mae tanberfformiad yn cael ei gydnabod a'i reoli gyda mesurau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a bydd craffu parhaus ar berfformiad ariannol gyda phwyslais ar, a chefnogaeth benodol yn cael ei roi i'r gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol er mwyn sicrhau nad yw eu rheolaeth ar berfformiad yn dirywio neu'n tangyflawni yn Ch2.<br><br>**1.5** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. |
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 27 Awst ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylchedd** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 4 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.) | | |

**ADRODDIAD MONITRO SCORECARD - CHWARTER 1 (2019/20)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Gwella Cymru yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith sy'n ein galluogi i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n gallu i'w diwallu a gwerthuso effaith ein gweithredoedd.

1.2. Mae ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac yn nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF). Mae'r DGF yn cael ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y cyngor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis sydd i ddod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn erbyn y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol hon, ac fe'i cyhoeddir cyn diwedd mis Hydref.

1.3. Defnyddir yr adroddiad hwn ar fonitro’r cerdyn sgorio hwn fel rhan o'r broses o fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd, sy’n gyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth gyflawni gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Cafodd y dangosyddion ar gyfer eleni sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio (yn debyg i flynyddoedd blaenorol) eu penderfynu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf, 2019 gydag aelodau o'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad a gafwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth ynghylch y dangosyddion hynny a nodwyd ganddynt fel rhai allweddol a phwysig.

1.5. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu’r sefyllfa gyfredol ar ddiwedd Ch1 a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Fel rhan o'r gweithdy y soniwyd amdano uchod, cytunwyd bod angen gwneud rhai newidiadau i'r Cerdyn Sgorio eleni er mwyn sicrhau ymagwedd mwy strategol. I'r perwyl hwnnw, mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan strategol y Cynghorau:

- Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir


- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

2.2. Mae yna hefyd rai DPA sydd wedi cael eu dileu oherwydd yr ystyrir eu bod yn rhy weithredol ar gyfer y Cerdyn Sgorio.

2.3. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn dwyn ynghyd mewn un adran yn lle tair, yr adrannau hynny o'r adroddiad sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cwsmer, Rheoli Pobl a Rheolaeth Ariannol fel y gellir cynnal dadansoddiad manylach o ddangosyddion cysylltiedig er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith bod ein cyflawniadau o ran rheoli perfformiad yn gadarn ac yn gynaliadwy. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod mwy o bwyslais strategol yn cael ei roi ar yr adroddiad hwn.

2.4. Ers i adroddiad Cerdyn Sgorio Ch4 2018/19 gael ei drafod ym mis Mehefin 2019, mae'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) wedi cael eu cyhoeddi gan Data Cymru.

2.5. Mae'r siart bar isod (Siart 2) yn dangos ein perfformiad dros y 3 blynedd diwethaf ar gyfer dangosyddion MAC cymharol, sef y dangosyddion MAC a gafodd eu monitro'n flaenorol ar gyfer y cyfnod 2016 i 2018. Mae'r siart yn dangos bod 4 dangosydd perfformiad ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Chwartel Uchaf (6 Uchaf), 1 wedi'i ychwanegu at y Chwartel Canol Uchaf (7fed i 11eg), 1 yn llai o ddangosyddion yn y Chwartel Canolrif Isaf (12fed i 16eg) a 2 yn aros yn y Chwartel Is (17eg i 22ain).





*Siart 1*

2.6. Mae'r perfformiad hwn sy'n gysylltiedig â'n dangosyddion cyhoeddedig, yn nodi bod ein safle cenedlaethol wedi gwella unwaith eto eleni gan mai ni sydd â'r nifer fwyaf o ddangosyddion yn y chwartel uchaf ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn galonogol i'w nodi a gallai rhywun ddadlau bod perfformiad o'r fath i'w briodoli i'r her ychwanegol a monitro a wnaed ar y cerdyn sgorio dros y 3 blynedd diwethaf.

2.7. Mae'r siart cylch isod (siart 2) hefyd yn dangos bod perfformiad ar 54% o'n dangosyddion yn ystod 2018/19 naill ai wedi gwella neu wedi'i gynnal a bod perfformiad ar 40% ohonynt wedi dirywio o gymharu â pherfformiad 2017/18. Mae 7% o'r

dangosyddion yn ddangosyddion MAC newydd ar gyfer y flwyddyn ac felly nid oes data perfformiad ar gael ar gyfer 2017/18 y gellir eu cymharu yn ei erbyn.




*Siart 2*

2.8. Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad blynyddol cyffredinol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ystod yr hydref.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac sy'n cael ei ddadansoddi er mwyn sicrhau gwelliant. Ar ddiwedd Ch1, mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 2.24 diwrnod wedi eu colli oherwydd absenoldeb fesul cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn y cyfnod. Mae hwn yn welliant o gymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod Ch1 2018/19 lle collwyd 2.69 diwrnod oherwydd absenoldeb fesul CALl. Mae hefyd ar yr un lefel â'r 2.23 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul CALl yn Ch1 2017/18, sef y flwyddyn ble gwelwyd y perfformiad gorau o safbwynt absenoldeb ers i ni ddechrau monitro fel hyn.

3.3. Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i ddwyn ffrwyth yn ystod Ch1 lle mae mwyafrif y dangosyddion o dan yr is-bennawd newid i wasanaeth digidol yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch4. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd tybir bod costau'r trafodion hyn yn is na'r cyswllt wyneb yn wyneb.

3.4. Ar hyn o bryd nid oes achos i bryderu gyda'r is-bennawd siarter gwasanaeth cwsmeriaid lle mae mwyafrif y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes wrth ddatblygu'r Strategaeth Cwsmeriaid a fydd wedi'i chwblhau erbyn diwedd Ch2.

3.5. Mae'r adran rheolaeth ariannol ar ddiwedd Ch1 yn dangos rhagamcan cychwynnol y bydd gorwariant o £ 1.6m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Disgwylir y bydd gorwariant o £ 1.481m ar gyllidebau'r gwasanaethau a rhagwelir y bydd gorwariant o £ 0.265m ar gyllid corfforaethol. Disgwylir tangyflawniad o

£ 0.158m mewn perthynas â'r Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir gwarged o £ 0.304m ar incwm yn gysylltiedig â Phremiwm y Dreth Gyngor. Y gwarged net ar y Dreth Gyngor yn gyffredinol yw £ 0.146m.

3.6. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion yn parhau i fod dan bwysau oherwydd y galw cynyddol a throsglwyddo lleoliadau costus o'r Gwasanaethau Plant. Mae'n arferol i'r sefyllfa alldro derfynol fod yn well na'r amcangyfrif yn y chwarter cyntaf. Ar ben hynny, pe bai'r gorwariant yn digwydd mewn gwirionedd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £ 4.791m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i ariannu rhan o gyllideb 2019/20 .

3.7. Gellir gweld mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw Ch1' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 16 Medi.

3.8. Yr hyn a ddangosir drwy hyn felly yw bod y dadansoddiad o'r cardiau sgorio yn darparu sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau beunyddiol y Cyngor o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau i safon sy'n briodol ac wedi ei chytuno gan Aelodau. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod mwyafrif y dangosyddion o safbwynt rheoli perfformiad hefyd yn perfformio'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Ar ddiwedd Ch1, mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau  Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yr oeddem ynddi yn ystod Ch1 yn 2018/19. Wedi dweud hyn, rydym yn nodi bod pum dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ar ddechrau'r flwyddyn ac fe'u hamlygir fel Coch neu Ambr yn y Cerdyn Sgorio.

4.2. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch1 wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosyddion sy'n cael eu monitro bob chwarter yn erbyn yr amcan yn tanberfformio ar hyn o bryd ac mae pob dangosydd ac eithrio un yn WYRDD yn erbyn y targedau ar gyfer y chwarter.

4.3. Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** hefyd wedi perfformio'n dda gyda dim ond tri dangosydd o'r 17 a gafodd eu monitro yn Ch1 (18%) yn tanberfformio ar gyfer yr amcan ar hyn o bryd.

4.3.1. Dangosydd 25 - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd mewn amser – sy'n AMBR gyda pherfformiad o 85.32% yn erbyn targed o 90 %.Mae hyn i lawr o'r 96.39% a welwyd yn Ch1 2018/19 ac ychydig yn is na'r canlyniad a welwyd ar ddiwedd 2018/19, sef 86.17%.

Y rheswm pam fod asesiadau'n hwyr yn cael eu cwblhau oedd diffyg rheolaeth mewn un grŵp ymarfer, mater sydd wedi cael sylw ers hynny. Wrth symud

ymlaen, mae proses newydd wedi'i chyflwyno lle bydd y data'n cael ei goladu mewn dull gwahanol a ddylai arwain at berfformiad gwell i Ch2.

4.3.2. Dangosydd 34 - Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymer i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo sy'n anodd i'w gosod neu 'DTLs') - sy'n GOCH oherwydd mae'n cymryd 25.6 diwrnod ar gyfartaledd i osod unedau yn erbyn targed o 21 diwrnod.

Yn ystod y chwarter gosodwyd 62 uned o lety ac o'r rhain gosodwyd 43 (cyfanswm o 69%) y tu allan i'r targed o 21 diwrnod. Cymerodd 17 o'r 43 uned (40%) hefyd fwy na 42 diwrnod i'w gosod yn ystod y cyfnod.

Er mwyn gwella'r sefyllfa o Ch2 ymlaen, mae proses symlach newydd wedi'i chyflwyno o fewn yr Gwasanaeth Tai. Y gobaith yw y dylai'r broses newydd arwain at osod unedau mewn modd mwy amserol.

4.3.3. Dangosydd 35 - Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.6% yn cael ei golli yn erbyn targed o 1.15%

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodwyd uchod. Gan ei bod wedi cymryd mwy o amser i osod unedau llety gosodadwy, mae'r rhent a gollir yn uwch.

4.4. Mae'r dangosyddion i fonitro **Amcan 3** hefyd wedi perfformio'n dda yn Ch1 - dim ond un dangosydd o'r saith (14%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan sydd wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.4.1. Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodi cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 55% yn erbyn targed o 80%.Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y Cerdyn Sgorio eleni, fodd bynnag, 17% oedd perfformiad y dangosydd hwn yn ystod Ch4 2018/19.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ystyried yr ôl-groniad hanesyddol ac mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol dros bob chwarter canlyniad yn 2018/19 wrth i brosesau newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r ôl-groniad gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

5.1.1. Mae tanberfformiad yn cael ei gydnabod a'i reoli gyda mesurau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 a bydd craffu parhaus ar berfformiad ariannol gyda phwyslais ar, a chefnogaeth benodol yn cael ei roi i'r gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol er mwyn sicrhau nad yw eu rheolaeth ar berfformiad yn dirywio neu'n tangyflawni yn Ch2.

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2019/20

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Gwyrdd / Green | - | 94.70% | 93.90% | 93.90% | - | 93.90% | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Gwyrdd / Green | - | 93.50% | 93.30% | 93.30% | - | 93.30% | 94.80% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) | - | - | - | - | - | 1.10% | 4.20% | 2.30% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) | - | - | - | - | - | 349.1 | 335.9 | - |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) | - | - | - | - | - | 88.30% | 72.60% | - |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) | - | - | - | - | - | 65% | 63.70% | - |
| llyfrgelloedd (blynyddol) | - | - | - | - | - | 82% | - | - |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Gwyrdd / Green | - | 122k | 120k | - | 553k | 508k | 464k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | - | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Gwyrdd / Green | - | 100% | 90% | 90% | - | - | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | - | 78% | 50% | 50% | 70% | - | - |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | - | 85% | 80% | 80% | 83% | - | - |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | - | 40 | 19 | 75 | 78 | 75 | - |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | - | 2 | 1 | 4 | 9 | 4 | - |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | - | 100% | 100% | 100% | 100% | - | - |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Melyn / Yellow | - | 12.33 | 12 | 12 | 13.63 | - | - |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (Ch4/Q4) | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Gwyrdd / Green | - | 1.66 | 3 | 3 | 7.78 | 6.58 | 6.05 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Melyn / Yellow | - | 87.80% | 90% | 90% | 90.91% | 93.25% | 90.48% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | - | 80% | 35% | 35% | 30.87% | 59.26% | 62.60% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | - | 61.80% | 62% | 62% | 62.84% | 62.65% | 33.30% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | - | 17.4 | 19 | 19 | 17.35 | 17.44 | 20.51 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 98.20% | 93% | 93% | 93.30% | 96% | 94.40% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Ambr / Amber | - | 85.32% | 90% | 90% | 86.17% | 67.57% | 89.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | - | 1.88% | 2.50% | 10% | 9.52% | 9% | 5% |
| 27) Canran y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestri Amddiffyn Plant awdurdodau lleol | Melyn / Yellow | - | 10.53% | 10% | 10% | 16..87% | - | - |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 220 | 270 | 270 | 241 | 326.5 | 266 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | - | 98.27% | 95% | 95% | 98% | - | - |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | - | 85.32% | 90% | 90% | 86.17% | 63.32% | 79.35% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | - | 69.00% | 60% | 60% | - | - | - |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | - | 83.30% | 60% | 60% | 55.10% | 65.20% | - |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | - | 173 | 170 | 170 | 161.9 | 177 | - |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | - | 25.6 | 21 | 21 | - | - | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | - | 1.60% | 1.15% | - | 1.30% | - | - |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | - | 100.00% | 95% | 95% | 95.60% | 93.60% | 93.40% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | - | 72.79% | 70% | 70% | 69.86% | 72.20% | 65.80% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Melyn / Yellow | - | 1.13 | 1 | 1 | 0.2 | - | - |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | - | 58.31kg | 60kg | 240kg | 240kg | 236kg | 263kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Melyn / Yellow | - | 86% | 90% | 90% | 80% | 86% | - |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Melyn / Yellow | - | 50% | 65% | 65% | 74% | 47% | - |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Coch / Red | - | 55% | 80% | 80% | - | - | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | - | - | - | - | 2.90% | 2.90% | 2.90% | 2.30% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | - | - | - | - | 3.80% | 3.80% | 4.20% | 3.20% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | - | - | - | - | 8.70% | 8.70% | 8.90% | 10.10% |

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2019/20

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 10 | 19 | 76 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 2 | - | 8 | 9 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 4 | - | 27 | 28 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | 80% | 93% | 92% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Ambr / Amber | ↓ | 67% | 80% | 57% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 15 | - | 44 | 51 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | 19 | - | 62 | 112 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | 147 | - | 513 | 753 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 85% | 80% | 81% | 78% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 205 | - | 1052 | 919 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 9.6k | - | 8.2k | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 1.9k | - | 4.7k | 2k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 3.8k | - | - | - |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 2k | - | - | - |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 30k | 29.5k | 29.5k | 25k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 194k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2180 | | | - |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1227 | - | - | - |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.24 | 2.45 | - | - |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.87 | - | - | - |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.37 | - | - | - |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.49 | 2.75 | - | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.88 | - | - | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.61 | - | - | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 2.11 | 1.92 | - | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.66 | - | - | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.44 | - | - | - |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | 11% | 11% | - |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 84% | 90.50% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Melyn / Yellow | - | £36,078,971 | £36,230,418 | 0.42% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | - | £135,210,190 | - | - | £136,809,905 | 1.18% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £23,279,000 | - | - | £18,481,000 | -20.61% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Melyn / Yellow | - | £2,735,000 | - | - | £2,380,000 | -12.98% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | - | -£2,723,899 | -£3,115,152 | 14.36% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | - | £2,184,000 | - | - | £0 | 0.00% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | - | £4,262,730 | - | - | £4,260,516 | -0.05% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Gwyrdd / Green | - | - | 85.33% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 98.70% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 98.60% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 95.20% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 99.36% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 98.65% | - | - | - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16 Medi, 2019** |
| **Pwnc:** | **Ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Rhys Howard Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br>**01248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Margaret M Roberts**<br>**Cynghorydd Ieuan Williams**<br>**Cynghorydd Vaughan Hughes** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Derbyniodd yr Adran Addysg Cyngor Ynys Môn gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre ar 12 Mawrth, 2019 i gynnal ymgynghoriad ar sefydlu trefniant ffederasiwn rhwng y ddwy ysgol a hynny erbyn Ionawr 2020. Yn dilyn hyn cafwyd cais gan Gadeiryddion y ddau gorff i dderbyn arweiniad pellach ar yr opsiynau a'r broses ymgynghori. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 30 Ebrill [Goronwy Owen] a 7 Mai [Moelfre]. Wedi ystyried nifer o opsiynau daethpwyd i'r canlyniad mai ffederaleiddio oedd yr opsiwn gorau i'r ddwy ysgol. Yn eu cyfarfod ar 20 Mai, 2019 cymeradwyodd aelodau'r Pwygor Gwaith y cais ac awdurdodwyd swyddogion i gychwyn y broses o ymgynghori.

**Camau gweithredu**

Cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor Sir yn ogystal ag anfon copïau caled i nifer o ymgyngoreion. Yn unol â rhestr rhanddeiliaid yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 anfonwyd cyswllt i'r cynnig ar safle we'r Cyngor. Hysbyswyd rhanddeiliaid fod copïau papur ar gael i'w harchwilio yn y ddwy ysgol yn ogystal ag yn y Llyfrgell ym Menllech.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori a chyflwyno gwybodaeth i'r ddau gorff Llywodraethu ar y cyd, disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar Cyngor Ysgol. Yn ogystal â hyn trefnwyd cyfnodau galw i mewn ar y ddau safle ar 18 a 20 Mehefin, 2019 er mwyn trafod oblygiadau'r cynnig ar drefniadaeth y ddwy ysgol.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd yr ymatebion hynod bositif a dderbyniwyd gan rieni'r ddwy ysgol yn ganmoladwy o'r arweinyddiaeth, y staff a'r ethos yn y ddwy ysgol. Yn ogystal â hyn derbyniwyd cwestiynau ynglŷn ag oblygiadau ffederaleiddio. Mae hyn yn cael ystyriaeth yn yr adroddiad atodedig.

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i symud ymlaen gyda'r broses ffederaleiddio rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol fodd bynnag mae'r ysgolion a'r Cyrff Llywodraethu'n awyddus i symud i ymgynghori ar y cynnig hwn oherwydd manteision ffederaleiddio. Yn bennaf bydd ffederaleiddio yn galluogi'r ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol, gan rannu un corff llywodraethu, a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf y ddwy ysgol, staff a disgyblion o fewn y ffederasiwn hwnnw.

| Opsiynau amgen | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Ysgol aml safle | • Un gyllideb<br>• Un wisg ysgol<br>• Un enw<br>• Un ysgol ar ddau safle | • Cau'r ddwy ysgol<br>• Colli hunaniaeth<br>• Gwrthwynebiadau lleol |
| Aros mewn partneriaeth gyda dau gorff llywodraethu yn rheoli. | • Cadw aelodaeth y cyrff llywodraethu yn lleol | • Anghynaladwy i'r pennaeth, gofynion amser yn uchel<br>• Dim yn sefyllfa ddeniadol i ymgeiswyr<br>• Dim yn gallu cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau<br>• Anodd recriwtio aelodau ar gyfer dau gorff |

Yng ngoleuni hyn mae'r Awdurdod yn cefnogi'r cais i ffederaleiddio.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae ffederaleiddio yn 'newidiad a reoleiddir' o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy, er mai dyma'r cynnig cyntaf i ffederaleiddio ym Môn mae'n cyd fynd a'r weledigaeth foderneiddio sydd yn anelu at sicrhau addysg o'r radd uchaf i bob disgybl ynghyd a chynnal a chodi safonau ymhellach. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad 1** - Cyflwyniad Corff Llywodraethu – Ffederaleiddio<br>**Atodiad 2** - Ymatebion/arolwg disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Chyngor ysgol y ddwy ysgol. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

# ADRODDIAD AR Y CYNNIG I YMGYNGHORI YNGLŶN Â FFEDERALEIDDIO YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL GYMUNED MOELFRE.

## Yn weithredol o
## 6 Ionawr, 2020

**A. CEFNDIR**

Ym mis Mawrth 12fed, 2019 derbyniwyd gohebiaeth gan gadeiryddion corff llywodraethu y ddwy ysgol yn amlinellu diddordeb i ffederaleiddio Ysgol Gymuned Moelfre ac Ysgol Goronwy Owen a hynny erbyn 6 Ionawr 2020. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn gweithio mewn partneriaeth wirfoddol o dan ofalaeth a rheolaeth un pennaeth a phennaeth cynorthwyol [Ysgol Moelfre]. Byddai ffurfioli'r bartneriaeth yn golygu parhau gyda'r cyd weithio llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli o dan arweinyddiaeth y pennaeth presennol.

Yn eu cyfarfod ar 20 Mai, 2019 cefnogodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Ynys Môn yr argymhelliad i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig i sefydlu ffederasiwn rhwng Ysgolion Moelfre a Goronwy Owen.

**B. Y BROSES YMGYNGHORI**

Roedd y cyfnod ymgynghori ar ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Gymuned Moelfre yn rhedeg am gyfnod o 6 wythnos, rhwng 3 Mehefin a 15 Gorffennaf 2017.

Cyhoeddwyd y cynnig fel rhan o'r broses ymgynghori, sef un o gyfrifoldebau'r cynigydd, yn unol â'r drefn statudol a osodir gan y Rheoliadau Ffedereiddio 2014 a Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori a chyflwyno gwybodaeth i'r ddau gorff Llywodraethu ar y cyd ar 21 Mai, disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar Cyngor Ysgol, 4 Mehefin. Yn ogystal â hyn trefnwyd cyfnodau galw i mewn ar y ddau safle ar 18 a 20 Mehefin, 2019 er mwyn trafod oblygiadau'r cynnig ar drefniadaeth y ddwy ysgol.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd yr ymatebion hynod bositif a dderbyniwyd gan rieni'r ddwy ysgol yn ganmoladwy o'r arweinyddiaeth, y staff a'r ethos yn y ddwy ysgol.  Yn ogystal â hyn derbyniwyd cwestiynau ynglŷn ag oblygiadau ffederaleiddio. Mae'r rhain yn cael ystyriaeth lawn yn yr adroddiad hon.

## C. YMATEBION

| |
|---|
| **CORFF LLYWODRAETHU**<br>Cyfarfod 21/5/19 [Cyflwyniad Atodiad 1]<br>Roedd aelodau'r ddau gorff yn gytûn wrth gefnogi y cais i ymgynghori ynglŷn â'r cynnig.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan aelodau'r ddau gorff. |
| **RHIENI**<br>Un rhiant fynychodd y sesiwn galw i mewn a hynny yn Ysgol Gymuned Moelfre. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan riant arall a oedd angen atebion i rai cwestiynau fel a ganlyn:<br>Prif bryderon :<br>• Mwy o bwysau gwaith ar y pennaeth<br>• Ysgol Moelfre yn cael llai o adnoddau<br>• Oes peryg i Ysgol Moelfre fynd yn llai o ran maint yn raddol a chael ei gorfodi i gau? |
| **YMATEB**<br>Pwysleisiwyd y byddai'r drefn newydd yn golygu :<br>• llai o bwysau gwaith ar y pennaeth<br>• cydbwysedd deg o aelodau ar y corff o'r ddwy ysgol<br>• cyllid y ddwy ysgol ar wahân a fyddai'n golygu dim newid ond y byddai Ysgol Moelfre yn gallu manteisio ar rannu adnoddau gydag Ysgol Goronwy Owen.<br>• eglurwyd nad oes cynlluniau ar y gweill i edrych ar Lligwy fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ar hyn o bryd.<br>Yn dilyn hyn cafwyd ymateb ysgrifenedig gan un o'r rhieni :<br>*'Do you agree  with the proposal? Yes, It sounds beneficial to both schools. Than you for the drop in session it was very helpful and informative.'* |
| **RHIENI**<br>Derbyniwyd pump ymateb ysgrifenedig trwy e-bost.<br>3 rhiant Goronwy Owen 2 riant Ysgol Moelfre<br>Roedd y tri ymateb yn hynod gadarnhaol a chanmoladwy i waith y pennaeth a'i staff *'..a sense of team spirit and clear direction, which I can only assume stems from the strong and supportive leadership of the current headteacher.'*<br>*'I have not personally seen any change at all in terms of standards dropping since the head has been covering both schools and see no reason why this would change, should this become a permanent arrangement.'*<br>'*in the trial period of our headmistress covering both schools over the past year I have seen benefits already. .....I am looking forward to seeing what further benefits the federation will have on our school.'*<br>*'Moelfre school in my opinion has gone from strength to strength over the last 18 months under* |

| |
|---|
| *the leadership of the current headteacher and I believe that this partnership would enhance the progression of Moelfre school to enable it to become more efficient and effective.'* |
| **DISGYBLION**<br>Casglwyd sylwadau disgyblion Cyfnod Allweddol 2 trwy gyfrwng holiadur yn ystod Mis Chwefror, 2019. [Atodiad 2]<br>Prif ganfyddiadau:<br>Derbyniwyd 98 ymateb o'r ddwy ysgol. Roedd 76 yn gwbl hapus gyda'r trefniadau, 20 ddim yn siŵr a 2 ddim yn hapus.<br>Yn ogystal â hyn treuliodd swyddog addysg gyfnod yn trafod ffederaleiddio gyda Cynghorau Ysgol y ddwy ysgol ar 4 Mehefin.<br>Prif bryderon:<br>• gorfod rhannu adnoddau<br>• poeni fod y ddwy ysgol yn mynd i fynd yn un.<br>• Pryder y byddai'r pennaeth yn treulio llai o amser yn Ysgol Goronwy Owen<br>Prif obeithion<br>• Rhannu tripiau<br>• Effaith bositif ar chwaraeon, cystadlaethau a gemau.<br>• Newid ysgol ac athrawon am ddiwrnod<br>• Cyfarfod plant eraill a gwneud ffrindiau newydd<br>• Rhannu teithiau addysgol, adnoddau amrywiol, gweithgareddau allgyrsiol e.e. disgo a phartïon<br>• Trefnu gweithgareddau Cymreig ar y cyd, rhannu addoliad ar y cyd.<br>Mae'n amlwg yn dilyn y ddau ymarfer yma fod y disgyblion yn cefnogi ffurfioli'r bartneriaeth sydd yn bodoli eisoes. |
| **ESTYN**<br>**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn i:**<br>**Ffederaleiddio Ysgol Gymunedol Moelfre ac Ysgol Goronwy Owen.**<br>Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.<br>O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.<br><br>**Cyflwyniad**<br>Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ynys Môn i ffederaleiddio Ysgol Gymunedol Moelfre ac Ysgol Goronwy Owen. |

**Crynodeb/Casgliad**
Mae'r cynigiwr wedi darparu cynnig cynhwysfawr, gan gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n esbonio'r rhesymeg tu ôl y cynnig yn glir.
Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal, neu wella, y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Disgrifiad a manteision**
Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymwaith clir a threfnus ar gyfer y cynnig hwn. Pwrpas y cynnig yw ffurfioli partneriaeth sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy ysgol. Golyga hyn y bydd y ddwy ysgol yn cadw eu hunaniaeth o ran enw, gwisg ysgol a chynnal cyllidebau ar wahân, ond y byddai ganddynt yr un pennaeth a'r un corff llywodraethol.
Mae'r cynigiwr wedi mynd ati i edrych ar effaith y cynnig hwn yn fanwl a nodir y manteision a'r anfanteision yn deg. Er enghraifft, bydd ffederaleiddio yn golygu sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion drwy rannu un corff llywodraethol ac un pennaeth a gellir cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau'r ysgolion.
Mae'r risgiau yn cael eu hystyried yn llawn yn y cynnig, yng nghyd â mesurau rheoli i liniaru'r risg. Er enghraifft, y risg fwyaf cyn ffederaleiddio yw diffyg cyfathrebu clir a chamddealltwriaeth. Mae hyn yn cael ei lliniari drwy gynnal cyfarfodydd, llythyru a sicrhau fod uwch aelodau staff y ddwy ysgol mewn cyswllt rheolaidd gyda'r rhieni.
Mae'r cynnig wedi ystyried opsiynau amgen addas gan restri'r manteision ac anfanteision yn deg.
Ni fydd unrhyw ysgol yn cau, yn symud dalgylch neu'n newid mewn maint oherwydd y ffederaleiddio, felly mae'n rhesymol i dderbyn na fydd newid ar drefniadau teithio dysgwyr o ganlyniad i'r cynnig. Mae hefyd yn rhesymol i dderbyn na fydd lleoedd dros ben yn cael eu heffeithio o gwbl gan y cynnig.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**
Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn addas y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, y potensial i alluogi'r ddwy ysgol i gyd weithio ar gynnal a chodi safonau ymhellach trwy'r cyfleoedd a roddir i'r disgyblion.
Mae'r cynigiwr wedi cwblhau Asesiad Effaith Chydraddoldeb ac mae'n rhesymol i gredu na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol a gynigir ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, nac ar gyfer grwpiau unigol o ddisgyblion, fel y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol neu unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig.
Mae'r cynigiwr wedi darparu cymhariaeth deg o'r ddwy ysgol gan ystyried adroddiadau arolygu mwyaf diweddar Estyn yn ogystal â barn yr awdurdod lleol ar ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth. Nid ydynt wedi darparu dadansoddiad o berfformiad yr ysgol.

**Ymateb i gais Estyn.**
***'Nid ydynt wedi darparu dadansoddiad o berfformiad yr ysgol.'***

O edrych ar berfformiad y ddwy ysgol o ran deilliannau/lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol mae'n amlwg fod y disgyblion yn y ddwy ysgol yn cwrdd â'u targedau yn llwyddiannus. Golyga hyn fod y safonau yn cael eu cynnal yn y ddwy ysgol er bod nifer uwch o

| |
|---|
| ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu bellach.<br><br>O edrych ar gynnydd y disgyblion rhwng yr Asesiad Sylfaen ar fynediad a pherfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2019, mae cynnydd y disgyblion cyfatebol yn uwch na'r disgwyl. 67.7% yn llwyddo yn yr asesiad sylfaen a 94.1% o ddisgyblion cyfatebol yn llwyddo yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen. Golyga hyn fod 26.4% o'r disgyblion cyfatebol wedi gwneud mwy o gynnydd yn ystod y cyfnod hwn na'r hyn sydd yn ddisgwyliedig.<br><br>Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae nifer y disgyblion cyfatebol eto yn gwneud y cynnydd disgwyliedig rhwng y ddau gyfnod allweddol.<br><br>Golyga hyn fod y ddarpariaeth a'r safonau yn y ddwy ysgol yn cwrdd ag anghenion y disgyblion. |
| **AALl**<br>Mae'r AA yn cefnogi'r cais i ffederaleiddio'r ddwy ysgol gan fod:<br>• Partneriaeth a chydweithio llwyddiannus eisoes wedi ei sefydlu<br>• Bod safonau yn y ddwy ysgol yn dda<br>• Rhieni a disgyblion yn cefnogi'r cynnig<br>• Manteision amlwg i'r disgyblion a staff y ddwy ysgol<br><br>'Mae hwn yn esblygiad cynhyrfus o ran datblygu ein hysgolion yn Ynys Môn er mwyn iddynt fod yn cwrdd â disgwyliadau o ran Cwricwlwm a Gweledigaeth Genedlaethol. Mae cynnal partneriaeth rhwng y ddwy ysgol yn amlwg wedi profi yn llwyddiant o dan arweinyddiaeth gadarn iawn. O gynnal yr amodau hyn, rhannu arferion da iawn sydd yn bodoli eisoes disgwylir y bydd y ddwy ysgol yn anelu am ragoriaeth i'r dyfodol.' |

## D. PRIF FATERION I'W HYSTYRIED

Bydd angen ystyried sut y bydd Ysgolion Goronwy Owen a Moelfre yn plethu o fewn rhaglen moderneiddio ysgolion Ynys Môn.

Sicrhau fod cyfansoddiad y Corff Llywodraethu a'r aelodau wedi eu dethol yn unol â chanllawiau Cenedlaethol.

Fod trefniadaeth, rhaglen weithredu ac amserlen y corff newydd wedi eu sefydlu cyn Ionawr 2020.

## E. CASGLIADAU

1. Dylai’r Cyngor symud i gyhoeddi cynnig ar ffurf hysbysiad statudol i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Gymuned Moelfre, yn weithredol o 6 Ionawr, 2020.
2. O symud i gyhoeddi cynnig statudol dylai’r Cyngor ystyried caniatáu i swyddogion symud ar y cynnig yn syth os na ddaw unrhyw wrthwynebiadau i law o fewn y cyfnod o 28 diwrnod o rybudd i gyflwyno gwrthwynebiadau. Buasai hyn yn hwyluso trefniadau i’r ysgolion. Dilynir hyn i fyny gydag adroddiad i’r Cyngor.

**ATODIAD 1**

## FFEDERALEIDDIO
## YSGOL GORONWY OWEN
## AC
## YSGOL MOELFRE




CYFNOD YMGYNGHORI
3ydd Mehefin hyd at 15fed Gorffennaf

Cyflwyniad 21/05/19

BETH YW FFEDERASIWN ?
Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae mwy nac un ysgol yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl.

Mae ffederaleiddio yn gyfle i ysgolion weithio'n agosach a'i gilydd, tra'n cadw eu hethos a'u cymeriadau unigol.

Dyma grynodeb o brif nodweddion ffederaleiddio'n ffurfiol:

- Sefydlir un corff llywodraethu fydd â throsolwg dros y ddwy ysgol
- Er bydd y ddwy ysgol yn parhau i gael eu cyllido ar wahân yn unol â fformiwla Cyngor Mon, mae gan gorff llywodraethu ffederasiwn yr hyblygrwydd i ddefnyddio cyllidebau mewn modd sydd orau i gwrdd ag anghenion y ddwy ysgol;
- Bydd penodiadau staff, gan gynnwys unrhyw swyddi arweinyddol a rheolaethol, yn cael eu cytuno ar y cyd dan gyfrifoldeb y Corff Llywodraethu Ffedereiddiedig;
- Bydd yr ysgolion sydd wedi'u ffederaleiddio yn cadw eu hunaniaethau unigol.
- Bydd yr ysgolion yn cael eu harolygu yn unigol gan Estyn gydag amseriad arolygiadau y ddwy ysgol yn debygol o gydredeg.

**MAE GAN FFEDERASIWN LWYDDIANNUS:**

- **ymdeimlad o hunaniaeth gyfrannol rhwng ysgolion mewn ardaloedd sy'n ddaearyddol agos, a chreu ymdeimlad o gymuned gynhwysol;**
- **ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin a gweledigaeth ar y cyd i wella cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd y plant;**
- **strwythur rheoli cryf a chlir sy'n galluogi'r corff llywodraethu a'r pennaeth/iaid i edrych yn strategol ar wella ysgolion a bod yn greadigol wrth ystyried datblygiad a newid er budd y plant a'u cymunedau;**
- **arweinyddion a rheolwyr sydd yn ymddiried yn ei gilydd, yn agored, yn ddiffuant ac yn fodlon gweithredu ar y cyd er lles pawb o fewn y ffederasiwn;**
- **ysgolion sydd yn barod i ymrwymo amser ac adnoddau.**
- **ymrwymiad cryf i godi safonau a chyraeddiadau ac yn gweithredu i wella cynnydd eu plant yn barhaus.**

**BETH FYDD FFEDEREIDDIO YN EI OLYGU I'CH YSGOL?**

- mae ffedereiddio yn ffordd i gefnogi disgyblion, staff, a chymunedau'r ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cais yn yr hir dymor;
- sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion drwy iddynt rannu un corff llywodraethol ac un pennaeth;
- y gallu i gydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau'r ysgolion;
- ni fydd ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant;
- er bydd y ddwy ysgol yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw'u henwau presennol;
- bydd plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion gan yr un staff;
- ni fydd unrhyw newid yng ngwisgoedd yr ysgolion;

**Y BROSES FFEDEREIDDIO**

Er mwyn sefydlu Ffederasiwn, rhaid dilyn rhai camau penodol:

Cam 1: Ystyried potensial y Ffederasiwn

- Cytundeb rhwng cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol ynghyd â'r Awdurdod Lleol eu bod yn dymuno ystyried y dewisiadau o ran sefydlu Ffederasiwn
- Cais i Bwyllgor Gwaith y Cyngor i fynd i ymgynghoriad
- Cyd-greu cynnig ffurfiol a fydd yn destun ymgynghoriad gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys rhieni a disgyblion
- Llunio adroddiad ar yr ymatebion i'r Pwyllgor Gwaith
- Rhoi gwybod i staff ac unrhyw ran ddeiliaid allweddol yn y ddwy ysgol am y broses a'r cynnydd
- Rhoi rhybudd statudol am y newid arfaethedig a'r amserlen weithredu.
- Cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau
- Cyhoeddi bwriadau terfynol.

**Cam 2: Paratoi'r Ymgynghoriad ar y Cynnig**

Bydd y Cyrff Llywodraethu yn cwblhau'r cynnig gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y cynnig i'r holl randdeiliaid gan gynnwys disgyblion, staff, rhieni, y gymuned leol a'r gymuned ehangach

Mae angen i'r cynnig gynnwys:

- Y rhesymau dros ffedereiddio a'r buddion o wneud hynny
- Maint a chyfansoddiad Corff Llywodraethu unigol
- Trefniadau Staff Uwch
- Derbyniadau
- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau
- Dyddiad arfaethedig ar gyfer sefydlu'r ffederasiwn
- Trefniadau ymgynghori

**Cam 3: Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben**

- Cyfarfod rhwng y Cyrff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol i ystyried yr ymatebion o'r broses ymgynghori
- Paratoi adroddiad cryno i Bwyllgor Gwaith a rhanddeiliaid ei ystyried/gymeradwyo

**Cam 4: Penderfynu a Gweithredu**

- Pwyllgor Gwaith yn penderfynu i barhau â sefydlu'r Ffederasiwn neu beidio.
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am y penderfyniad
- 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau pellach - adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Gwaith
- Os yw'n berthnasol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Cyrff Llywodraethu i ffurfio a phenodi'r Corff Llywodraethu unigol newydd

**Cam 5: Datblygu**

- Bydd y corff Llywodraethu newydd yn cyfarfod i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Ffederasiwn
- Ystyried unrhyw strwythurau is-bwyllgor newydd, a'u ffurfio lle bo angen
- Cadarnhau Uwch Dimau Arweinyddiaeth
- Adolygu systemau, polisïau ac arferion

**Cam 6: Symud Ymlaen**

- Sefydlu ac ymwreiddio unrhyw bolisïau, arferion a systemau newydd
- Rhoi gweithdrefnau monitro a gwerthuso ar waith

## CYFANSODDIAD ARFAETHEDIG Y CORFF

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru (2014) yn datgan 'rhaid i'r offeryn llywodraethu ar gyfer ffederasiwn bennu maint aelodaeth corff llywodraethu'r ffederasiwn, sef nifer na chaiff fod yn llai na 15 nac yn fwy na 27 o lywodraethwyr.'

.

| Categori'r llywodraethwyr | Nifer a ganiateir |
|---|---|
| Rhiant (etholedig) | 2 - 4 |
| Athro (etholedig) | 1 - 2 |
| Staff (etholedig) | 1 - 2 |
| Awdurdod Lleol | 2 - 4 |
| Cymunedol | 2 - 4 |
| Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol | 1 |
| Pennaeth | 1-2 |

PROSES FFEDEREIDDIO YSGOLION A GYNHELIR YNG NGHYMRU

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn :

www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**ATODIAD 2**

**Ymateb disgyblion CA2 yr ysgolion.**

Derbyniwyd 35 o ymatebion gan ddisgyblion Ysgol Gymuned Moelfre a 63 o ymatebion gan ddisgyblion Ysgol Goronwy Owen. Dyma grynodeb o sylwadau/ymatebion disgyblion Ysgol Gymuned Moelfre ac Ysgol Goronwy Owen.

| **Ysgol** | **1. Sut wyt ti`n teimlo?** | | |
|---|---|---|---|
| |  |  |  |
| **Ysgol Gymuned Moelfre** | **26** | **7** | **2** |
| **Ysgol Goronwy Owen** | **50** | **13** | **0** |
| **Cyfanswm** | **76** | **20** | **2** |

| **2. Oes unrhyw beth yn dy boeni am hyn?** | |
|---|---|
| **Ysgol Gymuned Moelfre** | • Derbyniwyd 30 ymateb yn nodi nad oedd ganddynt bryderon, ac 5 yn ymateb yn nodi fod ganddo ef/hi bryderon.<br>• Cafwyd 1 yn ymateb fod ganddo ef/hi dipyn o bryder ond ddim wedi ymhelaethu.<br>• Nododd 2 ymatebydd eu bod yn poeni y byddent yn rhannu gormod.<br>• Cafwyd 2 ymatebydd yn nodi`r pryder y byddai ysgolion Moelfre a Goronwy Owen yn troi i mewn i un ysgol ond ar ddwy safle. |
| **Ysgol Goronwy Owen** | • Derbyniwyd 62 ymateb yn nodi nad oedd ganddynt bryderon ac 1 yn ymateb yn nodi fod ganddo ef/hi bryder.<br>• Cafwyd 1 ymatebydd yn nodi`r pryder y byddai`r Pennaeth yn gwario llai o amser yn Ysgol Goronwy Owen. |

| **3. Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o`r newid yma?** | |
|---|---|
| **Ysgol Gymuned Moelfre** | • Derbyniwyd sawl ymateb oedd yn nodi`r gobaith i gael tripiau ysgol ar y cyd.<br>• Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr yn gobeithio y byddai`r newid yn cael effaith bositif ar weithgareddau megis chwaraeon, gemau pêl-droed, cystadlaethau gymnasteg a gemau rownderi.<br>• Cafwyd un ymateb oedd yn nodi y byddai newid ysgol am ddiwrnod yn syniad da ac un ymateb yn cynnig newid athrawon am ddiwrnod.<br>• Nododd un ymateb y byddai`r newid yn rhoi cyfle i gyfarfod disgyblion gwahanol a gwneud ffrindiau newydd. |
| **Ysgol Goronwy Owen** | • Derbyniwyd sawl ymateb oedd yn nodi`r gobaith i gael tripiau ysgol ar y cyd.<br>• Nifer yn nodi`r awydd i rannu mwy gyda Ysgol Moelfre megis teithiau addysgol, adnoddau amrywiol, gweithgareddau allgyrsiol e.e. disgo a partion.<br>• Cafwyd un ymateb yn nodi y byddai trefnu gweithgareddau Cymreig ar y cyd yn un newid y byddai ef/hi yn hoffi gael.<br>• Nododd un ymateb y byddai ef/hi yn hoffi cael gwasanaethau addoli ar y cyd fyddai yn rhoi cyfle i`r disgyblion rannu eu cyflwyniadau gyda`u gilydd.<br>• Cynigwyd gan un ymatebydd ei ddymuniad i `r ddwy ysgol adeiladu un ysgol ar y cyd.<br>• Yn ogystal, nodwyd y byddai gweld mwy ar y Pennaeth yn un newid y byddent yn ei hoffi. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 16 Medi 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig rydych yn gwbl ymwybodol o'r cefndir o ran y Cynllun Gwella Gwasanaeth ac y cafodd hwn ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanethau Plant. Yn dilyn yr ail archwiliad diweddar o'r gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio ar Gynllun Datblygu Gwasanaeth Newydd sy'n disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol.

Ers yr adroddiad diwethad, mae gwaith y Gwasanaethau Pant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar:

**1. Teuluoedd Gwydn**

Mae'r Tîm teuluoedd Gwydn wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017 ac mae'n cynnwys Arweinydd Ymarfer; dau Weithiwr Cymdeithasol; dau Weithiwr Cymorth; Swyddog Datblygu Rhiantu a Gweithiwr 'Reflect'. Mae swydd y Gweithiwr Reflect yn rhan o brosiect cenedlaethol sydd â'r nod o gynyddu gwytnwch merched sydd wedi cael un neu fwy o blant wedi eu symud o'u gofal yn barhaol, lleihau nifer yr achosion o feichiogrwydd lle mae'r fam eisoes wedi cael plentyn wedi'i symud o'i gofal a hynny rhag cynyddu nifer y lant sy'n dod i'r system ofal.

Mae'r tîm yn ymyrryd â theuluoedd sy'n arddangos lefel uchel o angen er mwyn darparu cymorth dwys ac ymyrraeth mewn perthynas ag egwyddorion Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng. Mae hyn er mwyn cefnogi teuluoedd sydd wedi torri i lawr; atal plant rhag dod i ofal ac ail uno plant mewn gofal â'u teuluoedd.

Mae'r tîm yn darparu ymyrraeth ddwys wyneb yn wyneb strwythuredig mewn perthynas â newid arferion rhiantu, datblygu strategaethau er mwyn rheoli ymddygiadau a datblygu sgiliau rhiantu sy'n seiliedig ar ymgysylltiad. Mae'r tîm hefyd yn darparu ymgynghoriadau, hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i'r gweithlu ehangach.

Drwy'r Tîm Teuluoedd Gwydn, mae Ynys Môn yn datblygu proffil uwch yn genedlaethol o ran cyfrannu mewn modd gweithredol at y dirwedd a'r wybodaeth yn y maes gofal cymdeithasol a meysydd proffesiynol cysylltiedig. Mae Ynys Môn yn ymwneud â chreu, llunio a dosbarthu ymchwil ac mae'n ymwneud â gwaith Agwedd Canlyniadau Personol mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafodd Sian Morgan, un o weithwyr y tîm, wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni amd ei defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Derbyniodd Sian y wobr 'Gofalu trwy'r Gymraeg' yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Roedd Sian yn un o chwech a gyrhaeddodd y rownd derfynol a dewisiwyd hi fel enillydd yn dilyn pleidlais gyhoeddus.

Mae effaith y Tîm Teuluoedd Gwydn ers Hydref 2017 wedi bod yn un sylweddol ac mae bellach wedi dod yn rhan o'r gwasanaeth craidd. Bydd adroddiad trylwyr ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn yn cael ei gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 9 Medi 2019.

## 2. <u>Prosiect Voices from Care Cymru</u>

Mae gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol am blant lleol sydd mewn gofal a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Mae'r grŵp hwn ymysg y mwyaf bregus yn ein cymdeithas ac mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas i wella eu hamgylchiadau personol.

Yn y cyswllt hwn, rydym yn awyddus i wrando ar fwy o'u profiadau er mwyn ceisio gwella gwasanaethau ar eu rhan a hynny drwy ddatblygu Grŵp Cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd wedi gadael gofal. Pwrpas sefydlu'r grŵp yw er mwyn cyd gynhyrchu Strategaeth Plant Mewn Gofal a Rhai sy'n gadael Gofal a Siartr Rhiantu Corfforaethol.

Yn dilyn cyflwyno'r mater i Banel Rhiantu Corfforaethol Ynys Môn ar 10 Rhagfyr 2018 a sicrhau cytundeb mewn egwyddor ar gyfer y cynllun, mae'r Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Dysgu wedi cyfrannu tuag at y gwaith hwn. Gwrthododd Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfrannu tuag at y prosiect hwn.

Bydd gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc rhwng 11 a 17 oed yn dechrau yn Awst 2019 gyda 'grŵp cychwynnol' o dan y Prosiect Gwneud Gwahaniaeth sy'n creu lle i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ddod ynghyd ac i ddod yn arweinwyr ar

gyfer newidiadau cadarnhaol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a rhai sy’n gadael gofal yn Ynys Môn. Cynhelir y gweithdy untro hwn er mwyn trafod a chytuno ar y 10 maes allweddol ar gyfer newid. Bydd pobl ifanc yn dewis eu ‘3 uchaf’ dros y misoedd nesaf gyda’r Prosiect Gwneud Gwahanaieth yn gweithio mewn mwy o fanylder ar y 3 uchaf dros y flwyddyn nesaf. Bydd Voices from Care Cymru hefyd yn mynychu Gwobrau STAR a’r Diwrnod o Hwyl ym mis Medi er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae Voices from Care Cymru hefyd yn y broses o recriwtio swyddog lleol a fydd yn gweithio ar y prosiect ac a fydd yn cydlynu cyfarfodydd y Grŵp Cyfranogiad ac yn cyfleu’r hyn sy’n bwysig yn lleol.

## 3. Pythefnos Maethu 2019

Cynhaliwyd Pythefnos Maethu ym mis Mehefin. Nod y bythefnos yw codi proffil Gofalwyr Maeth ac yn y pen draw annog mwy o aelodau o’r cyhoedd i gofrestru a dod yn Ofalwyr Maeth.

Eleni, cynhaliodd Tîm Lleoli Plant Ynys Môn ddau brif ddigwyddiad. Roedd y cyntaf yn daith gerdded uchelgeisiol, o fath ras gyfnewid o amgylch yr Ynys gan ddefnyddio llwybrau’r Llwybr Arfordirol. Fe wnaeth Aelodau Etholedig; Penaethiaid Gwasanaeth; aelodau gwahanol banelau; staff gwaith cymdeithasol a rheolwyr; gweithwyr proffesiynol asiantaethau; gweithwyr iechyd; gweithwyr addysg; Mr Urdd a llawer mwy gymryd rhan. Derbyniodd y daith gerdded adborth cadarnhaol gan y cyhoedd o ran cefnogaeth ond yn ogystal, fe gasglwyd arian tuag at Gymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn. Codwyd cyfanswm o £836.52.

Yr ail ddigwyddiad a gynhaliwyd oedd y gystadleuaeth bobi ‘Bake Off’ boblogaidd. Bu Swyddogion y Cyngor bobi teisennau a gafodd eu barnu gan gogydd enwog Ynys Môn, Richard Holt. Yn dilyn y gystadleuaeth cafodd y teisennau eu gwerthu i bawb a fynychodd y digwyddiad gan gasglu £440 ychwanegol.

Drwy gynnal y digwyddiadau hyn fe godwyd proffil Gofalwyr Maeth Ynys Môn a chafwyd ymateb cadarnhaol o ran cysylltiadau cyhoeddus a recriwtio, gyda chyfanswm o £1,478.34 yn cael ei gasglu ar gyfer Cymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn. Caiff ei gyflwyno’n ffurfiol i’r gymdeithas yng nghyfarfod nesaf y grŵp.

## 4. Recriwtio Gofalwyr Maeth

Ers cyhoeddi’r pecyn gofal maeth newydd ym mis Ionawr 2019; mae 18 o deuluoedd gofal maeth wedi holi a dangos diddordeb mewn bod yn ofalwyr maeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae 12 wedi dechrau’r broses asesu a bydd 2 arall yn gwneud hynny cyn hir.

Mae 6 eisoes wedi eu cymeradwyo fel Gofalwyr Maeth gan y Panel Maethu a Sefydlogrwydd hyd yma a bydd gofalwyr maeth eraill yn cael eu cyflwyno i’r Panel Maethu dros y misoedd nesaf.

Mae'r ymgyrch recriwtio wedi bod yn llwyddiannus gyda photensial y bydd 24 o wlâu gofal maeth newydd ar gael i blant Ynys Môn erbyn Hydref 2019.

**5. Cynllun Datblygu Gwasanaeth**

Mae'r Cynllun Datblygu Gwasanseth yn gynllun 3 blynedd ac mae'n cynnwys y 5 thema canlynol:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol;
2. Asesiadau amserol ac o safon, cynllunio gofal, ymyraethau a gwneud penderfyniadau er mwyn diogelu, efnogi a rheoli risgiau ar gyfer plant; cronolegau o safon da, cadw cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil;
3. Fframwaith sicrwydd ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant;
4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol 'ar yr amser iawn' er mwyn gwella bywyd teuluol a chefnogi teuluoedd ar adegau o drawma;
5. Gwella canlyniadau at gyfer plant mewn gofal.

Cafwyd datblygiadau calonogol yn yr holl feysydd uchod ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio drwy'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd.

Mae'r meysydd lle gwelwyd cynnydd yn cynnwys:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol;

Strategaeth Gweithlu bellach yn ei lle ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Er bod y gwasanaeth wedi gweld rhai newidiadau o ran staffio yn ddiweddar, roedd y rhain o ganlyniad i ddyrchafiadau mewnol neu allanol gan rai staff a chyfnodau mamolaeth.

2. Asesiadau amserol ac o safon, cynllunio gofal, ymyraethau a gwneud penderfyniadau er mwyn diogelu, cefnogi a rheoli risgiau ar gyfer plant; cronolegau o safon da, cadw cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil;

Mae archwiliadau mewnol yn parhau i gael eu cynnal ac yn dangos cynnydd cadarnhaol o ran ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Mae angen parhau i weithio i sicrhau bod ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn dda ar draws yr holl achosion.

3. Fframwaith sicrwydd ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant;

Cyflwynwyd adroddiad trylwyr mewn perthynas â'r uchod i Bwyllgor Mehefin 2019.

4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol 'ar yr amser iawn' er mwyn gwella bywyd teuluol a

chefnogi teuluoedd ar adegau o drawma;

Mae Archwiliadau Mewnol yn parhau i gael eu cynnal ac mae plant a'u teuluoedd bellach yn cael cynnig ymyrraeth briodol ar yr amser cywir. Mae datblygiad Hyb Cymorth Cynnar Ynys Môn hefyd yn sicrhau bod teuluoedd a phlant yn cael cynnig cyngor a chymorth yn llawer cynharach ar sail Aml-asiantaeth.

5. Gwella canlyniadau at gyfer plant mewn gofal.

Mae nifer o bolisïau newydd bellach yn weithredol sy'n galluogi staff i gefnogi a gwella canlyniadau ar gyfer plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol:

- Protocol Pobl Ifanc a'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn Ynys Môn ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Polisi Gadael Gofal;
- Polisi Arian Poced, Cyfrif Banc a Chynilion ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal

Mae'r gwasanaeth yn frwdfrydig am ei Gynllun Datblygu Gwasaneth wrth symud ymlaen.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwellianau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Who did you consult?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | 27.08.19<br><br>Yr adroddiad wedi iw drafod a cytunno. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Fel yr uchod |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amh |
| **5** | **Eiddo** | Amh |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amh |
| **7** | **Caffael** | Amh |
| **8** | **Sgriwtini** | Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 11 Medi 2019. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amh |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amh |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amh |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amh |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amh |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amh |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amh |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amh |
| **7** | **Arall** | Amh |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16 Medi 2019** |
| **Pwnc:** | **Cais Croeso Menai i'r Swyddfa Gartref fel Noddwyr Cymunedol i dderbyn teulu o ffoaduriaid o Syria** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaeth**<br>01248 752289<br>nedmichael@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Cyng. Alun Mummery, Cyng. Robin Williams a'r Cyng. Meirion Jones** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Symud ymlaen i gefnogi cais Croeso Menai i'r Swyddfa Gartref fel Noddwyr Cymunedol i dderbyn teulu o ffoaduriaid o Syria os wedi eu lleoli ym Môn.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

Yn ôl yn Ebrill 2016 bu i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i dderbyn hyd at 30 o unigolion neu 5 o deuluoedd fel rhan o gynllun Ail-leoli Pobl Fregus o Syria.

Ers hyn rydym wedi croesawi 5 o deuluoedd o bobl fregus o Syria ac rydym y parhau i roddi cefnogaeth iddynt gan ein Cydlynydd Rhaglen.

Erbyn hyn mae Grŵp Croeso Menai wedi ei sefydlu sy'n cynnwys 12 o aelodau gydag arbennigedd mewn gwahanol feysudd wrthi'n gweithio'n galed i roddi cais i'r Swyddfa Gartref i gael bod yn Noddwr Cymunedol er mwyn croesawi teulu arall o pobl bregus o Syria i gartrefu yn ardal y Fenai.

Gan nad ydyw'r grŵp wedi canfod eiddo addas fel cartref i'r teulu a bod modd i'r eiddo fod unrhyw ochr i'r Fenai mae'r Grŵp angen cefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i'w cais i'r Swyddfa Gartref.

Fel rhan o ganfod eiddo addas bydd y grŵp yn gweithio’n agos gyda’r Heddlu i sicrhau bod y lleoliad yn addas ar gyfer lleoli teulu bregus ac nad oes unrhyw risgiau yn bodoli o ran unigolion peryglus neu hiliol a all peri trafferthion i’r teulu. Bydd disgwyliad hefyd ar y Cyngor i sicrhau bod yr eiddo yn cwrdd â safonau disgwyliedig ar gyfer eiddo rhent sydd yn cael ei gynnig i’r teulu.

Mae Croeso Menai yn cael eu noddi gan Citizens Cymru sydd yn dod o dan adain Citizens UK a bydd Citizens Cymru yn gweithredu fel gwarantwr i Croeso Menai pe byddai’r grŵp yn methu a gweithredu yn y dyfodol.

**2.0 Gofynion y Swyddfa Gartref o Noddwyr Cymunedol**

Fel rhan o baratoi cais i fod yn noddwyr cymunedol mae rhaid i unrhyw grŵp fod gyda £9,000 o arian ar gael i’r pwrpas o gefnogi teulu bregus o Syria yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Bydd disgwyl i’r noddwyr cymunedol ddarparu cefnogaeth i’r teulu am gyfnod o leiaf blwyddyn wedi iddynt gyrraedd y DU ac iddynt ddarparu cartref am gyfnod o leiaf dwy flynedd wedi iddynt gyrraedd y DU.

Mae Croeso Menai wedi tystiolaethu bod ganddynt y swm hwn i law ac maent hefyd wedi paratoi Rhagolygon Cyllidebol o ran sut byddent yn gallu gweithredu i gefnogi’r teulu.

Mae disgwyl bod gan unrhyw grŵp Polisi Diogelu, Polisi Cwynion a bod pob un o’r gwirfoddolwyr wiriadau DBS cyfredol mewn lle.

Fel rhan o’u cais mae Croeso Menai wedi tystiolaethu bod popeth mewn lle ganddynt o ran bodloni gofynion y Swyddfa Gartref.

Fe fydd Croeso Menai yn gyfrifol am:-

I. Canfod eiddo addas ar gyfer y teulu.
II. Roddi Cefnogaeth dwys i’r teulu yn ystod eu wythnosau cyntaf.
III. Rhoddi arian i’r teulu yn ystod y wythosau cyntaf hyd nes iddynt dderbyn unrhyw fudd-dal dyledus iddynt.
IV. Cofrestru plant gydag ysgol.
V. Cofrestru gyda Meddyg Teulu
VI. Darparu cyfieithwyr.
VII. Gwarchod y teulu o unrhyw sylw gan y cyfryngau.

**3.0 Rôl Citizens Cymru fel Gwarantwr**

Rydym yn ymwybodol bod Citizens Cymru yn cefnogi grŵp arall o Noddwyr Cymunedol yng Nghymru a bod dau deulu wedi eu lleoli yng Ngheredigion gan grŵp o noddwyr cymunedol.

Pe byddai'r grŵp noddwyr cymunedol am ba bynnag reswm yn methu gweithredu yn y dyfodol fe fyddai Citizens Cymru yn cymryd drosodd y rôl o gefnogi unrhyw deulu oedd yn derbyn cefnogaeth y noddwyr cymunedol.

**4.0 Rôl yr Awdurdodau Lleol**

Mae rhaid i'r Awdurdod Lleol gefnogi unrhyw gais i'r Swyddfa Gartref i fod yn Noddwyr Cymunedol.

Gall Awdurdodau Lleol wrthod cefnogi cais ar sail:-

- Diffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol o fewn yr ardal maent yn bwriadu cartrefu teulu, er enghraifft diffyg llefydd o fewn ysgolion lleol.
- Pryderon ynglŷn â thensiynau cymunedol o fewn yr ardal maent yn bwriadu lleoli'r teulu.
- Pryderon mewn perthynas â gallu'r noddwyr cymunedol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar y teulu.

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref i'r grŵp fod yn noddwyr cymunedol fe fyddai'r Swyddfa Gartref yn darparu gwybodaeth i'r Grŵp a'r Awdurdod Lleol am y teulu sy'n bwriadu cael eu lleoli sy'n cynnwys nodiadau meddygol ac unrhyw anghenion sydd gan y teulu.

Cyn i'r trefniant gychwyn bydd rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r Grŵp gyruno i dderbyn y teulu yn seiliedig ar y gwybodaeth derbyniwyd gan y Swyddfa Gartref. Byddai rhaid ymgysylltu gyda partneriaid allweddol fel Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Addysg i gytuno gellid cwrdd gydag anghenion y teulu bwriedig.

Gall Awdurdod Lleol wrthod derbyn teulu ar sail:-

- Cyflwr meddygol sydd angen triniaeth benodol sydd ddim ar gael o fewn pellter rhesymol.
- Diffyg llefydd ysgol o fewn pellter rhesymol.
- Anghenion penodol eraill all ddim cael eu cwrdd o fewn yr ardal leol.

**5.0 Pecyn Ariannu**

Byddai disgwyliad i'r Grŵp noddwyr cymunedol ariannu'r holl gefnogaeth sydd ei angen yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae arian ar gael i Awdurdodau Lleol geisio hawlio o flwyddyn 2 - 5 sy'n cael ei cymeradwy ar sail achosion unigol gan y Swyddfa Gartref pe byddai'r noddwyr cymunedol yn peidio â pharhau ar ôl y flwyddyn gyntaf neu yn y flwyddyn gyntaf pe byddai'r noddwyr cymunedol yn methu a darparu'r gefnogaeth sydd ei angen.

Mae arian ar gael i Awdurdodau Lleol ei hawlio yn ystod y flwyddyn gyntaf ar gyfer costau Addysg,

| |
|---|
| £4,500 ar gyfer plant oedran 5 – 18oed a £2,250 ar gyfer plant 3 – 4 oed.<br><br>Yn dilyn y flwyddyn gyntaf byddai rhaid i Awdurdod Lleol wneud cais i'r Swyddfa Gartref sy'n cael ei gytuno fesul achos tuag at unrhyw gostau addysgol. |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **B1.** Dim yn berthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| **C1.** |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| **D1.** |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol i'r cais. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cefnogol i'r cais. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cefnogol i'r cais. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | D/B |
| **5** | **Eiddo** | D/B |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | D/B |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Community Sponsorship Guide for Local Authorities. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

SWYDDOGOL

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16/09/2019** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Carwyn Jones** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol:** | **Dylan Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Tudur Jones**<br>**01248 752 146**<br>**Tudurjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Aelodau Ardal Gogledd Ynys Môn** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

1. **Cymeradwyo a chefnogi Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**

2. **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol a Deilydd Portffolio yr awdurdod i:**
   a) **diweddaru'r cynllun yn unol â hynny;**
   b) **gwneud ceisiadau am gyllid, derbyn cynigion cyllid, a dyfarnu cyllid ar gyfer prosiectau fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Pennaeth Cyllid.**

3. **Adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwaith â'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn flynyddol.**

**1.0 Cynllun ar gyfer Gogledd Ynys Môn**

Mae Cynllun Lle Gogledd Cymru wedi ei lunio fel canlyniad uniongyrchol i'r ymatebion a gafwyd gan aelodau'r cyhoedd ar sail eu blaenoriaethau ar gyfer adfywio'r ardal. Amcan y cynllun yw darparu cyfeiriad teithio clir a darparu platfform i sicrhau swyddi, buddsoddiad a chyfleoedd cynaliadwy i ardal Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd proses ymgynghori gychwynnol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid dros haf 2018 er mwyn adnabod barn, problemau, syniadau a blaenoriaethau. O ganlyniad i'r broses hon, cafwyd dros 600 o ymatebion a ddangosodd fod pobl leol yn poeni am ddyfodol eu hardal, ac yn awyddus i weld rhywbeth yn cael ei wneud i'w gwella. Paratowyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion hyn.

Cyhoeddwyd y cynllun drafft yn Ebrill 2019 a cynhaliwyd proses ymgynghori gyda'r

cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Mai/ Mehefin 2019. Arweiniodd y broses hon at 48 o ymatebion, a oedd yn hynod gefnogol o'r cynllun a'i gynnwys. Paratowyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion hyn hefyd, a chafodd nifer o newidiadau eu gwneud i'r drafft mewn ymateb. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn y broses o ymgymryd â'i weithgareddau Cynllunio Lle ei hun ac mae cydnabyddiaeth o'r synergedd a'r aliniad rhwng y ddwy weithgaredd.

Bydd Swyddogion y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid, nawr yn dechrau blaenoriaethu'r gweithgareddau allweddol uniongyrchol i sicrhau cyfleoedd ar gyfer swyddi, twf a buddsoddiad yng Ngogledd Ynys Môn.

## 2.0 Cefndir

Mae'r newyddion fod Hitachi wedi gohirio prosiect Wylfa Newydd a chau ffatri Rehau yn Amlwch wedi bod yn ergyd ddifrifol i'r rhagolygon economaidd a'r cymunedau'n uniongyrchol, sy'n ychwanegol at yr effeithiau mawr sydd i'w disgwyl wrth ddatgomisiynu gorsaf bŵer Wylfa. Sefydlwyd Grŵp Tasg dan arweiniad Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â chanlyniad uniongyrchol y cyhoeddiadau hyn, gan gynnwys gweithgareddau arbennig ar gyfer ymateb i'r diswyddiadau.

Dangosodd asesiad ar effaith economaidd safleoedd Magnox ar gyfer yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (ADN) yn 2018, fod gorsaf bŵer Wylfa wedi cyfrannu 503 o swyddi yn ogystal â gwneud cyfraniad Gwerth Ychwanegol Gros oddeutu £37M i economi Ynys Môn (Magnox Sites). Mae'r adroddiad yn dangos yn glir mai o'r holl safloedd Magnox a fydd yn cau, Wylfa fydd yn cael yr effaith economaidd leol fwyaf andwyol nag unrhyw safle arall yn y DU, ac mae'n amlwg y bydd yr effeithiau hyn i'w teimlo fwyaf yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o'r broses cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd, paratowyd Papur Pwnc arbennig ar gyfer Gogledd Ynys Môn, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn fel rhan o Ganllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd. Diffinnir Gogledd Ynys Môn yn y Papur Pwnc (a defnyddir yr un diffiniad yn y cynllun hefyd) fel un sy'n cynnwys cymunedau Llanbadrig, Amlwch, Mechell, Llaneilian, Moelfre, Llanerchymedd a Llanfaethlu. Mae'r Papur Pwnc yn cynnwys gwybodaeth gefndirol eang am yr ardal.

## 3.0 Cyllid er mwyn Cyflawni'r Cynllun

Er gwaethaf yr effeithiau difrifol, mae adnoddau'r Cyngor Sir yn parhau i fod yn gyfyngedig. Datblygwyd cais am gyllid allanol, er mwyn sicrhau cefnogaeth allanol ychwanegol gan gronfa economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Gan gydnabod effeithiau cyhoeddiadau Hitachi a Rehau, cyhoeddodd yr ADN gefnogaeth ariannol o £495,000 yn gymorth i ddatblygu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn y Cyngor Sir a chefnogi'r ymgyrch i greu mwy o gyfleoedd economaidd newydd ar yr ynys (NDA). Mae graddfa ac arwyddocâd y buddsoddiad gan ADN a'u parodrwydd i gydweithredu'n gyflym ac effeithlon yn haeddu cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad.

Pwrpas yr arian hwn fydd i ddatblygu ymhellach a symud ymlaen i'r camau nesaf o ran rhai

| |
|---|
| o'r cysyniadau a syniadau sydd yn y cynllun. Nid yw cyllid yr ADN yn cynnwys cost cyflogaeth swyddogion ac mae rhywfaint o amser staff adfywio craidd sydd wedi eu hariannu gan refeniw yn ofynnol hefyd, er mwyn rheoli Cynllun Gogledd Ynys Môn a gweithgareddau cyllido'r ADN, ac mae hyn i'w gyfrif fel arian cyfatebol.<br><br>Bydd swyddogion yn sicrhau nad yw'r cyllid gan yr ADN yn cael ei ddarparu ar ei ben ei hun, a'i fod yn ychwanegu gwerth ac yn ategu gweithgareddau eraill er mwyn creu más critigol o fuddsoddiad yn ardal Gogledd Môn.<br><br>Bydd y gwaith yn cyd-fynd â gweithgareddau eraill yn yr ardal a fydd yn ategu ac yn ychwanegu at werth cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun Arfor, cynigion ar gyfer prosiectau amgylcheddol trwy gyllid Enraw / SMS, a gwaith sy'n cael ei gyflawni ar lawr gwlad gan grwpiau fel Caru Amlwch a Cemaes CIC.<br><br>Mae cyfleoedd ar gyfer sicrhau cyllid gan ffynonellau eraill yn/ am gael eu harchwilio hefyd, gan gynnwys yn benodol y posibilrwydd o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau allweddol yn yr ardal.<br><br>Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae nifer o grwpiau ac unigolion wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gofyn am gyllid ar gyfer eu prosiectau / syniadau. Mae'r ceisiadau hyn am symiau sylweddol o arian. Risg amlwg yw y bydd y Cyngor Sir yn cael nifer sylweddol o geisiadau am gyllid nad ydynt yn cyd-fynd ag amcanion yr NDA ac y bydd nifer o grwpiau yn siomedig ac yn flin o gael eu gwrthod. Bydd camau'n cael eu cymryd, lle bo hynny'n bosibl, i gynghori sefydliadau allanol am sut ac yn lle y gallant geisio am gymorth o ffynonellau eraill.<br><br>Rhaid nodi hefyd na ddylai'r cynllun ei hun ond ffurfio un rhan fechan o strategaeth gyffredinol ar gyfer adfywio ac ailddatblygu ar gyfer ardal Gogledd Môn mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid. |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Nid yw'r cynllun wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod y cynllun yn haeddu cydnabyddiaeth yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol bresennol a bod y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi sicrhau cyllid sylweddol yn ddiweddar. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater yn haeddu ardystiadau a chymeradwyaeth y weithrediaeth, gan fod adfywio Gogledd Ynys Môn yn hanfodol bwysig i'r Cyngor Sir. Bydd hyn hefyd yn darparu cysondeb a thryloywder llawn gyda phenderfyniadau blaenorol. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydy |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydy |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau mewn perthynas â sicrhau bod cynlluniau ar gyfer Ward Twrcelyn yn cael eu cydnabod a'u canmol rhwng y gweithgareddau; sicrhau bod lledaenu prosiectau ar draws ardal Gogledd Ynys Môn yn ddiduedd ac yn wrthrychol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau penodol heblaw'r uchod. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Risgiau – gallai gormod o geisiadau lethu'r Gronfa; angen sicrhau bod 'lledaeniad' cyllid yn deg ac yn gyson ar draws ardal. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |


| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (Medi 2019) |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad ar yr Ymateb i'r Arolwg Ymgynghori ynghylch Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn |












CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

YNYS YNNI MÔN
ANGLESEY ENERGY ISLAND

# Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn

Nuclear Decommissioning Authority

Magnox

Fersiwn diwygiedig
Gorffennaf 2019

# Cynnwys


1. Rhagair 3
2. Amser heriol i Ogledd Ynys Môn 4
3. Nod y Cynllun Adfywio 5
4. Ymgynghori: Beth ddywedoch chi wrthym 6
5. Sut mae Gogledd Ynys Môn ar hyn o bryd? 7
6. Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill a pholisïau 9
7. Cryfderau, heriau a chyfleoedd 10
8. Cynllun Adfywio - Themâu Blaenoriaeth 12
9. Cyflawni'r Cynllun Adfywio 18


wood.

Paratowyd gan Wood ar ran
Cyngor Sir Ynys Môn

Gorffennaf 2019



Harbwr Porth Almwch



Llinos Medi
Arweinydd
Cyngor Sir ynys Môn



# Rhagair

Mae'r newyddion am benderfyniad Hitachi i atal cynllun Wylfa Newydd a'r newydd y gallai ffatri Rehau gau wedi bod yn glec difrifol i ragolygon economaidd cymunedau Gogledd Ynys Môn, gan ychwanegu at effeithiau sylweddol disgwyliedig datgomisiynu gorsaf bŵer Wylfa. Mae Tasglu bellach wedi'i chreu i fynd i'r afael yn syth ar ôl y cyhoeddiadau hyn, gan gynnwys gweithgareddau ymateb i ddiswyddiadau.

Mae'r cyhoeddiadau hyn wedi atgyfnerthu'r angen am raglen weithredu i ddiwallu anghenion Gogledd Ynys Môn. Denodd yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf yn 2018 dros 600 o ymatebion yn dangos fod pobl leol yn pryderu am ddyfodol eu hardal, ac yn awyddus i weld rhywbeth yn cael ei wneud i'w wella. Yn dilyn datblygiadau diweddar, mae lefel yr angen a'r pryder yn llawer mwy difrifol.

Mae'r fersiwn diwygiedig yma o'r cynllun yn adlewyrchu cynnwys tua 50 o ymatebion a dderbynwyd yn ein ail ymgynghoriad, oedd yn gofyn am sylwadau ar y cynllun drafft.

Mae'r ddogfen yma yn nodi ystod eang o fesurau arfaethedig a allai fod o fudd i'r ardal yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Mae rhai o'r rhain yn syniadau sy'n gofyn am waith pellach, ac efallai na fydd rhai yn ymarferol yn y pen draw. Mae'r rhan fwyaf yn dibynnu ar sicrhau cyllid buddsoddi cyhoeddus a / neu breifat, ac ni fydd hyn bob amser yn cael ei wireddu. Nid yw'r ddogfen yn berffaith, ond mae'n fan cychwyn a datganiad o fwriad i fynd i'r afael â'r anghenion a'rcyfleoedd sy'n bodoli, a dylai helpu yn y broses o geisio denu grantiau a buddsoddiad.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi paratoi'r cynllun, ond bydd cyflawni nodau a chynigion y cynllun yn gofyn am berchnogaeth a gweithredu gan ystod eang o bartneriaid. Mae angen i'r rhain gynnwys cyrff cyhoeddus eraill, cyllidwyr, sefydliadau lleol, grwpiau cymunedol, busnesau, datblygwyr ac eraill.

**Cyng. Llinos Medi**

**Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn**
**Aelod dros ward Talybolion**

# 1. Amser heriol i Ogledd Ynys Môn

## Amser tyngedfennol i Ogledd Ynys Môn

Gorsaf Bŵer bresennol yr Wylfa fu'r prif gyflogwr yng Ngogledd Ynys Môn am sawl degawd, yn cyflogi cannoedd o bobl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'r orsaf bellach yn dechrau ar ei chyfnod datgomisiynu, a disgwylir y bydd y niferoedd a gyflogir yn lleihau'n sylweddol dros amser.

Amgcangyfrifwyd yn Mehefin 2018 bod Wylfa yn cefnogi 630 o swyddi ar Ynys Mon a chyfranu £32m i GVA blynyddol y sir. Bydd colli'r cyfraniad yma dros amser yn cael effeithiau lleol sylweddol iawn.

Gwnaed llawer o waith i gynllunio gorsaf bŵer newydd, Wylfa Newydd, yn ei lle, gobeithir bydd yn darparu cyflogaeth hirdymor y mae ei gwir angen ar gyfer yr ardal i gymryd lle'r swyddi a gollir yn yr orsaf bŵer bresennol. Yn anffodus, cafwyd cyhoeddiad gan Hitachi yn Ionawr 2019, bod y gwaith o ran gyrru'r prosiect hwn yn ei flaen wedi'i atal, ac mae cryn ansicrwydd bellach o ran p'un a fydd yn digwydd ai peidio. Byddai Wylfa Newydd yn cynhyrchu 850 swyddi o ansawdd am gyfnod o 60 mlynedd, ac yn brosiect 100 mlynedd trwy cyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisynnu.


Safle Wylfa a cynllun Wylfa Newydd

Cafwyd cyhoeddiad yn Ionawr 2019 hefyd bod ail gyflogwr mwyaf Gogledd Ynys Môn, Rehau, yn ymgynghori ynghylch cynnig i gau ei ffatri gweithgynhyrchu yn Amlwch, a bydd tua 100 o swyddi yn cael eu colli erbyn diwedd 2019.

Mae'r Cyngor Sir a rhanddeiliaid lleol eraill bellach yn pryderu'n ddifrifol ynghylch y gobeithion economaidd ar gyfer Gogledd Ynys Môn, a cheir galwadau i weithredu i fynd i'r afael â sefyllfa sydd yn amlwg yn un dyngedfennol.

## Cynllun Gweithredu ar gyfer Gogledd Ynys Môn

Mae'n amlwg fod angen mynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu'r ardal, a sicrhau ffyniant a llesiant hirdymor ardal Gogledd Ynys Môn. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod angen strategaeth gydlynol i helpu i greu cyfleoedd ar gyfer swyddi a buddsoddiad cynaliadwy, ac mae felly wedi paratoi'r fersiwn drafft hwn o Gynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn.

Ffatri Rehau yn Amlwch



Mae'r Cynllun Adfywio'n nodi nifer o gynigion o ran camau gweithredu a buddsoddiad yng Ngogledd Ynys Môn, i helpu'r ardal i ymateb i'r cyhoeddiadau diweddar, ac i wthio adfywiad economaidd yn ei flaen ar draws yr ardal hyd at 2026. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfnod Cynllun Statudol Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd), y mae'r cynllun hwn yn gyson ag ef.

Nod y Cynllun Adfywio yw darparu strategaeth glir a fydd - yn dilyn ei gweithredu a chynnydd pellach dros y blynyddoedd i ddod - yn cyflawni gwelliannau sylweddol i lesiant yr ardal ac yn cyflawni buddion parhaol.

# 2. Nod y Cynllun Adfywio

Mae'r Cynllun Adfywio'n nodi'r:

- **Materion allweddol** sy'n effeithio ar Ogledd Ynys Môn fel y nodwyd gan y gymuned
- **Gweledigaeth** ar gyfer Gogledd Ynys Môn
- Pum **Thema Flaenoriaeth** ar gyfer adfywio; ac
- Ystod o **brosiectau adfywio** a nodwyd yn lleol

Mae'r Cynllun Adfywio'n nodi Gweledigaeth ar gyfer ardal Gogledd Ynys Môn ac yn nodi pum Thema Flaenoriaeth o ran buddsoddiad gan y Cyngor Sir, ei bartneriaid a gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun Adfywio'n llywio gwaith partneriaeth yn yr ardal drwy hoelio sylw ar brosiectau gwirioneddol a allai ddod â buddion economaidd i Ogledd Ynys Môn, i helpu i gwrdd â'r heriau a all godi drwy ddatgomisiynu Wylfa A, y posibilrwydd o gau Rehau, ac i elwa ar safle Wylfa.

Mae'r Cynllun Adfywio'n darparu fframwaith i helpu i arwain penderfyniadau o ran buddsoddi a chyfeirio partneriaid at y blaenoriaethau ar gyfer yr ardal hyd at 2026. Cefnogir y Cynllun Adfywio gan Gynllun Gweithredu (Atodiad ar wahân). Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'r prosiectau penodol sydd i'w cyflawni a bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau y gellir adrodd ar gynnydd y prosiectau, ac unrhyw brosiectau newydd sy'n cyflawni yn erbyn y Themâu Blaenoriaeth.

## Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Ynys Môn

**Erbyn 2026:**

Bydd **Gogledd Ynys Môn** wedi datblygu gwell cyfleoedd o ran tai a chyflogaeth ac isadeiledd ategol sy'n gwneud y gorau o'i amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, yn ategu cymeriad yr ardal ac yn hybu llesiant, cydlyniant cymunedol, iaith Gymraeg ac ansawdd bywyd. Bydd yr ardal **yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi.**

Fel y brif ardal drefol, bydd **Amlwch** wedi gwella ei rôl fel **lleoliad allweddol** ar gyfer masnach **a chyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd Ynys Môn.** Bydd ei rôl fel **cyrchfan i ymwelwr wedi ei gwella.**

## Ymgynghori ar y cynllun hwn


Bu'r Cynllun Adfywio drafft yn destun ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y cyfnod Ebrill - Mehifin 2019. Mae adroddiad ar y broses ymgynghori wedi ei baratoi, a dyma'r fersiwn terfynol o'r Cynllun Adfywio ar gyfer ei fabwysiadu.

Ardal Gogledd Môn














# 3. Ymgynghori: Beth ddywedoch chi wrthym

"Gallai Amlwch wneud efo'i sbriwsio'n gyffredinol"

"Ysbryd cymunedol cryf"

"Datblygu ardaloedd twristiaid i ddenu rhagor o bobl i mewn i'r ardal"

"Ardal hardd, ymdeimlad da o gymuned. Pobl gyfeillgar"

"Mae ar yr ardal angen swyddi o safon uchel i annog talent i aros / symud i'r ardal"

"Treftadaeth ddiwydiannol unigryw"

Mae'r Cynllun Adfywio wedi'i lywio gan yr ymgynghoriad â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol. Ymgymerwyd ag ymgynghoriad cychwynnol yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2018, ochr yn ochr ag ymarfer 'Llunio Lle' y Cyngor Sir ar gyfer Ward Twrcelyn. Ceir adroddiad am yr ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd yng Nghynllun Adfywio Amlwch a Gogledd Ynys Môn - Adroddiad ar Ganlyniadau'r Arolwg Ymgynghori. Ymhlith y canfyddiadau:



Teimlodd llawer o'r ymatebwyr bod yr ymdeimlad cryf o gymuned yn gryfder allweddol yng Ngogledd Ynys Môn.

Mae'r ardal arfordirol, y traethau a'r llwybr arfordirol yn nodweddion cryf o ran yr amgylchedd a hamdden yn ardal Gogledd Ynys Môn.

Nodwyd datblygu atyniadau i dwristiaid a llety i ymwelwyr, y cynnig manwerthu ac adfer llinell reilffordd Amlwch, fel cyfleoedd i helpu'r ardal i ffynnu. Roedd cynlluniau a allai fanteisio ar fuddsoddiad yn cynnwys Mynydd Parys a Phorth Amlwch.

Cydnabuwyd bod isadeiledd ffyrdd a chysylltiadau cludiant gwael, ardaloedd anneniadol a diffyg cyflogaeth addas yn atal buddsoddiad, tra bo llawer yn meddwl y gallai'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi'r ardal.

Mae canol tref Amlwch, hen safle Octel, safle Shell gynt yn Rhosgoch, a stad ddiwydiannol Amlwch yn darparu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad economaidd o fewn ardal Amlwch.

Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod hybu cyfleoedd o ran twristiaeth a manwerthu, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, cefnogi busnesau newydd a phresennol, ac ailddatblygu canol tref Amlwch yn brif flaenoriaethau ar gyfer yr ardal.

Yn dilyn ymgynghori, mae Pum Thema Flaenoriaeth wedi'u datblygu ar gyfer buddsoddi yn ardal Gogledd Ynys Môn, a nodwyd sawl prosiect ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Adfywio hwn.

# 4. Sut mae Gogledd Ynys Môn ar hyn o bryd?

## Poblogaeth

- Cyfanswm poblogaeth breswyl Gogledd Ynys Môn yw 13,474*
- Amlwch yw'r anheddiad mwyaf yn yr ardal gyda phoblogaeth o 3,789*
- Cemaes yw'r ail fwyaf, gyda 1,357*
- Ceir nifer o bentrefi eraill, ynghyd â chlystyrau ac eiddo ynysig ar wahân
- Mae'r boblogaeth yn gymharol hŷn. Mae'r ystod oedran 45 i 74 yn cyfateb i 43.4% o'r boblogaeth, sy'n uwch na chyfartaleddau Ynys Môn a Chymru


**Poblogaeth Hŷn**

- Mae gwybodaeth am yr ardal yn y papur pwnc Gogledd Môn

*Cyfrifiad 2011

** Data Nomis 2017-2018 ar gyfer Ynys Môn yn ei chyfanrwydd





**60%**

## Y Gymraeg

- Mae 60% o bobl yn gallu siarad Cymraeg (57% ar gyfer Ynys Môn yn ei chyfanrwydd)*
- Mae gan 69% o bobl un sgil neu ragor yn y Gymraeg (70% ar gyfer Ynys Môn yn ei chyfanrwydd)*
- Mae gan yr ardaloedd gorllewinol a chanolog ganran uwch o siaradwyr Cymraeg o gymharu â'r wardiau dwyreiniol

## Cyflogaeth

- Mae 71% o'r boblogaeth yn economaidd weithgar (75% ar gyfer Ynys Môn yn ei chyfanrwydd)*
- Mae 66% o'r boblogaeth mewn cyflogaeth (69% ar gyfer Ynys Môn)*
- Mae 4% o'r boblogaeth yn ddi-waith**
- Mae incymau canolrifol aelwydydd Gogledd Ynys Môn fel Ynys Môn yn ei chyfanrwydd, tua £25,000
- Datgomisiynu'r prif gyflogwr Gogledd Môn sef ngorsaf bŵer yr Wylfa gan effeithio ar 630 o swyddi
- Datblygiad Wylfa Newydd wedi'i atal gan Hitatchi. Cyfle i greu 850 o swyddi o ansawdd mewn risg
- Cau cyflogwr mawr arall, sef Rehau gan golli 100 o swyddi

**Incwm <£25k blynyddol**





## Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig

- Mwyafrif o'r arfordir wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gydag rhan yn Arfordir Treftadaeth
- Mae pedair ardal gadwraeth: Amlwch (Canol), Porth Amlwch, Cemaes, a Llanfechell
- Mae sawl safle sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur, gan gynnwys:
- Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Gwenoliaid y Môr Ynys Môn (AGA)
- 19 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

# Twristiaeth

Mae Gogledd Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Ymhlith rhai o uchafbwyntiau Gogledd Ynys Môn y mae:



Porthladdoedd a cheiau gan gynnwys Porth Amlwch, Cemaes a Moelfre.


Atyniadau treftadaeth diwydiannol gan gynnwys Mynydd Parys, safle mwynglawdd copr yn y 18fed ganrif, a Gwaith Brics Porth Wen, Cemaes.


Goleudy Trwyn Eilian – tirnod arfordirol.



Llwybr Arfordirol Ynys Môn.


Tirwedd ardal yr arfordir a chanddi lawer o draethau a golygfeydd pictiwrésg.





Melin Llynnon – yr unig felin wynt sy'n gweithio yng Nghymru, yn Llanddeusant.


Llyn Alaw – cronfa ddŵr, y llyn mwyaf ym Môn.


Din Lligwy – olion anheddiad Celtaidd ger Moelfre.

# 5. Cysylltiadau gyda chynlluniau eraill a pholisïau

Nid yw'r Cynllun Adfywio yn bodoli ar wahân. Mae'n adlewyrchu, ac yn cael ei lywio, gan sawl cynllun a pholisi ar lefel genedlaethol a lleol.

**Cynllun Busnes NDA**
**Cynllun Cymdeithasol-Economaidd Magnox**

**Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon**

**Cynllunio Lle**

### Polisïau Cynllunio


- **Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru (Rhif 10, 2018)**
- **Polisïau Cynllunio Lleol**
  - Cynllun Datblygu Ynys Mon a Gwynedd (2017)
  - Canllaw Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (2018)
  - Papur Pwnc Gogledd Ynys Mon (2018)

### Polisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

- LLC Ffyniant i Bawb

### Deddfwriaeth

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)**




### Cynlluniau Cyngor Sir Ynys Mon

- Cynllun Cyngor Sir Ynys Mon
- Gweledigaeth ar gyfer 2025
- Rhaglen Ynys Ynni
- Cynlluniau Eraill y Cyngor e.e. Twristiaeth

### Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru

- Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru
- Stategaeth Cysylltu Digidol
- Stategaeth Adfywio

# 6. Cryfderau, heriau a chyfleoedd

Mae'r Cynllun Adfywio'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cryfderau, yr heriau a'r cyfleoedd yng Ngogledd Ynys Môn. Cafodd y gwaith o ganfod cryfderau, heriau a chyfleoedd ei lywio gan ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol, ynghyd â dadansoddiad o wybodaeth sylfaenol, tystiolaeth, strategaethau a pholisïau presennol

## Gogledd Ynys Môn yn gyffredinol:



### Cryfderau

- Amgylchedd naturiol eithriadol, sy'n cynnwys llwybr arfordirol, traethau a golygfeydd arfordirol arbennig
- Poblogaeth sy'n tyfu o'i gymharu â chymunedau eraill ym Môn
- Mae cyfran uchel o'r cymunedau lleol yn siarad Cymraeg
- Ardal sy'n ferw o hanes, diwylliant a threftadaeth a chanddi ymdeimlad cryf o gymuned
- Mae'r amgylchedd naturiol lleol yn gryf a chanddo safleoedd dynodedig, gan gynnwys yr AHNE arfordirol
- Ceir safleoedd sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth

### Heriau

- Datgomisiynu Pwerdy Niwclear Wylfa, y prif gyflogwr
- Ansicrwydd ynghylch Wylfa Newydd
- Y cyhoeddiad o gau Rehau erbyn diwedd 2019
- Cynnig manwerthu cyfyngedig
- Cysylltiadau cludiant â'r ardal
- Cyflymder cyfyngedig o ran band eang
- Mae'r boblogaeth yn gymharol hŷn gyda tuedd i bobl ifac symyd i ffwrdd
- Cadw a hybu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg
- Rhesymoli gwasanaethau a chyfleusterau
- Cynnal cymunedau gwledig a ffermydd bychain
- Lleoliad ymylol
- Diffyg atyniadau dan do

### Cyfleoedd

- Cynnig gorsaf bŵer Wylfa Newydd
- Gall datgomisiynu Wylfa A ddarparu cyfleoedd
- Manteisio ar y Cynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru
- Elwa ar bosibiliadau'r ardal o ran twristiaeth
- Gwneud y gorau o'r ymdeimlad o gymuned a lle



# Yn benodol i Amlwch:

## Cryfderau

- Mae Amlwch wedi'i nodi fel un o'r prif leoliadau ar gyfer datblygiadau newydd ym Môn yn y CDLl
- Ceir nifer o wasanaethau a chyfleusterau o fewn y dref
- Mae ystod o safleoedd wedi'u nodi ar gyfer tai newydd yn Amlwch yn y CDLl ar y Cyd
- Ceir ymdeimlad cryf o gymuned
- Mae'r ganolfan hamdden yn gyfleuster allweddol
- Porth Amlwch
- Mae Mynydd Parys yn ased cryf o ran treftadaeth/twristiaeth

## Heriau

- Cau ffatri Rehau – prif gyflogwr y dref
- Colli gwasanaethau a chyfleusterau fel banciau
- Nid oes fawr o fywyd yng nghanol y dref
- Yn gymharol bell o'r prif rwydweithiau cludiant gyda chysylltiadau cyfyngol
- Poblogaeth sy'n heneiddio gyda phobl ifanc yn symud i ffwrdd
- Nid yw'r ddarpariaeth o ran unedau cyflogaeth yn diwallu anghenion yr ardal
- Ysgol Uwchradd y mae angen ei moderneiddio
- Dim statws Parth Menter oni bai am Rhosgoch

## Cyfleoedd

- Ailddatblygu tir llwyd ac eiddo nas defnyddir ddigon
- Buddsoddi yn y sector twristiaeth a lletygarwch
- Adfywio'r stryd fawr a mynd i'r afael â siopau gweigion/ffryntiad siopau
- Datblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol
- Ailddefnyddio'r linell reilffordd i Amlwch, sydd bellach yn segur



# 7. Cynllun Adfywio - Themâu Blaenoriaeth

**Cyflogaeth/swyddi**
Tyfu economi Gogledd Ynys Môn

**Cludiant a chysylltedd**
Cysylltu Gogledd Ynys Môn

**Yr amgylchedd, diwylliant a llesiant**
Gwneud y gorau o asedau Gogledd Ynys Môn



**Twristiaeth**
Cefnogi'r economi ymwelwyr

**Tai ac adfywio trefol**
Cartrefi a lleoedd gwel

Tudalen 114

# Cyflogaeth/swyddi

### Tyfu economi Gogledd Ynys Môn

## Y sefyllfa bresennol

At ei gilydd, mae cyfraddau cyflogaeth yng Ngogledd Ynys Môn yn uwch na'r rheiny ar draws Cymru, tra bo incymau cyfartalog yn is. Mae'r effeithiau yn sgil gorffen cynhyrchu pŵer yn Wylfa A yn hir-dymor, gyda gostyngiad mewn buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol yn yr ardal. Mae datblygiad Wylfa Newydd yn rhoi cyfleoedd mawr o ran datblygu economaidd, ond mae dyfodol y prosiect bellach yn ansicr. Mae'r cyhoeddiad diweddar o gau Rehau yn Amlwch yn ergyd fawr arall.


Hen safle Octel

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi

Mae creu swyddi yn allweddol i sicrhau sylfaen economaidd gynaliadwy ar gyfer Amlwch a Gogledd Ynys Môn yn y tymor byr, canolig a hir. Mae cyflawni isadeiledd addas ar gyfer cyflogaeth yn allweddol i alluogi twf o ran cyflogaeth.

Mae cyfleoedd yn bodoli i adfywio safleoedd allweddol yn yr ardal ac i gyflwyno tir newydd ar gyfer buddsoddi. Byddai cyflwyno tir ac eiddo ychwanegol ar gyfer creu mannau hybu a thyfu yn rhoi cyfle i fentrau a busnesau bach i ganolig eu maint gael datblygu. Mae hen safleoedd Octel/Great Lakes a Shell yn darparu ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol o ran buddsoddi a'u hailddefnyddio ar gyfer cyflogaeth, fel y mae safle Rehau.

Mae angen gweithio gyda chyflogwyr lleol i ganfod anghenion, annog partneriaethau ehangach i gyflawni cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau, a gweithio i gefnogi datblygiad busnesau. Gall cynyddu nifer ac ansawdd cyfleoedd cyflogaeth helpu i gadw pobl ifanc yn yr ardal, hybu cymunedau cynaliadwy ac, o ganlyniad, yn anuniongyrchol, bod yn fanteisiol o ran y defnydd o'r Gymraeg.

Mae gan Amlwch yr un statws â Chaergybi a Llangefni yn y CDLl ar y Cyd ond nid yw'n manteisio ar safleoedd a chanddynt statws Parth Menter (PM) ac eithrio hen safle Shell ger Rhosgoch, sy'n gallu effeithio ar fuddsoddiad.

Ceir cyfleoedd i archwilio brandio masnachol i sicrhau bod yr ardal yn cael ei hyrwyddo fel un sydd 'Ar Agor ar Gyfer Busnes', yn enwedig yng nghyswllt yr amryw gyfleoedd posib drwy ei hagosrwydd i'r Wylfa. Tra bo'r prif gyfleoedd o ran cefnogi datblygu cynaliadwy o fewn Amlwch, mae posibiliadau yn yr ardal wledig ehangach o ran buddsoddiad pellach ar raddfa fechan ac o ran cyfleoedd carbon isel, a byddai polisïau'r CALl ar y Cyd yn cefnogi cynlluniau priodol.

## Prif flaenoriaethau

- Cynorthwyo'r rheiny a effeithir gan golli swyddi i ailhyfforddi, canfod gwaith arall neu ddechrau busnes
- Creu cyflogaeth newydd ar safle ffatri Rehau
- Cyflwyno safleoedd cyflogaeth ychwanegol ac unedau ar gyfer busnesau bach/canolig
- Cefnogi busnesau presennol o ran cyflawni eu potensial
- Archwilio'r modd gorau o ailddefnyddio hen safle Octel/Great Lakes
- Archwilio statws Parth Menter ar gyfer safleoedd eraill gyda Llywodraeth Cymru
- Manteisio i'r eithaf i elwa ar safle Wylfa
- Cefnogi cyfleoedd ehangach o ran datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig
- Mynd i'r afael ag anghenion o ran sgiliau, cymwysterau a chyflogadwyed

# Twristiaeth

### Cefnogi'r economi ymwelwyr

## Y sefyllfa bresennol

Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig o ran darparu swyddi ar draws Gogledd Ynys Môn. Mae'r asedau o ran twristiaeth yn niferus ac yn cynnwys Melin Llynnon o'r 18fed ganrif a Mynydd Parys, tra bo Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn darparu llwybr allweddol i dwristiaid drwy'r ardal. Cronfa ddŵr Llyn Alaw yw'r llyn mwyaf ar yr Ynys ac fe'i defnyddir gan ymwelwyr ar gyfer gwylio adar a cherdded.


Porth Amlwch

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi

Mae'r ardal yn manteisio ar sawl ased o ran twristiaeth a gallai gyflawni buddion ehangach i Ogledd Ynys Môn. Tra bo nifer o atyniadau i dwristiaid yn yr ardal, nid oes yr un ohonynt ymhlith y rhai yr ymwelir â hwy fwyaf yng Ngogledd Cymru.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos dymuniad i weld atyniad newydd a chyffrous i ddenu rhagor o ymwelwyr i'r ardal, a dylai partneriaid archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllun hyfyw. Mae ardaloedd posibl o ran cyfleoedd yn cynnwys Harbwr Porth Amlwch, Harbwr Cemaes, a thirwedd ddiwydiannol ddramatig Mynydd Parys.

Ceir cyfleoedd hefyd i hybu cysylltiadau agosach rhwng asedau twristiaeth er mwyn cyflawni cynnig mwy cydgysylltiedig ar gyfer ymwelwyr ynghyd ag archwilio ymagwedd fwy gydgysylltiedig o ran brandio, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r cynnig o ran twristiaeth. Mae'r cysylltiadau rhwng cryfder y Gymraeg a'r profiad i ymwelwyr yn ganolog i'r hyn sydd i'w gyflawni o fewn y Thema Flaenoriaeth hon.

Mae gwelliannau i ansawdd a nifer y llety a lletygarwch yng Ngogledd Ynys Môn yn allweddol i ddatblygu cynnig bywiog o ran twristiaeth. Cefnogir hefyd camau i ailddefnyddio adeiladau gweigion presennol at ddibenion twristiaeth, fel y cynllun i ailddatblygu Capel Bethlehem, Cemaes.

Mae gweitgareddau hamdden ar yr arfordir hefyd yn darparu cyfleoedd i'r ardal.


Mynydd Parys

## Prif flaenoriaethau

- Archwilio cyfleoedd ar gyfer atyniadau newydd masnachol-hyfyw i dwristiaid
- Gwella asedau, atyniadau ac isadeiledd twristiaeth
- Cynorthwyo gwella llety i ymwelwyr a gwell darpariaeth o ran lletygarwch
- Hybu asedau diwylliannol a hanesyddol yr ardal
- Gwella arwyddion dehongli i ymwelwyr yn yr ardal
- Mynd i'r afael â chyfleoedd marchnata a digwyddiadau
- Annog buddsoddiadau ym Mhorth Amlwch a Harbwr Cemaes




# Cludiant a chysylltedd

**Cysylltu Gogledd Ynys Môn**

## Y sefyllfa bresennol

Mae Gogledd Ynys Môn yn ardal wledig yn bennaf ac nid yw ar brif goridor dwyrain-gorllewin yr A55/rheilffordd sy'n ymestyn o Bont Britannia i Gaergybi. Y prif lwybr drwy Ogledd Ynys Môn yw'r A5025, tra bo'r llinell reilffordd o'r Gaerwen i Amlwch (Lein Amlwch) yn segur. Mae band eang cyflym iawn wedi'i gyflwyno ar draws Gogledd Ynys Môn, ond mae problemau'n parhau o ran cysylltedd.



Fibr optig




Lein Amlwch

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi

Mae cynlluniau i wella'r A5025 rhwng y Fali a Chemaes, ond effeithir y cynlluniau hyn gan yr ansicrwydd presennol dros Wylfa Newydd. Byddai gwelliannau i'r A5025 rhwng Cemaes ac Amlwch yn helpu i hybu cysylltedd ar draws yr ardal ac yn hybu posibiliadau o ran datblygu yn Amlwch.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi ailddefnyddio'r llinell reilffordd i Amlwch, sy'n segur ac yn llawn tyfiant. Gallai hyn gyflawni buddion sylweddol o ran cysylltedd yng Ngogledd Ynys Môn, gyda buddion cysylltiedig o ran yr economi a thwristiaeth,

Yn ehangach, mae cysylltedd o ran cludiant cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau bod poblogaeth Gogledd Ynys Môn wedi'i chysylltu o fewn yr ardal a gydag aneddiadau Caergybi, Llangefni a Bangor. Mae'r Cynllun Adfywio'n cefnogi chwilio am fuddsoddiad i gynnal y gwasanaethau hyn. Byddai gwelliannau i ddarpariaeth ar gyfer beicio ac i'r Llwybr Arfordirol yn cyd-fynd â chefnogaeth y Cynllun ar gyfer yr economi ymwelwyr.

Mae cysylltedd band eang yn bwysig ar gyfer galluogi busnesau i ddatblygu, ac mae'n cefnogi'r gallu i weithio'n hyblyg. Mae'n fwy a mwy pwysig o ran cysylltedd yn y gymuned, drwy alluogi pobl i ddod at ei gilydd ar-lein, ynghyd â hybu cydlyniant a'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae cyfathrebu drwy gyfryngau hefyd yn galluogi busnesau i ehangu a marchnata. Mae gorsafoedd radio cymunedol a chyfryngau cymdeithasol hefyd gyda rôlau allweddol.

## Prif flaenoriaethau

- Cyflawni gwelliannau i'r A5025 o'r Fali i Amlwch
- Ailddefnyddio lein Amlwch
- Hybu'r ddarpariaeth o gludiant cyhoeddus yn ogystal â gwelliannau i lwybrau beics a llwybrau troed
- Sicrhau bod cysylltiadau TG telecomms da ar gael i bob cymuned yn ardal Gogledd Ynys Môn

# Tai ac adfywio ffisegol

**Cartrefi a lleoedd gwell**

## Y sefyllfa bresennol

Mae'r CDLl ar y Cyd yn nodi nifer y tai sydd eu hangen yng Ngogledd Ynys Môn hyd at 2026, gyda gofynion penodol ar gyfer Amlwch, Cemaes a Llanerchymedd. Nodwyd yn yr ymgynghoriad bod canol tref Amlwch yn dioddef yn sgil diffyg buddsoddiad a bod angen ei adfywio.



Canol Tref Amlwch

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi

Mae sicrhau opsiynau o ansawdd da o ran tai i breswylwyr presennol, pobl ifanc a'r rheiny a all ddod i fyw i'r ardal yn ganolog i adfywio economaidd. Bydd cyflawni gofynion tai y CDLl ar y Cyd yn helpu i ddiwallu anghenion tai tra hefyd yn galluogi rhagor o fuddsoddiad drwy'r diwydiannau adeiladu. Dylai'r Cyngor Sir helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau o ran datblygu tai wrth fynd ati'n weithredol i gefnogi'r cyflenwad o dai fforddiadwy, drwy weithredu polisïau tai y CDLl ar y Cyd a Strategaeth Dai y Cyngor.

Roedd 165 eiddo preswyl yn wag yng Ngogledd Ynys Môn yn 2017, ac mae sawl safle tir llwyd. Byddai gwneud defnydd o gartrefi gweigion ac ailddatblygu tir llwyd, sy'n gyson â pholisi'r CDLl ar y Cyd, yn helpu i ddiwallu anghenion tai a hefyd yn arwain at welliant ehangach o ran yr amgylchedd.

Mae nifer yr unedau gweigion yng nghanol tref Amlwch wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar, gan gynnwys colli canghennau banc. Mae hyn wedi cael effaith ar atyniad y lle fel ardal i ymweld â hi ac i fuddsoddi ynddi, ac ar gymunedau. Ceir cyfleoedd i adfywio stryd fawr Amlwch, a gallai ymyriadau posibl (yn amodol ar gyllid) amrywio o newid gwedd eiddo, darparu mannau ar gyfer siop dros dro a camau adfywio ffisegol.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu bod Gogledd Ynys Môn yn dioddef yn sgil diffyg cystadleuaeth o ran manwerthu. Gallai gwella Amlwch fel y prif leoliad ar gyfer buddsoddi helpu i annog twf manwerthu trwy y sector breifat.

Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn cefnogi amcanion tebyg i'r cynllun yma, a gall fod cyfleon i sicrhau cyllid trwyddo. Mae Amlwch eisioes yn gymwys i dderbyn Benthygiadau Canol Tref.

Mae rhai o adeiladau ysgol yr ardal angen eu gwella ac mae bwriad i foderneiddio ysgolion.

## Prif flaenoriaethau


- Hybu camau i gyflenwi tai i gyflawni gofynion y CDLl ar y Cyd, gan gynnwys cyflenwi'r tai fforddiadwy a fynnir
- Dylid archwilio a manteisio i'r eithaf ar allu tir llwyd i gyflenwi tai a / neu swyddi
- Cefnogi ymyriadau i sicrhau'r ail-ddefnyddio addas i defnydd adeiladau gweigion
- Annog buddsoddiad yng nghanol tref Amlwch, Porth Amlwch a Harbwr Cemaes
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer cymelliadau ariannol i hybu buddsoddiad
- Rhaglen Ysgolion yn yr 21ain Ganrif

# Yr amgylchedd, diwylliant a llesiant

**Gwneud y gorau o asedau Gogledd Ynys Môn**

## Y sefyllfa bresennol

Mae gan yr ardal asedau naturiol a threftadaeth sylweddol, ond sydd hefyd â rhai materion llygredd lleol.  Mae mwyafrif preswylwyr yr ardal yn gallu siarad Cymraeg.



Hybu defnydd y Gymraeg

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi

Mae ansawdd yr amgylchedd yn ganolog i lesiant cymunedau lleol ac yn cyfrannu tuag at wneud yr ardal yn fwy deniadol ar gyfer preswylwyr, ymwelwyr a mewnfuddsoddi. Mae'r Gymraeg yn ganolog i ddiwylliant Gogledd Ynys Môn.

Rhaid gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol drwy gamau cadarnhaol. Dylid rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â materion amgylcheddol fel ansawdd dŵr gwael a halogi tir, wrth achub cyfleoedd i wneud gwelliannau.

Ceir pedair ardal gadwraeth ar draws Gogledd Ynys Môn (Amlwch (Canol), Porth Amlwch, Cemaes, a Llanfechell). Mae'n hanfodol bwysig cymryd camau cadarnhaol i gefnogi'r ardaloedd cadwraeth hyn drwy reoli datblygiadau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gwneud newidiadau cadarnhaol.

Bydd buddsoddiad gyda'r nod o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn hybu ei bywiogrwydd ar draws Gogledd Ynys Môn. O ganlyniad, byddai hynny'n cynnal ac yn gwella llesiant diwylliannol yr ardal. Dylai blaenoriaethau ategu Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a hoelio sylw ar ei defnyddio gan blant a phobl ifanc, yn y gweithle ac ar lefel y gymuned.

Mae Canolfan Hamdden Amlwch yn gyfleuster allweddol a ddefnyddir gan breswylwyr ar draws Gogledd Ynys Môn a gan ymwelwyr i'r ardal. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cefnogi datblygiad rhagor o gyfleusterau i wella iechyd a llesiant.


Arfordir Cemaes

## Prif flaenoriaethau

- Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol (traethau, y morlin, y llwybr arfordirol a thirweddau gwledig) gan gydnabod eu gwerth ynddynt eu hunain, a'u gwerth economaidd
- Diogelu a gwella asedau treftadaeth yr ardal
- Buddsoddi mewn cyfleoedd i hybu iaith a'r diwylliant Cymraeg yr ardal
- Buddsoddi mewn gwasanaethau hamdden yng Nghanolfan Hamdden Amlwch fel cyfleuster allweddol ar gyfer ardal Gogledd Ynys Môn
- Mynd i'r afael â materion o ran llygredd sy'n effeithio amgylchedd yr ardal
- Datblygu Cynllun Gweithredu Amgylchedd i Ogledd Môn ac ymgeisio am gyllid gweithredol

# 8. Cyflawni'r Cynllun Adfywio

## Partneriaid

Mae cyflawni'r Cynllun Adfywio'n dibynnu ar ystod o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cynlluniau, a darparu dull cydgysylltiedig o ddiogelu'r cyllid a'r buddsoddiad a fynnir. Mae'r partneriaid yn cynnwys:

- Magnox / Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (ADN)
- Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Croeso Cymru, CNC, Cadw, WEFO)
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Menter Môn
- Medrwn Môn
- Busnesau Preifat
- Cwmnïau Cyfleustodau
- Perchnogion Eiddo
- Grwpiau Twristiaeth
- Grwpiau Cymunedol
- Y Loteri Genedlaethol

Mae partneriaid eraill hefyd yn debygol o chwarae rhan mewn prosiectau penodol.

## Sut fydd y Cynllun Adfywio'n cael ei weithredu?

Cefnogir y Cynllun Adfywio gan Gynllun Gweithredu, sy'n Atodiad i'r ddogfen hon. Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'r prosiectau mesuradwy o dan bob Thema Flaenoriaeth, a fydd yn cefnogi cyflawni Gweledigaeth y Cynllun Adfywio ar gyfer Gogledd Ynys Môn.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu amserlenni'r prosiectau ac i nodi unrhyw brosiectau newydd. Bydd hefyd yn darparu'r mecanwaith ar gyfer monitro cynnydd y Cynllun.

## Adnoddau a Chapasiti

Bydd cynnydd y cynllun a'i brosiectau'n gofyn am adnoddau ariannol a dynol dros nifer o flynyddoedd. I gyflawni hyn, gofynnir am fewnbwn gan bartneriaid o'u hadnoddau eu hunain, yn ogystal â diogelu cyllid allanol. Byddir yn mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r Cynllun Gweithredu.

## Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd

Mae'n hanfodol bod partneriaid a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys busnesau a phreswylwyr, yn cael eu diweddaru am ddatblygiadau, a bydd hyn hefyd yn rôl ar gyfer y Cynllun Gweithredu.

## Llywodraethu

Bydd trefniadau priodol ar gyfer y cynllun yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, ariannwyr a chynrychiolwyr o'r gymuned, a chyfeirir i hyn yn y Cynllun Gweithredu.

Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn
Drafft Ymgynghori

# Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn

## Atodiad: Cynllun Gweithredu

I bwrpas y ddogfen hon, nodir gweithgareddau o dan eu prif Thema Flaenoriaeth yn y Cynllun Adfywio, er y bydd sawl un o'r prosiectau a restrir yn cyflenwi yn erbyn mwy nag un Thema Flaenoriaeth.




Mae pob cynnig yn destun cydymffurfiad statudol a chyfyngiadau adnoddau.

Bydd cynnigion yn cael eu hadolygu a'u diwygio dros amser.



| Cyflogaeth / Swyddi – Tyfu Economi Gogledd Ynys Môn | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnig** | **Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol** | **Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi** | **Ffynonellau ariannu posibl** |
| Wylfa – parhau i gefnogi'r prosiect a chynllunio i wneud y gorau o'r buddion economaidd i Ogledd Ynys Môn | Cydweithio i ddylanwadu a denu buddsoddiad a sicrhau bod anghenion lleol a chyfleoedd lleol yn cael eu hadlewyrchu ynddi | • CSYM<br>• PGYM<br>• Arall | |
| Rehau – ymateb yn effeithiol i'r cyhoeddiad gan y ffatri | Ymateb cydgysylltiedig i gynorthwyo gweithwyr i ganfod gwaith Ceisio defnydd amgen i'r ffatri sy'n creu swyddi | • Rehau<br>• CSYM<br>• LLC<br>• Eraill | • Preifat |
| Ymateb i Ddiswyddiadau – ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiadau o ran diswyddiadau | Ymateb cydgysylltiedig i gynorthwyo gweithwyr i ailsgilio a chanfod gwaith newydd | • CBG<br>• Gyrfa Cymru<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• SC<br>• CSYM | • SC<br>• REACT |
| Magnox – effeithiau a chyfleoedd o ran gwaredu tanwydd a datgomisiynu | Gweithio i wneud y gorau o'r buddion a lleihau / lliniaru unrhyw anfanteision | • Magnox<br>• SC<br>• CSYM | • ADN |
| Unedau Busnes Newydd – Darparu unedau busnes ar safleoedd addas yn Amlwch (lleoliad a chyllid i'w cadarnhau), a lleoliadau addas eraill fel y mae cyfleoedd yn codi | • Canfod opsiynau o ran lleoliadau<br>• Canfod opsiynau o ran cyflenwi / cyllid<br>• Diogelu caniatadau perthnasol | • CSYM<br>• SC<br>• Sector Preifat | • ADN / LIC /<br>• ERDF<br>• Preifat |
| Statws Parth Menter – cyflwyno achos i LIC am statws PM ar gyfer safleoedd addas eraill (yn ogystal â Rhosgoch) | Canfod safle(oedd) addas gan roi blaenoriaeth i safleoedd cyflogaeth dynodedig | • PMYM<br>• SC<br>• CSYM | • SC |
| Hybu Buddsoddiad Preifat – hybu a chefnogi buddsoddiadau newydd yn yr ardal | Trafod gyda PMYM / LIC<br>Ymchwilio mewn cyfleoedd I fuddsoddi | • PMYM CSYM<br>• SC<br>• Menter Môn | • ADN<br>• SC<br>• BDC |
| Cymorth i Fusnesau – sicrhau rhoi cyhoeddusrwydd i gymorth a chyngor sydd ar gael ar gyfer busnesau sy'n cychwyn ac yn ehangu | Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth presennol ac archwilio'r posibiliadau ar gyfer cynlluniau newydd. Sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar gymorth busnes Arfor | • LIC Busnes Cymru<br>• Hyb Menter Môn | • LIC / Arfor<br>• BDC |
| Addysg, Sgiliau a Chyflogadwyedd – datblygu sgiliau a phrofiad gwaith i bobl leol | • Canfod bylchau mewn darpariaeth<br>• Ystyried cynllun ariannu newydd y Loteri Wledig<br>• Rhaglen Ysgolion yn yr 21ain Ganrif | • Grŵp Llandrillo Menai<br>• Môn CF<br>• Hyfforddiant Parys<br>• CSYM | • ESF/ LIC<br>• Y Loteri Fawr<br>• AND |
| Safle PM Rhosgoch – datblygu ar gyfer defnydd cyflogaeth addas | Deialog gyda pherchnogion y safle, meddianwyr posibl a swyddogion cynllunio ar gyfer y safle cyflogaeth PM dynodedig | • Conygar | • Preifat<br>• SC |
| Safle Octel / Great Lakes – adfer ac ailddatblygu'r safle ar gyfer defnydd cyflogaeth addas | Deialog gyda pherchnogion y safle, meddianwyr posibl a swyddogion cynllunio ar gyfer y safle cyflogaeth dynodedig | • Preifat | • Preifat<br>• SC |

## Twristiaeth – Cefnogi'r Economi Ymwelwyr

| Cynnig | Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol | Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi | Ffynonellau ariannu posibl |
|---|---|---|---|
| Llwybr Arfordirol Gogledd Ynys Môn – gwella a hyrwyddo'r llwybr arfordirol, cysylltiadau iddo/oddi wrtho, a'r budd ion lleol yn ei sgil | Cael trafodaeth gyda Swyddog y Llwybr Arfordirol i nodi anghenion / opsiynau ar gyfer ei wella / hyrwyddo'n well | • CSYM | • SC |
| Mynydd Parys – datblygu ymhellach posibiliadau'r safle fel atyniad i dwristiaid a'r cysylltiadau iddo/oddi wrtho | Wrthi'n gwneud gwaith i uwchraddio'r maes parcio (YEYM)<br><br>Trafod materion ac opsiynau gyda'r perchnogion a rhanddeiliaid eraill | • YTDdA<br>• Preifat | • CC ENRAW Preifat ADN ENRaW |
| Cyrchfan Gogledd Ynys Môn – rhoi mwy o flaenoriaeth i'r ardal o fewn CRhC Ynys Môn a gweithgareddau cysylltiedig | Trafod gyda PCYM | • CSYM | • CRhC PNH<br>• CCTAIS |
| Llety – gwella ansawdd a'r ddarpariaeth o lety i ymwelwyr, yn unol â'r galw | Trafod gyda CC / PCYM<br><br>Sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o gymorth CC | • Preifat | • Preifat CC |
| Atyniadau – ystyried a chefnogi cyfleoedd i wella atyniadau hyfyw presennol neu greu rhai hyfyw newydd sy'n darparu gwerth ychwanegol / yn denu rhagor o ymwelwyr | Trafod gyda CC / PCYM<br><br>Sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o gymorth CC | • Preifat | • Preifat CC |
| Isadeiledd a Digwyddiadau Twristiaeth Lleol - datblygu ymhellach rôl cymunedau lleol mewn twristiaeth leol | Trafod gyda CTaCh / Grwpiau lleol | • CTaCh Gwirfaddolwyr Lleol Preifat | • CTaCh Preifat<br>• CC |



## Cludiant a Chysylltedd – Cysylltu Gogledd Ynys Môn

| Cynnig | Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol | Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi | Ffynonellau ariannu posibl |
|---|---|---|---|
| Gwelliannau o ran Priffyrdd. Gweler isod: | | | |
| Gwelliannau i'r A5025 rhwng y Fali a Chemaes | Bwrw ymlaen i'w gweithredu os bydd cyllid ar gael drwy brosiect Wylfa Newydd – ceisio cael cyllid arall os na fydd hyn yn bosibl | • CSYM | • PNH<br>• SC |
| Gwelliannau i'r A5025 rhwng Cemaes ac Amlwch | Datblygu cynigion a cheisio cael cyllid | • CSYM | • PNH<br>• SC |
| Gwelliannau i ffordd Dosbarth 3 Cemaes<br><br>(Llanfechell/Rhosgoch) i'r B5111 (Ffordd Llannerch-y-medd i Rosybol) (blaenoriaeth CTLl) | Cynllun gwella ffordd CTLl hirdymor (2020-2030) y mae angen ei ddylunio a diogelu caniatâd ar ei gyfer | • CSYM<br><br>• SC | • CTL LlC |
| Gwelliannau o ran capasiti cyffyrdd, cynaliadwyedd a diogelwch, lle bo angen, i hwyluso safleoedd datblygu penodol | Cyflawni gwelliannau'n barhaus, yn dibynnu ar gyflwyno cynlluniau datblygu a lleoliadau | • Trwy'r broses geisiadau cynllunio | • Preifat<br>• Cytundebau A106 |
| Llwybrau Cerdded a Beicio – ceisio hyrwyddo gweithgareddau cerdded a beicio a llwybrau newydd / gwell | Canfod y ddarpariaeth bresennol a blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau | • CSYM, CTaCh | • SC |
| Y Rheilffordd Segur – cefnogi ailagor / ailddefnyddio'r ased, i gynnwys ei ddefnydd fel rheilffordd ynghyd â mathau eraill o ddefnydd addas posib | Cefnogi ailddefnyddio / gwarchod y rheilffordd | • CSYM<br>• LlC / TC<br>• Network Rail<br>• Grŵp Rheilffordd Canol Ynys Môn | • SC |
| TGCh – gweithredu band eang i gefnogi busnesau a datblygu cymunedol er mwyn goresgyn anfanteision lleol | Cymorth parhaus ar gyfer darparu band eang cyflym iawn ar draws Gogledd Ynys Môn<br><br>Mynd ar afael a sgiliau digidol | • BT<br>• SC<br>• Datblygwyr Preifat<br>• Menter Môn | • SC<br>• RCDF |

## Tai ac Adfywio Trefol – Cartrefi a lleoedd gwell

| Cynnig | Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol | Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi | Ffynonellau ariannu posibl |
|---|---|---|---|
| Cartrefi Gweigion – dychwelyd cartrefi gweigion i ddefnydd preswy | Gostyngiad parhaus yn nifer y cartrefi gweigion yn ardal Gogledd Ynys Môn | • Perchnogion eiddo<br>• CSYM | • SC<br>• Preifat |
| Adeiladu Cartrefi Newydd – cyflenwi dyraniadau preswyl y CDLl ar y Cyd i helpu i gyflawni'r gofynion o ran ta | Cyflenwi dyraniadau yn unol ag amcanestyniadau'r CDLl ar y Cyd o ran cyflenwi tai:<br>• Amlwch – 373 uned ar draws pum safle a ddyrannwyd<br>• Cemaes - 60 uned ar un safle (mae LCC wedi cael caniatâd ar gyfer 14 annedd)<br>• Llannerch-y-medd – 17 uned ar un safle | • Datblygwr preifat<br>• CSYM<br>• LCC | • Preifat |
| Tai Fforddiadwy (rhent cymdeithasol a chanolradd) – Datblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol yn uniongyrchol drwy ddatblygiadau newydd new drwy gyfraniadau oddi ar safleoedd | • Darpariaeth barhaus sy'n adlewyrchu'r gofynion o ran cyfraniadau tai fforddiadwy yn y CDLl ar y Cyd.<br>• Mae'r rhaglen tai cyngor newydd ar gyfer 2018/19 yn cynnwys: Maes William Williams - 4 byngalo<br>• Ffordd Lligwy – 3 byngalo<br>• Rhosybol - cymysgedd o 10 tŷ / fflat | • CSYM<br>• Datblygwr preifat<br>• LCC | • Preifat<br>• LCC<br>• GTC<br>• CRT |
| Adeiladau Gweigion - Ceisio trawsnewid adeiladau gweigion / ailddatblygu safleoedd sy'n ddolur llygad o fewn y ffiniau datblygu, at ddefnydd addas | Archwilio'r posibiliadau o ran ailddefnyddio a thrawsnewid adeiladau presennol. Mae cynlluniau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd yn cynnwys<br>• Capel ar Stryd Wesley, Amlwch - 6 uned presyl<br>• Bull Inn, Amlwch – 6 uned presyl | • CSYM<br>• Datblygwyr preifat | • Preifat<br>• SC |
| Canol Tref Amlwch – canfod a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella atyniad a bywiogrwydd canol y dref | Cwmpasu rhaglen ar gyfer buddsoddi yng nghanol y dref. Yn ddelfrydol, cynnwys uwchraddio ac ailddefnyddio mannau gweigion, a cheisio cael cyllid | • CSYM<br>• CTA<br>• Rhanddeiliaid lleol | • Preifat<br>• CDL<br>• SC |
| Ardal Harbwr Amlwch – canfod a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella atyniad a gwerth economaidd yr ardal | Datblygu rhaglen ar gyfer buddsoddi yn ardal yr harbwr. Ymchwilio i'r potensial o gefnogi busnesau pysgota, a cadwyn gyflenwi morol a gwasanaethau ar y Môr | • CSYM<br>• CTA<br>• Rhanddeiliaid lleol<br>• Menter Môn | • Y Loteri<br>• FLAG |
| Ardal Harbwr Cemaes – canfod a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella atyniad a gwerth economaidd yr ardal | Datblygu rhaglen ar gyfer buddsoddi yn ardal yr harbwr. Prosiect allweddol yw ailddefnyddio Capel Bethlehem fel atyniad newydd / bwyty / canolfan – angen cefnogi a chynorthwyo'r CBC i ddatblygu ac ariannu prosiect cadarn a hyfyw | • CSYM<br>• CC Llanbadrig<br>• CBC Cemaes + Eraill | • ADN<br>• Cronfa Padrig<br>• CDL |
| Asedau Treftadaeth – canfod a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella ac elwa ar adeiladau a nodweddion treftadaeth | Ystyried CDL / cyfleoedd eraill o ran cyllid treftadaeth | • CSYM<br>• Perchnogion | • CDL<br>• Cadw |
| Mannau a Chyfleusterau Chwarae – sicrhau darpariaeth ddigonol o safon, ynghyd â gwaith cynnal a chadw | Gwella mannau a chyfleusterau chwarae. Wedi diogelu cyllid Loteri ar gyfer dau gynllun yn Amlwch | • CTaCh<br>• Grwpiau lleol, gan gynnwys Caru Amlwch | • Y Loteri<br>• CTaC |
| Moderneiddio Ysgolion | Gwella seilwaith addysg a gwneud yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif<br>(Mae hwn yn rhaglen ar wahân gyda ymgynghoriad ychwanegol) | • CSYM<br>• Rhaglen moderneiddio Ysgolion | • SC |

## Yr amgylchedd, diwylliant a llesiant – Gwneud y gorau o asedau Gogledd Ynys Môn

| Cynnig | Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol | Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi | Ffynonellau ariannu posibl |
|---|---|---|---|
| Ansawdd Dŵr Cemaes – Ceisio gwella ansawdd dŵr nofio yn Nhraeth Cemaes i gyflawni statws 'da' | Cais SMS ar gyfer capasiti i'w gynllunio | • CSYM<br>• CNC<br>• Menter Môn | • ENRaW LIC<br>• NRW<br>• Tirfeddian-wyr<br>• SMS |
| Ansawdd Dŵr Amlwch / Mynydd Parys – Ceisio mynd i'r afael â llygredd dŵr y mwynglawdd | Fel yr uchod | • CSYM<br>• CNC<br>• Menter Môn | • ENRaW LIC<br>• NRW<br>• Tirfeddian-wyr |
| Tir halogedig a diffaith – lleihau unrhyw risgiau yn sgil y diwydiant cemegol / gwaredu nodweddion sy'n ddolur llygad | Fel yr uchod | • CSYM<br>• CNC<br>• Menter Môn | • ENRaW LIC<br>• NRW<br>• Tirfeddian-wyr |
| Llyn Alaw - ystyried y posibiliadau o ran cynyddu'r buddion i'r ardal leo | Ymchwilio gyda Dŵr Cymru a Chroeso Cymru | • Dŵr Cymru | • Dŵr Cymru<br>• CC |
| Gwelliannau amgylcheddol mewn lleoliadau trefol a gwledig addas | Archwilio cynlluniau posibl, yn cynnwys plannu coed | • Tirfeddianwyr<br>• Menter Môn | • CNC / Grantiau ffermio<br>• ENRaW |
| Gwelliannau i Ganolfan Hamdden Amlwch | Datblygu stiwdio | • CSYM | |
| | Datblygu cae 5 bob ochr 3G | • CSYM | |
| | Adnewyddu'r ystafelloedd newid gwlyb presennol | • CSYM | |



## Cynllunio a Chyflawni

| Cynnig | Camau gweithredu / cerrig milltir allweddol | Arweinydd posibl / partneriaid cyflenwi | Ffynonellau ariannu posibl |
|---|---|---|---|
| Uwchgynhadledd Adfywio Economaidd | Trefnu digwyddiad i amlygu materion / anghenion yr ardal a lansio cynllun | • CSYM | |
| 'Llunio Lle' - integreiddio'r cynllun adfywio gyda rhaglen cynllunio cymunedol ar gyfer wardiau etholiadol | Integreiddio gyda gwaith ar lefel wardiau etholiadol | • Medrwn Môn<br>• Menter Môn<br>• CSYM | • Amrywiol |
| Capasiti – darparu capasiti i gynllunio a gwneud ceisiadau ar gyfer cynigion / camau gweithredu / prosiectau a nodwyd | Paratoi a llunio ceisiadau am gyllid ar gyfer capasiti i gefnogi rhaglenni/prosiectau | • CSYM<br>• Menter Môn | • LIC, ADN<br>• A106, Y Gronfa Loteri Fawr |
| Cyllid – cynllunio a cheisio cyllid i gyflawni'r cynllun adfywio | Adolygu ffynonellau cyllid posibl a gwneud ceisiadau perthnasol, gan gynnwys y canlynol | • CSYM | • Cysylltiedig â'r uchod |
| Cais am Gyllid i'r ADN | Ymgysylltu â'r ADN a pharatoi cais am gyllid i'r gronfa economaidd-gymdeithasol | • CSYM | • Cronfa Economaidd-gymdeithasol ADN |
| Cais am gyllid i LIC | Ymgysylltu â LIC a pharatoi cais am gyllid i'r gweinidog / adran berthnasol | • CSYM | • SC |
| Cais am gyllid i'r Gronfa Loteri Fawr | Ymgysylltu â'r GLF a pharatoi cais am gyllid i'r Rhaglen Wledig newydd erbyn cylch Hydref 2019 | • CSYM | • Cronfa Wledig y Gronfa Loteri Fawr |
| Partneriaeth a Chyfathrebu – sefydlu a chynnal partneriaethau a chyfathrebu effeithiol | Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer partneriaethau â rhanddeiliaid a chyfathrebu | • Pob un | |
| Dulliau Gweithio – adlewyrchu 5 dull gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Gweithgaredd trawsbynciol | • Pob un | |
| Y Gymraeg – adlewyrchu a chefnogi cymeriad Gogledd Ynys Môn fel ardal sy'n siarad Cymraeg | Gweithgaredd trawsbynciol<br>TIM bach and other MIM Projects<br>Sefydlu rhaglen Arfor a gwneud y gorau o'r buddion i Ogledd Ynys Môn | • MIM<br>• CSYM<br>• CTaCh<br>• Preifat | • Arfor LIC |
| Anghenion Gwledig ac o ran Ffermio – cefnogi anghenion gwledig penodol Gogledd Ynys Môn, a cheisio sicrhau cymorth parhaus i ffermwyr gan y llywodraeth | Gwneud y gorau o'r buddion o gynlluniau cyllid gwledig yr UE sydd ar ôl o dan y RDP<br>Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy<br>Lobïo i sicrhau bod cymorth gan y llywodraeth ar gyfer ffermydd teuluol yn parhau | • MM<br>• CSYM<br>• Eraill<br>• Undebau Ffermio a CLILC | • Leader/ RDP yr UE drwy Menter Môn<br>• LIC |
| Rôl y Trydydd Sector | Cefnogi a datblygu rôl y trydydd sector mewn adfywio a llesiant e.e. Caru Amlwch, CBC Cemaes, Menter Mechell, Heneiddio'n Dda | • Medrwn Môn<br>• Menter Môn<br>• IACC | • Amrywiol<br>• Leader |
| Llywodraethu | Datblygu llywodraethu ar gyfer y Cynllun | • IACC | • SC |

# Geirfa

ADN – Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

BDC – Banc Datblygu Cymru

CBC – Cwmni Buddiannau Cymunedol

CBG – Canolfan Byd Gwaith

CC – Croeso Cymru

CDL – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

CLlLC – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CRT – Cyfrif Refeniw Tai

CRhC – Cynllun Rheoli Cyrchfan

CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

CTA – Cyngor Tref Amlwch

CTaCh – Cynghorau Tref a Chymuned

CTL – Cronfa Trafnidiaeth Leol

CTLl – Cynllun Trafnidiaeth Lleol

ENRaW – Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (rhaglen Llywodraeth Cymru)

ERDF – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

ESF – Cronfa Gymdeithasol Ewrop

GTC – Grant Tai Cymdeithasol

LCC – Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

MIM – Menter Iaith Môn

Môn CF – Cymunedau yn Gyntaf Môn

PCYM – Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn

PGYM – Partneriaeth Gogledd Ynys Môn

RDP – Y Rhaglen Datblygu Gwledig


SC – Sector Cyhoeddus

TC – Trafnidiaeth Cymru

YEYM – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

YTDdA – Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch







## Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

# Cynllun Adfywio Amlwch a Gogledd Ynys Môn –

# Adroddiad ar Ganlyniadau'r Arolwg Ymgynghori









**20 Medi 2018**

**Paratowyd gan:**
Swyddogaeth Adfywio

## 1.0 Pwrpas yr Arolwg

1.1 Rhwng 20 Mehefin a 16 Gorffennaf 2018, cynhaliodd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd arolwg o Ogledd Ynys Môn. Pwrpas yr arolwg oedd gosod sylfaen ar gyfer paratoi cynllun adfywio ar gyfer yr ardal. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r amcanion a'r cyd-destun, sut cynhaliwyd yr arolwg, a'r prif gasgliadau, ac mae'n rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn. Mae canlyniadau manwl yr arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad (A). Cyllidir y gwaith o baratoi cynllun adfywio Gogledd Môn gan Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) / Cronfa Gymdeithasol-Economaidd Magnox.

## 2.0 Amcanion

2.1 Yn seiliedig ar waith ymgysylltu gyda chymunedau lleol i gasglu eu safbwyntiau ynglŷn ag amgylchiadau sy'n effeithio ar yr ardal ac anghenion buddsoddi ar gyfer ardal Amlwch a Gogledd Ynys Môn, y nod yw defnyddio'r canlyniadau fel man cychwyn ar gyfer cytuno ar set o flaenoriaethau lleol, camau gweithredu cysylltiedig a llywio penderfyniadau.

2.2 Cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth o anghenion buddsoddi a blaenoriaethau a nodwyd yn lleol yn ardal Amlwch a Gogledd Ynys Môn er mwyn cefnogi ymdrechion i sicrhau cyllid gan sefydliadau perthnasol yn ddiweddarach.

2.3 Mae manteision posib ar gyfer Gogledd Ynys Môn yn sgil datblygu'r Cynllun Adfywio yn cynnwys;

- Cadarnhau anghenion lleol, problemau a blaenoriaethau
- Nodi cyfleoedd, syniadau a helpu i ddatblygu prosiectau addas
- Creu proffil uwch i'r ardal
- Gweithio tuag at sicrhau mwy o fuddsoddiad
- Cyfleoedd i gynnwys mwy o wariant lleol
- Syniadau i ddatblygu mwy o swyddi a swyddi gwell
- Gwella llesiant

## 3.0 Cyd-destun

3.1 Yn sgil cau a datgomisiynu Wylfa A a chynigion i ddatblygu Wylfa Newydd, mae CSYM wedi nodi'r angen i ddatblygu Cynllun Adfywio ar gyfer Gogledd Ynys Môn, yn canolbwyntio ar Amlwch fel y brif dref. Gyda chyllid gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a Magnox, y nod yw creu Cynllun Adfywio yn dilyn ymgynghori gyda chymuned Gogledd Ynys Môn. Drwy gydol yr ymgynghoriad, roedd barn y gymuned yn hynod o bwysig a'r nod oedd creu ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol o'r Cynllun Adfywio terfynol.

3.2 Yr amodau sy'n effeithio ar yr ardal ar hyn o bryd, a'r rhesymau dros ddatblygu cynllun, yw;

- Colli diwydiant
- Datgomisiynu gorsaf bŵer Wylfa
- Rhesymoli cyfleusterau cyhoeddus a phreifat
- Problemau ac anghenion gwledig
- Diffyg buddsoddiad newydd
- Wylfa Newydd – effaith a chyfleoedd
- Bydd y cynllun yn cynorthwyo i gael mynediad at gyllid

3.3 Mae'r manteision a ragwelir o gael cynllun adfywio yn cynnwys:-

a) Rhoi ffocws i CSYM, partneriaid cyflenwi a'r gymuned er mwyn targedu cyflenwi gwasanaethau ac adnoddau;

b) Darparu offeryn i lywio gwaith partneriaeth yn lleol – a sicrhau set o flaenoriaethau cytunedig ar gyfer yr ardal;

c) Cefnogi ymdrechion i sicrhau cyllid.

## 4.0 Cyd-destun Amlwch a Gogledd Ynys Môn

4.1 Mae'r ardal ddaearyddol a gafodd ei chynnwys yn yr ymgynghoriad a chyfnod datblygu'r Cynllun Adfywio yn cyfateb i'r cymunedau a

gynhwyswyd ym Mhapur Pwnc Gogledd Ynys Môn y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd gan CSYM yn ddiweddar. Gweler map o'r ardal isod.

4.2 Map o ardal Amlwch a Gogledd Ynys Môn:




## 5.0 Y Broses Ymgynghori

5.1 Yn ystod yr ymgynghoriad (a gynhaliwyd rhwng 20 Mehefin a 16 Gorffennaf 2018) roedd modd cael mynediad at Arolwg Cynllun Adfywio Amlwch a Gogledd Ynys Môn drwy ddilyn y ddolen ganlynol;

ttps://www.smartsurvey.co.uk/s/AD0JZ/

Dosbarthwyd copïau papur o'r Arolwg hefyd i ganolfannau amrywiol a sefydliadau o fewn ardal Gogledd Ynys Môn, yn cynnwys pentrefi gwledig ar draws Gogledd yr Ynys. Gwnaed hyn er mwyn gwella cyfleoedd i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd. Roedd lleoliadau'n cynnwys ysgolion, meddygfeydd, llyfrgelloedd, caffis, canolfannau hamdden, tafarndai, siopau lleol a siopau cyfleustra ayb.

5.2 Anfonwyd dogfennau perthnasol a gohebiaeth at Aelodau Lleol ar 20 Mehefin 2018. Roeddem yn awyddus i dderbyn eu sylwadau fel Aelodau sy'n adnabod eu hardaloedd yn dda, a hefyd i rannu'r neges ynglŷn â'r cyfle i ymateb. Mae Aelodau Lleol y Cyngor Sir ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys;

Ward Talybolion – Llinos Medi Huws / John Griffith / Kenneth P Hughes

Ward Twrcelyn – Richard Griffiths / Aled Morris Jones / Richard Owain Jones

Ward Lligwy – Vaughan Hughes / Margaret Murley Roberts / Ieuan Williams (dim ond rhan Moelfre y ward sydd yn ardal y Cynllun)

5.3 Anfonwyd y ddolen ar-lein a chopïau o'r dogfennau ymgynghori at gyfanswm o 9 Cyngor Tref a Chymuned ar 20 Mehefin 2018, yn cynnwys cynghorau;

Amlwch
Llanbadrig
Mechell
Cylch y Garn
Llaneilian
Llanfaethlu
Moelfre
Llannerchymedd
Rhosybol

## 6.0 Casgliad

6.0 Roedd safbwyntiau pobl a chymunedau lleol Gogledd Ynys Môn yn bwysig iawn i ni. Derbyniwyd 190 o arolygon ar-lein wedi eu cwblhau'n llawn, 497 o arolygon ar-lein wedi eu cwblhau'n rhannol a 23 o gopïau papur wedi eu cwblhau.

6.1 Cofnodwyd a dadansoddwyd pob adborth a dderbyniwyd, ac mae'r canlyniadau'n cael eu hadlewyrchu yn Atodiad (A) Cynllun Adfywio

Amlwch a Gogledd Ynys Môn – Adroddiad ar Ganlyniad yr Arolwg Ymgynghori. Roedd yr arolwg yn cynnwys 10 cwestiwn.

6.2 Drwy ddadansoddi'r adborth a dderbyniwyd, amlygwyd y themâu allweddol canlynol:-

a) Cefnogi swyddi a busnes

b) Datblygu twristiaeth / atyniad newydd, cyffroes / llety

c) Gwella'r stryd fawr / cynnig manwerthu / rhoi sylw i adeiladau gweigion

d) Gwella cludiant / seilwaith ffyrdd

e) Defnyddio asedau arfordirol / treftadaeth / diwylliant yr ardal

f) Defnyddio'r hen linell rheilffordd a hen safleoedd diwydiannol










## 7.0 Camau Nesaf Arfaethedig

7.1 Mae angen gwneud mwy o waith yn awr i ystyried a rhoi sylw i'r anghenion a'r syniadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y themâu blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer prosiectau posib ac asesu eu hyfywedd.

7.2 Yn ogystal, mae angen nodi anghenion a chynigion eraill ar gyfer yr ardal na chafodd eu hamlygu hyd yn hyn yn y broses ymgynghori gyhoeddus. Mae angen ymgysylltu gydag asiantaethau perthnasol er mwyn nodi'r materion hyn e.e. tai, cyfleustodau, amgylcheddol, hamdden, priffyrdd, ysgolion neu brosiectau cyfalaf dan ystyriaeth.

7.3 Mae angen briffio aelodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ar ganlyniadau'r arolwg a'r camau nesaf arfaethedig, ac iddynt gael eu cynnwys yn y broses. Mae Medrwn Môn yn trefnu cyfarfodydd 'Cynllunio Lle' pellach ar gyfer ward Twrcelyn ac mae angen cadarnhau'r berthynas rhwng y gweithgaredd hwn a'r broses o lunio cynllun adfywio.

7.4 Dylai gwaith ar ddrafftio'r Cynllun Adfywio gymryd lle yn awr, gan ddefnyddio'r wybodaeth ym Mhapur Pwnc y Canllawiau Cynllunio Atodol a'r ymateb i'r Arolwg, ond bydd y cynnwys o ran prosiectau a chynigion penodol yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith pellach a nodwyd uchod. Yn amlwg, ni fydd nifer o'r materion yn cael eu datrys am beth amser a bydd rhaid defnyddio geiriau addas i roi sylw i'r mater.


7.5 Un fformat posib ar gyfer y Cynllun fyddai dogfen strategol lefel uchel ddeniadol yn cwmpasu nifer o flynyddoedd ar gyfer sawl blwyddyn, ynghyd â chynllun gweithredu mwy manwl fyddai'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn.

7.6 Pan fydd Cynllun Adfywio drafft cytunedig mewn lle, bydd angen ymgynghori ymhellach gydag aelodau lleol a rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau ei fod yn gadarn ac yn cael ei dderbyn cyn ei gwblhau a'i fabwysiadu.

## Atodiad (A)

Mae cwestiynau'r arolwg yn cael eu hamlinellu isod ynghyd ag ymatebion yr ymgynghoriad ar gyfer pob cwestiwn. Yn ogystal, rhestrir rhai enghreifftiau o'r ymatebion a roddwyd. Roedd yr arolwg yn cynnwys 10 cwestiwn. Crëwyd graffiau ar gyfer pob cwestiwn yn dangos canran pob un o'r ymatebion.

### Cwestiwn 1: Beth ydi cryfderau Amlwch a Gogledd Ynys Môn?





**<u>Y 4 ateb mwyaf poblogaidd</u>:** **1.** Arfordir a Thraethau **2.** Ymdeimlad o Gymuned **3.** Hanes Lleol **4.** Llwybr Arfordirol

**Enghreifftiau o Ymatebion i Gwestiwn 1:** Beth ydi cryfderau Amlwch a Gogledd Ynys Môn?

- "Harddwch naturiol, treftadaeth, llwybr yr arfordir, golygfa, cymuned, mwynderau, elfennau hanesyddol".
- "Llwybrau arfordirol a golygfeydd da. Llwybrau cerdded da megis Mynydd Parys. Pobl sy'n byw yn y gymuned. Presenoldeb gref yr iaith Gymraeg".
- "Harddwch naturiol eithriadol".
- "Cymunedau clos, cefndir Cymraeg gref, harddwch naturiol, a'r arfordir".
- "Nodweddion hanesyddol, diwylliannol a golygfeydd".
- "Traethau a'r arfordir, iaith, hanes a diwylliant, cymunedau, pentrefi a thrigolion cyfeillgar".
- "Ardal brydferth, pobl gyfeillgar".
- "Cyfle i ddatblygu twristiaeth".
- "Treftadaeth / hanes. Llwybr yr Arfordir. Iaith Gymraeg. Cyfle i ddatblygu twristiaeth. Ymdeimlad cryf o berthyn i bentrefi llai. Mynydd Parys".
- "Mynediad rheilffordd yn bosib. Arfordir hardd, baeau bychan, baeau a phorthladdoedd pysgota. Mae awydd i adfywio".

**Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, pa newidiadau sydd eu hangen yn Amlwch a Gogledd yr Ynys i gynyddu ffyniant yr ardaloedd hyn?**





**<u>Y 4 ateb mwyaf poblogaidd:</u>** **1.**Atyniadau/Llety i Dwristiaid **2.** Gwella Manwerthu **3.** Datblygu'r hen Reilffordd **4.** Adnewyddu Siopau

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 2:** Yn eich barn chi, pa newidiadau sydd eu hangen yn Amlwch a Gogledd yr Ynys i gynyddu ffyniant yr ardaloedd hyn?

- "Gwella cefnogaeth i dwristiaeth a datblygu seilwaith hanfodol. Mwy o farchnata a hyrwyddo. Mae astudiaethau economaidd o ardaloedd eraill yn Ewrop a'r Unol Daleithiau yn nodi pwysigrwydd ffactorau diwylliannol – cerddoriaeth ac ati – mae Ynys Môn yn anobeithiol am hyrwyddo diwylliant ochr yn ochr â hyrwyddo'r economi".
- "Mwy o fusnesau. Mwy o dwristiaeth. Cydraddoldeb i ddwyieithrwydd a rhoi mwy o rym i'r bobl".
- "Helpu i greu, neu ddenu, atyniadau newydd i ymwelwyr sy'n addas i'r ardal".
- "Buddsoddi mwy mewn pentrefi bach (Penysarn/Rhosybol). Mae Cemaes yn enghraifft dda o'r hyn y gellir ei wneud. Gwneud yn siŵr fod ysgolion cynradd bach yn cael eu cadw, nhw yw calon pentrefi bach".
- "Sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel nodwedd unigryw ein hardal – marchnata a brandiau dwyieithog cadarnhaol".
- "Adnewyddu'r llinell drên. Datblygu atyniadau twristiaeth megis Mynydd Parys a mynediad agored at safleoedd treftadaeth eraill ar yr arfordir. Archfarchnad addas. Arian i adnewyddu'r prif ardaloedd siopa a'r porthladd. Buddsoddwyr preifat yn cymryd cyfrifoldeb am Lyn Alaw. Gwelliannau sylweddol i gysylltiadau ffyrdd".

**Cwestiwn 3: Beth yw'r prif ffactorau sydd yn ei gwneud hi'n anodd creu swyddi a chael pobl i fuddsoddi arian yn yr ardaloedd hyn?**




<u>**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd**</u>: **1.** Cysylltiadau seilwaith / cludiant gwael **2.** Ardal anatyniadol / heb ei datblygu'n ddigonol


**3.** Diffyg cefnogaeth **4.** Trethi busnes uchel

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 3:** Beth yw'r prif ffactorau sydd yn ei gwneud hi'n anodd creu swyddi a chael pobl i fuddsoddi yn yr ardaloedd hyn?

- "Unedau busnes o wahanol feintiau ddim ar gael".
- "Diffyg cyllid gan y Cyngor Sir".
- "Seilwaith ffyrdd gwael a dim cysylltiad rheilffordd".
- "Dim adeiladau addas, cludiant cyhoeddus, rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr gwael iawn ac edrychiad gwael yn gyffredinol".
- "Ardal anghysbell".
- "Cyswllt rheilffordd gwael".
- "Mynediad – mae'n ardal anghysbell ac nid oes gennym wasanaeth rheilffordd ac ni wneir digon o ddefnydd o'r Porthladd".
- "Trethi busnes uchel a dim cefnogaeth i fusnesau newydd".
- "Canfyddiad. Diffyg marchnata arloesol. Mae'r ardal angen swyddi o safon uchel er mwyn annog talent i aros yn yr ardal neu symud i'r ardal".
- "Diffyg cyflogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc yn yr ardal. Diffyg hyfforddiant".
- "Mae'n ardal amaethyddol a thwristiaeth ac nid yw'n addas ar gyfer adeiladu ffatrïoedd mawr. Dylem annog datblygiadau lleol – yn hytrach na chwilio am fuddsoddiad o'r tu allan drwy'r amser".

Tudalen 140

## Cwestiwn 4: Pa leoliadau neu gynlluniau yn Amlwch a Gogledd Môn ddylai fanteisio ar fuddsoddiadau a datblygiadau megis Wylfa Newydd?





**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd:** **1.** Datblygu Mynydd Parys **2.** Datblygu Porth Amlwch **3.** Datblygu Rheilffordd

▪**4.** Datblygu Safle Octel ▪**4.** Llety ar gyfer Twristiaid ▪**4.** Cyfleusterau a Gwasanaethau ▪**4.** Dim buddiannau lleol

**Enghreifftiau o ymatebion i gwestiwn 4**: Pa leoliadau neu gynlluniau yn Amlwch a Gogledd Môn ddylai fanteisio o fuddsoddiadau a datblygiadau megis Wylfa Newydd?

- "Byddai hen Adeilad Glanfa Olew Shell yn Adeilad Ased Cymunedol delfrydol ar gyfer gweithgareddau Dŵr – megis Ysgol Ddeifio, Hostel ar gyfer Llwybr yr Arfordir, Clwb Rhwyfo, gwylfan Forol ayb".
- Dylid ailddatblygu Porth Amlwch a'i wneud i edrych yn debyg i "bentrefi pysgota" lliwgar eraill".
- "Gwaith cynnal a chadw ar Ysgol Syr Thomas Jones (ei huwchraddio ayb) a chymryd i ystyriaeth ei bod yn adeilad rhestredig".
- "Yr Hen Linell Rheilffordd – ar gyfer cludiant lleol ac fel atyniad i dwristiaid".
- "Datblygu Mynydd Parys – canolfan Ddringo, trac Beicio Mynydd, teithiau dan ddaear neu'r Felin fel Canolfan Ymwelwyr".
- "Ailddatblygu Safle Octel ar gyfer rhywbeth tebyg i Surf Snowdonia".
- "Ailddatblygu hen adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghanol tref Amlwch (e.e. meddygfa / banc / hen ysgol) a chreu hyb cymunedol gydag ystafelloedd cyfarfod, caffi, canolfan wybodaeth i dwristiaid gyda chrefftau lleol ayb".
- "Ailddatblygu'r hen siop Hen Bethau ym Mhorth Amlwch fel atyniad i dwristiaid / bwyty".
- "Ailddatblygu Hen Westy'r Bull Bay fel Gwesty gyda golygfa / Fflatiau Gwyliau".

**Cwestiwn 5: Pa safleoedd yn Amlwch a Gogledd Môn ydych chi'n meddwl sydd bwysicaf ar gyfer datblygu gwasanaethau, tai a chyflogaeth newydd?**





**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd**: **1.** Canol Tref Amlwch **2.** Safle Octel **3.** Hen Safle Shell yn Rhosgoch **4.** Porth Amlwch

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 5:** Pa safleoedd yn Amlwch a Gogledd Môn ydych chi'n meddwl sydd bwysicaf ar gyfer datblygu gwasanaethau, tai a chyflogaeth newydd?

- "Mae tref Amlwch angen mwy o siopau ac mae angen adnewyddu'r dref".
- "Mae'r stad ddiwydiannol angen ychydig o unedau newydd ar gyfer diwydiant ysgafn".
- "Safle Rhosgoch (e.e. safle Carafanau)"
- "Stad Ddiwydiannol Amlwch i ymestyn swyddi a Chemaes i ymestyn Twristiaeth".
- "Hen safle Octel ar gyfer unedau diwydiannol neu ddatblygiadau ar raddfa fwy. Mae gan y safle gysylltiad rheilffordd hefyd. Beth am agor y rheilffordd yn awr, mae'n elfen hanfodol fyddai'n gwella dyfodol Amlwch, o ran twristiaeth a diwydiant".
- "Dylid trin Amlwch fel canolfan ar gyfer adfywio gan y byddai'r buddsoddiad a'r adfywio yn cael effaith ar lefydd megis Cemaes, Rhosybol, Llanfechell, Llannerchymedd a llefydd sy'n agos i'r ardal".
- "Mwy o dai cymdeithasol yn Amlwch a mwy o archfarchnadoedd rhad".
- "Ydym ni wir angen mwy o dai a stad ddiwydiannol? Bydd gormod o hynny'n lleihau tir amaethyddol a llefydd agored ac yn lleihau twristiaeth".
- "Yn fy marn i, nid y safle ond y cysylltiadau fyddai'n arwain pobl i mewn i'r ardal sydd bwysicaf. Felly, nid yn unig y gwelliannau ar y ffyrdd rhwng Fali a Wylfa, ond gwelliannau yn y pentrefi lleol, er mwyn sicrhau nad ydynt yn llefydd mae pobl eisiau 'gyrru heibio iddynt yn gyflym'".

**Cwestiwn 6: Ym mha ffordd fyddai posib manteisio a gwneud y mwyaf o'r stryd fawr a'r amgylchedd lleol?**





**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd**: **1.** Tacluso'r ardal yn gyffredinol **2.** Trethi Busnes Is **3.** Parcio Am Ddim **4.** Grantiau sefydlu busnes

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 6:** Ym mha ffordd fyddai posib manteisio a gwneud y mwyaf o'r stryd fawr a'r amgylchedd leol?

- "Hysbysebu atyniadau lleol mewn ffenestri siopau sydd wedi cau".
- "Cynnal y farchnad wythnosol yn y stryd, ar yr amod nad oes stondinau gwerthu cig a blodau er mwyn peidio â chael effaith ar siopau cig a siopau blodau ar y Stryd Fawr. Gallai Gwesty'r Dinorben osod byrddau tu allan yn ystod diwrnod marchnad".
- "Cymhelliant ariannol i ddenu busnesau newydd, gan ddefnyddio gostyngiadau treth, grantiau a grantiau cyflogaeth fel cymhelliant i ddenu busnesau newydd".
- "Derbyn bod dyddiau'r Stryd Fawr wedi darfod. Troi siopau gwag yn dai".
- "Trethi is i siopau'r Stryd Fawr a rhoi diwedd ar yr arfer o droi hen siopau yn fflatiau".
- "Lleihau rhenti siopau, caniatáu i siopau crefftau agor, lleihau nifer y siopau elusen. Hyrwyddo cerdded a gweithgareddau ar y môr. Ystyried ymestyn y rheilffordd...ond dim ond ar ôl sicrhau fod rhywbeth ar ben arall y llinell rheilffordd i ddenu pobl i'r ardal".
- "Gallai CSYM greu rhestr o eiddo sydd ar gael a chwilio am ddefnyddwyr. Creu ardal i gerddwyr fel sy'n bodoli ym Mangor. Hyb Twristiaeth, Treftadaeth a Hanes Lleol".
- "Yn sicr mae angen tacluso'r ardal, a gallai hynny annog pobl i fuddsoddi mewn busnesau bach".
- "Parcio am ddim".

**Cwestiwn 7: Sut allwn ni wella neu ychwanegu gwerth at brofiad twristiaid sy'n ymweld â Gogledd Môn?**





**<u>Y 4 ateb mwyaf poblogaidd</u>:** **1.** Mwy o fwytai **2.** Gwella cludiant lleol **3.** Gwella arwyddion **4.** Llety ar gyfer ymwelwyr

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 7:** Sut allwn ni wella neu ychwanegu gwerth at brofiad twristiaid sy'n ymweld â Gogledd Môn?

- Gwell cyrchfannau i dwristiaid. Mae pobl yn dod ond nid oes cychod ym Mhorth Amlwch, dim caffis da, dim ardaloedd gwyrdd lle gellir eistedd, dim gweithgareddau ar y dŵr e.e. cychod pysgota, felly mae'r bobl sy'n ymweld yn gadael".
- "Mwy o amrywiaeth o atyniadau, tafarndai, bwytai a gweithgareddau dŵr o safon".
- "Ffordd lydan, ddiogel i mewn i'r ardal o bob cyfeiriad ar gyfer ceir, loriau a charafanau".
- "Er ein bod ni angen moderneiddio gyda busnesau ayb...mae'n bwysig cadw'r ymdeimlad o hen bentref a'i hynodrwydd...edrych ar ôl treftadaeth Gymreig".
- "Ymchwilio i lygredd dŵr yng Nghemaes er mwyn cael ei wared a hyrwyddo twristiaeth yn sgil hynny. Hefyd, gwella trafnidiaeth, o safbwynt bysiau a threnau".
- "Rydym angen gwefan fywiog sy'n dod â phethau / gweithgareddau ynghyd. Mae rhai adnoddau ar gael yn barod ond nid ydynt wedi cael eu diweddaru – gwybodaeth ar wasgar ac yn anodd ei ganfod".
- "Tacluso'r ardaloedd diwydiannol blêr. Stopio'r peilonau a stopio'r dirwedd rhag cael ei diwydianeiddio ymhellach gan ynni (ffermydd gwynt a strwythurau mawr eraill sy'n anharddu'r Ynys)".
- "Cynllun paentio da, a phaentio'r tai mewn lliwiau gwahanol yn lle waliau llwydaidd wedi eu chwipio".
- "Cynnig Cymru draddodiadol a lleol iddyn nhw. Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau lleol, Cymreig".
- "Mwy o gerddoriaeth a gweithgareddau diwylliannol eraill. Hefyd, ei gwneud yn llawer haws i ddod o hyd i safleoedd hanesyddol – nid oes arwyddion o gwbl ar gyfer nifer ohonynt".

**Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, beth yw'r 3 prif flaenoriaeth i ddatblygu'r economi yn Amlwch yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor?**





**<u>Y 4 ateb mwyaf poblogaidd</u>:** **1**. Hybu Twristiaeth ▪**2.** Cynyddu cyflogaeth ▪**2.** Cefnogi Busnesau **3.** Ailddatblygu canol y dref

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 8:** Yn eich barn chi, beth yw'r 3 prif flaenoriaeth i ddatblygu'r economi yn Amlwch yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor?

- "Twristiaeth, Addysg a denu mwy o fusnesau a chefnogi datblygiadau lleol".
- "Gwella cyflwr y Stryd Fawr, datblygu'r Porthladd o bosib, ac yn olaf ei gwneud yn ddeniadol yn ariannol i ddiwydiannau / manwerthwyr adleoli yma".
- "Palmant o Amlwch i Fynydd Parys, agor y llinell rheilffordd fel llwybr beicio, a di-halogi Octel a chanfod busnes i gymryd y safle".
- "Gwella'r Stryd Fawr, rhoi sylw i adeiladau ym mherchnogaeth y Cyngor (Ysgol Genedlaethol), a gwell mynediad / teithio i Amlwch".
- "Denu pobl i Amlwch drwy ailddatblygu'r llinell rheilffordd o Langefni yn lwybr beicio / troed, cyflenwi safleoedd cyflogaeth allweddol a'u defnyddio, ac yn olaf, adnewyddu canol y dref yn llwyr".
- "Tai, Twristiaeth a glanhau'r amgylchedd".
- "Cysylltiadau rheilffordd a chaffis ar gyfer cerddwyr sy'n hoffi dod yma, gwella'r ffyrdd a gwella tai cymdeithasol, gwella cyfleusterau busnes a lleol yn y tymor hir".
- "Lleihau adeiladau'r stryd fawr, buddsoddi i wneud yr ardal yn "draddodiadol" Gymreig er mwyn hyrwyddo twristiaeth, ac yn olaf, datblygu cyfleoedd hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc".

**Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, beth yw'r 3 prif flaenoriaeth i ddatblygu'r economi yng Ngogledd Môn yn y tymor byr, canolig a'r hir-dymor?**





**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd**: **1.** Hybu Twristiaeth **2.** Gwella seilwaith ffyrdd **3.** Cefnogi busnesau presennol a newydd **4.** Cynyddu cyflogaeth

**Enghreifftiau o ymatebion i Gwestiwn 9:** Yn eich barn chi, beth yw'r 3 prif flaenoriaeth i ddatblygu'r economi yng Ngogledd Môn yn y tymor byr, canolig a'r hir-dymor?



- “Cadw prydferthwch yr ynys, cefnogi amaethyddiaeth a thwristiaeth”.
- “Diwydiant (busnesau bach yn gysylltiedig â Wylfa Newydd), Twristiaeth (Cemaes, Llaneilian, Mynydd Parys) ac yn ofal cynnig cymhelliant i ddod â busnesau newydd yma”.
- “Datblygu ardaloedd i dwristiaid er mwyn denu mwy o bobl i'r ardal, troi'r hen reilffordd yn llwybr beicio ac yn y tymor hir gwella'r A5025 i gael gwell mynediad”.
- “Sicrhau fod Cemaes yn cael ei Draeth Baner Las, Sicrhau fod Wylfa Newydd yn dod â manteision i Ynys Môn i gyd, ac yn y tymor hir sicrhau fod buddsoddiad yn cael ei ddenu i Ynys Môn er mwyn datblygu swyddi da”.
- “Trafnidiaeth, tai ac iechyd / addysg”.
- “Seilwaith, gwella delwedd a moderneiddio twristiaeth”.
- “Swyddi i gwrdd ag anghenion pobl leol, sicrhau fod ardaloedd o harddwch naturiol yr ardal yn cael eu gwarchod ac addysg o ansawdd dda i bob disgybl”.
- “Cysylltiad gwe cyflym a dibynadwy, swyddi a gwella seilwaith”.
- “Gweithio mewn partneriaeth rhwng busnesau/atyniadau er mwyn hyrwyddo'r ardal, cefnogaeth i fusnesau i ddatblygu a rhoi cynnig ar syniadau newydd ac yn y tymor hir, CSYM i wneud mwy o waith cynnal a chadw er mwyn gwella rhagolygon yr ardal”.

## Cwestiwn 10: Lle ydych chi'n byw?




**Y 4 ateb mwyaf poblogaidd:** **1.** Amlwch **2.** Cemaes **3.** Porth Amlwch **4.** Llanfechell

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASNAETH** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **BETHAN HUGHES-OWEN**<br>02148 752663<br>bethanowen2@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2019, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2019/20 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £133.324m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y cyfanswm ar gyfer wario ar eitemau cyffredinol ac eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer yn £1.886m. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei chynyddu i £1.444m. O'r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn £135.210m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2019/20 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.561m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant net a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, cynnwyswyd swm ychwanegol o £0.277m i'r gyllideb, i'w adael yn ganolog. Dyrennir y cyllid ychwanegol yma i gwrdd â phwysau cyllidebol ychwanegol pan fo'r angen. Yn ychwanegol, cadwyd yn ganolog £479k o gyllid (50%) ynglŷn â chostau pensiwn athrawon ychwanegol, gan fod cost pensiynau athrawon wedi eu cyllido'n llawn yng Nghyllideb Ddatganoledig Ysgolion. Dyrannwyd y cyllid ychwanegol yma i gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, 30 Mehefin 2019. Ceir hefyd grynodeb o'r sefyllfa ragdybiedig ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dylid nodi fod darogan y sefyllfa diwedd blwyddyn ar ddiwedd Chwarter 1 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol with i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2019/20, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.60m. Mae hyn yn cyfateb i 1.18% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae hyn i'w briodoli i bwysau ariannol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2018/19, yn arbennig felly cost y Gwasanaethau Oedolion.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2019/20;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH. Gofynnir i Aelodau gymeradwyo defnyddio'r balans sydd ar ôl ar y cyfalaf/datblygu o'r systemau cynllunio a pridiannau tir awtomataidd i gyllido sganio a digideiddio ffeiliau hanesyddol. Bydd hyn yn help i optimeiddio y system newydd ac i sicrhau defnyddio'r system i'r eithaf;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2019/20 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2019/20 yn Atodiadau DD, E a F;
**(vi)** Cymeradwyo'r Ffioedd a'r Prisiau newydd ar gyfer Canolfan Fusnes Môn fel y'u gwelir yn Atodiad FF.

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | Amherthnasol | |
| **C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| | Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydi | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd sylwadau'r Swyddog Monitro gan yr UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Angylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2019/20
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Rhagamcanedig ar gyfer 2019/20
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2019/20
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2019/20
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2019/20
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2019/20
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r gwariant ar Ymgynghorwyr
- Atodiad FF – Ffioedd a Phrisiau newydd ar gyfer Canolfan Fusnes Môn

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2019/20 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 18 Chwefror 2019 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 27 Chwefror 2019).

**ATODIAD A**

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1 2019/20

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth cefn clustnodedig gwerth £8.72m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £0.631m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2018/19 at falans cyffredionol a oedd yn £5.912m ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol. Gall hyn newid gydag unrhyw addasiadau a wneir ar ôl archwilio'r cyfrifon.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu cyllido o'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn 2019/20:-

| Cyfarford o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £ m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -5.912 | Cronfa gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2019 |
| Cyngor llawn 27 Chwefror 2019 | -0.479 | Cyllid (50%) ynglyn â chostau pensiwn athrawon ychwanegol yn cael ei ddychwelyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol gan fod cost pensiynau athrawon wedi'i cyllido'n llawn yng Nghyllideb Ddatganoledig Ysgolion. |
| **Balans Cyffredinol Diwygedig Cronfa'r Cyngor** | **-6,391** | **Fel y sonir uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ôl-archwilio.** |

Yn unol â'r alldro cyfredol a ragamcenir ar gyfer 2019/20, tybir y bydd gorwariant o £1.60m. Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd gostyngiad i £4.791m yng nghrofna wrth gefn gyffredinol y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ymhell islaw'r isafswm o £6.7m a bennwyd a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £1.481m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2020. Amcangyfrifir gorwariant o £265k ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £146k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor - mae £304k ohono i'w briodoli i warged ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £1.600m yn y gyllideb refeniw yn ei chyfanrwydd yn 2019/20, sef 1.18% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (tua £100k neu uwch). Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffigyrau hyn yn ymwneud â'r sefyllfa o ran y cyllidebau y mae modd eu rheoli ym mhob gwasanaeth.

| Crynodeb o'r amrywiadau rhagamcanedig ar 31 Mawrth 2020 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2019 | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 355 |
| Oedolion | 983 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 97 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 324 |
| Costau nad oes modd eu rheoli – dyledion drwg, yswiriant a chostau cyfalaf pensiwn | 200 |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (146) |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | (213) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau gor/(tan)wariant** | **1,600** |

## 3. Esboniad o Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant yn y gwasanaeth o £53k (5.71%) ar ddiwedd Chwarter 1. Y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £390k (7.88%).

**3.1.1.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau ar draws y Gwasanaeth fel y rhestrir isod:-

- Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol – Tacsis ble rhagwelir gorwariant o £320k. Gweithredwyd y system 'One Transport' yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac mae hyn, ynghyd â'r ymarfer ail-dendro a gynhaliwyd, wedi golygu y bu modd gostwng y gorwariant cyffredinol gan oddeutu £230k o gymharu â'r hyn a fyddai fel arall.
- Mae Cyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd yn disgwyl gorwariant o £171k. Cynhelir adolygiad pellach o'r gyllideb yma a'r gwariant yn ystod Chwarter 2 a bydd hyn yn rhoi rhagamcan cywirach.
- Rhagwelir gorwariant o £73k ar gostau statudol integreiddiad y sector uwchradd a hynny oherwydd y gostyngiad yn y gyllideb a methiant i gyflawni'r arbedion yn llawn.
- Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £208k yn y gyllideb ar gyfer Lleoliadau All-sirol. Mae hyn oherwydd bod llai o alw am y lleoliadau hyn, gan gynnwys dod â darpariaeth addysg i ben ar gyfer un achos cymhleth lle mae'r cleient wedi symud ymlaen i fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Oedolion fel y nodir isod. Mae'n bwysig nodi bod hon yn gyllideb a arweinir gan y galw ac y gall y sefyllfa newid yn gyflym iawn.
- Rhagwelir bydd tanwariant o £100k yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar. Cafwyd tanwariant hanesyddol yn y gyllideb hon oherwydd taliadau llai nag y cyllidebwyd ar eu cyfer i feithrinfeydd.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd gorwariant o £42k (8.90%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ac mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn danwariant o £35k (2.87%). Mae swyddi gweigion yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a disgwylir i hynny arwain at danwariant o £55k ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, bu angen gwneud gwaith atgyweirio cyn i'r tenantiaid newydd symud i mewn i Gaffi'r Oriel a bydd hynny'n rhoi pwysau o £20k ar y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £472k (8.04%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £983k (3.91%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn caniatáu defnyddio'n llawn y Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol o £670k a'r balans sy'n weddill o’r Gronfa wrth gefn Personau Agored i Niwed Corfforaethol o £276k.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagamcenir gorwariant o £345k – mae yna amryw o or a thanwariannau yn y Gwasanaeth, fodd bynnag, mae’r gorwariant rhagamcanedig mwyaf yn y gwasanaeth Gofal Cartref sydd i’w briodoli i’r costau ychwanegol yn Hafan Cefni a Phenucheldre ynghyd â chynnydd yn y galw. Mae pwysau tebyg yn gysylltiedig â’r galw am leoliadau preswyl a nyrsio gyda gorwariant mawr ar y ddwy elfen hon.
- Anableddau Corfforol (AC): Rhagamcenir gorwariant o £179k. Y prif faes sy’n peri pryder yma yw Cymorth yn y Cartref lle mae gorwariant o £89k ar ddiwedd Chwarter 1 – unwaith eto, mae hyn yn gyllideb a arweinir gan y galw.
- Anableddau Dysgu (AD): Rhagamcenir gorwariant o £599k. Y rhesymau am hyn yw (i) mae gan y Gwasanaeth nifer fechan o gleientiaid gydag anghenion cymhleth. Mae hyn yn cynnwys lleoliad cymhleth cost uchel sydd wedi trosglwyddo o Wasanaethau Plant, a (ii) cynnydd yn y Ffioedd Byw â Chymorth.
- Iechyd Meddwl (IM): Rhagamcenir gorwariant o £243k. Mae hyn oherwydd nifer fechan o gleientiaid drud a chynnydd yng nghostau lleoliad.
- Yr Uned Ddarparu: Rhagamcenir tanwariant o £370k. Mae yn bennaf oherwydd y tanwariant yn yr Adain Cartrefi Preswyl.

**3.2.3** Mae’r ffigyrau ar gyfer Chwarter 1 yn dangos pwysau sylweddol o ran y galw yn ystod y chwarter. Er mwyn ymchwilio’n llawn i’r materion hyn, bydd yr adran yn ystyried pob llinell benodol sydd wedi arwain at y gorwariant sylweddol a ragamcenir, sef Lleoliadau Nyrsio, Lleoliadau Preswyl a chostau Gofal Cartref yn y Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol, a’r costau byw â chymorth a Gofal Cartref yn y maes Anableddau Dysgu. Yn achos pob un, rhoddir ystyriaeth i’r canlynol:-

- Natur y tueddiadau cylchol (tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn a mis ar ôl mis);
- Y rhesymau y tu ôl i’r tueddiadau;
- Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli galw.

Adroddir ar unrhyw adborth i’r Pwyllgor Gwaith a’r Panel Sgriwtini Cyllid.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd gorwariant o £39k (1.49%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod ond rhagwelir y bydd tanwariant o £22k (0.22%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol i’w gymharu i’r gorwariant o £1.8m am y flwyddyn ariannol 2018/19. Ar y cyfan, mae'r sefyllfa o ran cyllideb y gwasanaeth wedi gwella o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol o £1.4m yng nghyllideb 2019/20 a'r ffaith bod un plentyn, lle'r oedd cost y lleoliad yn sylweddol, bellach wedi trosglwyddo i fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Oedolion.

**3.3.2** Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i gynyddu yn ystod y chwarter cyntaf, gyda 12 o blant ychwanegol wedi eu hychwanegu i'r gofrestr. Fodd bynnag, dim ond cynnydd o 3 oedd yn nifer y plant mewn gofal maeth ffurfiol neu leoliadau arbenigol all-sirol. Mae recriwtio mwy o ofalwyr maeth sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor wedi cynyddu nifer y plant sy'n cael eu lleoli gyda nhw gan 10 yn ystod y chwarter, tra bod y niferoedd a leolwyd y tu allan i'r Sir yn gostwng o ddau, a'r nifer o blant a leolwyd gyda gofalwyr maeth preifat wedi gostwng gan 5. Gostyngodd hyn y gost gyfartalog ar gyfer lleoliadau a chyfrannodd at ddod â'r costau rhagamcanol o fewn y gyllideb.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £56k (11.92%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd tanwariant o £20k (1.65%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae costau digartrefedd (Gwely a Brecwast) yn parhau i roi pwysau ar y gyllideb a rhagwelir gorwariant o £60k erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd swyddi gweigion ac oedi gyda recriwtio, rhagwelir y bydd tanwariant o £80k.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant yn y gwasanaeth o £6k (1.06%) am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £24k (1.38%).

**3.5.1.2** Roedd elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth wedi tanwario £29k am y cyfnod, fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwariant y gwasanaeth yn ôl y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.3** Roedd tanwariant o £40k yn yr Adain Gyrchfan ar gyfer y cyfnod, fodd bynnag, rhagwelir tanwariant llai o £25k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd derbyn incwm angorfeydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

**3.5.1.4** Roedd gorwariant o £62k yn yr Adain Hamdden ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £49k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna bwysau ar y gyllideb mewn perthynas â'r caffi ym Mhlas Arthur a pheiriannau gwerthu yn y canolfannau eraill. Mae materion mewn perthynas â chyllidebau staffio'n parhau o 2018/19.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £80k (21.54%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Yr alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £49k (2.40%).

**3.5.2.2** Roedd gorwariant o £6k yn yr Adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw tanwariant o £2k. Ystyrir y bydd y targedau incwm ar gyfer rheoli cŵn a phla £5k yn brin o'r targed ac y bydd yr incwm ar gyfer marchnadoedd a ffeiriau hefyd £7k yn is na'r targed. Fodd bynnag, mae swydd wag yn y tîm iechyd a diogelwch corfforaethol a fydd, fe ragdybir, yn creu tanwariant o £14k ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £86k yn yr Adain Gynllunio ar gyfer y cyfnod a rhagamcenir tanwariant o £47k ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr holl adeiniau yn yr Adran Gynllunio yn tanwario, gyda gweinyddiaeth cynllunio (£20k) a Rheoli Adeiladu (£15k) yn darogan y tanwariannau mwyaf. Mae hyn oherwydd swydd wag yn yr adain weinyddol a bod incwm ar y blaen o gymharu â'r proffil.

### 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

#### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £56k (3.15%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Y sefyllfa ragamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £122k (2.02%). Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o adeiniau'r Adran Briffyrdd wedi tanwario erbyn diwedd y flwyddyn. Y tanwariant mwyaf nodedig yw hwnnw sy'n gysylltiedig â chefnogi'r adran (£40k) sydd i'w briodoli i arbedion gyda chostau staffio, disgwylir i incwm gwaith stryd fod £80k yn uwch na'r gyllideb. Disgwylir incwm grant ychwanegol mewn perthynas â Chludiant Cyhoeddus a fydd yn cyfrannu at y tanwariant o £50k a ragamcenir. Fodd bynnag, disgwylir gorwariant o £100k yn y gyllideb waith erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw dros y gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragfynegi'r alldro ar y costau hyn. Gallai unrhyw gostau gaeaf sylweddol waethygu'r alldro a amcangyfrifwyd yn y chwarter hwn.

#### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £47k (2.83%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw tanwariant o £35k (0.45%).

**3.6.2.2** Mae'r rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys tanwariannau a gorwariannau sy'n gwrthbwyso yng ngwahanol adeiniau'r adran. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £70k ar Orsaf Drosglwyddo Penhesgyn oherwydd arbedion staffio a bod yr incwm a gasglwyd yn uwch na'r gyllideb. Mae'r adain ailgylchu hefyd yn darogan tanwariant o £70k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd incwm dros ben a fydd yn lleihau'r gorwariant ar y gyllideb Casglu Gwastraff, sydd ar hyn o bryd wedi gorwario £80k.

#### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £5k (0.60%) ond rhagamcenir gorwariant o £125k (14.65%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwariant rhagamcanedig yn y Gwasanaeth Eiddo yw tangyflawniad rhagamcanedig ar ffioedd proffesiynol. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf o fewn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi lleihau' r gwaith sy'n ennill ffi o fewn Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu yn ystod blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu datblygu.

### 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £405k (35.62%) yn y swyddogaeth Trawsnewid am y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £97k (2.17%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £384k (61.50%) yn yr Adain TGCh am y cyfnod a disgwylir y bydd gorwariant o £140k (5.87%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi cael eu canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn y Gwasanaeth TGCh. Cymerwyd amser i nodi anghenion a gofynion pob gwasanaeth er mwyn rheoli'r gyllideb. Y sefyllfa a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y gyllideb feddalwedd wedi ei chanoli yw gorwariant o £100k. Gyda'r lleihad yn y defnydd o Cysylltu Môn, TGCh sy'n gyfrifol am y gost o gynnal a chadw'r ddarpariaeth ac, o'r herwydd, disgwylir na fydd modd i'r adain TGCh gyflawni'n llawn ei darged ar gyfer incwm a ad-delir iddo ac y bydd £40k yn brin o'r targed.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £29k (8.19%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £13k (1.03%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £8k (5.06%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol am y cyfnod a disgwylir y bydd tanwariant o £56k (6.77%) ar ddiwedd y flwyddyn a hynny oherwydd arbedion mewn perthynas â chostau cyflogau yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Chyswllt Môn.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £95k (12.21%) yng nghyllideb y Swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod gydag alldro rhagamcanedig o danwariant o £79k (2.59%).

**3.8.2** Disgwylir tanwariant o £5k ar Refeniw a Budd-daliadau ar gyfer y flwyddyn ac mae'r Adain Gyfrifeg yn disgwyl gorwariant o £34k oherwydd ffioedd banc a chostau ymgynghoriaeth ar gyfer y system. Disgwylir y bydd gan yr Adain Archwilio Mewnol gyllideb gytbwys tra disgwylir tanwariant o £89k yn yr Adain Gaffael oherwydd eu mentrau caffael, h.y. cyllidebau prynu wedi eu canoli ac ad-daliadau ar gardiau caffael.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £34k (7.80%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £55k (3.38%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £87k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau cyflogi staff asiantaeth cyfreithiol i lenwi mewn ar gyfer swyddi gweigion/absenoldeb staff. Rhagwelir y bydd Gwasanaethau Democratiadd yn tanwario ym mhob un o'i swyddogaethau, gyda'r tanwariant mwyaf yn yr Uned Gyfieithu (£14k) oherwydd yr arbedion ar gostau staffio a'r defnydd o ymgynghorwyr.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd tanwariant o £1k (0.12%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £11k (0.33%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Mae yna adeiniau yn yr adran sy'n rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn tra bod tanwariannau sy'n gwneud i fyny am hynny mewn adeiniau eraill. Y prif feysydd sy'n peri pryder yw'r Adain Ddinesig ble mae diwrnod y Lluoedd Arfog yn debygol o roi pwysau o £20k ar y gyllideb a disgwylir gorwariant o £23k mewn perthynas â chwnsela staff. Fodd bynnag, ynglyn â chostau cyfraniad pensiwn hanesyddol, disgwylir tanwariant o £49k, a fydd yn cyllido'r gorwariannau yma.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd tanwariant o £31k (18.37%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £20k (2.92%) erbyn diwedd y flwyddyn.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys y budd-daliadau a roddwyd, orwario £265k ar ddiwedd y flwyddyn. Yn seiliedig ar wariant 2018/19 a thueddiadau blaenorol, rhagwelwyd y byddai'r llwyth achosion dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gostwng ac, er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn lefel y dreth gyngor, gostyngwyd y gyllideb yn 2019/20. Ar sail y sefyllfa bresennol, nid yw'r llwyth achosion wedi gostwng fel y rhagwelwyd a'r rhagamcan ar hyn o bryd yw y bydd y gyllideb yn gorwario £324k. Fodd bynnag, gall hyn newid yn ystod yr ail chwarter, wrth i lefel y gwaith tymhorol gynyddu ac wrth i rai hawlwyr ddod â'u hawliad i ben dros fisoedd yr haf.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, mae'r rhain yn cynnwys £202k o gyllid ychwanegol ar gyfer ffioedd Addysg Allsirol; £235k fel darpariaeth wrth gefn gyffredinol i dalu am bwysau cyllidebol; £400k i dalu cost dileu swyddi a chostau terfynu; a £400k fel darpariaeth wrth gefn gyffredinol. Ar y cam cynnar hwn yn y flwyddyn ariannol, mae'n anodd pennu faint o'r cronfeydd wrth gefn hyn fydd eu hangen mewn gwirionedd, felly, mae'r ffigwr rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn yn danwariant bach o £66k, sy'n cael ei ragweld ar hyn o bryd o ganlyniad i'r ffaith nad oes angen i'r Gwasanaethau Plant ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn llawn er mwyn balansio'r gyllideb. Daw'r sefyllfa'n gliriach wrth i'r flwyddyn ariannol symud ymlaen ac efallai y bydd modd rhyddhau rhai o'r cronfeydd wrth gefn hyn a fyddai wedyn yn lleihau'r gorwariant cyffredinol ymhellach.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2018. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor yn £158k yn brin o'r targed. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £304k yn uwch na'r gyllideb a osodwyd. Yn gyffredinol, felly, rhagwelir y bydd gwarged o £146k ar gasglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2019/20

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.561m o gyllidebau'r gwasanaeth ar gyfer 2019/20. Mae £2.206m o'r arbedion wedi cael eu cyflawni neu mae disgwyliad iddynt gael eu cyflawni; fodd bynnag, disgwylir na fydd modd cyflawni £355k. Bydd y diffyg mwyaf yn y Gwasanaethau Oedolion a fydd, fe ragwelir, £276k yn fyr o'r targed oherwydd pwysau cynyddol yn y galw. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £571k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2019/20. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nag eraill. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bod un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Lle na fydd y prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2020/21 a bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, mae £147k wedi cael ei wario ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £69k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant, tra bod y gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £40k ar staff asiantaeth safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £159k ar wasanaethau ymgynghoriaeth yn ystod Chwarter 1 ac fe gafodd £52k o'r swm hwn ei gyllido'n allanol o grantiau neu gyfraniadau. Mae hyn i'w gymharu â'r £440k a wariwyd ar wasanaethau ymgynghori yn chwarter cyntaf 2018/19. Mae'r gostyngiad i'w briodoli i atal y prosiect Wylfa Newydd. Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol o'r gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Y rhagamcan cychwynnol ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw y bydd y gyllideb yn gorwario £1.6m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020. Disgwylir i gyllidebau’r gwasanaeth orwario gan £1.481m a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol yn gorwario £0.265m. Disgwylir tangyflawni o £0.158m ar y Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir incwm dros ben o £0.304m ar Bremiwm y Dreth Gyngor. £0.146m yw'r gwarged net ar y Dreth Gyngor yn gyffredinol. Mae cyllidebau Gwasanaethau Oedolion o dan bwysau oherwydd galw cynyddol a'r broses o drosglwyddo lleoliad costus o'r Gwasanaethau Plant. Y patrwm arferol yw fod y sefyllfa alldro derfynol yn well nag amcangyfrif y chwarter cyntaf, fodd bynnag, os yw'r gorwariant a ragamcenir yn digwydd byddai'n cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor, a fyddai'n lleihau i £4.791m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i gyllido rhan o gyllideb 2019/20.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagamcaneidig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2020 – Chwarter 1

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2019/20 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2019/20 Blwyddyn Gyllidol Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Wedi ei Ymrwymo | Ch 1 2019/20 Amrywiant | Ch 1 Gwariant Gwirioneddol ac wedi ei Ymrwymo | Ch 1 Amcangyfif Gwariant i 31 Mawrth 2020 | Ch1 Amcangyfrif Alldro 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant | Rhagamcan gor/(tan) wariant 2019/20 fel % o'r Cyllideb gyfan | Gor/(Tan) Wariant Drafft Flwyddyn Diwethaf 2018/19 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Addysg Gydol Oes** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion | 44,302 | 11,182 | 11,182 | (0) | 0.00% | 44,302 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog | 4,949 | 922 | 974 | 53 | 5.71% | 5,339 | 390 | 7.88% | 327 |
| Diwylliant | 1,218 | 468 | 509 | 42 | 8.90% | 1,183 | (35) | -2.87% | (124) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 25,145 | 5,870 | 6,342 | 472 | 8.04% | 26,128 | 983 | 3.91% | 1,178 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plan** | 9,831 | 2,586 | 2,625 | 39 | 1.49% | 10,160 | (22) | -0.22% | 1,830 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,211 | 466 | 411 | (56) | (11.92%) | 1,191 | (20) | -1.65% | (304) |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,044 | 1,763 | 1,818 | 56 | 3.15% | 5,922 | (122) | -2.02% | (322) |
| Eiddo | 853 | 835 | 830 | (5) | (0.60%) | 978 | 125 | 14.65% | 35 |
| Gwastraff | 7,717 | 1,650 | 1,603 | (47) | (2.83%) | 7,682 | (35) | -0.45% | (328) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,734 | 601 | 595 | (6) | (1.06%) | 1,758 | 24 | 1.38% | (107) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,045 | 371 | 291 | (80) | (21.54%) | 1,996 | (49) | -2.40% | (121) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,258 | 353 | 382 | 29 | 8.19% | 1,271 | 13 | 1.03% | (54) |
| TGCh | 2,386 | 624 | 1,008 | 384 | 61.50% | 2,526 | 140 | 5.87% | 135 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 827 | 160 | 152 | (8) | (5.06%) | 771 | (56) | -6.77% | (183) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 3,051 | 781 | 686 | (95) | (12.21%) | 2,972 | (79) | -2.59% | (39) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,626 | 436 | 402 | (34) | (7.80%) | 1,681 | (55) | 3.38% | (53) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2019/20 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2019/20 Blwyddyn Gyllidol Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Wedi ei Ymrwymo | Ch 1 2019/20 Amrywiant | Ch 1 Gwariant Gwirioneddol ac wedi ei Ymrwymo | Ch 1 Amcangyfif Gwariant i 31 Mawrth 2020 | Ch1 Amcangyfrif Alldro 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant | Rhagamcan gor/(tan) wariant 2019/20 fel % o'r Cyllideb gyfan | Gor/(Tan) Wariant Drafft Flwyddyn Diwethaf 2018/19 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,352 | 782 | 781 | (1) | (0.12%) | 3,341 | (11) | -0.33% | (181) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** | 686 | 171 | 139 | (31) | (18.37%) | 666 | 20 | -2.92% | 2 |
| | | | | | | | | | |
| Amcangyfrif o Effaith Costau na ellir eu Rheoli | | | | | | 200 | 200 | | 596 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | 118,235 | 30,021 | 30,731 | 710 | 2.36% | 120,067 | 1,832 | 1.25% | 2,287 |
| | | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,528 | 3,528 | 3,528 | 0 | 0% | 3,528 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 85 | 0 | 0 | 0 | 0% | 92 | 7 | 7.75% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,052 | 207 | 195 | (12) | 0% | 7,052 | 0 | 0.00% | (1,185) |
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,582 | 1,582 | 1,083 | (499) | (31.52%) | 1,165 | (417) | -4.17% | 0 |
| Gwasanaethau Cefnogol - Cyfraniad CRT | (773) | 0 | 0 | 0 | 0% | (773) | 0 | 0.00% | **(152)** |
| Budd-daliadau a roddwyd | 5,476 | 741 | 694 | (48) | (6.44%) | 5,800 | 324 | 5.89% | (48) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 16,950 | 6,058 | 5,500 | (558) | (9.21%) | 16,864 | (86) | 1.56% | **(1,385)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2019/20** | **135,185** | **36,079** | **36,230** | **151** | **0.42%** | **136,931** | **1,746** | **1,731** | **902** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,754) | (7,001) | (7,001) | 0 | 0% | (22,754) | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (37,975) | 0 | 0 | 0 | 0% | (37,817) | 158 | (72) | (269) |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (1,444) | 0 | 0 | 0 | 0% | (1,749) | (304) | 0 | |
| Grant Cynnal Refeniw | (73,037) | (22,473) | (22,473) | 0 | 0% | (73,037) | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2019/20** | **(135,210)** | **(29,474)** | **(29,474)** | **0** | **0%** | **(135,356)** | **(146)** | **(72)** | **(269)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2019/20 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2019/20 Blwyddyn Gyllidol Hyd Yma | Ch1 Gwariant Gwirioneddol ac Wedi ei Ymrwymo | Ch 1 2019/20 Amrywiant | Ch 1 Gwariant Gwirioneddol ac wedi ei Ymrwymo | Ch 1 Amcangyfif Gwariant i 31 Mawrth 2020 | Ch1 Amcangyfrif Alldro 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant | Rhagamcan gor/(tan) wariant 2019/20 fel % o'r Cyllideb gyfan | Gor/(Tan) Wariant Drafft Flwyddyn Diwethaf 2018/19 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Cyfanswm Alldro yn Cynnwys Effaith y Cyllido** | **0** | **6,605** | **6,756** | **151** | **2.29%** | **1,575** | **1,600** | **1,659** | **633** |

**ATODIAD C**

## Crynodeb o'r Sefyllfa Alldro ar Gyllidebau Wrth Gefn 2019/20

| | Cyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Cyllideb Ddiwygedig hyd yma £ | Ymrwymedig hyd yma (30/06/2019) | Cyllidebau Cyfredol sydd heb eu hymrwymo £ | Rhagamcan Alldro 31-03-2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol | 399,350 | 63,950 | 463,300 | 127,120 | 336,180 | - |
| Cyflog a Graddio | 400,000 | (20,750) | 379,250 | 216,702 | 162,548 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | 1,091,710 | (352,230) | 739,480 | 739,480 | | (65,950) |
| **Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,891,060 | (309,030) | 1,582,030 | 1,083,300 | 498,728 | (65,950) |

**ATODIAD CH**

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2019/20

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-Wyd<br>£ | Dyraniad (yn gyflawn – dim Bl 1 yn unig<br>£ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2019<br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br>£ | Dyraniad 2019/20<br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br>£ | Cyllideb sy'n weddill 2019/20<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig (EDMS) ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 169,945 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, o fewn y gyllideb. Llwyddodd y prosiect i gyflawni'r ffactorau llwyddiant critigol – cefnogi'r angen am reoli dogfennau'n dda, gwella gwasanaeth i gwsmeriaid, lleihau gofynion storio, bodloni gofynion cyfreithiol, moderneiddio prosesua gweinyddol a gwneud data yn ased corfforaethol. |
| TG | Mynegai Tir ac eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd y Prosiect yn 2017/18. Cafodd y gorwariant o £4.5k ei gyllido o refeniw. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 255,000 | 102,712 | 152,288 | 152,288 | 0 | 152,288 | Mae CRM bellach wedi hen ennill ei blwyf gyda dros 9,000 o ddefnyddwyr cofrestredig a 4,025 o geisiadau am wasanaeth ers Ionawr 2019. Mae TG yn gweithio gyda gwasanaethau dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes i anfon mwy o ffurflenni ar-lein ac ar gael drwy'r CRM er mwyn gwella prosesau, sicrhau effeithlonrwydd a gwella'r profiad i gwsmeriaid. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-Wyd<br><br>£ | Dyraniad (yn gyflawn – dim Bl 1 yn unig<br><br>£ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2019<br><br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br><br>£ | Dyraniad 2019/20<br><br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br><br>£ | Cyllideb sy'n weddill 2019/20<br><br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 27,000 | 13,417 | 13,583 | 13,583 | 0 | 13,583 | Mae'r Porth Taliadau wedi'i gwblhau ac wrthi'n cael ei osod ar wefan y Cyngor a'r Porth Fy Nghyfrif. Mae nifer o ffurflenni Gwarchod y Cyhoedd wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Y cynllun yw gweithio fel tîm gyda Refeniw er mwyn gyrru mwy o daliadau drwy'r datrysiad hwn. Y cam nesaf yw adeiladu a phrofi'r porth taliadau fel y gellir gwneud taliadau drwy AppMON. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella gwydnwch y systemau cynllunio | Systemau cynllunio newydd wedi eu hawtomeiddio | 118,000 | 79,548 | 57,122 | | | 17,200 | 39,922 | Aeth yr uwcrhaidd i'r system swyddfa gefn gynllunio newydd yn fyw yn Nhachwedd 2018 a bydd ar gael i ddefnyddwyr allanol yn y mis nesaf. Mae gwaith ar agwedd Rheoli Adeiladu Prosiect yn mynd rhagddo yn dda ac aeth yn fyw ym mis Gorffennaf 2019. Mae diweddariadau a phrofion ar dechnoleg symudol ar gyfer ymweliadau safle yn benodol yn mynd rhagddo. Mae cryn dipyn o ffeiliau cynllunio hanesyddol sydd dal angen eu digideiddio. Os bydd unrhyw arian ar ôl heb ei wario unwaith y bydd yr holl waith datblygu wedi'i gwblhau, argymhellir y dylid ei wario ar ddigideiddio ffeiliau hanesyddol. Byddai hyn yn helpu i wneud y defnydd gorau o'r datblygiadau newydd. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-Wyd<br><br>£ | Dyraniad (yn gyflawn – dim Bl 1 yn unig<br><br>£ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2019<br><br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br><br>£ | Dyraniad 2019/20<br><br>£ | Gwariant hyd yma 2019/20<br><br>£ | Cyllideb sy'n weddill 2019/20<br><br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) cysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 150,000 | 90,481 | 59,519 | 59,519 | 7,284 | 52,235 | Mae'r prosiect yn parhau i fynd rhagddo. Mae angen cwblhau nifer o dasgau allweddol mewn perthynas â : y modiwl cysoni incwm; e-ddychweliadau; arferion mewnforio gwybodaeth; y porth taliadau; a diweddaru swyddogaeth casglu incwm y wefan ac AppMon. Bydd angen y balans o £52k sydd ar ôl i symud ymlaen gyda'r priosect a'i gwblhau. Ni fydd rhai elfennau o'r prosiect yn cael eu gweithredu oherwydd diffyg cyllid, sef y Modiwl 'Call Secure' a gweithredu'r Modiwl 'Capital Wallet'. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu modiwlau nad oeddynt yn cael eu defnyddio yn y system Rheoli Gwybodaeth ONE | 72,000 | 72,000 | 75,526 | 3,000 | 3,000 | 0 | 6,526 | Mae'r prosiect wedi cael ei gwblhau gydag un rhandaliad terfynol o £3k i'w dalu. Cafodd y gorwariant o £11k ei gyllido o gyllideb buddsoddi i Arbed yr Oriel. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Busnes | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 15,000 | 15,000 | 0 | 8,474 | 8,474 | 0 | 4,948 | Mae'r prosiect yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2019/20. Rhagwelir y bydd y cyfan o'r cyllid wedi cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol. |
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Mae swydd y Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd a'r dyddiad cau yw 2/8/2019. Mae'r disgrifiad swydd mewn perthynas â'r Swyddog Arweiniol Dros Dro ar gyfer Digidol yn Gyntaf wedi cael ei hysgrifennu ac yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan y Tîm Arfarnu Swyddi. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-Wyd £ | Dyraniad (yn gyflawn – dim Bl 1 yn unig £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad 2019/20 £ | Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb sy'n weddill 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Cydweithio'n parhau gyda'r Tîm CRM Corfforaethol. Nodi ffrydiau gwaith Gwerth/Cyfaint Uchel fel y gellir 'newid sianel' a gwella gallu perfformaid a'r profiad i'r cwsmer. Cyflymder y gwaith yn dibynnu ar i'r Bwrdd Trawsnewid gymeradwyo a blaenoriaethu ffrydiau gwaith ar gyfer eu sgopio a'u gweithredu. Unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau, y ffocws a'r nod yw profi ar y farchnad manyleb defnyddiwr a system feddalwedd ddiwygiedig sy'n integreiddio i, ac yn cydweddu â'r, system CRM. |
| **Cyfanswm** | | | 982,800 | **982,800** | **546,889** | **458,986** | **373,986** | **24,484** | **349,502** | |

**ATODIAD D**

**Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2019/20**

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20<br><br>£'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Arbedion nad oes modd eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 967 | 908 | 59 | Cynigiwyd £50k o arbedion effeithlonrwydd drwy adolygu'r modd y caiff y gwasanaethau integredig eu darparu er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Ni chafwyd arwydd hyd yn hyn o'r modd y bwriedir gwneud yr arbediad yn 2019/20, felly, mae'n bosibl na fydd modd gwneud yr arbediad hwn.<br><br>Gwnaed cynnig i leihau gan swm o £15k y grantiau a roddir i'r celfyddydau. Bydd yr arbediad hwn £9k yn fyr o'i gyflawni'n llawn yn 2019/20. Gellir cyflawni £5k pellach yn 2020/21. Mae angen ymgynghori ymhellach ynglŷn â'r modd o gyflawni'r £4k sy'n weddill.<br><br>Mae'r holl gynigion eraill ar gyfer arbedion, swm o £908k, naill ai wedi cael eu cyflawni'n llawn neu rhagwelir eu bod ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni yn llawn yn ystod 2019/20. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 171 | 171 | 0 | Mae'r holl gynigion ar gyfer arbedion sy'n dod i gyfanswm o £171k naill ai wedi cael eu cyflawni'n llawn yn barod neu ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 600 | 580 | 20 | Cynigiwyd arbediad o £10k yn sgil trosglwyddo'r cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus i gymunedau. Mae perchenogaeth 2 doiled cyhoeddus ym Menllech wedi cael ei throsglwyddo i'r cyngor cymuned o Ebrill 2019, fodd bynnag, cafwyd costau unwaith ac am byth fel rhan o'r trosglwyddiad gan olygu na fydd modd cyflawni'r targed yn ystod y flwyddyn ariannol hon.<br><br>Cynigiwyd arbediad o £20k drwy leihau costau adeilad a chostau rhedeg ar ôl cael gwared ag adeilad Neuadd y Sir. Hyd yma, mae'r tîm RBDM yn dal i fod yn yr adeilad gan olygu fod yn bosib y bydd y targed yn brin o £10k.<br><br>Ar hyn o bryd, ni wyddys a fydd modd cyflawni'r arbediad effeithlonrwydd o £25k yn sgil rhoi'r gorau i ddefnyddio Safecote ac ni fydd yn hysbys tan y gaeaf ac ar ôl gweld beth fydd y tywydd bryd hynny.<br><br>Mae'r arbedion eraill sy'n dod i £555k naill ai wedi cael eu cyflawni'n llawn neu rhagwelir eu bod ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20<br><br>£'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Arbedion nad oes modd eu cyflawni yn 2019/20<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 586 | 310 | 276 | Cynigiwyd arbedion effeithlonrwydd gwerth £195k drwy leihau'r galw am leoliadau preswyl a nyrsio yn sgil defnyddio Hafan Cefni, lleihad yn y galw am wasanaethau gofal cartref a thrwy rheoli'r galw am fyw â chymorth. Fodd bynnag, yn ôl yr arwyddion cynnar, mae'r galw'n parhau i gynyddu sy'n golygu na fydd modd cyflawni'r targed hwn o bosib. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr holl linellau penodol sydd wedi'i heffeithio er mwyn ymchwilio i'r rhesymau am y twf cyfredol yn y galw.<br>Yn dilyn cau Plas Penlan, cynigiwyd £70k fel arbediad blwyddyn lawn. Mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni hyn gan fod y galw'n parhau i gynyddu am ddarpariaeth amgen, e.e. Gofal Cartref.<br><br>Cynigiwyd £11k o arbedion effeithlonrwydd drwy allanoli mwy o becynnau gofal cartref i'r darparwyr preifat. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y modd y gellid gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth heb ostwng nifer y staff. Angen ystyried a fedrir gwneud arbedion ar bethau eraill ei peidio.<br>Mae'r holl arbedion eraill sy'n dod i £310k naill ai wedi cael eu cyflawni'n llawn neu rhagwelir eu bod ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Tai | 54 | 54 | 0 | Mae'r arbediad effeithlonrwydd wedi'i gyflawni'n llawn. |
| Trawsnewid | 43 | 43 | 0 | Cynigiwyd arbediad o £20k drwy leihau'r gyllideb 'Denu Talent' ond ni fedrir cadarnhau hyn hyd oni fydd y lleoliadau wedi digwydd dros yr haf a bydd yn cael ei amlinellu yn Chwarter 2.<br><br>O'r £19.5k o arbedion effeithlonrwydd a gynigiwyd drwy wneud i ffwrdd â llinellau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio, llwyddwyd i sicrhau £10.5k a gobeithir y bydd modd sicrhau'r £9k sy'n weddill drwy ddatgysylltu mwy.<br><br>Mae arbedion eraill gwerth £3.5k ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Corfforaethol | 110 | 110 | 0 | Mae'r holl gynigion ar gyfer arbedion ar y trywydd iawn i'w cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Adnoddau | 30 | 30 | 0 | Mae'r holl gynigion ar gyfer arbedion ar y trywydd iawn i'w cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| **Cyfanswm** | **2,561** | **2,206** | **355** | |

## Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mmehefin 2019

| | £ | Fynhonnell Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staff na Ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 3,946 | Craidd | Cyflawni gofynion arolygiadau hylendid bwyd |
| | **3,946** | Craidd | |
| Gwastraff | 15,577 | Cyllideb graidd penodol | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy' r matrics adnoddau dynol |
| | 14,567 | Cyllideb graidd penodol/grant/cyfraniad allanol | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy' r matrics adnoddau dynol |
| | 10,154 | Cyllideb graidd penodol/grant/cyfraniad allanol | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy' r matrics adnoddau dynol |
| | **40,298** | | |
| Gwasanaethau Plant | 2,085 | Cyllideb graidd/cronfa wrth gefn staff asiantaeth | Cadeirio ac adolygu cynadleddau diogelu plant |
| | 38,420 | Cyllideb graidd/cronfa wrth gefn staff asiantaeth | I lenwi swyddi gwag |
| | 27,240 | Cyllideb graidd/cronfa wrth gefn staff asiantaeth | I lenwi swyddi gwag |
| | 921 | Cyllideb graidd/cronfa wrth gefn staff asiantaeth | I lenwi swyddi gwag |
| | **68,666** | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 5,115 | Cyllideb graidd | I lenwi swyddi gwag |
| | 25,588 | Cyllideb graidd | Gwaith penodol ar brosiect DOLS |
| | **30,703** | | |
| Trawsnewid | 3,459 | Cyllideb Staffio | I lenwi swydd wag, bellach wedi ei llenwi |
| | **3,459** | | |
| **Cyfanswm** | **147,072** | | |

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1**

| Adran | Chwarter 1 (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|
| Addysg Canolog | 8,950 | **8,950** |
| Diwylliant | 690 | **690** |
| Economaidd ac Adfywio | 58,760 | **58,760** |
| Eiddo | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 423 | **423** |
| Ysgolion | 0 | **0** |
| Gwastraff | 54,582 | **54,582** |
| Tai | 0 | **0** |
| CRT | 8,500 | **8,500** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3,275 | **3,275** |
| Gwasanaethau Oedolion | 850 | **850** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 2,452 | **2,452** |
| Busnes y Cyngor | 3,996 | **3,996** |
| Adnoddau | 16,424 | **16,424** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **158,902** | **158,901** |
| Cyllidwyd gan : | | |
| Cyllideb Craidd | 55,252 | **55,252** |
| Grant | 7,523 | **7,523** |
| Cyfraniad Allanol | 45,790 | **45,790** |
| Cronfa with gefn | 50,337 | **50,337** |
| **Cyfanswm** | **158,901** | **158,901** |

Rhoddir dadansoddiad manylach o hyn isod.

**ATODIAD F**

## Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 1 2019/20

| Adran | Swm Ch 1 (£) | Categori – rheswm Penodi | | | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio heb ei Ddefnyddio/Grant Cyfraniad Allanol) Cronfa wrth gefn) | Disgrifiad o'r gwaith a waned |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Addysg Canolog | 200 | | | ✓ | Grant | Gweithdy ar gyfer gweithwyr ieuenctid |
| | 7,000 | ✓ | | ✓ | Craidd | Cymorth proffesiynol adrannol |
| | 175 | | | ✓ | Craidd | Adroddiad gwerthuso |
| | 1,575 | | | ✓ | Craidd | Gwaith adolygu ysgolion uwchradd |
| **Cyfanswm Addysg Canolog** | **8,950** | | | | | |
| Diwylliant | 440 | | | ✓ | Craidd | Taliadau proffesiynol - Goleudy Ynys Lawd |
| | 250 | | | ✓ | Craidd | Gweithdy criw celf |
| **Total Culture** | **690** | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | 1,899 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Craffu ar Adran 106 a SoCA |
| | 5,244 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cyngor ar Horizon Nuclear Power prosiect Wylfa newydd |
| | 579 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Partneriaeth Gogledd Ynys Môn |
| | 1,926 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cyngor ar yr amserlen Iaith Gymraeg |

| Adran | Swm Ch 1 (£) | Categori – rheswm Penodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio heb ei Ddefnyddio/Grant Cyfraniad Allanol) Cronfa wrth gefn)** | **Disgrifiad o'r gwaith a waned** |
| | 28,423 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 7,719 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Ymrwymiad arbenigion cynllun Llundain a phrosiect safleoedd bach |
| | 1,000 | | | ✓ | Grant | Ffioedd proffesiynol - unedau busnes Llangefni |
| | 600 | | | ✓ | Grant | Ymweliadau Swyddogion ynglyn â HLF |
| | 2,134 | | | ✓ | Craidd | Costau rheoli prosiect TGCh - Cynllunio |
| | 710 | ✓ | | | Craidd | Cymorth rheoli datblygu – Ebrill 2019 |
| | 175 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaethau proffesiynol - 10 Pant Y Briallu, Benllech |
| | 4,655 | | | ✓ | Craidd | Costau rheoli prosiect TGCh rheoli adeiladu |
| | 78 | ✓ | | | Craidd | Professional Services - Macros Cables Llangefni |
| | 200 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau Archwilio strwythur Ebrill 2019 |
| | 10 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaeth Asiantaeth adroddiadau credyd |
| | 3,000 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Gwasanaethau achosion llys |
| | 408 | | | ✓ | Grant | Hyfforddiant llysgenhadon ifanc arian |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **58,760** | | | | | |
| Priffyrdd | 172 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Hysbysiad o dâl cosb a ddyroddir (PCN) |
| | 66 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Cost Tâl PCN |
| | 185 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Arolwg cyflymder a llif traffig - Longford Road, Caergybi |

| Adran | Swm Ch 1 (£) | Categori – rheswm Penodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio heb ei Ddefnyddio/Grant Cyfraniad Allanol) Cronfa wrth gefn) | Disgrifiad o'r gwaith a waned |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **423** | | | | | |
| Gwastraff | 42,753 | ✓ | | Gwaith Penodol | Arian wrth gefn Clustnodedig | Darparu cymorth allanol technegol mewn cysylltiad â chaffael contract newydd |
| | 42 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Duos Offtake |
| | 1,854 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Monitro chwarterol nwy safle tirlenwi , cymorth technegol |
| | 9,751 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Safle tirlenwi Penhesgyn |
| | 183 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Adolygiad blynyddol o asesiadau sydd wedi eu cynnal yng Nganolfan Penhesgyn |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **54,582** | | | | | |
| CRT | 5,700 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Mudo serfwyr 2008 i 2016 - gwasanaethau technegol |
| | 2,800 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Tocynnau cyngor a chyfarwyddyd allweddol |
| **Cyfanswm CRT** | **8,500** | | | | | |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3,275 | | | ✓ | Grant | Ysgrifennu a chyflwyno cynllun diogelwch digwyddiadau |
| **Cyfanswm Corfforaethol a Democrataidd** | **3,275** | | | | | |

| Adran | Swm Ch 1 (£) | Categori – rheswm Penodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio heb ei Ddefnyddio/Grant Cyfraniad Allanol) Cronfa wrth gefn)** | **Disgrifiad o'r gwaith a waned** |
| Gwasanaethau Oedolion | 850 | | | ✓ | | Gweithdai 2 ddiwrnod o reoli prosiect WCCIS |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **850** | | | | | |
| Trawsnewid | 412 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaethau ymgynghori atebion diogelwch TGCh |
| | 2,040 | ✓ | | | Grant | Aseswr - hyfforddai gweithwyr cymdeithasol |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **2,452** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 3,996 | | | ✓ | Cyllideb staffio heb ei ddefnyddio | Llenwi swyddi gwag dros dro |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **3,996** | | | | | |
| Adnoddau | 2,500 | | | ✓ | Arian wrth gefn Cyffredinol | Adolygu bid Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn |
| | 2,065 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Cyngor Treth a gwasanaeth ymgynghori |
| | 7,275 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Cytundeb tâl cadw gwasanaethau trysorlys |
| | 4,584 | | | ✓ | Arian wrth gefn Buddsoddi i arbed | Costau rheoli prosiect TGCh |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **16,424** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch1-Ebrill-Mehefin** | **158,901** | | | | | |

**ATODIAD FF**

# Ffioedd a Phrisiau 2019-20

1af Ebrill

**NODIADAU**

**1. Cyfnod Perthnasol**

**1.1** Mae'r holl ffioedd a phrisiau'n berthnasol o'r dyddiad a nodir hyd at ac yn cynnwys 31ain Mawrth 2020, oni bai y nodir fel arall.

**2. TAW**

**2.1** Mae'r holl ffioedd a phrisiau'n cynnwys TAW (gall TAW newid), oni bai y nodir fel arall.

**2.2** Allwedd i'r Dangosyddion TAW:-

**S** - Yn cynnwys TAW Cyfradd Safonol (20%, gall newid)
**Z** - Sero
**E** - Wedi'i eithrio rhag talu TAW
**N** - Nid yw'r pris yn cynnwys TAW (dylid ychwanegu TAW at y ffi/pris)
**O/S** - Y tu allan i sgôp TAW / dim yn fusnes
**N/A -** Amherthnasol

**2.3** Gall statws TAW newid yn ystod y flwyddyn.

**2.4** Nid yw ad-daliadau rhwng gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys TAW.

# Canolfan Fusnes Môn

| Gwasanaeth | Ffi / Pris | TAW |
|---|---|---|
| **Llogi Ystafell Gyfarfod yng Nghanolfan Fusnes Môn (ddim yn cynnwys TAW)** | | |
| **Llynnon** (yn dal 25) | | Codir TAW ble mae hynny'n berthnasol, h.y.<br><br>S – ar gyfer cleientiaid allanol,<br><br>Ni chodir TAW ar gwsmeriaid mewnol |
| Cost fesul awr | £26.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £57.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £98.00 | |
| **Rhosyr** (yn dal 10) | | |
| Cost fesul awr | £21.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £53.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £72.00 | |
| **Cemlyn** (yn dal 10) | | |
| Cost fesul awr | £21.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £53.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £72.00 | |
| **Cybi** (yn dal 10) | | |
| Cost fesul awr | £21.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £53.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £72.00 | |
| **Parys** (yn dal 6) | | |
| Cost fesul awr | £15.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £40.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £59.00 | |
| **Penmon** (yn dal 24) | | |
| Cost fesul awr | £26.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £57.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £98.00 | |
| **Aberlleiniog** (yn dal 16) | | |
| Cost fesul awr | £24.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £55.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £80.00 | |
| **Pwllfanogl** (yn dal 8) | | |
| Cost fesul awr | £18.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £47.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £65.00 | |
| **Abermenai** (yn dal 6) | | |
| Cost fesul awr | £15.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £40.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £59.00 | |
| **Mae yna wal symudol rhwng Penmon ac Aberlleiniog petai angen** (yn dal 36) | | |
| Cost fesul awr | £40.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £100.00 | |
| Cost fesul diwrnod | £160.00 | |
| | | |
| Lluniaeth | £1.45 fesul cwpan | S |
| Llogi offer cyfieithu | £39.60 | S |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2019/20 yn Chwarter 1.
- Fel y nodir ym mharagraff 3.1, argymhellir ailddyrannu'r cyllid cyfatebol o £200k o gynllun lliniaru llifogydd Traeth Coch i gynllun lliniaru llifogydd Biwmares.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth sydd wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd sylwadau'r Swyddog Monitro gan yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro’r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2019/20
Atodiad B - Crynodeb o’r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant Rhagamcanedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2019/20 fel y’i hargymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 fel y’i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019; ac
- Adroddiad ar Alldro 2018/19 a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 17 Mehefin 2019.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor Rhaglen Gyfalaf o £17.282m am 2019/20 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £13.110m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £3.065m gael ei ddwyn ymlaen o 2018/19. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau ac yn werth £3.89m i gyd. Daw hyn â'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2019/20 i £37.296m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2019/20

**2.1** Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2019, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2019 a'r modd y bwriedir cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2019/20.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffilwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % Cyllideb a Broffilwyd | % Cyllideb Flynyddol a Wariwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,026 | 148 | 143 | 1 | 143 | 97 | 7 |
| Tai CRT | 14,017 | 2,336 | 1,932 | 352 | 2,285 | 98 | 16 |
| Dysgu Gydol Oes | 7,079 | 240 | 203 | 83 | 286 | 119 | 4 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,237 | 89 | 13 | 66 | 79 | 89 | 2 |
| Priffyrdd | 5,737 | 1,301 | 461 | 769 | 1,230 | 95 | 21 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | - | - | - | - | - | - |
| Eiddo | 847 | 75 | 60 | - | 60 | 80 | 7 |
| Trawsnewid | 629 | 211 | 128 | 74 | 201 | 96 | 32 |
| Cynllunio | 650 | 175 | 88 | - | 88 | 50 | 14 |
| Gwasanaethau Oedolion | 894 | 50 | 48 | - | 48 | 97 | 5 |
| **Cyfanswm** | **37,296** | **4,623** | **3,076** | **1,345** | **4,421** | **96** | **12** |
| **Cyllidwyd gan :** | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 20,132 | | | | | | |
| Derbynnebau Cyfalaf | 774 | | | | | | |
| Benthyca a Chefnogaeth | 5,973 | | | | | | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 402 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 9,825 | | | | | | |
| Arian Wrth Gefn | 186 | | | | | | |
| Benthyciad | 4 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **37,296** | | | | | | |

**2.2** Roedd 93% o'r gyllideb a broffiliwyd wedi ei wario hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, fodd bynnag, dim ond 9% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn ers tro gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, y Grant Adnewyddu Priffyrdd ac Isadeiledd Craidd TGCh. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, ond mae cyllidebau'r rheini wedi'u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol, megis Diogelwch Ysgolion, Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol, cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth, Grant Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd a phrynu Rhaw Lwytho newydd. Gweler y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2019/20 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae 98% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, a 16% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb gyfan wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn chwarter 1 wedi bod yn gysylltiedig â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2018/19, h.y. ymrwymiad a oedd yn cario drosodd. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig newydd a gaffaelir yn ystod chwarter 1 a chanlyniadau tendro a ddisgwylir yn ystod chwarter 2 a chwarter 3 yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer 2019/20 wedi'i hymrwymo'n llawn. Yn ystod y chwarter, prynodd y Cyngor nifer o Dai Cyngor ac mae ar y trywydd iawn i ymrwymo'n llwyr y gyllideb ar gyfer Prynu Tai Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt ac isod, ceir diweddariad byr ar y cynlluniau:-

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn ymwneud â chodi 5 (pump) o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac adeiladu estyniad i'r Ganolfan Fusnes ar gyfer ei osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi eu cwblhau a'r pump ohonynt wedi cael eu gosod. Mae gwaith yn y Ganolfan Fusnes wedi'i gwblhau erbyn hyn a bydd yn cael ei gymeradwyo gan yr Adain Rheoli Adeiladu yn o fuan.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** – O'r Prosiectau Band A, mae'r ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen oll wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith atgyweirio yn Ysgol Brynsiencyn. Mae'r cynllun Band A olaf – ysgol newydd yn Llangefni, wedi'i ohirio ar hyn o bryd.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** – Mae £2.718m o gyllid grant wedi'i sicrhau ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd fel y gall y Cyngor ddarparu digon o lefydd gofal plant i gwrdd â'r galw yn sgil y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Llandegfan £0.450m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol Henblas £0.370m, Ysgol y Tywyn £0.216m ac i ddarparu Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect £0.165m. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar ysgolion Morswyn a Phencarnisiog a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud dros Wyliau'r Haf. Y gyllideb ar gyfer 2019/20 yw £1.256m.

- **Neuadd y Farchnad** – Rhyddhawyd y dystysgrif Gwblhau Ymarferol ar gyfer contract adeiladu Cam II y gwaith ar ddydd Gwener 2 Awst. Mae'r gwaith ffitio allan terfynol yn mynd rhagddo fel y gall y Llyfrgell ar y llawr gwaelod agor yn ystod yr wythnosau nesaf, sy'n golygu mai dim ond y gwaith dehongli treftadaeth fydd ar ôl i'w wneud yn ystod Hydref / Tachwedd, yn union cyn agor yr adeilad cyfan yn swyddogol.

- **Lliniaru Llifogydd Biwmares** – Yn dilyn penodi Alun Griffiths fel y contractwr newydd wedi i Dawnus fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, maent yn awr wedi cyflwyno tendr diwygiedig yn seiliedig ar y wybodaeth newydd am y gwaith. Cafodd y ffigwr hwn ei gynnwys mewn bid newydd i LlC ar gyfer yr holl gostau newydd a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith fod Dawnus wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwr. Mae'r fid wedi'i chymeradwyo ond bu cynnydd o £0.222m yn y cyllid cyfatebol y bydd raid i'r Cyngor ei gyfrannu. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen dda ac mi ddylai fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Oherwydd y cynnydd yng nghost y Cynllun, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ail-ddyrannu £0.200m o'r cyllid cyfatebol a neilltuwyd i gynllun amddiffyn rhag llifogydd Traeth Coch i gynllun Llifogydd Biwmares gan nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i symud ymlaen hefo cynllun Traeth Coch o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'n ddyddiau cynnar iawn yn hanes cynllun Traeth Coch gyda'r dyluniad wrthi'n cael ei ddatblygu a gellir chwilio am gyllid cyfatebol tuag at adeiladu'r cynllun hwn yn nes ymlaen. Bydd y £0.022m sy'n weddill yn cael ei gyllido gan y gwasanaeth o gyllidebau presennol.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi** – Cynllun yw hwn i godi 10 (deg) o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae contractwr wedi cael ei benodi a bydd gwaith yn cychwyn ddiwedd mis Awst 2019 a rhagwelir y caiff ei gwblhau ym mis Mehefin 2020. Sicrhawyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd menter ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- **Porth Twristiaid** – Mae Porth Ymwelwyr Ynys Gybi (Cyrchfan Denu Twristiaeth) yn brosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri fel pecyn o brosiectau a fydd yn mynd rhagddynt dros nifer o flynyddoedd. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer C 1 y gwaith o osod arwyddion yn y porthladd bellach wedi'i gwblhau ac mae'r arwyddion Cam 1 wrthi'n cael eu gosod yn y porthladd. Mae Manyleb wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer dymchwel yr adeilad adfeiliedig yn y Porthladd ac mae'r gwaith clirio yn Eglwys St Cybi bellach wedi'i gwblhau. Mae'r cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Wybodaeth Treftadaeth ac Adeilad y Warden gyda'r adran gynllunio a disgwylir penderfyniad yn ystod Chwarter 2. Mae'r cais gan Bartneriaeth Tirlun Ynys Gybi bellach wedi cael ei gymeradwyo gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a fydd yn darparu cyllid grant o £1.146m, a disgwylir y bydd caniatâd i gychwyn ar y gwaith yn cael ei roi yn ystod Chwarter 2.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer y **Rhaglen Fuddsoddi sydd wedi'i Thargedu at Adfywio (TRIP).** Pwrpas y cyllid yw dod ag 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd drwy gyfrwng pedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol mewn Perthynas â Thai Gwag a Byw yng Nghanol Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd fel eu partner cyflawni ar y cyd. Bydd cyfanswm o £3.250m ar gael, gydag Ynys Môn yn cael cyfran o £1.800m dros dair blynedd. Yn 2019/20, y gyllideb ar gyfer Ynys Môn yw £0.751m. Yn ystod Chwarter 1, gwariwyd cyfanswm o £0.220m ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

**3.1.2** Mae cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto neu'n sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y cyrff cyllido. Ceir isod ddiweddariad byr ar y cynlluniau hyn:-

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth** - mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn eu rhaglen am flwyddyn ariannol 2019/20. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Aeth y tendr am y gwaith allan yn mis Mehefin, fodd bynnag, oherwydd trafodaethau ynglŷn â'r tir, ni fydd gwaith yn cychwyn ar y safle tan yn hwyr ym mis Tachwedd a bydd yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2019/20. Byddwn yn gwybod faint yn union o gyllid cyfatebol fydd ei angen unwaith y bydd y tendrau wedi dod i mewn.

- **Hwyluso (‘Enable’)** – mae £0.093m o Grant gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddiogelu ar gyfer gwaith addasu i gefnogi pobl i fyw’n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi’i dynnu i lawr yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Gwaith Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd** – Fel rhan o’r cynllun hwn, bydd gwaith cyfalaf yn cael ei wneud ar ffordd yr A4080 rhwng Llanfair PG ac Aberffraw. Bydd gwaith yn cychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol ac mae cyllideb o £0.231m ar gael ar ei gyfer.

- **Teithio Llesol** – Mae £0.158m o Grant gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei sicrhau ar gyfer mân welliannau i’r isadeiledd gan gynnwys gosod arwyddion, lle parcio ar gyfer beics, tynnu rhwystrau i fynediad a lledu llwybrau. Pwrpas y grant yw cynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a chludiant cyhoeddus.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma’r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a’r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2019/20 £’000 | Derbyniwyd i 30 Mehefin 2019 £’000 | Rhagamcenir i 31 Mawrth 2020 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Man-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 699 | 0 | 699 |
| Diwydiannol | 0 | 120 | 0 |
| Ysgolion | 873 | 171 | 873 |
| **Cyfanswm** | **1,572** | **291** | **1,572** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd £1.572m o Dderbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2020. Derbyniwyd £0.291m ar 30 Mehefin 2019 (18.5%), yn sgil gwerthu hen ysgol (£0.171m) a phlot ar Barc Diwydiannol (£0.120m).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf y Cyllidebwyd ar eu cyfer yn £1.572m, mae £2.758m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido’r Rhaglen Gyfalaf oherwydd cafodd gwerth £1.186m o Dderbyniadau Cyfalaf eu dwyn ymlaen o 2018/19 yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.885m o’r swm hwn i gyllido’r rhaglen gyfalaf gyffredinol ac mae’r £0.873m arall ar gael i gyllido’r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2019/20

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2020 a'r cyllid diwygiedig:-

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 7,079 | 2,528 | - 4,551 | - 64 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,237 | 5,237 | - | - |
| Priffyrdd | 5,737 | 5,737 | - | - |
| Rheoli Gwastraff | 180 | 180 | - | - |
| Eiddo | 847 | 847 | - | - |
| Trawsnewid | 629 | 629 | - | - |
| Cynllunio | 650 | 545 | - 105 | - 16 |
| Gwasanaethau Oedolion | 894 | 737 | - 157 | - 18 |
| **Cyfanswm** | **37,296** | **32,639** | **- 4,657** | **- 12** |
| **Cyllidwyd gan :** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid Rhagamcanol £'000** | **Amrywiant** | **% Amrywiant** |
| Grant Cyfalaf | 20,132 | 17,261 | - 2,871 | - 14 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 774 | 789 | 15 | 2 |
| Benthyca a Chefnogaeth | 5,973 | 4,175 | - 1,798 | - 30 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 402 | 258 | - 144 | - 36 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,825 | 9,967 | 142 | 1 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 186 | 186 | - | - |
| Benthyciad | 4 | 4 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **37,296** | **32,639** | **- 4,657** | **- 12** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir y bydd tanwariant o £4.657m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 ac mae'n bosibl y bydd yn llithro i Raglen Gyfalaf 2020/21. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2020/21, a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21. Y prif brosiect ble rhagwelir tanwariant yw'r Rhaglen Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif sydd wedi ei gohirio ar hyn o bryd ac sy'n dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghori pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, petaicanlyniad yr ymgynghoriad a'r penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Gwaith yw parhau â'r ysgolion newydd yn ardal Llangefni, gall y tanwariant a ragwelir gael ei leihau, yn dibynnu ar ba bryd y bydd y gwaith yn dechrau.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2020 yn £139.797m, sef angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca fel y gall gyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca £127.475 yn allanol, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £12.322m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2019/20 (Atodiad 11).

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Argymhellwyd yn y Strategaeth Gyfalaf y dylid cyfyngu cyllid Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir arnynt gan Lywodraeth Cymru) a gwerth rhagdybiedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2020/21 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i adnewyddu Cerbydau, Buddsoddi mewn TGCh, atgyweirio asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chostau'r Grantiau Statudol ar gyfer darparu Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, bydd cyllid ar gael ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol a chaiff y rhain eu hasesu fesul achos.

Unwaith y bydd y prosiectau uchod wedi cael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau a'r ddiwedd Chwarter 1 a'r gwariant rhagdybiedig ar brosiectau, bod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn eu cyllidebau. Oherwydd bod y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i gohirio ac yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion, mae perygl y bydd tanwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddiogelu nifer o grantiau allanol gwahanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y mwyafrif o'r cynlluniau hyn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn gwerth £1.5m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2019/20 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o wariant y prosiectau cyfalaf hyd yn hyn yn erbyn y gyllideb gyfalaf a' r gwariant rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,000 | 50,000 | 34,471 | 0 | 34,471 | -15,529 | 69 | 4 | 900,000 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 779,000 | 50,000 | 47,050 | 0 | 47,050 | -2,950 | 94 | 6 | 779,000 | 0 | 0 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 22,740 | 22,740 | 37,652 | 894 | 38,546 | 15,806 | 170 | 170 | 37,652 | 14,912 | 66 |
| Grant Enable | 93,200 | 0 | 352 | 0 | 352 | 352 | 0 | 0 | 93,200 | 0 | 0 |
| | 200,000 | 25,000 | 22,979 | 0 | 22,979 | -2,021 | 92 | 11 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,025,590** | **147,740** | **142,503** | **894** | **143,397** | **-4,343** | **97** | **7** | **2,040,502** | **14,912** | **1** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 30,000 | 13,993 | 8,508 | 22,501 | -7,499 | 75 | 6 | 400,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,850,000 | 750,000 | 508,043 | 19,422 | 527,464 | -222,536 | 70 | 11 | 4,850,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 10,000 | 6,784 | 675 | 7,459 | -2,541 | 75 | 2 | 400,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 25,000 | 390 | 11,938 | 12,328 | -12,672 | 49 | 3 | 450,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo newydd | 6,371,000 | 1,000,000 | 884,627 | 111,050 | 995,677 | -4,323 | 100 | 16 | 6,512,540 | 141,540 | 2 |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 16,000 | 16,000 | 15,667 | 280 | 15,947 | -53 | 100 | 100 | 16,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 87,500 | 66,783 | 23,398 | 90,181 | 2,681 | 103 | 26 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 0 | 0 | 31,900 | 31,900 | 31,900 | 0 | 16 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tir Halogedig | 230,000 | 230,000 | 226,257 | 3,260 | 229,517 | -483 | 100 | 100 | 230,000 | 0 | 0 |
| SATC | 750,000 | 187,500 | 209,724 | 142,046 | 351,770 | 164,270 | 188 | 47 | 750,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **14,017,000** | **2,336,000** | **1,932,268** | **352,477** | **2,284,744** | **-51,256** | **98** | **16** | **14,158,540** | **141,540** | **1** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 500,000 | 0 | 16,301 | 0 | 16,301 | 16,301 | 0 | 3 | 500,000 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Y Graig | 666,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -666,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd Y Llan | 37,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 37,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Seiriol | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -400,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Santes Dwynwen | 85,000 | 200,000 | 164,899 | 55,757 | 220,655 | 20,655 | 110 | 260 | 220,655 | 135,655 | 160 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ardal Amlwch | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -100,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 3,521,000 | 0 | 7,035 | 3,608 | 10,644 | 10,644 | 0 | 0 | 0 | -3,521,000 | -100 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 14,500 | 10,000 | 10,224 | 0 | 10,224 | 224 | 102 | 71 | 14,500 | 0 | 0 |
| Grant Unedau Ysgolion | 1,255,985 | 30,000 | 4,683 | 23,876 | 28,559 | -1,441 | 95 | 2 | 1,255,985 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7,079,485** | **240,000** | **203,142** | **83,241** | **286,383** | **46,383** | **119** | **4** | **2,528,140** | **-4,551,345** | **-64** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,280,000 | 60,000 | 1,515 | 58,531 | 60,046 | 46 | 100 | 5 | 1,280,000 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,499,000 | 0 | 1,377 | 0 | 1,377 | 1,377 | 0 | 0 | 3,499,000 | 0 | 0 |
| Isadeiledd ssst Strategol Llangefni | 306,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 306,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 57,000 | 28,500 | 10,200 | 7,000 | 17,200 | -11,300 | 60 | 30 | 57,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 95,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,237,000** | **88,500** | **13,092** | **65,531** | **78,623** | **-9,877** | **89** | **2** | **5,237,000** | **0** | **0** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Maesydd Parcio | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 181,960 | 45,000 | 20,381 | 45,859 | 66,240 | 21,240 | 147 | 36 | 181,960 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,359,000 | 339,750 | 55,457 | 0 | 55,457 | -284,293 | 16 | 4 | 1,359,000 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 602,180 | 150,545 | 168,289 | 0 | 168,289 | 17,744 | 112 | 28 | 602,180 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 1,439,530 | 719,765 | 171,803 | 723,404 | 895,207 | 175,442 | 124 | 62 | 1,439,530 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Gwaith Draenio | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 166,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 166,000 | 0 | 0 |
| Amddiffyn rhag Llifogydd Traeth Coch | 850,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 850,000 | 0 | 0 |
| Lôn Gyswllt Llangefni | 97,000 | 24,250 | 22,583 | 0 | 22,583 | -1,667 | 93 | 23 | 97,000 | 0 | 0 |
| Teithio Gweithredol | 158,000 | 0 | 3,060 | 0 | 3,060 | 3,060 | 0 | 2 | 158,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 68,800 | 17,200 | 15,408 | 0 | 15,408 | -1,792 | 90 | 22 | 68,800 | 0 | 0 |
| Diogelu'r Ffyrdd Cyfalaf | 231,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 231,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 4,000 | 4,000 | 3,564 | 0 | 3,564 | -436 | 89 | 89 | 4,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,737,470** | **1,300,510** | **460,545** | **769,263** | **1,229,808** | **-70,702** | **95** | **21** | **5,737,470** | **0** | **0** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Prynu Rhaw Lwytho Newydd | 180,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **180,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **180,000** | **0** | **0** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **<u>Eiddo</u>** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 572,540 | 50,000 | 48,650 | 0 | 48,650 | -1,350 | 97 | 8 | 572,540 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 274,320 | 25,000 | 11,555 | 0 | 11,555 | -13,445 | 46 | 4 | 274,320 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **846,860** | **75,000** | **60,205** | **0** | **60,205** | **-14,795** | **0** | **7** | **846,860** | **0** | **0** |
| **<u>Trawsnewid</u>** | | | | | | | | | | | |
| TGCh – Isadeiledd Craidd | | 150,000 | 127,883 | 15,000 | 142,883 | -7,117 | 95 | 84 | 171,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 60,500 | 0 | 58,500 | 58,500 | -2,000 | 97 | 48 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwydded MS | 127,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 127,000 | 0 | 0 |
| TGCh – Cysylltu Ynys Môn (AC) i drosglwyddo PSBA | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **629,000** | **210,500** | **127,883** | **73,500** | **201,383** | **-9,117** | **0** | **32** | **629,000** | **0** | **0** |
| **<u>Cynllunio</u>** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 650,000 | 175,000 | 87,783 | 0 | 87,783 | -87,217 | 50 | 14 | 545,000 | -105,000 | -16 |
| **Cyfanswm** | **650,000** | **175,000** | **87,783** | **0** | **87,783** | **-87,217** | **50** | **14** | **545,000** | **-105,000** | **-16** |
| **<u>Gwasanaethau Oedolion</u>** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 773,770 | 50,000 | 48,377 | 0 | 48,377 | -1,623 | 97 | 6 | 616,666 | -157,104 | -20 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 85,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 85,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 35,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **893,770** | **50,000** | **48,377** | **0** | **48,377** | **-1,623** | **97** | **5** | **736,666** | **-157,104** | **-18** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **37,296,175** | **4,623,250** | **3,075,797** | **1,344,906** | **4,420,703** | **-202,547** | **96** | **12** | **32,639,179** | **-4,656,996** | **-12** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 1 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -**

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2019/20.

**(ii)** Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2019/20.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2019, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m.

**(ii)** Mae’r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn £14.0m, yn cynnwys lwfans ar gyfer gwariant nad oedd wedi ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2018/19.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o’r gyllideb refeniw a’r gyllideb gyfalaf wedi’i haddasu ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £2.0m a fyddai’n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi’i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni fedrir ychwaith ddefnyddio cyllid o’r Gronfa Gyffredinol i gyllido’r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd at 30 Mehefin 2019.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae’r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch1 yn dangos gorwariant o £4k. Mae’r rhagolygon o ran incwm bellach £75k yn well na’r gyllideb wreiddiol a rhagwelir y bydd gwariant yn cydymffurfio â’r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae’r gwariant cyfalaf £342k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd. Mae’r gwariant a ragwelir £142k yn uwch na’r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae’r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £67k yn uwch na’r gyllideb, sydd i’w briodoli’n bennaf i wariant cyfalaf uwch na’r disgwyl.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd yr incwm a dderbyniwyd £41k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm o renti tenantiaid £14k yn is na’r gyllideb. Mae’r gyllideb a’r rhagolygon wedi cael eu hadolygu i gymryd i ystyriaeth y bwriad i gomisiynu eiddo newydd a phrynu eiddo, felly, rhagwelir y bydd modd cyflawni’r gyllideb.

**(iii)** Mae Taliadau Gwasanaeth, sy’n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, bellach £20k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 1. Mae’r incwm a ragwelir wedi cael ei gynyddu gan £75k oherwydd disgwylir i’r duedd hon barhau.

**(iv)** Roedd incwm arall £35k yn uwch na’r gyllideb (a hynny’n bennaf oherwydd bod incwm o’r cynllun Tariff ‘Feed In’ a gynhyrchir o’r panelau solar wedi cael ei dderbyn yn gynt na’r disgwyl) ond disgwylir y bydd yn dychwelyd i’r ffigwr cyllidebol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(v)** Felly, y rhagolygon cyffredinol ar gyfer incwm yw gwelliant o £75k erbyn diwedd y flwyddyn.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud ag Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd gwariant nad oedd yn ymwneud ag atgyweiriadau a chynnal a chadw £78k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn i’w briodoli’n bennaf i’r ffaith y cafodd archebion ar gyfer gwariant disgwyliedig ar system TG yr Adran Dai eu codi am y flwyddyn gyfan. Disgwylir y bydd gwariant yn unol â’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**7. Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) yn dangos tanwariant o £40k. Hon yw’r flwyddyn gyntaf lawn ers allanoli storfa’r HMU, a disgwylir arbedion ac mae’r rheiny wedi’u cynnwys yn y gyllideb. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw arwyddion penodol ynglŷn â’r tueddiad, felly, nid yw’r rhagolygon wedi newid.

**(ii)** Mae gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad yw’n HMU £8k yn is na’r gyllideb a broffiliwyd oherwydd swyddi gweigion. Rhagwelir y bydd gwariant yn unol â’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**(iii)** Roedd gorwariant o £14k ar Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw arall o gymharu â’r gyllideb a broffiliwyd. Roedd y prif amrywiadau’n ymwneud â gwaith cynnal a chadw tiroedd lle mae mwy o waith yn cael ei wneud yn ystod cyfnod yr haf ac oherwydd derbyn ffioedd blwyddyn lawn yn gynnar yn y flwyddyn mewn perthynas â’r gwaith trin carthffosiaeth. Disgwylir i wariant fod yn unol â’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o’r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019 yn werth cyfanswm o £14,017k, a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr £2,660k, grantiau cyfalaf eraill £1,532k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £9,825k. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2018/19. Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd gwariant gwirioneddol yn £14,159k, sydd £142k yn uwch na'r gyllideb.

**(ii)** Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf yn unol â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac eithrio'r gwariant ar brynu a datblygu eiddo newydd ble rhagwelir gorwariant o £142k. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar ffactorau megis caniatâd cynllunio a bydd yn parhau i gael ei fonitro'n agos.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol Cronfa Wrth Gefn y CRT yn £8,387k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £2,007k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y gorwariant a ragwelir ar y gyllideb gyfalaf wedi'i gyfuno â'r tanwariant a ragwelir ar y gyllideb refeniw yn arwain at ddefnyddio £2,074k. Bydd hyn yn rhoi balans o £6,313k yn y gronfa wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi cael ei glustnodi'n benodol, felly, nid yw ar gael ond i gyllido gwariant y CRT yn unig.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth Strategol** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 1.
Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 1.

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb y CRT am 2019/20 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019).
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2019/49 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019).

ATODIAD A

## *CYFRIF CRT 2019/20*

| | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb wedi ei Phroffilio hyd at Fis 3 | Gwirioneddol hyd at Fis 3 | Amrywiad hyd at Fis 3 | Rhagolygon Diwedd Blwyddyn | Amrywiad Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (17,970,000) | (4,492,500) | (4,478,047) | 14,453 | (17,970,000) | 0 |
| Garejys | (219,000) | (54,750) | (55,741) | (991) | (219,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (133,000) | (33,250) | (52,985) | (19,735) | (208,000) | (75,000) |
| Arall | (221,000) | (48,003) | (82,242) | (34,239) | (221,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 274,000 | 0 | 0 | 0 | 274,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,269,000)** | **(4,628,503)** | **(4,669,015)** | **(40,512)** | **(18,344,000)** | **(75,000)** |
| **Gwariant nad yw'n ymwneud ag Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 117,930 | 29,428 | 28,844 | (584) | 117,930 | 0 |
| Gweinyddu Rhenti | 381,940 | 95,226 | 102,622 | 7,396 | 381,940 | 0 |
| Rheoli Stadau | 229,890 | 56,931 | 50,971 | (5,960) | 229,890 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 693,090 | 171,312 | 248,864 | 77,552 | 693,090 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant nad yw'n ymwneud ag Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | **1,422,850** | **352,897** | **431,301** | **78,404** | **1,422,850** | **0** |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,252,750 | 813,270 | 773,727 | (39,543) | 3,252,750 | 0 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim HMU) | 834,220 | 207,900 | 199,563 | (8,337) | 834220 | 0 |
| Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Arall | 461,110 | 115,296 | 129,568 | 14,272 | 461,110 | 0 |
| **Cyfanswm Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | **4,548,080** | **1,136,466** | **1,102,858** | **(33,608)** | **4,548,080** | **0** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,015,080 | 0 | 0 | 0 | 3,015,080 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaeth Tai | 771,630 | 0 | 0 | 0 | 771,630 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 0 | 0 | 0 | 693,360 | 0 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,480,070** | **0** | **0** | **0** | **4,480,070** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,451,000** | **1,489,363** | **1,534,159** | **44,796** | **10,451,000** | **0** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(7,818,000)** | **(3,139,140)** | **(3,134,856)** | **4,284** | **(7,893,000)** | **(75,000)** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2019/20 | 14,017,000 | 1,946,000 | 2,284,744 | 341,744 | 14,158,540 | 141,540 |
| | | | | | | |
| Lwfans ar gyfer Atgyweiriadau Mawr | (2,660,000) | 0 | 0 | 0 | (2,660,000) | 0 |
| **Grantiau eraill** | (1,532,000) | 0 | 0 | 0 | (1,532,000) | 0 |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF** | **9,825,000** | **1,946,000** | **2,284,744** | **341,744** | **9,966,540** | **141,540** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **2,007,000** | **(1,193,140)** | **(850,112)** | **346,028** | **2,073,540** | **66,540** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,387,000) | | | | (8,387,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 2,007,000 | | | | 2,073,540 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(6,380,000)** | | | | **(6,313,460)** | |
| | | | | | | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | Gwariant a Rhagamcenir (£) | Tan/Gorwariant a Ragamcenir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT TAI** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 15,000 | 22,501 | 7,501 | 400,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio | 4,850,000 | 500,000 | 527,464 | 8,043 | 4,850,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 10,000 | 7,459 | (2,541) | 400,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 0 | 12,328 | 12,328 | 450,000 | 0 |
| Prynu Eiddo sy'n Bodoli'n Barod / Datblygu Eiddo Newydd | 6,371,000 | 900,000 | 995,677 | 95,677 | 6,512,540 | 141,540 |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 16,000 | 16,000 | 15,947 | (53) | 16,000 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 65,000 | 90,181 | 25,181 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 0 | 31,900 | 31,900 | 200,000 | 0 |
| SATC | 750,000 | 210,000 | 351,770 | 141,770 | 750,000 | 0 |
| Gwaith Adfer | 230,000 | 230,000 | 229,517 | (483) | 230,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **14,017,000** | **1,946,000** | **2,284,744** | **338,744** | **14,158,540** | **(141,540)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL 2020/21 – 2022/23** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH YGWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canol. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol y sonnir amdano yn yr adroddiad.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Cafodd drafft terfynol yr adroddiad ei drafod a'i gytuno arno gan yr UDA – roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Cafodd drafft terfynol yr adroddiad ei drafod a'i gytuno arno gan yr UDA – roedd y Swyddog Monitro yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cynllun Ariannol Tymor Canol
Atodiad 2 - Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Lleol 2020/21 – CLlLC Gorffennaf 2019
Atodiad 2 - Amcangyfrif 3 blynedd manwl o'r Gyllideb Ddisymyd
Atodiad 3 - Rhagdybiaethau'r Cynllun

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

# CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2020/21 – 2022/23

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi lefel yr adnoddau y mae’r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.

**1.2** Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canol wedi cael ei gwblhau yn ystod cyfnod o ansicrwydd mewn perthynas ag economi’r DU ac effaith hynny ar lefelau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth y DU, erbyn hyn, wedi cwblhau ei Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn unol â’r cynllun gyda hynny’n rhoi rhywfaint o sicrwydd i Lywodraeth Cymru ynglŷn â’i gyllido am y 3 blynedd nesaf. Nid yw’r adolygiad hwn wedi’i gwblhau hyd yma a bydd a fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Hydref 2019, hefo neu heb gytundeb, yn cael effaith ar wariant cyhoeddus yn 2020/21 a’r tu draw i hynny.

**1.3** Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynllunio cyhoeddi’r setliad drafft ar gyfer Llywodraeth Leol ar 10 Rhagfyr 2019, gyda’r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 3 Mawrth 2020, sydd yn sylweddol hwyrach nag arfer. Fodd bynnag, mae Canghellor y DU yn ddiweddar wedi cyhoeddi y cynhelir adolygiad gwariant interim ym mis Medi 2019 a gall hyn olygu newid yn amserlen Llywodraeth Cymru.

**1.4** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau y gwyddys amdanynt ac yn gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y gyllideb). Mae hefyd yn ystyried unrhyw bwysau cyllidebol sy'n deillio o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022.

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL GYFREDOL Y CYNGOR

**2.1** Ym mis Chwefror 2019, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2019/20**

| | £’m |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2018/19** | **130.945** |
| Newidiadau Contractyddol a Newidiadau Eraill yr ymrwymwyd iddynt | 0.796 |
| Chwyddiant Tâl a Phrisiau | 3.898 |
| Trosglwyddo Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd i'r Setliad | 0.173 |
| Pwysau Cyllidebol | 1.959 |
| Arbedion Cyllidebol | (2.561) |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2019/20** | **135.210** |
| | |
| **Wedi'i gyllido gan** | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 95.791 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 39.419 |
| **Cyfanswm Cyllid 2019/20** | **135.210** |

**2.2** Gwelwyd gostyngiad o 0.30% yn y cyllid allanol cyfun a chynnydd o 12.3% yn nebyd y Dreth Gyngor. Cafwyd cynnydd o 9.5% yn y tâl ar gyfer Band D ac roedd gweddill y cynnydd i’w briodoli i newid yn Sylfaen y dreth gyngor a chynnydd o 25% i 35% yn y premiwm ar gyfer ail gartrefi a chynnydd o 25% i 100% yn y premiwm ar gyfer cartrefi gwag.

**2.3** Yn 2018/19, roedd gorwariant o £0.633m yn y gyllideb refeniw net, gyda'r mwyafrif o'r gorwariant i'w briodoli i Blant sy'n Derbyn Gofal (£1.8m), Gwasanaethau Oedolion (£1.17m), Cludiant Ysgol (£0.34m).Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwyso gan danwariant mewn gwasanaethau eraill yn dilyn ymgyrch i ostwng gwariant ac I sicrhau arbedion unwaith ac am byth ar gostau cyllido cyfalaf. Mae'n annhebygol y bydd gwasanaethau gallu tanwario i'r un lefel eto ac, o ganlyniad, roedd diffyg sylfaenol oddeutu £3m yn y gyllideb.

**2.4** Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol yn y gyllideb, roedd cyllideb 2019/20 yn cynnwys £1.6m ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a chostau Addysg cysylltiedig. Roedd mwyafrif y gorwariant yn y Gwasanaethau Oedolion i gael ei gyllido o Grant ychwanegol o £0.67m i gydnabod y Pwysau ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at y Cyllid Allanol Cyfun (CAC).

**2.5** Arweiniodd y newidiadau i gyfraniad y cyflogwr mewn perthynas â phensiynau athrawon, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2019, at gynnydd o £ 0.8m mewn costau. Gwnaed darpariaeth yng nghyllideb derfynol y Cyngor i gyllido hyn yn llawn cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi y byddai hyn yn cael ei gyllido trwy grant ychwanegol. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo 50% o'r grant a dderbyniwyd i ysgolion er mwyn lleihau'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb a ddatganolwyd i'r ysgolion, a chadw'r 50% arall yn ganolog. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r grant hwn eto, naill ai drwy ei gynnwys yn y CAC neu fel grant ar wahân unwaith eto. Nid yw'n eglur chwaith a fydd y grant yn cael ei gynyddu i gwrdd â chost blwyddyn lawn y cyfraniadau uwch, a fydd, yn achos Ynys Môn, oddeutu £1.4m.

**2.6** Mae arwyddion cynnar yn rhagamcanu gorwariant o oddeutu £1.6m ar gyfer 2019/20, sy'n bennaf oherwydd y galw cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion, cludiant ysgol a chost y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, lle nad yw'r llwyth achosion wedi lleihau yn unol â'r disgwyliad ar adeg gosod y gyllideb. Os bydd y lefel hon o orwario yn digwydd mewn gwirionedd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, byddai'n cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.

**2.7** Balans agoriadol y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 1 Ebrill 2019 yw £5.912m a, chydag ychwanegu 50% o Grant Pensiynau'r Athrawon mae hyn yn cynyddu i £6.355m. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r isafswm o £6.76m (5% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019/20) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2019. Bydd y ffigwr hwn yn cael ei ddiwygio fel rhan o broses gosod cyllideb 2020/21. O ystyried y gorwariant o £1.6m a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2019/20, y disgwyliad yw y bydd lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn disgyn i £4.8m, a fydd yn is na'r isafswm a argymhellir.

**2.8** Mae'n bosibl i'r Cyngor weithredu gyda balans o gronfeydd wrth gefn sy'n is na'r lefel a argymhellir, ond po hiraf y bydd y sefyllfa hon yn parhau, y mwyaf yw'r risg i'r Cyngor na fydd mewn sefyllfa i gyllido unrhyw wariant annisgwyl neu orwariant a all godi yn y dyfodol. Mae'r gostyngiad yn lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf hefyd yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel ffynhonnell cyllid tymor byr i gydbwyso'r gyllideb. Yn y dyfodol, efallai y bydd angen cyllidebu ar gyfer gwarged fel bod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn codi'n ôl i'r lefel a argymhellir dros gyfnod o amser. Bydd hwn yn bwysau ariannol pellach i'r Cyngor.

**2.9** Roedd lefel y cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gedwir gan y Cyngor i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ar sail unwaith ac am byth, i gyllido costau a ragwelir yn y dyfodol (e.e. colledion nad oedd yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant nad oedd wedi ei ddefnyddio yn £9.88m ar 31 Mawrth 2019, gostyngiad o £0.028 m yn ystod y flwyddyn. Er bod modd trosglwyddo rhai o'r cronfeydd hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol e.e. prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ond sydd ddim yn symud ymlaen, mae'r sgôp yn gyfyngedig ac ni fydd yn arwain at gynnydd sylweddol yn lefel y balansau cyffredinol.

**2.10** Mae lefel balansau ysgolion wedi gostwng o uchafbwynt o £2.46m yn 2015/16 i £0.63m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19, gostyngiad o 74% mewn 4 blynedd. Mae'r gostyngiad hwn i'w briodoli i'r anawsterau ariannol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o ysgolion y Cyngor. Mae ysgolion yn bwriadu defnyddio dros hanner y cronfeydd wrth gefn hyn yn ystod 2019/20 i gydbwyso eu cyllidebau ac mae'n debygol y bydd nifer yr ysgolion sydd â diffyg yn cynyddu o'r 16 ysgol a oedd mewn diffyg ar ddiwedd 2018/19.

**2.11** Roedd cyllideb refeniw 2019/20 yn cynnwys rownd arall o arbedion o oedd werth cyfanswm o £2.561m. Mae hyn yn mynd â chyfanswm yr arbedion a nodwyd gan y Cyngor ers 2013/14 i £24.31m. Mae'n anodd cymharu faint o arbedion y mae pob gwasanaeth wedi'u cyfrannu gan fod nifer o ffactorau eraill yn newid y cyllidebau ar gyfer pob gwasanaeth dros amser. Mae'r rhain yn cynnwys: trosglwyddo elfennau gwasanaeth rhwng 2 brif wasanaeth, grantiau a chyfrifoldebau newydd sy'n trosglwyddo i mewn neu allan o wasanaeth, effaith arfranu swyddi ac unrhyw gyllid ychwanegol sydd wedi cael ei ddyrannu i wasanaethau i gwrdd â newidiadau yr ymrwymwyd iddynt neu bwysau ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae cymhariaeth o gyfanswm yr arbedion y mae pob gwasanaeth wedi'u cyfrannu at gyllideb 2019/20 yn dangos pa wasanaethau sydd wedi ysgwyddo'r toriadau mwyaf. Gweler y gymhariaeth hon yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Arbedion fesul Gwasanaeth 2013/14 i 2019/20 o gymharu â Chyllideb Refeniw Net 2019/20**

| Gwasanaeth | Cyfanswm Arbedion 2013/14 i 2019/20 £ '000 | 2019/20 Cyllideb £ '000 | 2013/14 i 2019/20 Arbedion fel % o Gyllideb 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 2,640 | 38,659 | 6.8% |
| Addysg Ganolog ac Ieuenctid | 2,377 | 10,374 | 22.9% |
| Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth | 551 | 1,213 | 45.4% |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,998 | 25,036 | 16.0% |
| Gwasanaethau Plant | 862 | 9,856 | 8.7% |
| Hamdden, Morwrol a Datblygu Economaidd | 1,388 | 1,785 | 77.7% |
| Tai | 513 | 1,211 | 42.4% |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 6,757 | 14,603 | 46.3% |
| Rheoleiddio | 924 | 2,042 | 45.2% |
| Busnes y Cyngor | 327 | 1,625 | 20.1% |
| Adnoddau | 613 | 3,006 | 20.4% |
| Trawsnewid | 764 | 4,471 | 17.1% |
| Cyllidebau Corfforaethol | 2,594 | 21,329 | 12.2% |
| **Cyfanswm** | **24,308** | **135,210** | **18.0%** |

**2.12** Mae'r tabl uchod yn dangos bod rhywfaint o ddiogelwch wedi'i roi i Ysgolion, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant gyda'r gwasanaethau rheng flaen eraill yn darparu'r gyfran fwyaf o'r arbedion mewn perthynas â'u cyllidebau net. Yn ystod y broses o osod cyllideb 2019/20, daeth yn fwyfwy anodd i nodi arbedion cyllidebol yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig. Oherwydd arbedion cyllidebol, bu'n rhaid lleihau neu derfynu rhai gwasanaethau ac roedd disgwyl i ysgolion gyfrannu lefel uwch o arbedion nag o'r blaen.

## 3 RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu'r cyfan o gyllid Llywodraeth Cymru ac mae'r hyn sy'n digwydd gydag economi a chyllideb y DU yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid a gaiff Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.2** Erys llawer iawn o ansicrwydd o ran economi'r DU a bydd llawer yn dibynnu ar delerau ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit). Mae bron yn sicr y bydd Brexit dim cytundeb yn lleihau twf economaidd yn y tymor byr, gyda hynny'n cael effaith ar refeniw trethi a lefelau benthyca'r sector cyhoeddus. Mae Canghellor y DU wedi nodi bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi cyllidol cyfredol, a fyddai'n caniatáu cynnydd mewn gwariant cyhoeddus ond gallai rhywfaint neu'r cyfan o'r cyllid ychwanegol hwn gael ei ail-gyfeirio i gefnogi'r economi os bydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019, heb gytundeb trosiannol yn ei le.

**3.3** Gwnaeth y Prif Weinidog newydd nifer o ddatganiadau yn ystod etholiad arweinyddiaeth y Ceidwadwyr ac yn dilyn ei benodi'n Brif Weinidog, yn dweud y byddai'r rhaglen lymder yn cael ei llacio ac y byddai cynnydd mewn gwariant cyhoeddus mewn meysydd fel Iechyd a Phlismona. Mae'r Prif Weinidog newydd hefyd wedi nodi'r bwriad i leihau baich treth ar unigolion trwy gynyddu lwfansau personol a newid pan fydd y dreth uwch yn daladwy. Byddai hyn, ar yr wyneb, yn lleihau'r incwm a gaiff y Llywodraeth trwy dreth incwm, ond mae rhai economegwyr yn dadlau y bydd gostwng y swm y mae pobl yn ei dalu mewn treth yn ysgogi'r economi, yn cynyddu incwm pobl ac yn cynhyrchu mwy o refeniw o'r trethi. Os na fydd hyn yn digwydd a gwariant cyhoeddus yn cynyddu, bydd angen i'r Llywodraeth fenthyca mwy.

**3.4** Yn Natganiad Cyllideb y Gwanwyn, nodwyd bod gan y Llywodraeth rywfaint o sgôp i gynyddu benthyca. Mae'r ffigyrau'n dangos bod lefel y benthyca wedi gostwng i £22.8bn yn 2018/19, o'i gymharu â'r £25.5bn a ragamcanwyd ym mis Hydref 2018. Y rhagolwg diweddaraf yw y bydd benthyca blynyddol yn £13.5bn erbyn 2023/24. Mae'r Llywodraeth wedi gosod targed i'r diffyg cyllidebol strwythurol fod yn is na 2% o'r CDG (GDP) erbyn 2020/21. Mae'r rhagolygon cyfredol yn rhoi hyblygrwydd o £26.6bn i'r Canghellor.

**3.5** Mae dyled gyffredinol y Llywodraeth yn dal i fod oddeutu £1.8tn ac ni ddisgwylir unrhyw newid dros y cyfnod i 2023/24, ond, fel canran o CDG, disgwylir iddo ostwng o 83.7% o CDG yn 2018/19 i 73.0% o CDG erbyn 2023/24. Mae hyn eto yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Canghellor gynyddu benthyca yn y sector cyhoeddus.

**3.6** Mae economi'r DU wedi tyfu ym mhob chwarter ers 2012 tan 2[ail] chwarter 2019, pan welwyd gostyngiad o 0.2% yn y CDG o gymharu â'r chwarter blaenorol ac roedd y gostyngiad hwnnw'n annisgwyl. Gall hyn fod oherwydd fod busnesau'n pentyrru stoc yn ystod chwarter 1, cyn y dyddiad ymadael cychwynnol â'r Undeb Ewropeaidd ac mae'r rhagolygon yn dal i ddangos bod disgwyl i'r economi dyfu yn ystod 2019.

**3.7** Ar hyn o bryd mae twf cyflogau yn y DU yn 3.9%, er bod hyn yn uwch yn y sector preifat na'r sector cyhoeddus. Cyhoeddwyd codiad cyflog athrawon 2019/20, gyda chynnydd o 2.75% o fis Medi 2019. Ar gyfer gweddill gweithwyr llywodraeth leol, y codiad cyflog oedd 2%. Yn amlwg, mae bwlch rhwng codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac mae'n debyg y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau gan undebau'r sector cyhoeddus am godiadau cyflog.

**3.8** Ar hyn o bryd mae chwyddiant oddeutu 2% ac ni ddisgwylir iddo newid yn sylweddol, oni bai bod y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Byddai gadael heb gytundeb yn arwain yn ddieithriad at godiadau mewn prisiau yn y tymor byr a byddai hynny'n arwain at gynnydd mewn chwyddiant. Y prif bwysau o ran chwyddiant yw'r ffaith bod codiadau cyflog bellach yn uwch na lefel chwyddiant. Ffactorau eraill a allai effeithio ar chwyddiant yw prisiau olew, a allai gael eu dylanwadu gan y sefyllfa yn y Dwyrain Canol, a gwerth sterling, sydd ar lefel isel iawn gyda hynny'n cynyddu cost mewnforio.

**3.9** Ar hyn o bryd mae'r cyfraddau llog yn 0.75% a rhagwelir y byddant yn codi'n araf ac yn raddol dros y blynyddoedd i ddod. Mae hyn wrth gwrs yn dibynnu ar Brexit ac a fydd y DU yn gadael yr UE hefo neu heb gytundeb. Mae'n debyg y byddai gadael heb gytundeb yn arwain at gynnydd mewn chwyddiant yn y tymor byr ond twf is yn y tymor hir. O ganlyniad, efallai y bydd yn rhaid gostwng cyfraddau llog er mwyn rhoi rhywfaint o ysgogiad i'r economi, er bod y sgôp ar gyfer toriadau mewn cyfraddau llog yn fychan iawn o ystyried lefel isel bresennol y cyfraddau.

**3.10** Yn amlwg mae'r sefyllfa economaidd wedi gwella, gyda benthyca wedi gostwng a lefelau dyled yn gyffredinol, fel canran o'r CDG, wedi gostwng. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sgôp i Ganghellor y DU gynyddu gwariant cyhoeddus, ond mae Brexit, ynghyd â'r hyn y byddai Llywodraeth y DU yn ei wneud pe bai Brexit Dim Cytundeb, yn parhau i greu ansicrwydd enfawr. Mae'r Prif Weinidog newydd wedi rhoi arwydd y bydd rhywfaint o gyllid ychwanegol ar gael i'r GIG a'r Heddlu ond nid yw'n eglur ar hyn o bryd a yw hyn yn trosi i gyllid ychwanegol i'r sector cyhoeddus.

## 4 CYLLIDEB LLYWODRAETH CYMRU

**4.1** Ers 2009/10, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi gostwng 4%, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant. Er gwaethaf hyn, gwelwyd cynnydd 20% yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd yn ystod y cyfnod hwn, tra bod y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol wedi gostwng 20% (ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant a throsglwyddiadau) ac mae'r ffigwr hwn yn cynyddu i 35% os ydych chi'n eithrio cyllid ysgolion.

**4.2** Yn 2019/20, cynyddodd y cyllid grant ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru 0.2% mewn termau arian parod, sy'n ostyngiad o 1.8% ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, o'i gymharu â chynnydd o 2% yng ngwariant dydd I ddydd Llywodraeth Cymru mewn termau real. Cyfeiriwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn at Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a welodd gynnydd o 5% mewn termau real.

**4.3** Yn 2019/20, dyrannodd Llywodraeth Cymru 48% o'i wariant dydd i ddydd i'r GIG yng Nghymru, o'i gymharu â 41% ar ei bwynt isaf yn 2012/13.

**4.4** Bwriad Llywodraeth y DU oedd cynnal adolygiad gwariant cynhwysfawr yn ystod haf 2019, a fyddai wedi rhoi syniad ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, gohiriwyd yr adolygiad hwn a chynhelir adolygiad blwyddyn cyflym yn ystod mis Medi 2019.

**4.5** Roedd y set ddiwethaf o gynlluniau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa ar gyfer Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn rhagdybio y byddai cyllidebau adrannol y DU yn cynyddu 1.2% mewn termau real yn y blynyddoedd hyd at 2023/24, ond y byddai'r twf hwn yn cael ei gyfeirio at gyllidebau iechyd ac amddiffyn gyda'r cyllidebau ar gyfer pob maes gwariant arall yn aros yn wastad mewn termau real. Os dyma'r cynllun parhaus, byddai cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu oherwydd y canlyniadau ar gyfer cyllidebau Iechyd.

**4.6** Wrth bennu cyllideb 2019/20, nododd Prif Weinidog Cymru mai Llywodraeth Leol fyddai gyntaf yn y ciw petai cyllid ychwanegol ar gael, ond gawn ni weld a fydd hyn yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer 2020/21.

**4.7** Mae'r sefyllfa ynglŷn â setliad Llywodraeth Leol yn cael ei drysu ymhellach gan y ffaith bod Cynghorau wedi derbyn cyllid grant ychwanegol yn 2019/20, y tu allan i'r setliad arferol, i dalu costau codiadau Cyflog a Phensiynau Athrawon ac i dalu costau uwch Gofal Cymdeithasol. Nid yw'n eglur a fydd y grantiau hyn yn cael eu hymgorffori yn y setliad yn 2020/21 ac a fyddant ar yr un lefel â 2019/20. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 8 yr adroddiad hwn.

## 5 PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1** Mae Llywodraeth Leol yn gyffredinol yn wynebu nifer o bwysau cyllidebol ac, ar ben hynny, bydd Ynys Môn hefyd yn wynebu ei phwysau cyllideb unigryw ei hun ac mae'n rhaid cynnwys y rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) bapur “Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Lleol yn 2020/21”. Mae'r papur yn manylu ar effaith cynildeb ar lywodraeth leol yng Nghymru ac yn nodi'r pwysau cyllidebol y mae Cynghorau yn eu hwynebu yn gyffredinol ledled Cymru ar hyn o bryd (mae'r papur ynghlwm fel Atodiad 2).

**i. Codiadau Cyflog**

Fel y nodwyd ym mharagraff 3.7 uchod, mae twf cyflogau yn y sector preifat yn uwch nag yn y sector cyhoeddus ac mae hyn, ynghyd ag effaith y cynnydd parhaus yn y cyflog byw cenedlaethol, yn rhoi pwysau ar gyflogau. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Undebau hawliad cyflog o 10% a chynnydd yn yr isafswm cyflog i £10 yr awr. Mae'r gyllideb cyflogau (nad yw'n ymwneud â dysgu) am 2019/20 (gan gynnwys ar-gostau) ar gyfer Ynys Môn oddeutu £44m a byddai unrhyw godiad cyflog uwch na chwyddiant yn cynyddu'r pwysau ar gyllideb y Cyngor.

**ii. Dyfarniad Cyflog Athrawon**

Yn ddiweddar, mae'r cyfrifoldeb am ddyfranu cyflogau athrawon wedi cael ei ddirprwyro i Lywodraeth Cymru a chyhoeddwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer Medi 2020 i Awst 2021 yn ddiweddar. Roedd y dyfarniad cyflog a gyhoeddwyd yn gynnydd o 2.75% ond gyda chynnydd o 5% ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyllido'r cynnydd hwn trwy'r setliad ai peidio. Mae'r gyllideb ar gyfer tâl addysgu 2019/20 (gan gynnwys ar-gostau) ar gyfer Ynys Môn yn £28m ac mae cynnydd o 2.75% yn cynrychioli cynnydd oddeutu £0.75m mewn costau.

**iii. Pensiynau Athrawon**

Arweiniodd prisiad teirblwydd y cynllun pensiwn athrawon at gynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 16.48% i 23.6% o fis Medi 2019. Cost blwyddyn lawn hyn ar gyfer Ynys Môn yw £1.3m y flwyddyn. Yn 2019/20, cyllidwyd y gost ychwanegol am y cyfnod Medi 2019 i Fawrth 2020, gan Lywodraeth Cymru, trwy grant ychwanegol (£900k). Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a yw'r cyllid grant hwn yn barhaol ac os ydyw, a fydd yn talu cost y flwyddyn lawn.

**iv. Pensiynau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu**

Mae'r prisiad teirblwydd y cynllun LGPS yn digwydd ar hyn o bryd, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn gynnaryn y flwyddyn newydd. Cyfradd cyfraniadau Ynys Môn ar hyn o bryd yw 18.6%. Mae sefyllfa gyllido'r cynllun wedi gwella wedi gwella'n sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf, ond mae nifer o ffactorau y mae'r Actiwari yn eu hystyried a all ddylanwadu ar y gyfradd gyfraniadau ddiwygiedig. Nid oes disgwyl y bydd angen codi cyfraddau'r cyfraniadau ym mis Ebrill 2020 ond mae cynnydd o 1% yn arwain at gynnydd o £ 60k yng nghostau'r Cyngor.

**v. Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae nifer y plant mewn gofal yn parhau i gynyddu ledled Cymru (36% mewn 9 mlynedd). Mae'r cynnydd hwn hefyd wedi digwydd yn Ynys Môn, gyda nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi dyblu bron o gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Mae cost pob lleoliad hefyd wedi cynyddu, gyda lleoliadau arbenigol y tu allan i'r Sir yn costio oddeutu £250k y flwyddyn i blant sydd angen lefelau uchel o ofal. Rhoes y Cyngor £1.4m yn ychwanegol yn y gyllideb yn 2019/20 ac mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod mwy o leoliadau a ddarperir gan y Cyngor ar gael yn lleol, gyda'r nod o leihau costau lleoli ar gyfartaledd. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol o ran sefyllfa'r gyllideb, gydag arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd Gwasanaethau Plant o fewn eu cyllideb ar gyfer 2019/20 ond bydd unrhyw gynnydd pellach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn rhoi straen eto ar y gyllideb ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**vi. Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Mae canran y boblogaeth yng Nghymru sydd dros 65 oed yn parhau i gynyddu, gyda Chymru y 7fed wlad uchaf yn y byd o ran canran y boblogaeth dros 65 oed. Gydag Ynys Môn mae'r trydydd ffigwr uchaf yng Nghymru ac mae ei chanran wedi codi o 21.6% yn 2009/10 i 25.5% yn 2017/18. O ystyried y cynnydd hwn yn nifer yr henoed, mae CLlLC yn amcangyfrif y bydd yn rhaid i wariant dyfu 4% yn uwch na chwyddiant i ymateb i'r galw am wasanaethau.

Ar gyfer 2019/20, y rhagolwg cyfredol yw y bydd y gyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gorwario £1m o gyllideb o £ 25.5m (gorwariant o 4%).Bydd cywiro'r sefyllfa gyllidebol hon yn ogystal â chwrdd â galw cynyddol yn cynyddu costau'r Cyngor yn sylweddol.

**vi. Cyllidebau Addysg nad ydynt yn ymwneud ag Ysgolion**

Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cryn dipyn o waith i adolygu'r modd y mae cludiant ysgol yn cael ei ddarparu a pha ddisgyblion sy'n derbyn cludiant am ddim. Yn ogystal, ail-gaffaelwyd yr holl gontractau bws mini a thacsi yn 2018/19. Er gwaethaf hyn, amcangyfrifir y bydd angen £250k ychwanegol o gyllid i gwrdd â lefel bresennol y galw.

**vii. Canolfan Addysg Y Bont**

Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn parhau i gynyddu. Yn 2019/20, rhoddodd y Cyngor £ 192k ychwanegol i gyllido'r cynnydd o 92 i 104 yn nifer y disgyblion. Rhagwelir y bydd y niferoedd hyn yn codi, a disgwylir y bydd 120 o ddisgyblion yn yr ysgol ym Medi 2019 a 135 erbyn Medi 2020. Y cyllid ar gyfer disgyblion yn 2019/20 yw £ 15,500 y disgybl ac, o ganlyniad, bydd angen cyllid ychwanegol o £250k yn 2020/21 a £240k yn 2021/22.

**viii. Contractau Gwasanaeth Mawr**

Yn ystod y 3 blynedd nesaf, bydd yn rhaid i'r Cyngor ail-dendro'r contract ar gyfer darparu prydau ysgol (i ddechrau Medi 2020) a chasglu gwastraff domestig a glanhau strydoedd (i ddechrau Ebrill 2021). Mae'r Gwasanaethau wedi nodi ei bod yn debygol y bydd cost y contractau newydd yn uwch na'r costau presennol, er ei bod yn anodd iawn pennu'r cynnydd gwirioneddol hyd nes i'r ymarfer caffael gael ei gynnal. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y bydd cynnydd ym mhris y contractau hyn.

**ix. Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Caiff y gost o adeiladu ysgolion newydd dan y rhaglen foderneiddio ei chyllido 50% gan grant Llywodraeth Cymru a benthyca â chymorth a 50% trwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r elfen fenthyca digefnogaeth yn cael effaith ar y gyllideb refeniw ar ffurf y ddarpariaeth refeniw leiaf (MRP) a thaliadau llog. Mae'r 2 ysgol newydd a adeiladwyd hyd yma yn cynhyrchu arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i gyllido'r MRP a thaliadau llog. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn symud ymlaen gyda gweddill prosiectau Band A a Band B (ardal Llangefni, Seiriol, Amlwch), yr arwyddion cychwynnol yw na fydd yr arbedion posibl yn talu cost lawn yr MRP a thaliadau llog. Mae hyn, yn ei dro, yn creu pwysau ar y gyllideb refeniw, pwysau a fydd, fe dybir, yn £800k erbyn 2022/23.

**x. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i'r setliad ar gyfer llywodraeth leol, mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi aros heb ei newid. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost , sy'n disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn, yn cynyddu er bod y cynnydd hwn wedi'i wrthbwyso gan gwymp yn nifer y bobl sy'n hawlio gostyngiad. Yn 2019/20, cododd y Dreth Gyngor 9.5% ac mae'r llwyth achosion wedi lefelu. Os bydd y duedd mewn llwyth achosion yn parhau a'r niferoedd ddim yn gostwng, bydd yn rhaid cyllido'r gost ychwanegol sy'n deillio o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Mae pob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn creu pwysau cyllido ychwanegol rhwng £50k a £60k.

**xi. Bid Twf Rhanbarthol**

Mae'r cais am gyllid twf rhanbarthol yn parhau gyda 6 awdurdod Gogledd Cymru yn ceisio dod i gytundeb gyda Llywodraethau'r DU a Chymru. Er y bydd y prif gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu gan y 2 lywodraeth, efallai y bydd yn ofynnol i'r Cynghorau gymryd benthyciadau tymor byr er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael i gyllido'r gwariant sydd wedi'i broffilio. Yn ogystal, bydd costau refeniw yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect ac â darparu trefniadau llywodraethu addas. Bydd cyfran o'r costau hyn yn disgyn ar y 6 Chyngor i'w gyllido. Yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, rhoddir ystyriaeth i gyfran bosibl Ynys Môn o'r costau hyn ond dylid nodi mai amcangyfrif yn unig o'r costau yw'r rhain a gallant newid yn sylweddol (i fyny neu i lawr) wrth i'r prosiectau fynd yn eu blaenau.

**xii. Gostyngiad mewn Grantiau Penodol**

Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn nifer o grantiau refeniw i gyllido gwasanaethau, gyda 6 phrif grant yn cael eu derbyn (grant Cefnogi Pobl, grant Cymorth Gwasanaethau Bws, grant Gwella Addysg, grant Amddifadedd Disgyblion, grant Addysg Ôl-16, grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd). O ystyried bod darpariaeth y gwasanaethau a gyllidir gan grantiau wedi'i hintegreiddio i'r gwasanaethau a gyllidir gan gyllidebau craidd y Cyngor, mae'n anodd i'r Cyngor leihau'r gwasanaethau a gychwynnwyd pan ddechreuodd y grant. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud iawn am y gwahaniaeth er mwyn i'r gwasanaeth barhau i gael ei ddarparu ar yr un lefel. Er na chafwyd unrhyw arwydd y bydd unrhyw un o'r grantiau hyn yn cael eu lleihau, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu'r fformiwla ar gyfer dosbarthu'r grant Cefnogi Pobl ac mae risg y bydd Ynys Môn yn gweld ei grant yn cael ei leihau yn dilyn yr adolygiad.

**xiii. Pwysau Amrywiol ar y Cyllid**

Bob blwyddyn, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o addasiadau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy'n adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol, cynnydd mewn costau oherwydd ymrwymiadau cytundebol neu ddrifft cynyddrannol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn caniatáu ar gyfer y newidiadau hyn a chânt eu cwblhau pan fydd cyllideb gychwynnol 2020/21 yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**xiv. Chwyddiant Prisiau Cyffredinol**

Mae cyllidebau blynyddol yn cael eu chwyddo i ystyried chwyddiant cyffredinol neu benodol. Defnyddir y mynegai prisiau defnyddwyr fel y prif ffactor chwyddiant a disgwylir i hyn aros ar neu oddeutu 2% am y dyfodol rhagweladwy. Yn ddieithriad, mae gan gontractau ddull o gyfrif chwyddiant blynyddol sydd wedi'i ymgorffori yn y contract ac sy'n seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr, y mynegai prisiau manwerthu neu fynegai sy'n benodol i'r diwydiant. Yn hanesyddol, mae mynegai prisiau manwerthu wedi bod rhwng 0.8% ac 1% yn uwch na'r mynegai prisiau defnyddwyr. Mae proses y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol ffactorau chwyddiant hyn.

## 6 INCWM

**6.1** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (ac eithrio Grant Cynnal Refeniw, Treth Annomestig a'r Dreth Gyngor) yn dod i £17.6m, ac mae'n cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus, ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth neu gytundeb rhentu tymor hir a ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod y ffi neu'r tâl.

**6.2** Polisi'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf (cyn 2017/18) yw cynyddu'r ffioedd a'r taliadau dewisol 5% bob blwyddyn. Mae'n dod yn fwyfwy anodd parhau â'r polisi hwn gyda chwyddiant yn llawer is na 5% ac , yn benodol, ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae'r Cyngor yn cystadlu â'r sector preifat, e.e. Hamdden. Yn 2019/20, cytunwyd ar y rhagdybiaeth y byddai ffioedd anstatudol yn cael eu cynyddu 3% y flwyddyn neu CPI, pa un bynnag yw'r uchaf. Mae'r cynllun yn parhau ar y sail hon.

## 7 Y GYLLIDEB DDISYMYD RAGAMCANEDIG AR GYFER 2020/21 – 2022/23

**7.1** Trwy ystyried yr holl bwysau cyllidebol y gwyddys amdanynt a'r rhagamcanion ynghylch chwyddiant a rhagamcanion eraill, mae'n bosibl pennu cyllideb ddisymyd ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23. Y gyllideb ddisymyd yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel, yn yr un modd ag y cânt eu darparu yn 2019/20. Dangosir y gyllideb ddigyfnewid ragamcanedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cyllideb Ddisymyd Ragamcanedig 2020/21 i 2022/23**

| | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **135.21** | **141.37** | **146.21** |
| Costau Unwaith ac am Byth a chostau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sy'n syrthio allan o'r gyllideb | 0.25 | 0.10 | 0.03 |
| Chwyddiant Tâl, Costau Pensiwn a Drifft Cynyddrannol | 2.25 | 1.59 | 1.60 |
| Prif Gontractau'r Cyngor - Chwyddiant a Newidiadau o ran Cyfaint | 0.74 | 1.31 | 0.42 |
| Newidiadau yn y Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y Galw | 2.49 | 1.01 | 0.56 |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl | 0.49 | 0.51 | 0.51 |
| Ardollau | 0.07 | 0.07 | 0.07 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.32 | 0.33 | 0.35 |
| Cynnydd mewn Incwm | (0.40) | (0.41) | (0.41) |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (0.05) | 0.32 | 0.52 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddisymyd** | **141.37** | **146.21** | **149.86** |

**7.2** Mae'r gyllideb ddisymyd amcangyfrifedig yn cynrychioli cynnydd arian parod o 10.6% dros y cyfnod o 3 blynedd.

**7.3** Mae mwy o fanylion am y gyllideb ddisymyd a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm fel Atodiad 3 a 4.

## 8 CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1** Cyllidir y gyllideb ddisymyd amcangyfrifedig o'r cyllid allanol cyfun (AEF) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyffredinol Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae'r sefyllfa o ran y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2020/21 yn aneglur ac yn anodd iawn i'w rhagweld, ac mae ceisio rhagweld y setliad tebygol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol yn anoddach fyth.

**8.3** Yn 2019/20, derbyniodd Ynys Môn £95.791m mewn Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru a derbyniwyd £1.73m pellach mewn grantiau ychwanegol i gynorthwyo gyda chostau tâl a Phensiynau Athrawon a chost gynyddol gofal cymdeithasol. Nid oedd y grant a oedd yn ymwneud â'r cynnydd mewn pensiynau athrawon ond yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020. Ar gyfer y flwyddyn lawn, byddai'n rhaid i'r grant fod £630k yn uwch, gan gynyddu cyfanswm y cyllid grant i £2.36m.

**8.4** Mae Tabl 4 isod yn dangos effaith 3 senario wahanol a gostyngiadau neu godiadau amrywiol yn lefel yr AEF o'i gymharu â swm cyfun yr AEF a'r cyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd yn 2019/20.

**Tabl 4**
**Newidiadau Posibl i'r AEF yn 2020/21**

| | **1% Toriad yn yr AEF £'m** | **Dim newid yn yr AEF £'m** | **1% Cynnydd yn yr AEF £'m** | **2% Cynnydd yn yr AEF £'m** |
|---|---|---|---|---|
| 2019/20 Cyllid Grant Ychwanegol heb ei gynnwys yn AEF 2020/21 | (2.69) | (1.73) | (0.77) | 0.18 |
| 2019/20 Cyllid Grant Ychwanegol wedi'i gynnwys yn AEF 2020/21 yn unol â swm yr arian parod a dderbyniwyd yn 2019/20 | (0.96) | 0.00 | 0.96 | 1.92 |
| 2019/20 Cyllid Grant Ychwanegol wedi'i gynnwys yn AEF 2020/21 yn unol â swm yr arian parod a dderbyniwyd yn 2019/20 ynghyd ag effaith blwyddyn lawn y Grant Pensiynau | (0.27) | 0.69 | 1.64 | 2.60 |

**8.5** Gellir gweld o'r tabl uchod y gall y gwahanol senarios arwain at ystod o newidiadau yn yr AEF yn 2020/21 yn amrywio o ostyngiad o £ 2.69m i gynnydd o £ 2.60m, sy'n ystod o £5.29m. Mae'r ystod hon yn sylweddol ac yn tynnu sylw at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer cyllideb 2020/21 a thu hwnt. At ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canol, rhagdybir fel y senario waethaf y bydd yr AEF yn fflat o ran arian parod ac na fydd grantiau 2019/20 yn cael eu cynnwys, sy'n rhoi gostyngiad net o £ 1.73m yng nghyllid y Cyngor. Y senario achos gorau yw y bydd y grantiau'n cael eu cynnwys yn yr AEF a'u cynyddu i ystyried effaith blwyddyn lawn costau Pensiynau Athrawon gan roi £0.69m yn ychwanegol mewn cyllid. Yn y ddau achos, rhagdybir na fydd unrhyw newid yn yr AEF yn 2021/22 a 2022/23, gyda'r cyllid a dderbynnir yn unol â'r cyllid a dderbyniwyd yn 2020/21.

**8.6** Ym mis Medi 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar godiad o 5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer pob un o'r 3 blynedd ddilynol, o gymharu â chodiadau o 2.5% yn 2017/18 a 4.8% yn 2018/19. Er gwaethaf nodi eu bwriad i gynnydd 5% yn y Dreth Gyngor, y codiad gwirioneddol ar gyfer 2019/20 oedd 9.5%. At ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canol, rhagdybir y bydd y Dreth Gyngor yn parhau i godi 5% bob flwyddyn, heb unrhyw newid yng nghanrannau premiwm y Dreth Gyngor, h.y. 35% ar gyfer 2$^{ail}$ gartrefi a 100% ar gyfer eiddo gwag.

**8.7** Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cyllido hyn, byddai'r amcangyfrif o gyfanswm y cyllid a fydd ar gael fel a ddangosir yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**
**Amcangyfrif o Gyllid y Cyngor - 2020/21 i 2022/23**

| Senario Orau | | | |
|---|---|---|---|
| | **2020/21 £m** | **2021/22 £m** | **2022/23 £'m** |
| Yr AEF a ddygwyd ymlaen | 95.791 | 95.791 | 95.791 |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | 39.419 | 41.391 | 43.461 |
| Arian Grant Ychwanegol a ddygwyd ymlaen | 1.731 | 2.417 | 2.417 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Ddygwyd Ymlaen** | **136.941** | **139.599** | **141.669** |
| Newid yn yr AEF yn ystod y flwyddyn | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Newid yn y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn | 1.972 | 2.070 | 2.173 |
| Newid yn yr Arian Grant Ychwanegol yn ystod y flwyddyn | 0.686 | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Gariwyd Drosodd** | **139.599** | **141.669** | **143.842** |
| | | | |
| **Senario Waethaf** | | | |
| | **2020/21 £m** | **2021/22 £m** | **2022/23 £'m** |
| Yr AEF a ddygwyd ymlaen | 95.791 | 95.791 | 95.791 |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | 39.419 | 41.391 | 43.461 |
| Arian Grant Ychwanegol a ddygwyd ymlaen | 1.731 | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Ddygwyd Ymlaen** | **136.941** | **137.182** | **139.252** |
| Newid yn yr AEF yn ystod y flwyddyn | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Newid yn y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn | 1.972 | 2.070 | 2.173 |
| Newid yn yr Arian Grant Ychwanegol yn ystod y flwyddyn | (1.731) | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Gariwyd Drosodd** | **137.182** | **139.252** | **141.425** |

**8.8** Dylid nodi bod y dadansoddiad uchod wedi'i baratoi cyn i ddatganiad Canghellor y DU ar yr Adolygiad o Wariant Adrannol gael ei gyhoeddi ar 4 Medi 2019. Canlyniad y cyhoeddiad hwnnw yw y bydd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru yn cynyddu £593m yn 2020/21, sy'n cyfateb i gynnydd o 2.3% mewn termau real. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gyhoeddiad hyd yn hyn ynghylch sut y caiff y cyllid ychwanegol hwn ei ddefnyddio ac a fydd hyn yn arwain at gynnydd mewn termau real yng Nghyllideb Llywodraeth Leol. Mae'r ffigurau a nodir uchod yn rhagdybio setliad lle ni fydd y cyllid rydym yn ei dderbyn drwy'r setliad yn newid ond hefo 2 ragdybiaeth wahanol ynglŷn â'r cyllid grant ychwanegol. Yn amlwg, mae cynnydd gwirioneddol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o setliad hefo cynnydd yn y cyllid a dderbynnir, petai Llywodraeth Cymru yn dewis gwneud hynny.

## 9 PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**9.1** Y bwlch cyllido yw'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb ddisymyd ragamcanedig (Tabl 3) a'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael (Tabl 5 ). Caiff hyn ei grynhoi Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Y Bwlch Cyllido Rhagamcanedig**

| Senario Orau | | | |
|---|---|---|---|
| | **2020/21 £m** | **2021/22 £m** | **2022/23 £m** |
| Y Gyllideb Ddisymydd Ragamcanedig | 141.371 | 146.209 | 149.854 |
| Arbedion a Ddygwyd Ymlaen | 0.000 | (1.972) | (4.340) |
| **Y Gyllideb Ddisymydd Ddiwygiedig** | **141.371** | **144.237** | **145.514** |
| AEF a Grant Rhagamcanedig | (98.208) | (98.208) | (98.208) |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | (39.419) | (41.391) | (43.461) |
| **Yr Arbedion y mae eu hangen yn Flynyddol (Cyn cynyddu'r Dreth Gyngor)** | **3.744** | **4.638** | **3.845** |
| Y Dreth Gyngor Ychwanegol – cynnydd o 5% | (1.972) | (2.070) | (2.173) |
| **Yr Arbedion y mae eu hangen yn Flynyddol (Ar ôl cynyddu'r Dreth Gyngor)** | **1.772** | **2.568** | **1.672** |
| | | | |
| **Senario Waethaf** | | | |
| | **2020/21 £m** | **2021/22 £m** | **2022/23 £m** |
| Y Gyllideb Ddisymyd Ragamcanedig | 141.371 | 146.209 | 149.854 |
| Arbedion a Ddygwyd Ymlaen | 0.000 | (4.189) | (6.957) |
| **Y Gyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig** | **141.371** | **142.020** | **142.897** |
| AEF a Grant Rhagamcanedig | (95.791) | (95.791) | (95.791) |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | (39.419) | (41.391) | (43.461) |
| **Yr Arbedion y mae eu hangen yn Flynyddol (Cyn cynyddu'r Dreth Gyngor)** | **6.161** | **4.838** | **3.645** |
| Y Dreth Gyngor Ychwanegol – cynnydd o 5% | (1.972) | (2.070) | (2.173) |
| **Yr Arbedion y mae eu hangen yn Flynyddol (Ar ôl cynyddu'r Dreth Gyngor)** | **4.189** | **2.768** | **1.472** |

Nodyn – Mae'r ffigwr ar gyfer arbedion a ddygwyd ymlaen yn ffigwyr cronnol sy'n cynnwys gofynion arbedion y flwyddyn(blynyddoedd) blaenorol.

**9.2** Dan y senario gorau, mae cyfanswm y bwlch cyllido dros y tair blynedd a chyn y codiad yn y Dreth Gyngor yn £12.2 m. Byddai cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn yn cynhyrchu £6.2m o incwm ychwanegol, gan olygu y byddai angen dod o hyd i gyfanswm o £6.0m o arbedion dros gyfnod o 3 blynedd.

**9.3** Dan y senario waethaf, mae cyfanswm y bwlch dros y tair blynedd a chyn y codiad yn y Dreth Gyngor yn £ 14.6m. Byddai cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn yn cynhyrchu £ 6.2m o incwm ychwanegol, gan olygu y byddai angen dod o hyd i gyfanswm o £ 8. 4m o arbedion dros gyfnod o 3 blynedd.

**9.4** Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau wedi'u cynnwys yn y cyllidebau disymyd na ellir eu lleihau neu sy'n anodd iawn i'w lleihau ac mae'r rhain yn cynnwys:-

Ardoll yr Awdurdod Tân - £3.52m yn 2019/20;
Costau Cyllido Cyfalaf - £6.99m yn 2019/20;
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £5.26m yn 2019/20;
Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.08m yn 2019/20;
Arian Wrth Gefn ar gyfer Argyfyngau Cyffredinol a Phenodol - £1.22m yn 2019/20.

Felly, bydd angen dod o hyd i rhwng £6.0m a £8.4m o arbedion dros 3 blynedd o gyllidebau'r gwasanaethau, cyfanswm o £117.14m (cyllideb 2019/20). Mae hyn yn cyfateb i arbedion o rhwng 5.1% a 7.2% dros 3 blynedd.

**9.5** Strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y blynyddoedd blaenorol fu lleihau cyllidebau gwasanaethau trwy ofyn i wasanaethau adolygu cyllidebau presennol a lleihau'r gyllideb net gyffredinol trwy:-

- Dileu penawdau cyllideb nas defnyddiwyd;
- Lleihau costau staffio trwy ailstrwythuro a diswyddiadau gwirfoddol;
- Codi ffioedd a thaliadau yn uwch na chyfradd chwyddiant;
- Nodi ffynonellau incwm newydd;
- Lleihau costau gweinyddu trwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth;
- Lleihau costau trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau yn well;
- Rhoi'r gorau i roi grantiau i'r sector gwirfoddol / trydydd sector;
- Lleihau'r symiau a fuddsoddir mewn cynnal a chadw asedau;
- Rhesymoli gofod Swyddfa, a thrwy hynny leihau costau llety swyddfa.

**9.6** Mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn heb orfod dibynnu ar ddefnyddio balansau cyffredinol. Cyflawnwyd hyn tra'n gwarchod cyllidebau'r Ysgolion a chynyddu cyllideb y Gwasanaethau Plant.

**9.7** Fodd bynnag, wrth i ni symud i'r tair blynedd nesaf, mae'r sgôp i gynhyrchu'r lefel ofynnol o arbedion trwy'r dulliau hyn yn unig yn llawer llai. Mae'r gwasanaethau llai h.y. ac eithrio Addysg a Gofal Cymdeithasol, wedi cynhyrchu'r holl arbedion y gallant ac i gyflawni'r lefel o arbedion sy'n ofynnol gan y gwasanaethau hyn yn unig byddai angen toriadau sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau statudol ac anstatudol.

**9.8** Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud arbedion trwy fodelau cyfawni amgen, e.e. trosglwyddo gwasanaethau i eraill, sefydlu cwmnïau masnachol neu ymddiriedolaethau hyd braich a gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat. Bellach, mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu trwy'r dull cyflawni amgen hwn e.e. Melin Llynnon, Carchar Biwmares, Toiledau Cyhoeddus, Parc Caergybi ond ni chynhyrchodd y rhain arbedion sylweddol. Ni chredir ei bod yn bosibl sicrhau arbedion sylweddol trwy ddulliau cyflawni amgen a hynny oherwydd maint gwasanaethau'r Cyngor, capasiti yn y Cyngor i gyflawni'r newid ac argaeledd a pharodrwydd sefydliadau allanol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn Ynys Môn.

**9.9** Er y bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau arbedion fel y gwnaeth o'r blaen, rhaid i'r strategaeth newid er mwyn sicrhau'r arbedion gofynnol a bydd angen:-

- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol.
- Moderneiddio ysgolion ac adolygu dyfodol ysgolion bach â llai na 120 o ddisgyblion.
- Adolygu nifer yr ysgolion uwchradd a'r modd y darperir addysg ôl-16 yn Ynys Môn.

- Rheoli'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a lleihau'r gefnogaeth a roddir i'r bobl hynny sydd mewn llai o angen.
- Darparu mwy o ofal i'r henoed yn eu cartrefi neu mewn cyfleusterau gofal ychwanegol. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoliadau mewn cartrefi preswyl a bydd yn arwain at adolygiad ynghylch a yw'r Cyngor am barhau i weithredu cartrefi gofal preswyl neu am brynu'r gwasanaeth yn gyfan gwbl o'r sector preifat.
- Cynyddu'r taliadau a godir ar ddefnyddwyr gwasanaeth am wasanaethau statudol ac anstatudol.
- Parhau i foderneiddio'r modd y caiff gwasanaethau eu gweinyddu a disgwyl i'r cyhoedd ymgymryd â mwy o drafodion gyda'r Cyngor ar-lein neu drwy AppMôn.
- Penderfynu a yw cael y Dreth Gyngor 7fed isaf yng Nghymru yn gynaliadwy. Efallai y bydd angen cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor yn uwch na'r rhagamcan o 5% er mwyn cynhyrchu digon o gyllid i gydbwyso'r gyllideb refeniw

**9.10** Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys dros y 3 blynedd nesaf trwy ddilyn y camau a nodir ym mharagraff 9.9, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ac mae nifer o risgiau a allai atal y Cyngor rhag cyflawni'r holl gamau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau.
- Disgwyliad gan y cyhoedd y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ag y mae wedi'i wneud o'r blaen.
- Bod Llywodraeth Cymru yn asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau ac yn dal i ddisgwyl gwelliannau iddynt.
- Adwaith gan y cyhoedd yn erbyn codi'r Dreth Gyngor uwchlaw cyfraddau chwyddiant, yn enwedig os yw'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn lleihau - talu mwy am lai.
- Gwrthwynebiad cryf gan gymunedau ac Aelodau i gau cyfleusterau yn eu hardaloedd. Mae'r Cyngor eisoes wedi gweld hyn yn ystod y broses i foderneiddio ysgolion ar yr Ynys.
- Y gallu i sicrhau newid o fewn y Cyngor. Wrth i strwythurau rheoli gael eu hadolygu a'u lleihau, mae nifer y staff profiadol wedi lleihau ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r staff sy'n weddill reoli'r gwasanaethau presennol tra ar yr un pryd yn gweithredu newidiadau sylweddol.

## 10 CASGLIADAU

**10.1** Mae cyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn ansicr iawn ar hyn o bryd ac mae'n anodd darogan lefelau cyllido ar gyfer y dyfodol yn gywir.

**10.2** Hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn ddigonol i bontio'r bwlch cyllido a ddangosir yn Nhabl 6. Bydd angen gwneud toriadau sylweddol o hyd i gyllidebau dros y 3 blynedd nesaf.

**10.3** Bydd yn rhaid i'r toriadau cyllidebol ddod o newidiadau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a gostyngiad yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bydd ceisio cyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gyda gostyngiadau sylweddol mewn cyllid yn arwain at orwario parhaus yn y cyllidebau, gostyngiadau pellach yn lefel y balansau cyffredinol a risg sylweddol i hyfywedd ariannol y Cyngor. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd er mwyn i'r Cyngor ddarparu cyllideb gytbwys, sy'n adlewyrchu'n gywir gostau rhedeg y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

| Gwariant Refeniw | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllidebau Datganoledig Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 20,342,440 | 20,849,461 | 21,303,123 | 21,765,858 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 3,566,080 | 3,643,818 | 3,723,104 | 3,803,975 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,575,050 | 2,639,231 | 2,696,658 | 2,755,233 |
| Pensiynau Athrawon | 4,062,090 | 4,747,383 | 4,850,681 | 4,956,045 |
| Pensiynau staff nad ydynt yn dysgu | 489,980 | 505,561 | 516,561 | 527,782 |
| Glanhau | 934,760 | 953,455 | 972,524 | 991,975 |
| Ynni | 1,317,930 | 1,371,965 | 1,428,216 | 1,485,344 |
| Trethi Annomestig | 894,460 | 922,188 | 950,776 | 977,398 |
| Gwariant arall nad yw'n staff | 4,476,070 | 4,570,067 | 4,666,039 | 4,759,360 |
| Addasiad Niferoedd Disgyblion | - | 326,859 | 375,064 | 147,614 |
| Cyllidwyd gan Gronfeydd wrth Gefn Addysg | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Datganoledig Ysgolion** | **38,658,860** | **40,529,990** | **41,482,746** | **42,170,584** |
| | | | | |
| **Costau Staff nad ydynt yn Ysgol** | | | | |
| Tâl Athrawon | 461,100 | 472,593 | 482,876 | 493,364 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 31,207,220 | 31,887,516 | 32,581,353 | 33,289,068 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,950,220 | 3,014,533 | 3,080,126 | 3,147,031 |
| Pensiynau Athrawon | 89,770 | 104,915 | 107,197 | 109,526 |
| Cyfraniadau Cronfa Pensiwn | 5,648,060 | 5,827,664 | 5,954,468 | 6,083,808 |
| Lwfansau Car | 551,530 | 551,530 | 579,107 | 579,107 |
| Cyfandaliad Diffyg Pensiwn | 1,203,350 | 1,203,350 | 1,203,350 | 1,203,350 |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 1,075,800 | 1,000,494 | 930,459 | 865,327 |
| Costau Staff Arall | 772,500 | 788,723 | 805,286 | 821,391 |
| Ardoll Prentisiaeth | 339,970 | 347,381 | 354,940 | 362,650 |
| **Cyfanswm Costau Staffio** | **44,299,520** | **45,198,698** | **46,079,162** | **46,954,621** |
| | | | | |
| **Costau Unwaith and Byth** | | | | |
| Haulfre | 95,000 | 95,000 | 95,000 | 95,000 |
| Stem (3 mlynedd 2019/20 i 2021/22) | 37,500 | 37,500 | 37,500 | - |
| Bid Twf Rhanbarthol - Costau Llog | - | 151,750 | 261,125 | 327,375 |
| Bid Twf Rhanbarthol - Costau'r Bwrdd Prosiect a'r Corff Atebol | 50,000 | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| **Cyfanswm Costau Unwaith and Byth** | **182,500** | **434,250** | **543,625** | **572,375** |
| | | | | |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 4,217,610 | 4,306,180 | 4,827,228 | 4,972,044 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,703,450 | 1,705,153 | 2,116,095 | 2,116,095 |
| Treth Tirlenwi | 18,800 | 19,007 | 19,216 | 19,370 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 3,800,530 | 3,880,341 | 3,961,828 | 4,041,065 |
| Prydau Ysgol | 2,282,030 | 2,463,071 | 2,617,423 | 2,669,772 |
| Cludiant Ysgol | 2,543,370 | 2,846,794 | 2,906,577 | 2,964,708 |
| Contractau Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus | 1,973,640 | 2,015,086 | 2,057,403 | 2,098,551 |
| Gwasanaeth Addysg ar y Cyd | 2,114,540 | 2,158,945 | 2,204,283 | 2,248,369 |
| **Cyfanswm Costau Prif Gontractau'r Cyngor** | **18,653,970** | **19,394,578** | **20,710,054** | **21,129,975** |

| **Gwariant Refeniw** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwsanaethau Eraill a Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Lleoliadau Plant | 5,379,160 | 6,030,038 | 6,458,171 | 6,716,498 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Henoed | 6,085,460 | 6,274,109 | 6,468,607 | 6,662,665 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anabledd Corfforol | 1,060,970 | 1,274,225 | 1,313,726 | 1,353,138 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Dysgu | 5,205,280 | 5,965,251 | 6,150,174 | 6,334,679 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl | 1,109,280 | 1,387,709 | 1,430,728 | 1,473,650 |
| Lleoliadau All Siriol Ysgolion | 1,267,710 | 1,319,686 | 1,373,793 | 1,428,745 |
| Digartrefedd | 391,420 | 407,468 | 424,174 | 441,141 |
| **Cyfanswm Gwsanaethau a Arweinir gan y Galw** | **20,499,280** | **22,658,487** | **23,619,373** | **24,410,516** |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| Trethi Annomestig | 978,340 | 1,008,669 | 1,039,937 | 1,069,056 |
| Ynni | 1,148,160 | 1,195,235 | 1,244,239 | 1,294,009 |
| Costau Eiddo nad ydynt yn Ysgolion | 2,856,510 | 2,916,497 | 2,977,743 | 3,037,298 |
| Costau Cludiant | 185,630 | 189,528 | 193,508 | 197,378 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 7,406,620 | 7,562,159 | 7,720,964 | 7,875,384 |
| Lwfansau Aelodau | 741,680 | 756,514 | 771,644 | 787,077 |
| Ardoll Gwasanaeth Tán | 3,522,800 | 3,593,256 | 3,665,121 | 3,738,424 |
| Ardollau Eraill | 5,130 | 5,130 | 5,130 | 5,130 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,259,540 | 5,575,112 | 5,909,619 | 6,264,196 |
| Adenill Costau - CRT | - 638,050 | - 650,811 | - 663,827 | - 677,104 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,034,380 | 1,034,380 | 1,034,380 | 1,034,380 |
| Rhyddhad Trethol Dewisol Trethi Annomestig | 60,000 | 60,000 | 60,000 | 60,000 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - DRI | 2,766,410 | 2,747,270 | 2,864,170 | 3,130,950 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - Llog | 4,223,520 | 4,197,203 | 4,398,870 | 4,657,038 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **29,550,670** | **30,190,141** | **31,221,499** | **32,473,215** |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **151,844,800** | **158,406,144** | **163,656,459** | **167,711,285** |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau / Ad-dalu Cyrff Cyhoeddus | - 5,007,830 | - 5,112,994 | - 5,220,367 | - 5,324,775 |
| Incwm Statudol | - 5,845,070 | - 5,967,816 | - 6,093,141 | - 6,215,003 |
| Incwm Anstatudol | - 5,781,710 | - 5,955,161 | - 6,133,816 | - 6,317,831 |
| **Cyfanswm Incwm** | **- 16,634,610** | **- 17,035,972** | **- 17,447,324** | **- 17,857,609** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **135,210,190** | **141,370,171** | **146,209,135** | **149,853,676** |

**ATODIAD 4**

**RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Dyfarniad Tâl Athrawon | 2.3% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 14.4% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfraddau Yswiriant Cenedlaethol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dyfarniad Tâl nad yw'n ymwneud ag Addysgu | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiwn nad yw'n ymwneud ag Addysgu | 1.0% | 0.0% | 0.0% |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | -7.0% | -7.0% | -7.0% |
| Drifft Cynyddrannol | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Chwyddiant Lwfans Car | 0.0% | 5.0% | 0.0% |
| CPI | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| RPI | 3.1% | 3.1% | 2.8% |
| Chwyddiant Ynni | 4.1% | 4.1% | 4.0% |
| Incwm Anstatudol | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Llwyth achosion Lleoli Plant | 10.0% | 5.0% | 2.0% |
| Lleoliadau Allsirol Ysgolion | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Llwyth Achosion Digartrefedd | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Gwasanaethau ar y Cyd Addysg (gan gynnwys chwyddiant) | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Tunelli Gwastraff y ceir gwared arnynt | -2.0% | -2.0% | -2.0% |
| Llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Cynnydd yn y Gyfradd Banc Sylfaenol | 0.3% | 0.3% | 0.3% |
| Ardoll Tân | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Ardollau Eraill | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Casglu Gwastraff (gan gynnwys chwyddiant) | 2.1% | 12.1% | 3.0% |
| Gwaredu Gwastraff (gan gynnwys chwyddiant) | 2.1% | 26.1% | 2.0% |
| Treth Tirlenwi | 3.1% | 3.1% | 2.8% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd (gan gynnwys chwyddiant) | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Prydau Ysgol (gan gynnwys chwyddiant) | 7.9% | 6.3% | 2.0% |
| Cludiant Ysgol (gan gynnwys chwyddiant) | 11.9% | 2.1% | 2.0% |
| Contractau Bysiau Gwasanaeth Cyhoeddus (gan gynnwys chwyddiant) | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth yr Henoed (yn ychwanegol ar chwyddiant) | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Corfforol (yn ychwanegol at chwyddiant) | 18.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Dysgu (yn ychwanegol at chwyddiant) | 12.5% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl (yn ychwanegol at chwyddiant) | 23.0% | 1.0% | 1.0% |
| MRP | 0.0% | 4.3% | 9.3% |
| Llog ar Fenthyciadau Ychwanegol | 0.0% | 4.8% | 5.9% |



# Sicrhau Adnoddau i Wasanaethau Lleol 2020-21

Mae ein cymunedau yn dibynnu ar lywodraeth leol

CLlLC • WLGA

# Sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau lleol 2020-21

Cynghorau Cymru yw **sylfeini ein cymunedau**. Maent yn darparu gwasanaethau lleol beunyddiol hanfodol, o ysgolion, i dai, i ofal cymdeithasol, i gludiant lleol. Maent yn rhoi llais democrataidd i gymunedau amrywiol Cymru. Trwy wneud hynny, mae cynghorau a'r gwasanaethau'n:

- **Diogelu a chefnogi'r** rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb** o fewn ac ar draws cymunedau Cymru
- Hyrwyddo **Cymru decach** trwy dwf cynhwysol

Cynghorau yw sylfaen economaidd Cymru, mae'n:

- cyflogi **dros 10% o weithlu Cymru** ac yn addysgu a hyfforddi gweithlu'r dyfodol
- gwario **£3.5bn ar nwyddau a gwasanaethau** mewn economïau cenedlaethol a lleol
- hybu **twf economaidd ac adfywio rhanbarthol uchelgeisiol** ar draws bob cwr o Gymru.

Mae gwasanaethau lleol yn creu cyfleoedd i bob dinesydd sy'n helpu i **gynnal a chryfhau ein cymunedau**.

# Sut mae cynghorau'n gwneud hyn?

**£4.2bn**
cymorth refeniw gan Lywodraeth Cymru


**£1.4bn**
o Dreth y Cyngor gan drigolion

**£1.5bn**
o wariant ar isadeiledd (cyfalaf)

**149,000**
Staff llawn amser a rhan amser (yn cynnwys 26k o athrawon)

# Beth sydd ei angen ar wasanaethau lleol yn y tair blynedd nesaf

**Pwysau cronnus**





I ddim ond sefyll yn yr unfan o ran darparu gwasanaethau presennol, byddai angen cynnydd mewn refeniw o £254m (5% o wariant net) yn 2020-21 ar gynghorau a symiau tebyg wedi hynny.

Mae costau tâl a phensiynau'r gweithlu nad oes modd eu hosgoi yn creu pwysau cynyddol a sylweddol o ran chwyddiant.

# Degawd o galedi


Gwasanaethau lleol sydd wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o galedi; mae cyllid grant craidd wedi gostwng 20% ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant erbyn 2019-20. Mae arian craidd wedi gostwng o 35%, os nad ydych yn cynnwys cyllid ysgolion, fel sy'n wir yn achos llywodraeth leol Lloegr.




Er bod ysgolion a gofal cymdeithasol wedi'u diogelu i raddau, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i ddal i fyny â'r galw.


Mae gwasanaethau lleol eraill, y gwasanaethau hynny sy'n fwyaf gweladwy ac a werthfawrogir gan ein cymunedau wedi'u heffeithio'n sylweddol. Mewn degawd o doriadau collwyd asedau, cyfleusterau a gwasanaethau sydd wedi bod yn rhan greiddiol o gymunedau am genedlaethau; y risg yw unwaith y collir asedau a gwasanaethau o'r fath, mae'n annhebygol y ceir hwy'n ôl byth.

Mae ein gwasanaethau'n wasanaethau ataliol, maent yn cael effaith ar ddiogelwch y gymuned ac iechyd a lles. Ein gwasanaethau yw'r **gwasanaeth iechyd lleol** sy'n gallu atal baich costus ar y Gwasanaethau Iechyd Cenedlaethol.



## Strwythur cyllidebau ar gyfer gwasanaethau lleol

Mae Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn gyfrifol am bron i 75% o gyfanswm gwariant refeniw net ar wasanaethau lleol.




Mae 13% pellach o'r gyllideb yn sefydlog: mae y tu allan i reolaeth y cyngor fel ad-dalu dyledion, cymorth i dalwyr treth y cyngor neu ardollau ar gyfer cyrff eraill fel tân.

Yn y gorffennol, gwnaed toriadau i weddill y gyllideb sy'n 12% o'r gyllideb gyffredinol. Mae'n anodd gweld sut y gellir ei leihau hyd yn oed mwy.

Yn ôl rhagamcaniadau presennol bydd angen i lywodraeth leol amsugno bron i £0.75bn o bwysau ariannol yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd naill ai gwariant dewisol yn gostwng i 5% o gyllidebau neu bydd awdurdodau lleol yn dechrau gwneud toriadau mewn gwasanaethau sydd wedi bod yn cael eu diogelu'n draddodiadol.

Heb fwy o adnoddau bydd angen i ysgolion ostwng lefelau staff dysgu ac eraill yn sylweddol. Bydd angen i drothwy gofal cymdeithasol godi. Bydd gwariant hanfodol ar brif wasanaethau fel datblygu economaidd, gwastraff a diwylliant yn cael ei gwtogi hyd yn oed ymhellach.



# Beth sydd ei angen ar wasanaethau o Gyllideb 2020-21

Felly mae angen cyllid cynaliadwy, teg a hyblyg ar wasanaethau lleol - mae angen mwy o ymreolaeth ariannol a hyblygrwydd ar gynghorau i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol:

### Setliad Refeniw

- ✓ **Ariannu costau'r gweithlu'n llawn a diogelu gweithlu llywodraeth leol**
- ✓ **Buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cost uchel angen uchel i adlewyrchu anghenion cymhleth**
- ✓ Dim mwy o doriadau a chyllid llywodraeth leol wedi'i sefydlogi'n unol â Chyllideb Llywodraeth Cymru
- ✓ Polisi rhent cynaliadwy ar gyfer tai cymdeithasol

### Fframwaith ariannu gwell

- ✓ **Ariannu cyfrifoldebau newydd yn llawn**
- ✓ Setliadau cyllideb aml flwyddyn
- ✓ Mwy o atebolrwydd am gyllidebau iechyd
- ✓ Mwy o hyblygrwydd o ran cynlluniau grant a ddylai yn y pen draw gael eu trosglwyddo i'r setliad
- ✓ Dull cynaliadwy o ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol

### Trethu Lleol

- ✓ Dim capio Treth y Cyngor
- ✓ Diwygio trefn trethu leol i'w gwneud yn decach
- ✓ Pwerau i gyflwyno trethi dewisol.

### Buddsoddiad Cyfalaf, Isadeiledd a Thwf

- ✓ Mwy o gyllid i ddod â buddsoddiadau'n ôl i lefelau cyn-2009-10
- ✓ Gostyngiad yn y gyfradd cadw ar gyfer Ysgolion 21ain Ganrif
- ✓ Mynediad at is gymhorthdal cyfalaf i alluogi cynnydd sylweddol yng nghyflenwad tai fforddiadwy a chymdeithasol yn gyflym ac ar raddfa fawr

## Tymor Hir a Chenedlaethau'r Dyfodol

Yn y tymor hir, gan gysylltu â phroses gyllidebol gyffredinol Llywodraeth Cymru, mae angen adolygiad sylfaenol o flaenoriaethau Cymru a sut y caiff gwasanaethau eu hariannu, gyda'r nod yn y pen draw o wella canlyniadau. Rhaid i ni flaenoriaethu a buddsoddi yn y gwasanaethau hynny sy'n atal canlyniadau negyddol yn y dyfodol ac sy'n cyfrannu fwyaf at dwf economaidd cynaliadwy.

Mae hyn yn ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai ein blaenoriaethau ar gyfer ein cymunedau gyd-fynd â nodau'r Ddeddf honno. Wrth sicrhau hynny mae'n bwysig neilltuo amser ar y cychwyn i ganfod y dull a'r ffordd ymlaen fwyaf cynaliadwy. Mae hynny'n golygu ymwneud yn gynnar â budd-ddeiliaid a chydweithio â phartneriaid priodol. Mae hefyd yn golygu datblygu dulliau integredig gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau 'oes gyfan' gorau a gwrthsefyll unrhyw dueddiadau negyddol. Dylai'r fframwaith ariannu gefnogi hyn.

# Ein gwasanaethau lleol hanfodol

## *Diogelwch Cymdeithasol, Llesiant ac Atal*





### Gwasanaethau Plant
### (£656m, 8.9% o gyfanswm gwariant)

Mae toriadau ariannol, ynghyd â'r galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol plant, wedi creu amgylchedd arbennig o heriol i gynghorau drwy'r wlad wrth iddynt geisio ymyrryd â theuluoedd yn gynt ac atal problemau rhag mynd yn waeth, recriwtio a chadw mwy o weithwyr cymdeithasol a sicrhau dewis digonol o leoliadau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, sy'n aml yn rhai cymhleth. O siroedd gwledig mawr o gynghorau dinas, dywedir yn gyson fod y galw am wasanaethau plant yn golygu bod cyllidebau awdurdodau lleol dan bwysau enfawr.

Yn ôl Dadansoddiad Ariannol Cymru *Torri i'r Asgwrn; Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru,* mae gwariant ar ofal cymdeithasol plant wedi cynyddu £96 miliwn (33%) mewn termau real ers 2009-10, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y galw. Ers Mawrth 2009, mae cyfanswm nifer y plant mewn gofal drwy Gymru wedi codi o 4,695 i 6,405 yn 2018, cynnydd o 1,710 (36%) mewn naw mlynedd. Mae'r niferoedd uchel hyn wedi bod ac yn dal i fod yn bryder ac mae awdurdodau lleol, yn gweithio gyda Llywodraeth Leol, i leihau nifer y plant yn eu gofal ac atal mwy o blant rhag bod yn rhan o'r system 'derbyn gofal'.

Tra bydd lleihau nifer y plant mewn gofal yn lleihau rhai costau i awdurdodau lleol dros amser, ar hyn o bryd mae angen buddsoddi mewn darparu gwasanaethau priodol ac ataliol i sicrhau'r amcanion hyn, er enghraifft, mwy o fynediad at gymorth therapiwtig a modelau gofal wedi'u llywio gan drawma.



## Gofal Cymdeithasol Oedolion
## (£1.3bn, 17% o gyfanswm gwariant)

Gofal Cymdeithasol Oedolion yw un o’n gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol. Mae'n cefnogi oedolion o bob oed ar draws sbectrwm eang o anghenion i fyw’n mor annibynnol â phosibl a diogelu pobl rhag niwed mewn sefyllfaoedd bregus. Derbyniodd bron i 77,000 o bobl wasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol yn ystod 2017-18, gan ddarparu dros 130,000 o wasanaethau. Mae’r galw am wasanaethau’n dal i gynyddu - erbyn 2035, bydd nifer y bobl dros 65 oed wedi cynyddu o draean a bydd nifer y rhai dros 85 oed wedi dyblu. Bydd yn rhaid i wariant gynyddu 4% bob blwyddyn ar ben chwyddiant cyffredinol i gwrdd â’r pwysau yma.

Mae iechyd y boblogaeth yn dibynnu ar lawer mwy na dim ond ansawdd gwasanaethau gofal iechyd. Mae prif ffactorau allweddol iechyd yn bennaf y tu allan i reolaeth gwasanaethau iechyd ac felly mae ansawdd gofal cymdeithasol, a’r gwariant arno, a gwasanaethau ataliol eraill, yn cael un o’r effeithiau cryfaf ar y galw am ofal iechyd.

Mae gofal cymdeithasol oedolion yn cyffwrdd bywydau miliynau, boed yn bobl sy’n gweithio yn y sector, y rhai sy’n derbyn gwasanaethau, neu eu gofalwyr anffurfiol, ffrindiau a theulu. Mae ei weithlu cyflogedig yn fwy nag un y GIG. Mae'n gyswllt hanfodol i wasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill. A hefyd mae'n cyfrannu tua £2.2 biliwn at ein heconomi cenedlaethol gan greu 127,000 o swyddi.



## Cymorth i Ofalwyr

Mae cynghorau’n darparu cymorth hanfodol i oedolion a gofalwyr ifanc di-dâl gan eu helpu i reoli eu rôl gofalu. Mae mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, gyda’r cynnydd yn y boblogaeth hŷn, rydym yn debygol o weld mwy o bob hŷn yn y rôl hon, ac yn ôl yn rhagolygon bydd nifer y gofalwyr dros 85 oed yn dyblu yn yr 20 mlynedd nesaf. Mae cynghorau’n darparu cymorth hanfodol i bobl, yn hen ac ifanc i’w helpu i aros yn eu rôl gofalu.

Mae gallu cynghorau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a chymorth sy’n allweddol i ofalwyr yn cael ei danseilio gan y toriadau parhaus i gyllidebau cynghorau. Tra bod llywodraeth leol wedi cadw canlyniadau gwaethaf caledi draw, yn y blynyddoedd diwethaf mae ei effaith yn dal i fyny â chynghorau, gan fygwth gwasanaethau sy’n gwella bywydau pobl a’u cymunedau, gan gynnwys gwasanaethau sy’n hanfodol i

gynorthwyo gofalwyr. Os na chaiff gofalwyr y gefnogaeth briodol, gall arwain at ynysu cymdeithasol cynyddol gan ychwanegu pwysau ar sefyllfa ariannol y gofalwyr a'u hiechyd a'u lles.
Mae achos clir dros yr angen i fuddsoddi yn y gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar sydd o fudd i ofalwyr ac yn helpu i atal gofalwyr di-dâl rhag cael eu gwthio i sefyllfa lle mae'n anodd iddynt barhau.



## Tai Fforddiadwy a Mynd i'r Afael â Digartrefedd (£148m, 2.0 % o gyfanswm gwariant)

Am y tro cyntaf, mae Cynghorau'n dechrau adeiladu nifer sylweddol o gartrefi newydd. Mae Cynghorau hefyd yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod eu stoc tai presennol yn bodloni neu'n rhagori ar Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020. Gyda'i gilydd, bydd Cynghorau'n gwario mwy na £435m ar brosiectau cyfalaf tai yn ystod y flwyddyn.



Roedd 9,000 o gartrefi dan fygythiad o fod yn ddigartref y llynedd, ac mae'r niferoedd yn cynyddu. Mae gan Gynghorau rolau pwysig i atal a lleihau digartrefedd a chysgu ar y stryd. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol i sicrhau hyn a darparu cyngor ynghylch dyledion; mae mynd i'r afael ag achosion o drais yn y cartref; cymorth gyda budd-daliadau; a chymorth i reoli ôl-ddyledion rhent oll yn cyfrannu at y nod hwn.

## Cyngor a Chymorth Lles (£22m, 0.3 % o gyfanswm gwariant)



Mae timau budd-daliadau drwy Gymru'n gweinyddu taliadau i tua 206,000 o hawlwyr Budd-dal Tai a 277,989 o dderbynwyr Cymorth Treth y Cyngor bob blwyddyn, ynghyd â rheoli effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol sydd bellach yn cael ei hawlio gan dros 100,000 yng Nghymru (2 filiwn yn genedlaethol).

Cadarnheir bod cyfraddau casglu treth y cyngor Awdurdodau Lleol ar gyfer 2018/19 yn 97.3% o'r biliau am dreth y cyngor, gostyngiad o 0.1 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol er ei fod yn well canlyniad na Lloegr a'r Alban (y ddau yn 97%).

Mae helpu i ddelio â dyledion a chanlyniadau dyled yn agwedd bwysig o waith Cynghorau. Yn ôl ffigyrau diweddaraf y Gwasanaeth Cynghori


Ariannol (y Gwasanaeth Arian a Phensiynau bellach) mae cyfartaledd gorddyled i bob awdurdod lleol wedi codi o 15.4 i 15.5% yng Nghymru ond nid yw'r adroddiad manwl ar gael eto i weld y manylion ar lefel ALl.



## Llyfrgelloedd, Chwaraeon a Hamdden (£191m, 2.6% o gyfanswm gwariant)

Mae Cynghorau'n chwarae rôl hanfodol i hyrwyddo bywydau iach ar draws cymunedau a darparu mynediad i bawb at wasanaethau sy'n gallu gwella eu hiechyd a'u lles. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a pharciau, yn ogystal â threfnu neu hybu gweithgareddau diwylliannol. Y gwasanaethau hyn yw gwaed cymunedau ac maent wedi'u hanelu at sicrhau bod y rhai â'r lleiaf o fynediad ac sydd dan yr anfantais ariannol leiaf yn gallu defnyddio'r gwasanaethau. Mae budd diwylliannol a chymdeithasol y gwasanaethau hyn hefyd yn annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau ac yn aml iawn maent yn atyniadau twristaidd yn eu hawliau eu hunain, a thrwy hynny'n helpu i dyfu economïau lleol cynhwysol. Bu gostyngiad o 45% yn y gwariant ar ddiwylliant a hamdden rhwng 2009-10 and 2018-19 a gostyngiad o 38% yn y gwariant ar lyfrgelloedd. Mae gwasanaethau lleol pwysig yn cael eu herydu.

***Rheoleiddio ac Amgylcheddol***




## Gwarchod y Cyhoedd, Iechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu, Safonau Masnach (£56m, 0.8% o gyfanswm gwariant)

Mae'r gwasanaethau hyn yn diogelu hanfodion bywyd, ac mae'r cyhoedd yn dibynnu ar y cyngor i'w darparu: diogelwch bwyd, ansawdd aer, glanweithdra, mannau gwaith diogel, cartrefi diogel, gan sicrhau bod yr hyn a brynwn yn ddiogel a bod y pris yn gywir. Mae adrannau'r llywodraeth bellach yn llygadu rhannau o'r gwasanaethau lleol hyn, gan ragweld y byddant yn methu, gyda'r bwriad o'u cymryd yn ôl dan reolaeth ganolog. Mae'r rhwyd diogelwch cymdeithasol y mae llywodraeth leol wastad wedi'i darparu'n cael ei chymryd oddi arnom i ffwrdd, ac rydym yn gwylio hyn yn digwydd.

Mae'r gwasanaethau hyn dan fygythiad sylweddol, oherwydd pwysau costau gyda chyllidebau wedi'u torri bron i 55% i lefelau ariannu a welwyd ddiwethaf ar ganol y 1990au. Mae cyfanswm cyllideb

Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd fel arfer yn llai na hanner un y cant o gyllideb llywodraeth leol. Byddai gostyngiadau pellach yn arwain at ganlyniadau difrifol.

I Wasanaethau Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd bu lleihad sylweddol yn y gweithlu, sy'n destun pryder, swyddogion yw'r rhain â sgiliau a gwybodaeth arbenigol nad yw ar gael yn unman arall mewn llywodraeth leol. Bydd gofynion cymhwysedd statudol yn cael eu torri gan arwain at heriau cyfreithiol ac adolygiadau. Mae gan y ddau weithlu ddemograffeg sy'n heneiddio ac ychydig iawn o swyddogion newydd sy'n cael eu penodi. Mae cymwysterau, hyfforddiant a recriwtio'n bwynt allweddol ar gyfer cynaliadwyedd.

Mae angen buddsoddi ar frys yn y gwasanaethau hyn, i gadw'r ffocws lleol ar ddiogelwch ein cymunedau, ac osgoi bwriad llywodraeth ganol i'w cymryd dan eu rheolaeth.

Os bydd y duedd hon yn parhau am y pum mlynedd nesaf bydd gwasanaethau gwarchod y cyhoedd yn cael eu torri, a chollir yr arbenigedd i ddiogelu llywodraeth leol. O ystyried y posibilrwydd o newid sylweddol o ran rheoleiddio ar ôl Brecsit a'r galw mawr gan BBChau am gyngor a chymorth rheoleiddio, mae risg difrifol y bydd Cymru mewn sefyllfa wael iawn i ymateb i'r heriau niferus ac amrywiol, yr ymdrinnir â nhw fel mater o drefn gan adrannau gwarchod y cyhoedd.

## Cynllunio a Rheoli Datblygu
## (£29m, 0.4% o gyfanswm gwariant)

Mae pob un o'r 25 awdurdod cynllunio yng Nghymru (22 o awdurdodau lleol a 3 awdurdod parc cenedlaethol) yn gosod y fframwaith ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn eu hardal trwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Maent yn cydweithio ar lefel ranbarthol i gydlynu materion cynllunio defnydd tir strategol a chefnogi datblygiad rhanbarthol cynaliadwy drwy ardaloedd yr awdurdodau.

Mae'r gwasanaeth Cynllunio'n chwarae rôl hanfodol i hybu a rheoli datblygiad adeiladu, diogelu a gwarchod yr amgylchedd, cefnogi busnesau a datblygiad economaidd, diogelu treftadaeth bensaernïol a hybu safonau uchel o ran dylunio adeiladau a rheoli'r amgylchedd. Felly, yn ei hanfod mae'n siapio'r lleoedd a'r amgylchedd lle mae cymunedau a busnesau'n gweithredu. Mae sicrhau twf cynhwysol a




chynaliadwy'n dibynnu'n fawr iawn ar allu'r system gynllunio i ganfod a hwyluso perthnasoedd gofodol yn seiliedig ar gysylltedd da, rhyngweithio effeithlon a lleihau siwrneiau diangen gymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae toriadau dilynol ers 2009-10 wedi golygu bod cyllidebau Cynllunio bron wedi cael eu haneru, gan leihau capasiti awdurdodau i gyflawni eu hamcanion.

## Rheoli Gwastraff ac Effeithlonrwydd Ynni (£248m, 3.4% o gyfanswm gwariant)

Casglodd awdurdodau lleol 1.55m tunnell o wastraff trefol o aelwydydd drwy Gymru yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2017-18 (gostyngiad o 1.59m tunnell yn 2016-17).

Am y tro cyntaf, bu gostyngiad bach yng nghanran y deunydd hwn a baratowyd ar gyfer ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. BU gostyngiad bach yn y gyfradd rhwng 2016-17 a 2017-18 (o 63.8 i 62.7%). Roedd y gostyngiad hwn rhannol oherwydd gwelliant yn ansawdd y drefn adrodd ond mae hefyd yn adlewyrchu'r gostyngiad graddol yn y grant a roddir i awdurdodau lleol. Roedd y lefel ailgylchu'n rhagori ar y targed o 58% a osodwyd ar gyfer 2017/18 ac mae Cymru'n dal yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd am ailgylchu gwastraff aelwydydd. Fodd bynnag, cododd y targed i 64% ar gyfer 2019/20 a bydd yn codi ymhellach i 70% yn 2024-25 felly mae angen cynnydd parhaus.



Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau lleol gyda grantiau i ddatblygu gwasanaethau ailgylchu a helpu i gaffael cyfleusterau trin. Er hynny, bu'n rhaid gwneud cynnydd diweddar yn wyneb gostyngiad yn lefel y grant hwnnw. Ar sail gymaradwy, mae grant wedi gostwng o 40% mewn termau real o'r swm uchaf. I gynnal y cynnydd, mae CLlLC wedi pwyso ar LlC i ailystyried gostyngiadau pellach arfaethedig, i adlewyrchu cynnydd mewn costau llafur a thanwydd. Hefyd, mae angen gweithio i annog - a lle y bo angen gorfodi - newidiadau mewn ymddygiad aelwydydd i sicrhau bod y cyfleusterau ailgylchu sy'n cael eu darparu gan gynghorau'n cael eu defnyddio'n llawn. Hefyd mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau ailbrosesu newydd er mwyn cael defnydd domestig parod ar gyfer deunyddiau a'u troi'n gynnyrch newydd fel rhan o 'economi adnoddau cylchol'.



Mae Cynghorau'n parhau i gynnig cyngor a chyfeirio aelwydydd at wahanol ffynonellau cymorth i helpu i wella effeithlonrwydd ynni. Maent hefyd wedi cymryd camau i wella eu heffeithlonrwydd ynni eu hunain trwy newid i oleuadau stryd LED a chynhyrchu mwy o'r ynni a ddefnyddir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy.

## *Twf Cynhwysol a Thwf Economaidd*

### Addysg
### (£2.7bn, 37% o gyfanswm gwariant)



Mae buddsoddi mewn ysgolion ac addysg yn rhan hanfodol o helpu unigolion i gyflawni eu potensial a'u galluogi i gyfrannu'n ystyrlon at gymunedau cynaliadwy a ffyniannus. Mae system addysg dda'n ganolog i sicrhau cyfle cyfartal a goresgyn gwahaniaethau mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol. Mae grymuso pobl, drwy ysgolion effeithiol a datblygu sgiliau, yn ffordd effeithiol o greu cyfleoedd gwaith a lleihau tlodi.

Mae llywodraeth leol wedi ymrwymo i godi safonau addysg a gwella canlyniadau i ddysgwyr oherwydd y manteision unigol ac ar y cyd yma. Mae Cynghorau'n gwario £2.6 biliwn y flwyddyn ar addysgu plant a phobl ifanc, gyda gwasanaethau addysgol yn cynnwys blynyddoedd cynnar yn ogystal ag addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned.



Mae rhan o'r gwariant hwnnw'n cynnwys arian cyfatebol cyfalaf awdurdodau lleol ar gyfer rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n werth biliynau i adnewyddu ac ailadeiladu ysgolion drwy Gymru. Lansiwyd yr ail gam yn ddiweddar gyda chyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion prif ffrwd yn cynyddu o 50% yn ystod cam Band A i 65% ar gyfer Band B, a groesawyd gan lywodraeth leol.



Mae newid mawr mewn addysg yng Nghymru ac un rhan ganolog o'r newidiadau hyn yw gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer rhai rhwng 3 ac 16 oed sy'n rhoi llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wrth galon y system addysg. Hefyd mae newidiadau i ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant athrawon, mwy o ffocws ar arweinyddiaeth a phwyslais ar ysgolion fel sefydliadau cynhwysol o fewn system hunan-wella. Mae llywodraeth leol yn cefnogi a hyrwyddo'r holl newidiadau hyn, yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ond rhaid eu hariannu'n ddigonol. Mae hyn yn golygu ariannu'n llawn y pwysau cynyddol o ran




tâl y gweithlu ar gyfer y flwyddyn sy'n dod - £36m ar gyfer dyfarniad tâl athrawon yn 2019-20 – yn ogystal â chostau pensiwn ychwanegol athrawon gan gyflogwyr.  Hefyd mae pwysau eraill o ran costau yn gysylltiedig â darparu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus a'r gost bosibl na ellir ei rhagweld i ddiwygio ADY. Croesewir y newidiadau hyn ond mae gwasanaethau uchel eu cost yn golygu beichiau ariannol sylweddol i gynghorau. Hefyd mae'n bosibl y bydd yr ymgynghoriad sydd ar y gweill ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn rhoi pwysau ychwanegol ar wariant cynghorau.

Mae pryder hefyd am y grantiau penodol a'r ffrydiau ariannu cymhleth a ddefnyddir i sicrhau'r cynlluniau polisi. Er mwyn sicrhau'r newidiadau hyn y mae dirfawr eu hangen, rhaid i ni leihau'r cymhlethdod a'r dryswch sy'n tanseilio hyblygrwydd lleol a goruchwylio democrataidd. Yn Adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc diweddar, *Ariannu ysgolion yng Nghymru* tynnir sylw at yr angen i symleiddio'r broses o sicrhau mwy o eglurder yn y ffordd y caiff ysgolion eu hariannu.

## Twf Economaidd Cynhwysol
## (£20m, 0.3% o gyfanswm gwariant)

Mae awdurdodau lleol drwy Gymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol i hybu twf economaidd mewn ffyrdd y bydd yr holl gymunedau'n elwa arnynt. Er bod diweithdra swyddogol yng Nghymru yn 4.5% (Mai 2019), mae cynhyrchiant isel, cyflogau isel ac ansicrwydd swyddi'n dal yn broblemau mawr. Mae Bargeinion Dinesig wedi'u sicrhau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhanbarth Dinas Caerdydd ac ar gyfer Bae Abertawe, tra bod Gogledd Cymru a Thyfu Canolbarth Cymru'n dal i fynd ar drywydd Bargeinion Twf. Pwrpas y bargeinion yw gwella cynhyrchiant, codi lefel sgiliau a chysylltu cymunedau â chyfleoedd newydd.




Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda'r sector preifat nid yn unig o ran y gefnogaeth uniongyrchol a roddir i fusnesau ond hefyd mewn perthynas â nifer o faterion eraill fel cynlluniau datblygu rhanbarthol, cludiant, gwastraff, safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, addysg a datblygu sgiliau, gwasanaethau gofal a'r galw am dai. Yn ogystal â bod yn brif gyflogwyr, sy'n cyflogi tua 10% o gyfanswm gweithlu Cymru, mae cynghorau hefyd yn gwario tua £3.5 biliwn ar fusnesau lleol a chenedlaethol drwy gaffael.

## Priffyrdd, Cludiant ac Isadeiledd (£270m, 3.7% o gyfanswm gwariant)



Mae isadeiledd priffyrdd yn hollbwysig i bob gwasanaeth arall ac i fusnesau lleol a gweithgarwch cymunedol weithredu'n effeithlon. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn datblygu Cynlluniau Rheoli Asedau i hwyluso dull mwy strategol o ofalu am yr ased hanfodol hwn (e.e. rhaglenni ail-wynebu priffyrdd i ddelio â thyllau yn y ffyrdd; rhaglenni cynnal ar gyfer strwythurau). Er mwyn i Gynlluniau Rheoli Asedau weithredu'n effeithiol, rhaid i lefel y cyllid fod yn ddigonol i alluogi i gynghorau gyflawni'r amcanion a nodir. Mae arian refeniw wedi gostwng 26%.



Mae cyfran gynyddol o gyllid priffyrdd awdurdodau lleol wedi bod yn cefnogi datblygiad llwybrau teithio ar raddfa lai ar gyfer cerdded a beicio. Mae gwasanaethau bysiau'n cael eu hannog i fod yn rhan o ddulliau mwy integredig, yn cynnwys datblygiadau 'metro' fel rhan o fargeinion dinesig/rhanbarthol. Mae cynghorau'n gorfod ystyried sut sefyllfa trafnidiaeth yn y dyfodol. Bydd atebion i gwestiynau am rôl cerbydau a bysiau awtonomaidd, trydan, hydrogen a hybrid, clybiau ceir a theithio egnïol yn y dyfodol yn helpu i benderfynu lefel y buddsoddiad fydd ei angen o ran isadeiledd ar gyfer y dyfodol. Bydd yr angen i ddatgarboneiddio trafnidiaeth er mwyn cyrraedd targedau yn y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a Deddf yr Amgylchedd yn ystyriaeth sylfaenol yma. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi addo nid yn unig i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer gostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2050 ond hefyd i fynd ymhellach a sicrhau 'sero-net'.



Mae cysylltedd yn cynnwys mwy na'r rhwydwaith priffyrdd. Yn gynyddol, mae cysylltedd digidol a band eang (cyflymder uchel) yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer cartrefi, twristiaid a busnesau. Mae awdurdodau lleol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaeth i helpu i gyflwyno band eang tra chyflym. Mae sicrhau mynediad digidol gwell i wasanaethau'r cynghorau hefyd yn fwyfwy pwysig, fel ffordd o wella'r ddarpariaeth gwasanaeth a hygyrchedd a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

CLlLC • WLGA

Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG

www.wlga.cymru

@WelshLGA

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn ffigyrau dros dro tan fod y gwaith o archwilio Datganiad Cyfrifon 2018/19 wedi ei gwblhau a bod y cyfrifon wedi eu harwyddo; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadrodd arnynt fel bo'n briodol;
- Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2018/19 yn yr adroddiad yma ;
- Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2018/19 a'i basio i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn gydag unrhyw sylwadau.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Chynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2018/19 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 23 Gorffennaf 2019. Bydd yr adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith bydd y Pwyllgor hwn yn ei dderbyn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

d/b

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |

| DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio i :<br>• Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn aros yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad ar Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau yn yr adroddiad sy'n deillio o'r archwiliad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol;<br>• Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2018/19 yn yr adroddiad;<br>• Derbyn yr adroddiad Adolygiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2018/19, a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

**Atodiad A – Adolygiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys am 2018/19**

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19
- Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys 2018/19
- Adroddiad Adolygu Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn 2018/19
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2018/19

## 1. Cyflwyniad

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar weithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2018/19. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2018/19, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2018);
- adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 27 Chwefror 2019);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu'r polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am yr alldro mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd, sef bod y Pwyllgor Archwilio yn craffu'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau y cafodd arian ond ei fenthyca at ddibenion cyfalaf ac na chafodd y cyfyngiad benthyca statudol (yr uchafswm a awdurdodwyd) ei dorri.

Yn fwy na hynny, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19:-

- Ffactorau allanol – yn cynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad y raddfa log yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd parhaus o ran Brexit;
- Ffactorau mewnol – yn cynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, effaith ar y cronfeydd wrth gefn a'r balansau arian parod, agwedd risg tuag at fuddsoddiadau, y benthyciadau a gymerodd y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR);
- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn 2018/19 – yn cynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithrediad y polisi MRP newydd a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheolaeth o Reoli Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Pwyllog a sut byddant yn cael eu mesur;
- Cymharu Dangosyddion Pwyllog – cymhariaeth o'r gwir Ddangosyddion Pwyllog o gymharu â'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen i 2019/20 a thu hwnt; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog –** Roedd Graddfa Banc yn 0.50% ar ddechrau'r flwyddyn, fodd bynnag, cododd y raddfa i 0.75% yn Awst 2018. Golygodd hyn fod cyfradd log y sefydliadau gwrth-barti ar y cyfrif galw arferol yn amrywio o 0.10% i 0.65%.

**2.2 Yr Economi** – Yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn twf economaidd isel o 0.2% yn chwarter un o 2018, cynyddodd y twf economaidd i 0.4% yn chwarter 2 ac i lefel arbennig o gryf o 0.7% yn chwarter 3, cyn arafu i 0.2% yn ystod chwarter 4. O ystyried yr holl ansicrwydd mewn perthynas â Brexit, roedd y twf economaidd gwan hwn yn ystod y chwarter olaf i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, disgwylir peth adferiad yn y twf economaidd yn y dyfodol. Daeth y twf economaidd blynyddol yn chwarter 4 i 1.4% flwyddyn ar flwyddyn gan gadarnhau mai'r DU oedd â'r twf economaidd uchaf yn y G7 yn ystod chwarter 4.

Ar ôl i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) godi Graddfa Banc o 0.5% i 0.75% yn Awst 2018, nid yw'n syndod nad ydynt wedi cynyddu'r raddfa ers hynny. Mae'n debyg na welwn unrhyw gamau pellach gan yr MPC tan y bydd yr ansicrwydd o ran Brexit yn dod yn gliriach. Petai'r DU yn gadael Ewrop mewn modd anhrefnus, mae'n debyg y byddai'r Graddfa Banc yn cael ei thorri er mwyn cefnogi twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r MPC wedi bod â phryderon cynyddol am y duedd o ran chwyddiant cyflogau, a oedd ar ei uchaf yn dilyn yr argyfwng ariannol - 3.5% (ac eithrio bonwsau) yn y tri mis hyd at fis Rhagfyr cyn disgyn ryw fymryn i 3.4% yn y tri mis hyd at Ionawr. Bu cyflogwyr Prydain gyflogi gweithwyr ar y raddfa gyflymaf mewn mwy na tair blynedd yn y tri mis hyd at Ionawr wrth i farchnad lafur y wlad ddyffeio gwendidau ehangach yr economi gyffredinol wrth i Brexit agosáu. Cynyddodd nifer y bobl mewn gwaith gan 222,000, gyda hynny'n helpu i ostwng diweithdra i 3.9%, y lefel isaf ers 1975. Yn ogystal, mae cyfanswm nifer y swyddi gwag wedi cynyddu i lefelau uchel newydd.

O ran chwyddiant CPI ei hun, mae wedi bod yn gostwng ers cyrraedd ei lefel uchaf, sef 3.1% ym mis Tachwedd 2017, gan gyrraedd ei lefel isaf ym mis Ionawr 2019 cyn codi rhyw fymryn i 1.9% ym mis Chwefror. Fodd bynnag, yn Adroddiad Chwyddiant Banc Lloegr ym mis Chwefror 2019, parhaodd y rhagolygon chwyddiant ar gyfer y ddwy a'r tair blynedd nesaf ychydig yn uwch na tharged yr MPC o 2%.

Mae'r cynnydd o ran chwyddiant cyflogau a'r gostyngiad mewn chwyddiant CPI yn newyddion da i gwsmeriaid gan fod eu pŵer gwario yn gwella yn y senario hon gan fod y gwahaniaeth yn y ddau ffigwr bellach tua 1.5%, h.y. cynnydd mewn termau real. O ystyried bod economi'r DU yn cael ei gyrru gan y sector gwasanaethau i raddau helaeth, mae'r cynnydd ym mhŵer gwario cartrefi yn debygol o fwydo drwodd gan gefnogi twf economaidd yn gyffredinol yn ystod y misoedd nesaf.

**2.3** **Brexit –** Methodd llywodraeth leiafrifol y Ceidwadwyr â chael mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin er mwyn cefnogi cytundeb Brexit. Cytunodd yr UE i ymestyn y dyddiad y byddai'r DU yn gadael yr UE i 31 Hydref 2019 er mwyn i'r DU allu dod i gytundeb â'r UE ar ba delerau y gallai'r DU adael yr UE. Os na fydd modd dod i gytundeb, mae posibilrwydd cryf y bydd y DU yn gadael heb gytundeb, er ni ellir diystyru'r posibilrwydd o estyniad pellach, etholiad cyffredinol neu ail refferendwm. Beth bynnag fydd y canlyniad, bydd ansicrwydd mawr yn parhau mewn perthynas â'r economi a sut byddai'r Llywodraeth yn delio â Brexit Heb Gytundeb a gallai hyn o bosib olygu llacio'r polisi ariannol a, felly, gallai giltiau â dyddiadau tymor canol / tymor hirach godi o ganlyniad i'r disgwyliad y byddai'r bunt yn wan a phryderon am chwyddiant yn codi.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1** **Gwariant a chyllido cyfalaf 2018/19** - Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei gyllido.

| | 2018/19 Amcangyfrif (£m) | 2018/19 Gwir (£m) |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf y Cronfa Gyffredinol | 47 | 22 |
| Gwariant cyfalaf CRT | 16 | 9 |
| **Cyfanswm gwariant cyfalaf** | **63** | **31** |
| Y Cronfa Gyffredinol a gyllidir yn ystod y flwyddyn drwy Grantiau a Chyfraniadau | 32 | 16 |
| CRT wedi'i gyllido yn ystod y flwyddyn drwy Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 3 |
| Y Cronfa Gyffredinol a gyllidir gan adnoddau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn | 3 | 1 |
| Yr CRT a gyllidir gan adnoddau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn | 13 | 6 |
| **Gwariant cyfalaf y Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd drwy fenthyca** | **12** | **5** |
| **Gwariant cyfalaf yr CRT a gyllidwyd drwy fenthyca** | **0** | **0** |

Y prif reswm am y tanwariant oedd y tanwariant sylweddol yn erbyn saith prosiect. Mae'r manylion wedi eu dangos yn y tabl isod:-

| | Cyllideb £'m | Gwir £'m | Amrywiad £'m | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1.370 | 0.211 | (1.159) | Contract wedi ei ail dendro a bydd bellach yn digwydd yn 2019/20 |
| Gwelliannau ar y Lôn i Wylfa Newydd | 12.000 | 0.000 | (12.000) | Prosiect wedi'i ohirio |
| Ysgolion newydd Ardal Llangefni | 5.233 | 0.421 | (4.812) | Proses ymgynghori wedi ail ddechrau |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr | 1.858 | 0.053 | (1.805) | Caniatâd cynllunio wedi cymryd hirach na'r disgwyl |
| Porth Twristiaeth | 1.398 | 0.092 | (1.306) | Oedi wrth dderbyn cadarnhad o'r grant terfynol |
| Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol | 1.000 | 0.000 | (1.000) | Oedi wrth adnabod safle priodol |
| Datblygu eiddo CRT newydd | 7.964 | 1.525 | (6.439) | Oedi wrth ddechrau prosiectau adeiladu newydd |

3.2 **Cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod** – mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf ac arian llif arian. Mae adnoddau arian parod craidd y Cyngor yn cynnwys y canlynol:-

| Cronfeydd wrth gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio | Drafft 31-Maw-19 £m | Terfynol 31-Maw-18 £m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn cyffredinol y Cyngor | 5.912 | 6.899 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 8.728 | 7.601 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 8.387 | 7.380 |
| Cronfeydd wrth gefn Ysgolion | 0.631 | 1.869 |
| Cronfa wrth gefn Cyfalaf | 1.186 | 0.320 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **24.844** | **24.069** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.234** | **5.326** |
| | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn a'r Darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **30.078** | **29.395** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2018/19 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu sefyllfa arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gael er mwyn bodloni'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. O ganlyniad i falansau arian parod isel yn ystod y flwyddyn, fe benderfynwyd allanoli benthyca ac fe gymerodd y Cyngor ddau fenthyciad tymor hir gyda'r PWLB. Ar 16 Ionawr 2019, benthycodd y Cyngor £15m gyda chyfradd log o 2.49% sydd i'w dalu'n ôl ymhen 50 mlynedd. Ar 25 Mawrth 2019, benthycodd y Cyngor £10m ar gyfradd log o 2.24% sydd i'w dalu'n ôl ymhen 46 mlynedd.

**3.3.1 Benthyca gros a'r CFR –** Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog yn ystod y tymor canolig ac at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, heblaw am yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofyniadau cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth benthyca mewnol bellach wedi ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £132.5m ar 31 Mawrth 2019 yn llai na'r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | Gwirioneddol 2018/19 (£m) | Amcangyfrif 2019/20 (£m) | Amcangyfrif 2020/21 (£m) |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 138.7 | 145.1 | 158.5 |

**3.3.2 Benthyca Mewnol** – yw pan, dros y tymor canolig, y disgwylir i'r graddfeydd buddsoddi barhau i fod yn is na'r graddfeydd benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dynodi y gellid cael gwell gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn gwneud y gorau o gynilion tymor hir. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y CFR a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gellir ei weld yn y tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn roedd y sefyllfa o ran benthyciadau mewnol yn £19.9m. Drwy gymryd y ddau fenthyciad PWLB newydd fel y nodwyd ym mharagraff 3.3. o'r adroddiad hwn, cafodd y sefyllfa fenthyca fewnol ar 31 Mawrth 2019 ei lleihau i £6.2m fel y gellir ei weld yn y tabl isod.

| | 31 Mawrth 2018 Gwir (£m) | 31 Mawrth 2019 Gwir (£m) |
|---|---|---|
| Sefyllfa benthyca gros | 117.0 | 132.5 |
| CFR | 136.9 | 138.7 |
| Tan gyllido'r CFR | 19.9 | 6.2 |

**3.4 Benthyca Arall-** Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor hefyd drefnu dau fenthyciad tymor byr. Roedd y benthyciad tymor byr cyntaf am £5m a chafodd ei gymryd ar 16 Hydref 2018 am 3 mis gyda Chyngor Sir Gogledd Swydd Efrog gyda chyfradd log o 0.85%. Roedd yr ail fenthyciad tymor byr hefyd ar gyfer £5m a chafodd hwn ei gymryd ar 14 Rhagfyr 2018 am fis gyda chronfa Bensiwn Tyne & Wear gyda chyfradd log o 0.80%. Cafodd y benthyciadau hyn eu cymryd er mwyn ymdopi ag anawsterau tymor byr gyda llif arian parod.

**3.5 Ad-dalu Dyledion** – Aeddfedodd benthyciad PWLB ar 16 Ionawr 2019, benthyciad a oedd am £5m. Cafodd y benthyciad ei gymryd yn wreiddiol yn 2009 gyda chyfradd log o 3.72%. Aeddfedodd tri benthyciad tymor byr yn ystod y flwyddyn hefyd. Roedd y cyntaf o'r rhain yn fenthyciad am £5m gan gronfa Bensiwn Tyne & Wear gyda chyfradd llog o 0.50%, a aeddfedodd ar 19 Ebrill 2018. Cafodd y benthyciad hwn ei gymryd ar 19 Ionawr 2018. Y ddau fenthyciad tymor byr arall oedd ad-daliadau ar y ddau fenthyciad newydd a restrwyd ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad hwn. Cafodd y benthyciad am £5m gan Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog ei ad-dalu ar 16 Ionawr 2019 a chafodd y benthyciad o £5m gan gronfa Bensiwn Tyne & Wear hefyd ei ad-dalu ar 16 Ionawr 2019.

**3.6 Buddsoddiadau** – Y strategaeth fuddsoddiadau ddisgwyliedig oedd i gadw adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er y cafodd y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hirach ei gadw. Roedd disgwyl i'r balansau arian parod fod hyd at £22m, yn amrywio rhwng £4m a £22m. Cafodd y gyllideb log ei gosod ar £0.016m ar ôl addasu ar gyfer y cyfraddau uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y digwyddodd pethau, dychwelodd cyfartaledd balansau o £11.7m, £0.054m ar gyfartaledd cyfradd llog o 0.47%. Y rheswm pam fod y dychweliadau ar fuddsoddiadau yn uwch na'r gyllideb, fel y nodwyd ym mharagraff 2.1, oedd y cynnydd yng nghyfradd log y banc o 0.50% i 0.75% ym mis Awst 2018, gan arwain at ddychweliadau uwch na'r disgwyl ar fuddsoddiadau. Cafodd holl adneuon y Cyngor eu cadw mewn cyfrifon cadw dim rhybudd sy'n talu cyfradd log yn agos i'r raddfa sylfaenol, £14.333m ar 0.53% ar 31 Mawrth 2019 (31 Mawrth 2018, £5.993m ar 0.39%). Roedd yr holl fuddsoddiadau yn rhai a gymerwyd am lai na blwyddyn.

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2019** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor wedi'i threfnu gan Wasanaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau ac er mwyn rheoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy adroddiadau i Aelodau a nodir yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19. Ni chafodd y cyfyngiadau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol eu torri yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor fel ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2017/18 a 2018/19 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2018 | | | 31 MARCH 2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Cyfradd Cyfartaledd (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd (bl)** | **£'000** | **Cyfradd Cyfartaledd (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd (bl)** |
| Dyled | 117.0 | 5.15 | 23.36 | 132.5 | 5.70 | 30.29 |
| CFR | 136.9 | | | 138.7 | | |
| Gor / (tan) wario | (19.8) | | | (6.2) | | |
| Buddsoddiadau tymor penodol (pob un < 1 flwyddyn, eu rheoli yn fewnol a chyfradd sefydlog)<br>Buddsoddiadau dim rhybudd (i gyd yn cael ei rheoli yn fewnol) | 5,993 | 0.39 | | 14,333 | 0.53 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **5,993** | **0.39** | | **14,333** | **0.53** | |

Mae benthyca yn cael ei dorri lawr ymhellach yn ôl aeddfedrwydd fel:-

| | 31 MAWRTH 2018 | | 31 MAWRTH 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm |
| Cyfanswm benthyca | 117.0 | 100 | 132.5 | 100 |
| Llai na 12 mis | 10.1 | 8.63 | 5.2 | 3.9 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 5.1 | 4.36 | 4.6 | 3.5 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 7.0 | 5.98 | 4.6 | 3.5 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 5.8 | 4.96 | 4.2 | 3.1 |
| 10 mlynedd a mwy | 89.0 | 76.07 | 113.9 | 86.0 |

Y rheswm am y cynnydd mewn benthyciadau o 10 mlynedd a mwy o 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019 yw'r ddau fenthyciad gan y PWLB a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn 2018/19

**4.1 Ail drefnu dyledion** – Ni wnaed unrhyw ail drefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y cyfartaledd gwahaniaethol 1% rhwng cyfraddau benthyca newydd PWLB a chyfraddau ad-dalu dyledion yn gynamserol yn golygu fod ail-drefnu yn anymarferol.

**4.2 Benthyca cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, wnaeth y Cyngor ddim benthyca mwy na'r angen, na chyn bod angen, a hynny er mwyn elwa o'r buddsoddiad ar y symiau ychwanegol a gafodd eu benthyg.

**4.3 Polisi Buddsoddi** – caiff polisi buddsoddi'r Cyngor ei lywodraethu gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i weithredu yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2018. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull y dylid ei ddefnyddio wrth ddewis gwrth-bartïon buddsoddi ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddarparwyd gan y dair brif asiantaeth cyfraddau credyd ynghyd â data ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon cyfraddau, amnewid rhagosodiadau credyd ('credit default sweeps'), prisiau cyfranddaliadau banciau ac ati). Cydymffurfiodd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi'r arian sydd ganddo dros ben, yr agwedd bwysicaf o'r buddsoddiad yw diogelwch, wedyn hylifedd ac yna enillion. Ystyr hyn yn ei hanfod yw mai'r brif flaenoriaeth yw diogelwch yr arian, wedi'i ddilyn gan ba mor hawdd yw hi i gael gafael ar yr arian petai'r Cyngor ei angen, wedi'i ddilyn gan ganran y gyfradd log y bydd y Cyngor yn ei dderbyn ar y buddsoddiad. Y strategaeth o ran buddsoddi arian dros ben fyddai i fenthyca yn y tymor byr gan Awdurdodau Lleol eraill er mwyn cael yr enillion gorau mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Strategaeth fenthyca** – a rheoli risg cyfradd log – yn ystod 2018/19, roedd y Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa o dan fenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gyda dyledion benthyciadau oherwydd cafodd arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor ei ddefnyddio fel mesur interim. Roedd y strategaeth hon yn ddoeth gan fod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel ac roedd hefyd angen ystyried y risg o fuddsoddi gyda gwrthbartïon. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn, yn ystod 2018/19 fe wnaeth y Cyngor gymryd dau fenthyciad tymor hir gyda'r PWLB, roedd hyn er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor falansau arian parod digonol drwy allanoli dyledion a manteisio ar y cyfraddau llog isel a oedd ar gael ar gyfer benthyca tymor hir gyda'r PWLB. Rhan arall o'r strategaeth yw i fenthyca yn y tymor byr gan awdurdodau lleol eraill er mwyn datrys anawsterau llif arian tymor byr, ac, fel y nodwyd ym mharagraff 3.4 yr adroddiad hwn, gwnaed hyn ddwywaith yn ystod 2018/19 drwy fenthyca gan ddau wahanol Awdurdod Lleol ar ddau wahanol amser.

**4.5 Polisi MRP** – Yn ystod y flwyddyn, gweithredodd y Cyngor ei bolisi MRP newydd yn dilyn gofyn am gyngor gan ei ymgynghorwyr Trysorlys ac yn dilyn ymgynghoriad ag Archwilio Allanol. Mae'r polisi newydd yn cynnwys ymagwedd fwy doeth tuag at codi Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20 a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

## 5. Rheolaeth Rheoli Trysorlys

Mae'r dangosyddion pwyllog canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 o'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Gwir Ddangosyddion a'r Dangosyddion Pwyllog a ragwelir ar gyfer 2018/19.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma ragolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2018/19 a 2021/22, ac mae'n seiliedig ar Raglen Gyfalaf 2018/19 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllid o Gyfalaf) –** Dangosydd pwyllog arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (CFR). Yn syml, y CFR yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill sydd heb gael ei dalu amdano eto un ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n fesur o angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, sydd heb ei dalu'n syth drwy adnodd refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r CFR. Nid yw'r CFR yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn gost refeniw statudol flynyddol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb ariannol – Dyledion Gros a'r CFR –** Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, heblaw am yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y CFR yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw CFR ychwanegol ar gyfer 2018/19 a'r ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hyn yn galluogi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar yn y dyfodol ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

- **Dyledion allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol –** Mae dangosydd pwyllog allweddol arall yn cynrychioli mesur rheoli o ran uchafswm lefel y benthyca. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellid ei defnyddio yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli un ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi ei weithredu hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd pwyllog hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol -** Dyma'r terfyn na ddisgwylir yn arferol i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r CFR, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar y lefelau o wir ddyledion a'r gallu i gyllido tan fenthyca drwy adnoddau arian parod eraill. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganid Strategaeth Rheoli Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Cymhareb costau cyllido â'r llif refeniw net –** Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yn y gost gyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm ar fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net. Mae'r amcangyfrifon o'r costau cyllido yn cynnwys yr ymrwymiadau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad cyllideb hwn.

## 6. Dangosyddion Pwyllog Gwirioneddol v y rhai ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2018/19, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion pwyllog a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol yn nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer gwir ddangosyddion pwyllog a thrysorlys | 2017/18 Gwirioneddol £000 | 2018/19 Gwreiddiol £000 | 2018/19 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 20,064 | 38,810 | 21,649 |
| • CRT | 9,291 | 13,820 | 9,028 |
| • Cyfanswm | 29,355 | 52,630 | 30,678 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf: | | | |
| • Dim-CRT | 95,218 | 108,120 | 97,845 |
| • CRT | 41,648 | 40,820 | 40,815 |
| • Cyfanswm | 136,866 | 148,940 | 138,660 |
| Benthyca Gros | 117,029 | 131,130 | 132.549 |
| Dyledion allanol | 117,029 | 131,130 | 132.549 |
| Buddsoddiadau | | | |
| • Hirach na blwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai na blwyddyn | 5,993 | 15,000 | 14,333 |
| • Cyfanswm | 5.993 | 15,000 | 14,333 |
| **Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig** | **169.0m** | **177.0m** | **132.4m** |
| Terfyn Gweithredol | 164.0m | 172.0m | 132.4m |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Dygwyd Ymlaen | 6.10% | 5.12 % | 4.92 % |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net - CRT | 22.36% | 20.15 % | 16.86 % |
| Amcangyfrif o effaith gynyddraddol penderfyniadau cyfalaf ar renti tai | 3.42 | 48.74 | 31.76 |

**6.2** Y dangosydd pwyllog cyntaf yn y tabl uchod yw Gwariant Cyfalaf. Roedd y Gwariant Cyfalaf rhagdybiedig ar adeg cyhyrchu'r dangosyddion pwyllog ar gyfer 2018/19 yn £52.630m. Fodd bynnag, roedd y gwir wariant yn sylweddol is ar £30.678m. Eglurir y rheswm am y gwariant is ym mharagraff 3.1 yr adroddiad hwn ac mae i'w briodoli'n bennaf i'r tanwariant sylweddol ar saith prosiect cyfalaf.

**6.3** Yr ail ddangosydd pwyllog yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i CFR y Cyngor godi ar am gyfnod amhenodol. Mae rheoliadau statudol yn eu lle er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras i refeniw dros oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor wneud taliad refeniw blynyddol y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf, (MRP), er mwyn lleihau'r CFR. Yr hyn ydyw mewn gwirionedd yw ad-daliad o'r angen benthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn bodloni ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR. Gellir hefyd lleihau cyfanswm y CFR drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf heb eu gweithredu); neu
- codi mwy na'r gost refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Roedd y CFR a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r dangosyddion pwyllog ar gyfer 2018/19 yn £148.940m. Fodd bynnag, roedd y CFR gwirioneddol yn sylweddol is ar £138.660m. Un o'r rhesymau am y CFR is oedd y tanwariant yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan leihau'r Benthyca Digefnogaeth a oedd ei angen yn 2018/19. Rheswm arall oedd bod grantiau ychwanegol wedi eu rhoi yn ystod y flwyddyn er mwyn ariannu ffynonellau cyllido eraill megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth a felly, bod y ffigwr CFR yn lleihau. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd y ffynhonnell cyllido hon a gymorthdelir yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2019/20 a bydd yn cynyddu'r CFR.

**6.4** Ni chafodd y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig (£177m) a'r Terfyn Gweithredol (£172m) eu torri yn ystod y flwyddyn, gyda uchafswm y ddyled allanol yn £132.4m yn unig ar ei uchaf.

**6.5** Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (4.92%) yn agos iawn i'r cyfanswm a ragwelir (5.12%) gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio yn ôl y disgwyl ac yn is na chyfanswm y llynedd (6.10%). Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y CRT (16.86%) yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (20.15%) o ganlyniad i'r tanwariant wrth Gaffael Eiddo Presennol a Datblygiad Eiddo newydd, gan olygu nad oedd angen unrhyw fenthyca yn ystod y flwyddyn gan, felly, leihau'r costau CRT. Bu'r tanwariant ar y CRT hefyd leihau nifer y cyfraniadau Refeniw a oedd eu hangen er mwyn cyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2018/19 o £9.7m i £6.3m a dyma'r rheswm pam fod yr Amcangyfrifon o effeithiau cynyddraddol ar benderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar renti tai yn ddim ond £31.76 o gymharu â'r £48.74 a ragwelwyd.

## 7. Edrych ymlaen i 2019/20 a thu hwnt

**7.1** Ar 27 Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20. Roedd y Datganiad Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf ac fe ragamcenir bydd angen i'r Cyngor fenthyg £7.3m ychwanegol yn 2019/20 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £17.0m yn 2020/21 a chyfanswm pellach o £20.2m yn 2021/22 er mwyn cyllido ei Raglen Cyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol yma yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol gyda chodiad yn y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) er mwyn cyllido'r costau cyllid cyfalaf. Yn 2019/20, rhagwelir y bydd yr MRP yn £3.4m, yna yn £3.7m yn 2020/21 ac yn £3.9m yn 2021/22.

**7.2** Ar 4 Ebrill 2019, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chyngor Central Bedfordshire ar gyfradd log o 0.75%. Roedd yn fuddsoddiad am 3 mis a wnaeth aeddfedu ar 5 Gorffennaf 2019.

**7.3** Ar 20 Mai 2019, cafodd benthyciad o £5m gan y PWLB ei ad-dalu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Cafodd y benthyciad ei gymryd ar 25 Mai 2010 gyda chyfradd log o 3.52%.

**7.4** Gellir gweld y rhagolygon cyfraddau llog diweddaraf gan Link Assets Services yn y tabl isod:-

Comparison of forecasts for Bank Rate today v. previous forecast

| | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.7.19 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.50 |
| 7.5.19 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.50 | 1.75 |
| change | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | 0.00 | -0.25 | 0.00 | 0.00 | -0.25 |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth buddsoddiadau risg isel, dychweliadau isel ac ymagwedd wedi'i chynllunio tuag at fenthyca gyda'r nod o sicrhau costau cyfraddau llog isel.

Mae perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Pwyllog a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu hymgymryd â nhw mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn achosi unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor o ran benthyca gormodol neu anfforddiadwy.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau economaidd allanol a bydd yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau mai dyma'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **5 GORFFENNAF 2019**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **16 Medi 2019** |
| **Pwnc:** | **Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Wyn Williams**<br>**Aelod Portffolio Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethiant corfforaethol da, mae angen i'r Cyngor fod â datganiad clir o'i bolisi cyffredinol mewn perthynas â rheoli risgiau wrth iddo gyflawni ei amcanion a darparu ei wasanaethau. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny.

Fel sefydliad mawr ac amrywiol, bydd yr archwaeth ar gyfer risg yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgareddau yr ymgymerir â nhw a bydd gwahanol archwaeth a goddefgarwch o ran risg yn bodoli ar draws y sefydliad. Cydnabyddir bod raid i'r Cyngor dderbyn rhywfaint o risg fel y gall gyflawni ei amcanion. Felly, mae'r polisi yn un o sicrhau diwylliant ble cymerir risgiau yn seiliedig ar wybodaeth. Mae archwaeth risg sefydliad o gymorth iddo benderfynu beth sy'n risg sylweddol; yn risg uchel ac yn risg isel. Beth benderfynu ar ei archwaeth o ran risg, gall y Cyngor flaenoriaethu'n fwy effeithiol y risgiau y mae angen eu lliniaru a gwneud gwell defnydd o adnoddau.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi seilio'r Datganiad Polisi ar arferion da cydnabyddedig ac arweiniad a gafwyd yn ystod y Gwiriad Iechyd ar Reoli Risg a gynhaliwyd gan y gangen honno o'n cwmni yswiriant, Zurich Municipal, sy'n delio â materion risg.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen hon a hynny ar ôl ystyried sylwadau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y ddogfen gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 13 Mai 2019 ac ni wnaed unrhyw newidiadau. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Trafodwyd yn ddogfen gan y Pwyllgor Archwilio a LLywodraethiant yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg ac argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo. |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Gwiriad Iechyd Rheoli Risg, Tachwedd 2018 (cyflwynwyd crynodeb i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 12/02/19<br>Pecyn Cymorth Rheoli Risg ALARM, hydref 2017 https://www.alarmrisk.com/guidance-documents | | |



# Datganiad Polisi Rheoli Risg

# Mai 2019

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# DATGANIAD POLISI RHEOLI RISG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sefydliad amrywiol sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n gynaliadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian i'n cymuned.

Mae risg yn rhan annatod o'r broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn ac mewn byd ble mae sefydliadau'n prosesu data ar raddfa anferthol ac yn fwyfwy cyflym, mae nodi risgiau a'u lliniaru yn her i unrhyw sefydliad. O'r herwydd, mae angen tystiolaeth solet fod arferion rheoli risg da yn eu lle ar gyfer llawer o gontractau a chytundebau yswiriant.

Mae'r datganiad polisi rheoli risg hwn a'r dogfennau ategol yn ffurfio rhan o fframwaith integredig sy'n cefnogi'r Cyngor i reoli risg yn effeithiol. Wrth weithredu ein fframwaith, rydym yn ceisio rhoi sicrwydd i'n cydranddeiliad oll fod nodi a rheoli risg â rôl allweddol yn y modd yr ydym yn cyflawni gweledigaeth y Cyngor ac amcanion strategol eraill.

Rydym yn diffinio[1] risg a rheoli risg fel:

*Risg: Effaith ansicrwydd ar amcanion*

*Rheoli Risg: Gweithgareddau wedi eu cydlynu i roi cyfeiriad , a rheoli sefydliad o ran risg*

Rydym yn cydnabod fod risgiau ynghlwm â'n holl weithgareddau. Mae dyletswydd arnom i reoli'r risgiau hyn mewn modd cytbwys, strwythuredig a chost-effeithiol. O'r herwydd, mae'r broses ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risg yn rhan hanfodol bwysig o'n prosesau rheoli. O ganlyniad, byddwn mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd, cyflawni ein hamcanion a sicrhau gwerth am arian.

Gall methiant i nodi, asesu a rheoli risgiau arwain at wariant sylweddol nad oes cyllideb ar ei gyfer a chreu niwed i enw da'r Cyngor.

## Archwaeth Risg

Fel sefydliad mawr ac amrywiol, bydd yr archwaeth o ran cymryd risg yn amrywio yn ôl y gweithgareddau dan sylw a bydd yr archwaeth a'r goddefgarwch o ran risg yn wahanol drwy'r sefydliad. Rydym yn cydnabod fod rhaid i'r Cyngor dderbyn rhyw elfen o risg er mwyn i ni fedru cyflawni'n hamcanion. Felly, ein polisi ni yw sicrhau diwylliant o gymryd risg sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae ein harchwaeth o ran cymryd risg yn ein helpu ni i benderfynu beth sy'n risg berthnasol; beth sy'n risg uchel a beth sy'n risg isel ( Mae'r Matrics Asesu Rheoli Risg yn cyfeirio at hyn). Wrth benderfynu ar yr archwaeth risg, gall y Cyngor flaenoriaethu risg yn fwy effeithiol er mwyn cymryd camau lliniaru a neilltuo adnoddau'n well.

[1] Fel y'u diffinnir yn ISO 31000:2018

## Amcanion

Amcanion gweithgareddau rheoli risg y Cyngor yw:

- Datblygu ymagwedd gyson ar draws y Cyngor tuag at reoli risg.
- Sefydlu rheoli risg yn gadarn fel rhan hanfodol bwysig o'r broses reoli yn y Cyngor a sicrhau cysylltiadau clir gyda'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth.
- Sicrhau diwylliant ymwybyddiaeth risg rhagweithiol ar draws holl rannau'r Cyngor lle mae rheolwyr yn cymryd, a ddim yn cymryd, risgiau gwybodus mewn perthynas â phenderfyniadau a gweithredoedd pwysig.
- Cynnal a gwella hyder y cwsmer yn ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau.
- Lleihau'r posibilrwydd o weithgareddau neu gostau ariannol nad ydynt wedi eu cynllunio ac effaith digwyddiadau annisgwyl o'r fath ar enw da'r Cyngor a'n gallu i gyflawni ein hamcanion.
- Rheoli risg yn unol ag arfer orau ac ymrwymiadau statudol.
- Gweithio gyda'n partneriaid a'n darparwyr i ddatblygu ymagwedd gyffredin tuag at gyflawni'r amcanion rheoli risg hyn.

## Egwyddorion

Mae'r egwyddorion allweddol isod yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ein hamcanion rheoli risg:

- Mae rheoli risg yn broses barhaus yn hytrach na digwyddiad. Mae'r broses rheoli risg yn sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu nodi, eu gwerthuso, eu monitro'n barhaus a'u lliniaru i lefel dderbyniol ble mae angen hynny.
- Mae risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u hadrodd arnynt mewn modd amserol, cywir a pherthnasol ac mewn modd sy'n rhoi sylw digonol i'r risgiau allweddol er mwyn cefnogi rheolwyr i wneud penderfyniadau.
- Mae'r broses ar gyfer rheoli risg yn rhan hanfodol o reoli a chyflawni unrhyw weithgaredd, prosiect neu broses yn llwyddiannus.
- Mae rheoli risg yn holl-gynhwysol ond nid mewn modd beichus neu'n fiwrocrataidd ac nid yw ychwaith mewn modd sy'n ychwanegu'n afresymol at gostau rhedeg y Cyngor.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Dyma'r rolau a'r cyfrifoldebau allweddol:

### Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli risg yn effeithiol ar draws y Cyngor a hynny gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r swyddogion hynny sydd â'r cyfrifoldeb statudol am wasanaethau penodol.

Mae’r Prif Weithredwr a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gywir a bod y Cyngor yn rheoli ei risgiau’n dda.

## Penaethiaid

Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu’r fframwaith rheoli risg ac am sicrhau bod risgiau gwasanaeth o fewn eu maes cyfrifoldeb nhw’n cael eu rheoli’n dda. Gyda’i gilydd, mae’r Penaethiaid yn gyfrifol am gefnogi’r Prif Weithredwr a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i reoli risgiau corfforaethol.

## Aelodau Etholedig

Maent yn gyfrifol am sicrhau llywodraethiant da o ran y gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar gyfer y gymuned ac am sicrhau fod gan swyddogion y Cyngor drefniadau rheoli risg effeithiol yn eu lle.

## Pwyllgor Gwaith

Yn gyfrifol am gymeradwyo Polisi Rheoli Risg yr Awdurdod, yr archwaeth risg ac am oruchwylio’r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Mae’n gyfrifol am adolygu priodoldeb prosesau rheoli risg a sicrwydd.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Craffu’r holl risgiau mawr tyngedfennol.

## Pob Gweithiwr

Mae dyletswydd ar bob gweithiwr i reoli risg.

## Gweithdrefnau Rheoli Risg

Mae Canllawiau Rheoli Risg y Cyngor yn darparu canllawiau pellach er mwyn cefnogi’r datganiad polisi hwn.

# MATRICS ASESU RHEOLI RISG

**TEBYGOLRWYDD**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. | >70% | Bron yn Sicr | A | | | | | |
| Y digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| Bydd y digwyddiad o bosib yn digwydd ar ryw adeg. | 10-30% | Posib | C | | | | | |
| Y digwyddiad yn annhebygol a gallai ddigwydd ryw dro | 1-10% | Annhebygol | D | | | | | |
| Digwyddiad prin fydd ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol. | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | Di-nod | Bychan | Cymedrol | Sylweddol | Trychinebus |

| | 5 Di-nod | 4 Bychan | 3 Cymedrol | 2 Sylweddol | 1 Trychinebus |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Dim effaith ar ansawdd y gwasanaeth, amhariad bychan ar wasanaethau | Mân effaith ar ansawdd y gwasanaeth, mân safonau gwasanaeth heb eu bodloni, amhariad tymor byr ar weithrediadau. | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, amharu'n ddifrifol ar safonau gwasanaeth, amhariad tymor hir ar weithrediadau eraill | Amhariad tymor hir ar un gwasanaeth tyngedfennol | Amhariad tymor hir ar nifer o wasanaethau tyngedfennol |
| Enw Da | Pryder cyhoeddus wedi'i gyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw anffafriol lleol / cyhoeddus / yn y cyfryngau a chwynion. | Sylw drwg iawn yn y cyfryngau lleol neu ychydig o sylw drwg yn y wasg ranbarthol neu genedlaethol. | Beirniadaeth ddifrifol negyddol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir-barhaus |
| Cost Ariannol (£) | < £50k | £50k - £250k | £250k - £750k | £750k - £3m | > £3m |
| Iechyd a Diogelwch | Digwyddiad ond y dim neu fân anaf nad oedd angen triniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf a oedd angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Un person wedi marw | Nifer o bobl wedi marw |
| Diogelu | Amherthnasol | Un achos o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio gyda gweithdrefnau | Un digwyddiad yn ymwneud â diogelu | Digwyddiadau niferus a chysylltiedig yn ymwneud â diogelu |
| Rheoleiddio | Dim angen adrodd i'r rheoleiddiwr | Digwyddiad y mae angen adrodd arno i'r rheoleiddiwr ond dim angen camau dilyn i fyny | Adrodd ar dor-amod i'r rheoleiddiwr sydd angen ei gywiro ar unwaith | Erlyniad gan reoleiddiwr yn arwain at ddirwyon ac ymyrraeth ac sydd angen prosiect mawr i gywiro'r sefyllfa | Erlyniad sylweddol gan reoleiddwyr yn arwain at ddirwyon sylweddol ac ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Prosiectau | <5% o gynnydd o ran amser neu gost y prosiect; mân effaith ar amcanion neu sgôp y prosiect | 5% - 20% o gynnydd o ran amser neu gost y prosiect; effaith ar amcanion neu sgôp y prosiect angen cymeradwyaeth y SRO | 20% - 50% o gynnydd o ran amser neu gost y prosiect; mae'r effaith ar amcanion neu sgôp y prosiect yn annerbyniol i'r SRO | >50% o gynnydd o ran amser neu gost y prosiect; prosiect yn methu â chyflawni'r amcanion neu'r sgôp | Amherthnasol |

**EFFAITH**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Cynllun Tai Cyngor newydd ar safle hen Ysgol Llaingoch**

**New Council Housing Scheme on the site of the old Llaingoch School**

**Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)
**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)
**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:- **Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act 1992 **Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978** / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 **Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986** / the Building Societies Act 1986; **neu** / or **Deddf Elusennau 1993** / the Charities Act 1993
**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mi fyddai'r cyhoedd a'r datblygwr yn gweld faint mae'r Cyngor yn fodlon talu am dai cyngor newydd cyn bod cytundeb pris wedi ei gytuno'n derfynol.** | **Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am faterion ariannol gyda busnes penodol i adeiladu tai cyngor newydd. Wrth ddatgelu gwerth ariannol contract posibl rhwng y Cyngor a chwmni adeiladu lleol i adeiladu nifer penodol o dai, mai'n bosibl y byddai'n gallu i negydu contractau gyda contractwyr eraill yn y dyfodol yn anoddach.**<br><br>**Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.** |
| **This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, the public and developers would see how much the Council is willing to pay for new Council houses before the price has been finally agreed.** | **This report contains details regarding financial matters with a specific business for building new council houses. By disclosing the financial value of the possible contract between the Council and the local building company for building a specific number of houses, it is possible that the ability to negotiate contracts with other contractors would be more difficult in future.**<br><br>**Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work.** |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank